# Rhaglen Gyflawn

GwE

Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

Cyfarfod

**CYD-BWYLLGOR GWE**

Dyddiad ac Amser

**1.30 y.h., DYDD MERCHER, 15FED GORFFENNAF, 2020**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol - Zoom**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 9/7/20

# CYD-BWYLLGOR GWE

## Aelodau a phleidlais

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Julie Fallon | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cynghorydd Meirion Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cynghorydd Ian Roberts | Cyngor Sir y Fflint |
| Cynghorydd Phil Wynn | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cynghorydd Cemlyn Rees Williams | Cyngor Gwynedd |

## Aelodau cyfetholedig heb Bleidlais

| | |
|---|---|
| Rosalind Williams | Eglwys yng Nghymru |
| Haf Williams | Cynrychiolydd Ysgolion Cynradd |
| Claire Armitsted | Secondary School Representative |
| Jonathan Morgan | Cynrychiolydd Ysgolion Arbennig |
| Alison Fisher | Cynrychiolydd Llywodraethwr |

## Swyddogion Heb Bleidlais

| | |
|---|---|
| Rhys Howard Hughes | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Dr Lowri Brown | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Karen Evans | Cyngor Sir Ddinbych |
| Claire Homard | Cyngor Sir y Fflint |
| Ian Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Garem Jackson | Cyngor Gwynedd |

## Swyddogion yn bresennol

| | |
|---|---|
| Arwyn Thomas | Rheolwr Gyfarwyddwr GwE |
| Dafydd L. Edwards | Awdurdod Lletyol |
| Sion Huws | Awdurdod Lletyol |
| Susan Owen Jones | Rheolwr Busnes GwE |
| Annwen Morgan | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Alwyn Jones | Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE |
| Gareth Williams | Cadeirydd Bwrdd Ymgynghorol GwE |

## Sylwedydd

# R H A G L E N

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL - 20 MAI 2020** 5 - 8

(copi ynghlwm)

**5. CYFRIFON TERFYNOL Y CYD-BWYLLGOR AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2020** 9 - 46

Ystyried adroddiad y Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd (ynghlwm)

**6. DATGANIAD LLYWODRAETHU AR GYFER CYD-BWYLLGOR GWE** 47 - 64

Ystyried adroddiad Rheolwr Gyfarwyddwr GwE (ynghlwm)

**7. ADRODDIAD BLYNYDDOL GWE 2019/20** 65 - 116

Ystyried adroddiad Rheolwr Gyfarwyddwr GwE (ynghlwm)

**8. RHAGLEN WAITH GWE** 117 - 127

Ystyried adroddiad Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE (ynghlwm)

**9. DYSGU CYFUNOL** 128 - 153

Ystyried adroddiad Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE (ynghlwm)

**10. MODEL AIL-GYCHWYN DYSGU GOGLEDD CYMRU** 154 - 163

Ystyried adroddiad Rheolwr Gyfarwyddwr GwE a Chadeirydd Bwrdd Rheoli GwE (ynghlwm)

# CYD-BWYLLGOR GWE DYDD MERCHER, 20 MAI 2020

**Yn bresennol:**

**Y Cynghorwyr:** Phil Wynn (Cadeirydd - Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam), Meirion Jones (Cyngor Sir Ynys Môn), Julie Fallon (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy), Ian Roberts (Cyngor Sir y Fflint) a Cemlyn Williams (Cyngor Gwynedd).

**Aelodau cyfetholedig heb Bleidlais:** Haf Williams (Cynrychiolydd Ysgolion Cynradd), Claire Armitstead (Cynrychiolydd Ysgolion Uwchradd) a Jonathan Morgan (Cynrychiolydd Ysgolion Arbennig)

**Swyddogion heb bleidlais:** Rhys Howard Hughes (Cyngor Sir Ynys Môn), Karen Evans (Cyngor Sir Ddinbych), Ian Roberts (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Vicky Barlow (Cyngor Sir y Fflint) a Garem Jackson (Cyngor Gwynedd).

**Swyddogion yn bresennol:** Arwyn Thomas (Rheolwr Gyfarwyddwr GwE), Sion Huws (ar ran Swyddog Monitro Cyngor Gwynedd, yr Awdurdod Lletyol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd, yr Awdurdod Lletyol), Hywyn Jones (Cyfrifydd Grŵp, Cyngor Gwynedd, yr Awdurdod Lletyol), Susan Owen Jones (Rheolwr Busnes GwE), Annwen Morgan (Prif Weithredwr Cyngor Sir Ynys Môn), Alwyn Jones (Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE), Gareth Williams (Cadeirydd Bwrdd Ymgynghorol GwE), Annes Sion (Arweinydd Tîm Democratiaeth Cyngor Gwynedd, yr Awdurdod Lletyol) a Bethan Roberts (Rheolwr Rheoli Perfformiad, GwE).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Cyng. Huw Hilditch-Roberts a Claire Homard.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYS**

Nid oedd unrhyw faterion brys.

**4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cadarnhawyd fod y cofnod a gyflwynwyd yn gofnod priodol o'r cyfarfod ar 26 Chwefror 2020.

**5. CYFRIFON TERFYNOL GWE 2019/20 – ALLDRO REFENIW**

PENDERFYNIAD

Nodwyd a derbyniwyd y Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw am 2019/20 fel y nodir yn Atodiad 1, ynghyd â sylwadaeth ar y prif wahaniaethau rhwng y gyllideb a'r gwir wariant a gyflwynir er gwybodaeth yn unol â'r drefn "arferol" ar ffurf adroddiad alldro.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi'r penderfyniad. Tynnwyd sylw at y prif wahaniaethau rhwng yr adroddiad ym mis Chwefror ac yr un a gyflwynwyd i'r cyfarfod. Nodwyd fod newid o (£217,253) i'r hyn adroddwyd yn chwarter 3, sef amcangyfrif gorwariant o £27,635. Amlinellwyd mai'r prif resymau dros hyn oedd bod secondiadau staff a chyfraniadau amser staff craidd i gynlluniau a phrosiectau newydd, ariannwyd drwy grant, wedi arwain at danwariant. O ganlyniad i Covid-19 mynegwyd fod nifer fawr o gyfarfodydd heb eu cynnal yn ystod mis Mawrth sydd wedi arwain at leihad mewn incwm. Nodwyd mai effaith y newid hwn yw bod y tanwariant net yn cynyddu'r gronfa wrth gefn i £480,204 ar ddiwedd 2019/20. Ychwanegwyd y bydd adroddiad i gyfarfod dilynol er mwyn ystyried defnydd posib o'r gronfa wrth gefn yn dilyn y cyfnod yr argyfwng presennol.

Diolchodd Rheolwr Cyfarwyddwr GwE i'r tîm cyllid am eu gwaith.

## 6. YMATEB LLYWODRAETH CYMRU I COVID-19 : TORIADAU I'R GRANTIAU RHANBARTHOL

PENDERFYNIAD

Derbyniwyd yr adroddiad.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi ei fod yn adroddiad er gwybodaeth. Mynegwyd o ganlyniad i ymateb Llywodraeth Cymru i Covid-19, gofynnwyd i GwE ddod o hyd i 3% o arbedion o gyfanswm dyraniadau Grant Gwella Ysgolion ar gyfer y cyfnod 2020/21.

Nodwyd y bydd gwireddu'r arbedion yn heriol ond fod swyddogion GwE ac awdurdodau lleol yn gweithio'n agos i reoli'r arbedion hyn.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Diolchwyd i GwE am eu gwaith a holwyd am drefniadau cyfnod adfer GwE. Mynegwyd fod angen i GwE addasu yn ystod y cyfnod hwn.
- Nodwyd fod GwE wedi cadw cyswllt dyddiol â'r ysgolion yn ystod y cyfnod cychwynnol. Ychwanegwyd y bydd gan dysgu o bell â rôl amlwg yn y cyfnod hwn a bydd angen ail edrych ar y ddarpariaeth a gweld sut y bydd modd ei ddefnyddio i'r dyfodol.
- Pwysleisiwyd y bydd y 3% o arbedion yn dod gan GwE ei hun a gan yr awdurdodau lleol er mwyn ymgeisio i leihau'r effaith ar ysgolion.
- Ychwanegwyd y bydd GwE yn anfon gwybodaeth unwaith y byddant wedi derbyn llythyr yn cadarnhau gan y Llywodraeth. Ychwanegodd Pennaeth Cyllid yr awdurdod lletyol y bydd angen i'r 3% ddod o rywle, a bydd y cyfnod argyfwng yma'n taro grantiau eraill, felly dylid bod yn barod am fwy o doriadau ymhen hir a hwyr. Ychwanegwyd y bydd cyhoeddiad cyllideb wythnos nesaf a gallasai hynny roi gwell syniad o'r toriadau fydd yn ein wynebu wrth symud ymlaen.

## 7. CYMWYSTERAU

PENDERFYNIAD

Derbyniwyd yr adroddiad a cytunwyd i drefnu cyfarfod gyda CBAC i drafod y mater ymhellach.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad ac amlinellwyd y broses arfaethedig. Nodwyd bod angen i'r Cyd-Bwyllgor ystyried goblygiadau penderfyniad y Gweinidog i gau ysgolion a'r penderfyniad dilynol i beidio cynnal cyfres arholiadau 2020 ar gyfer dyfarnu graddau TGAUI, UG, Safon Uwch, Tystysgrif Her Sgiliau a chymwysterau galwedigaethol eraill; a hefyd ystyried goblygiadau ar gyfer arholiadau haf 2021.

Mynegwyd fod y broses a amlinellwyd yn un annheg i ddisgyblion, yn benodol os yw'r ysgol ar daith gwella. Mynegwyd y bydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal ond na fydd yn cael ei ryddhau tan ganol mis Mehefin.

Ategwyd fod ysgolion eisiau gwybod os oes newid am fod i'r maes llafur er mwyn dechrau ar y gwaith paratoi ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Pwysleisiwyd fod y drefn model ystadegau yn gwbl annheg ar y disgyblion, ynghyd â'r ysgolion. Ychwanegwyd fod pryderon am y flwyddyn nesaf yn ogystal gan y bydd sefyllfa eleni yn cael effaith ar ddisgyblion ac felly yn amharu ar eu canlyniadau y flwyddyn nesaf.
- Nodwyd fod y cyfnod yma wedi bod yn anodd iawn ar ddisgyblion ac amlygwyd bod angen bod yn deg a chefnogi pobl ifanc.
- Mynegwyd pryder am blwyddyn 10 a 12 yn benodol.
- Nodwyd yr angen i drefnu cyfarfod â CBAC i drafod y mater ymhellach.
- Holwyd o ran costau arholiadau os y bydd modd i ysgolion dderbyn cyfran o'r arian yn ôl. Nodwyd fod angen trafod hyn yn y cyfarfod â CBAC.

## 8. PONTIO YN ÔL I'R YSGOL

PENDERFYNIAD

Penderfynwyd i gymeradwyo dull gweithredu rhanbarthol, gyda GwE, awdurodau lleol ac ysgolion yn gweithio mewn partneriaeth, ar gyfer y cam nesaf o addasu addysg yng Nghymru.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi mai'r bwriad yw cael cymeradwyaeth i'r Awdurdodau Lleol, GwE ac ysgolion i weithio gyda'i gilydd i greu fframwaith fydd yn cynnwys asesiadau risg a pholisïau/canllawiau drafft sy'n edrych ar amrywiaeth o feysydd y mae angen i ysgolion eu hystyried a'u datblygu pan fydd Llywodraeth Cymru yn cyfarwyddo ysgolion i ailagor i ragor o ddisgyblion.

Nodwyd fod Prif Weinidog Prydain wedi nodi fod ysgolion Lloegr yn ail agor ddechrau Mehefin ond nad oedd Cymru wedi nodi dyddiad eto. Pwysleisiwyd fod Bwrdd Rheoli GwE wedi trafod y mater ac wedi nodi'r angen i ysgolion, GwE a'r awdurdodau lleol i gyd weithio a chefnogi ei gilydd wrth symud ymlaen.

Pwysleisiwyd y bydd dysgu o bell yn parhau am gyfnod hir o amser ac felly fod angen cynllunio ymlaen at y cyfnod anodd hwn. Byddai'r fframwaith yn edrych ar faterion megis adnoddau dynol, dysgu o bell a.y.b. Ychwanegwyd er bod y fframwaith yn un rhanbarthol, y byddai'n cael ei addasu yn lleol. Byddai'r wybodaeth yn cael ei gadw mewn un lle, ond byddai modd i ysgolion ychwanegu dogfennau ynghyd a'i haddasu gan fod y sefyllfa yn newid mor aml.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Pwysleisiwyd fod cyfathrebu yn holl bwysig, a gyda’r cyfnod nesaf am ddod a sialensiau mawr, mae’n holl bwysig fod pawb yn gweithio gyda’i gilydd.
- Nodwyd mai partneriaeth fydd hyn.  Mynegwyd yr angen i weithio gyda’n gilydd  a chael un llais a chysondeb dros y rhanbarth.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 y.b. a daeth i ben am 12.15 y.h.

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Cyd-Bwyllgor GwE |
| **DYDDIAD** | 15 Gorffennaf 2020 |
| **TEITL** | Cyfrifon Terfynol y Cyd-Bwyllgor am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 |
| **PWRPAS** | Cyflwyno Datganiad o'r Cyfrifon, ar ffurf 'statudol', wedi'i ardystio, ond yn amodol ar archwiliad |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn a nodi'r wybodaeth |
| **AWDUR** | Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd |

## 1. GOFYNION ADRODD ARIANNOL STATUDOL

1.1 Mae gofynion adrodd penodol ynghylch cyfrifo ac archwilio cyfrifon Cyd-Bwyllgorau.

1.2 Mae Adran 12 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn datgan fod Cyd-Bwyllgor o fwy nac un awdurdod (lleol) yn gorff llywodraeth leol, ac mae Adran 13 o'r Ddeddf yn mynnu bod cyrff o'r fath yn cadw cyfrifon sy'n destun archwiliad gan archwiliwr annibynnol wedi'i gymeradwyo gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

1.3 Er nad yw'n endid cyfreithiol annibynnol, at ddibenion cadw cyfrifon a derbyn archwiliad, mae'r Cyd-Bwyllgor ei hun yn ddarostyngedig i'r un rheoliadau â chynghorau lleol eraill.

1.4 Cyngor Gwynedd yw'r Cyngor lletyol sy'n gyfrifol am gyflawni cyfrifoldebau cyfrifo ac adrodd ar faterion cyllidol Cyd-Bwyllgor GwE.

1.5 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018 yn mynnu bod pob Cyd-Bwyllgor yn paratoi cyfrifon blynyddol. Ble mae'r trosiant yn fwy na £2.5miliwn, rhaid paratoi datganiad o'r cyfrifon yn unol â chôd CIPFA ar gyfer y Cyd-Bwyllgor.

## 2. CYFRIFON 2019/20

2.1 Cyflwynwyd adroddiadau “alldro” syml a chryno perthnasol i gyfrifon 2019/20 i Gyd-Bwyllgor y GwE ar 20 Mai 2020. Roedd yr adroddiad hwnnw yn fwy defnyddiol i bwrpasau mewnol / rheoli, tra mae’r Datganiad o Gyfrifon yn fwy addas ar gyfer pwrpasau allanol / llywodraethu.

2.2 Mae’r tanwariant net terfynol am 2019/20 yn (£189,618). Roedd yr adroddiad “alldro” cyflwynwyd i’r Cyd-Bwyllgor ar 20 Mai 2020 yn manylu ar y rhesymau dros y tanwariant net a’r defnydd y bwriedir ei wneud o’r balans.

2.3 **Yn Atodiad A, cyflwynir y Datganiad o’r Cyfrifon am 2019/20 (yn amodol ar archwiliad), wedi’i ardystio** gan Dafydd L Edwards, y Swyddog Cyllid Statudol ar gyfer y Cyd-Bwyllgor. Mae’r datganiad yma ar ffurf safonol statudol ac yn hanfodol o safbwynt “llywodraethu”.

2.4 Mae Datganiad o’r Cyfrifon eisoes yn destun archwiliad gan Deloitte, archwilwyr allanol Cyngor Gwynedd a apwyntwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Yn sgil yr argyfwng, ni fydd archwiliadau Llywodraeth Leol Cymru yn cael eu cwblhau yn derfynol tan Medi eleni. Bydd yr Archwilwyr yn cynhyrchu adroddiad “ISA 260”, sy’n manylu ar brif ddarganfyddiadau Deloitte, ac wedi’i gyhoeddi gan Swyddfa Archwilio Cymru yn enw’r Archwilydd Cyffredinol, i’w gyflwyno i Gyd-Bwyllgor GwE ar 15 Medi 2020.

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 Gofynnir i’r Cyd-Bwyllgor dderbyn a nodi Datganiad o Gyfrifon GwE (yn amodol ar archwiliad) am 2019/20.

## BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

### Y Swyddog Monitro:

Dim i’w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

### Y Swyddog Cyllid Statudol:

Awdur yr adroddiad.

# Cyd-Bwyllgor GwE
## (Cynghorau Conwy, Dinbych, Fflint, Gwynedd, Môn a Wrecsam)

# DATGANIAD O'R CYFRIFON 2019/20 (Yn amodol ar Archwiliad)

Adran Cyllid
Cyngor Gwynedd
www.gwynedd.llyw.cymru

# MYNEGAI


| | Tudalen |
|---|---|
| Adroddiad Naratif | 2 - 5 |
| Datganiad Cyfrifoldebau | 6 |
| Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu | 7 |
| Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 8 |
| Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau | 9 |
| Y Fantolen | 10 |
| Datganiad Llif Arian | 11 |
| Nodiadau i'r Cyfrifon | 12 – 35 |

# ADRODDIAD NARATIF

## RHAGARWEINIAD

Mae'r Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol (GwE) wedi ei sefydlu mewn partneriaeth rhwng chwe awdurdod Gogledd Cymru, sef Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam, i fod yn atebol i'r Cynghorau ac i gyflawni swyddogaethau statudol y Cynghorau yng nghyswllt effeithiolrwydd a gwella ysgolion. Mae hyn yn cynnwys y dyletswyddau i fonitro, herio, darparu gwasanaethau cefnogol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus drwy'r cwricwlwm a rheoli ysgolion, a hefyd darparu gwasanaethau y gellir eu comisiynu gan ysgolion ac awdurdodau lleol.

Penodwyd Cyngor Gwynedd fel yr awdurdod lletya ar gyfer gweithredu a chynnal y Gwasanaeth gyda Chyd-Bwyllgor o'r holl bartneriaid yn goruchwylio rheolaeth o'r gwasanaeth.

Mae cyfrifon y Cyd-Bwyllgor GwE am 2019/20 wedi'u cyflwyno yma ar dudalennau 7 i 35. Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn cael ei baratoi yn unol â *Chôd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig CIPFA 2019/20.*

Mae'r Cyfrifon yn cynnwys:-

- **Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu** – Er nad yw'n ddatganiad statudol, mae'n dangos sut mae gwariant blynyddol yn cael ei wario a'i ariannu yn unol â threfn cyfrifo cyffredinol arferol.

- **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** - Dengys y datganiad hwn y gost gyfrifyddol yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol â pholisïau cyfrifeg cyffredinol derbyniol. Mae'r incwm a gwariant wedi ei rannu rhwng y chwe Cyngor fel a ganlyn am 2019/20 :

| | |
|---|---:|
| Conwy | 15.30% |
| Dinbych | 15.26% |
| Fflint | 22.71% |
| Gwynedd | 17.64% |
| Ynys Môn | 10.20% |
| Wrecsam | 18.89% |
| **Cyfanswm** | **100%** |

- **Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau** - Dengys y datganiad hwn y symudiad o fewn y flwyddyn mewn gwahanol reserfau a ddelir gan y Cyd-Bwyllgor, wedi eu dadansoddi yn 'reserfau defnyddiadwy' a 'reserfau na ellir eu defnyddio'.

- **Y Fantolen** - Sydd yn datgan sefyllfa ariannol y Cyd-Bwyllgor ar 31 Mawrth 2020.

- **Y Datganiad Llif Arian** - Mae'r datganiad yma'n crynhoi llif yr arian i mewn ac allan o'r Cyd-Bwyllgor yn ystod 2019/20 at ddibenion refeniw a chyfalaf.

Cefnogir y cyfrifon hyn gan yr Adroddiad Naratif yma, y Polisïau Cyfrifo ac amrywiol nodiadau i'r cyfrifon.

**Gweledigaeth a Blaenoriaethau GwE**
Gweledigaeth GwE yw fod ganddynt:
*"Ysgolion rhagorol sy'n cydweithio'n naturiol ac yn cyd-adnabod cyfeiriad ar gyfer gwelliant a fydd yn arwain at les a safonau rhagorol i'w disgyblion".*
Mae Cynllun Busnes y GwE, yn adnabod amcanion sefydlwyd i gyfarfod eu blaenoriaethau, ac mae ar gael yn: https://www.gwegogledd.cymru/amdanom-ni/dogfennau-allweddol/

**Strategaeth Ariannol**
Sefydlir y gyllideb flynyddol o fewn cyd-destun strategaeth ariannol tymor canolig, er mwyn sicrhau fod y gyllideb honno yn paratoi ar gyfer y sefyllfa i ddod, yn hytrach na chyfarch anghenion un flwyddyn yn unig. Mae'r cynllunio tymor canolig hyn wedi talu ar ei ganfed i'r GwE, gan ei alluogi i gynllunio arbedion angenrheidiol yn rhesymegol, heb orfod cymryd penderfyniadau brysiog/amhriodol o ran y buddion i'r dinesydd, ac wedi sefydlu cyfundrefn ar gyfer adnabod arbedion a thoriadau cyllidol. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn gosod y sylfaen ar gyfer ei flaenoriaethau, ac ar gael yn:
https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/ielistdocuments.aspx?cid=243&mid=2494&ver=4&

Bydd newidiadau yn sgil pandemig COVID-19 hefyd yn effeithio ar sefyllfa ariannol tymor canolig y Cyd-Bwyllgor. Mae'r Cyd-Bwyllgor fel cynghorau Cymru wedi cyd-weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru er mwyn ymdopi gyda'r sefyllfa gorau y gellir.

**Perfformiad 2019/20**
Mae'r GwE yn adrodd yn chwarterol ar berfformiad y gwasanaeth o ran cyflawni swyddogaethau'r gwasanaeth a'r nodau allweddol. Mae'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol ar gael yn:
https://www.gwegogledd.cymru/wp-content/uploads/2020/05/20200520-Rhaglen-GwE.pdf

**Perfformiad Ariannol 2019/20**
- Dengys y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar dudalen 8 fod gwariant refeniw gros y Cyd-Bwyllgor ar y lefel 'cost gwasanaethau' yn £15,159k yn ystod 2019/20, gyda'r sefyllfa net yn £608k.
- Adroddwyd sefyllfa alldro ariannol 2019/20 i'r Cyd-Bwyllgor yn ei gyfarfod ar 20 Mai 2020. Gofynnwyd am gymeradwyaeth aelodau'r Cyd-Bwyllgor i drosglwyddo'r tanwariant o (£190k) i reserf penodol.
- Mae'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau ar dudalennau 8 a 9 yn darparu dadansoddiad o'r symudiadau yn y flwyddyn.

## TABL 1 - Crynodeb o'r Gymhariaeth rhwng y Gyllideb a'r Gwir Sefyllfa (Net)

Mae Tabl 1 yn cynnwys cymhariaeth perfformiad cyllidebol ar lefel crynhoad. Ceir gwybodaeth bellach yn Nhabl 2.

| | **Cyllideb £'000** | **Gwir £'000** | **Gwahaniaeth £'000** |
|---|---|---|---|
| Gwariant ar Weithgareddau | 14,541 | 14,361 | (180) |
| Incwm | | | |
| Cyfraniadau'r Cynghorau ar gyfer gwasanaeth craidd: | | | |
| Conwy | (625) | (625) | 0 |
| Dinbych | (623) | (623) | 0 |
| Fflint | (927) | (927) | 0 |
| Gwynedd | (720) | (720) | 0 |
| Ynys Môn | (417) | (417) | 0 |
| Wrecsam | (772) | (772) | 0 |
| Incwm Arall | (10,457) | (10,467) | (10) |
| **(Tanwariant)/Gorwariant Net** | **0** | **(190)** | **(190)** |

**TABL 2 – Symudiad Trawsddodiad rhwng '<u>Crynodeb o'r Gymhariaeth rhwng y Gyllideb a'r Gwir Sefyllfa (Net)' (Tabl 1)</u> i'r fformat <u>Incwm a Gwariant</u>**

| | Adroddiad Perfformiad (Alldro) | *Addasiad Trawsddodiad | Gwariant Net i'w Ariannu gan falansau'r Gronfa Gyffredinol | *Addasiadau rhwng y sail Ariannu a'r sail Cyfrifo | Datganiad Incwm a Gwariant |
|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Gwariant | 14,361 | (180) | 14,181 | 978 | 15,159 |
| Incwm | (14,551) | 0 | (14,551) | 0 | (14,551) |
| **Cost Gwasanaethau Net** | **(190)** | **(180)** | **(370)** | **978** | **608** |

* Mae'r addasiadau yn y golofn trawsddodiad yn cyfeirio at gyfraniad i ac o reserfau, a'r golofn Addasiadau rhwng sail Ariannu a'r sail Cyfrifo yn cyfeirio at addasiadau technegol pensiynau ac absenoldebau cronedig.

- **Eitemau Materol o Incwm a Gwariant**
  Mae'r eitemau perthnasol yn cynnwys:-
  - (£1,800k) yn y maes pensiwn, sef yr ailfesuriad blynyddol o'r asedau buddion diffiniedig net y maes pensiynau, yn unol ag asesiad Actiwari Cronfa Bensiwn Gwynedd (Nodyn 16).
  - £14,551k mewn grantiau a chyfraniadau a'r gwariant cyfatebol (Nodyn 21). Lleihad o £1,514k o'i gymharu â 2018/19.

- **Materion Eraill**
  - Mae risigau ariannol gyda'r sefyllfa byd-eang. Oherwydd y sefyllfa gyffredinol yma, bu'n angenrheidiol i'r Cyd-Bwyllgor gymryd yr amgylchiadau i ystyriaeth yn ei gynlluniau ariannol, gan hefyd gadw lefel darbodus o reserfau.
  - Ers y refferendwm ar aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd, bu cryn ansicrwydd economaidd. Disgwylir i hyn barhau am gyfnod a gall hyn effeithio rhai ffactorau a phenderfyniadau cyllidol gan y Cyd-Bwyllgor.
  - Mae dyfodiad yr argyfwng COVID-19 yn her ariannol pellach i'r Cyd-Bwyllgor yn y tymor byr a chanolig.

**Darpariaethau ac Arian wrth Gefn**

Mae gan y Cyd-Bwyllgor ddarpariaethau o £3k a reserfau a glustnodwyd o £711k. Ceir manylion yn y Fantolen, Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau a Nodyn 9 a 14.

**Cronfa Bensiwn**

Mae gan y Cyd-Bwyllgor (fel cyflogwr) ymrwymiad net yn deillio o'u cyfran o asedau ac ymrwymiadau Cronfa Bensiwn Gwynedd, sydd wedi ei gyfrifo yn unol â Safonau Cyfrifo Rhyngwladol 19. Mae'r Fantolen yn cynnwys asesiad gan Actiwari y Gronfa, Hymans Robertson, o gyfran y Cyd-Bwyllgor o ymrwymiad y Gronfa Bensiwn. Mae'r ymrwymiad net yma wedi gostwng £600k i £8,304k yn 2019/20. Gweler Nodyn 25 am wybodaeth bellach.

Sefyllfa ar un pwynt mewn amser yw'r ymrwymiad pensiwn net. Gall prisiau'r farchnad gynyddu neu leihau yn sylweddol yn y tymor byr ac felly nid oes modd meintoli'r effaith tymor hir bydd symudiad o'r fath yma ym mhrisiau'r farchnad yn ei gael ar y Gronfa Bensiwn. Cafodd prisiad diwethaf ei gynnal 31 Mawrth 2019, gyda'r nesaf i'w gynnal 31 Mawrth 2022.

**Llywodraethu**

Mae GwE yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau llywodraethu cadarn yn bodoli, er hwyluso gweithrediad effeithiol ei swyddogaethau, sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg. Mae gwybodaeth bellach wedi ei gynnwys o fewn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

**Polisïau Cyfrifo**

Mae'r egwyddorion cyfrifo a fabwysiadwyd ar ran y Cyd-Bwyllgor yn cydymffurfio â holl ymarferion cyfrifeg gymeradwy berthnasol ac maent wedi'u hegluro yn llawn yn y Polisïau Cyfrifo yn Nodyn 1 i'r Cyfrifon sy'n cychwyn ar dudalen 12.

**Newidiadau mewn Polisiau Cyfrifeg ac i'r Datganiad o'r Cyfrifon**

Mae'r polisiau cyfrifo presennol y Cyd-Bwyllgor wedi eu haddasu i adlewyrchu'r cyfarwyddiadau yn y Côd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2019/20.

## GWYBODAETH BELLACH

Mae Datganiad o'r Cyfrifon ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd sef www.gwynedd.llyw.cymru.

Ceir gwybodaeth bellach am y cyfrifon gan:

Ffion Madog Evans
Uwch Reolwr Cyllid
01286 679133

neu

Hywyn Lewis Jones
Cyfrifydd Grwp
01286 679145

Adran Cyllid
Cyngor Gwynedd
Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

Mae hyn yn rhan o bolisi'r Cyngor i ddarparu gwybodaeth lawn am weithgareddau'r Cyngor a'r Cyd-Bwyllgorau. Yn ychwanegol, mae gan aelodau'r cyhoedd sydd yn dymuno, hawl statudol i arolygu'r cyfrifon cyn cwblheir yr archwiliad. Hysbysir argaeledd y cyfrifon i'w harolygu ar wefan y Cyngor ar yr adeg briodol.

# CYD-BWYLLGOR GwE

# DATGANIAD O'R CYFRIFON

## DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU AM Y DATGANIAD O'R CYFRIFON

### CYFRIFOLDEB Y CYD-BWYLLGOR

Cyngor Gwynedd yw'r awdurdod lletya sydd â'r cyfrifoldeb am drefniadau a gweinyddiad ar faterion ariannol y Cyd-Bwyllgor.

Mae'n ofynnol ar Gyngor Gwynedd i wneud trefniadau ar gyfer iawn weinyddiad o'i faterion ariannol ac i sicrhau y rhoddir cyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny i un o'i swyddogion. Yng Nghyngor Gwynedd, y Pennaeth Cyllid yw'r "Swyddog Adran 151" hwnnw. Cyfrifoldeb y Cyd-Bwyllgor yw rheoli ei weithgareddau er mwyn sicrhau defnydd effeithiol, effeithlon ac economaidd o'i adnoddau, gwarchod ei asedau, a chymeradwyo'r Datganiad o'r Cyfrifon.

---

### CYFRIFOLDEB Y PENNAETH CYLLID CYNGOR GWYNEDD

Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon y Cyd-Bwyllgor GwE yn unol â'r ymarfer priodol fel a osodir yn y *Côd Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig* (y "Côd").

Wrth baratoi'r Datganiad o'r Cyfrifon, mae'r Pennaeth Cyllid wedi dewis polisïau cyfrifo priodol gan eu defnyddio'n gyson; wedi ffurfio barnau a gwneud amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a darbodus ac yn cydymffurfio â'r Côd.

Hefyd, mae'r Pennaeth Cyllid wedi cadw cofnodion cyfrifo priodol a chyfamserol, ac wedi cymryd camau rhesymol i ddarganfod a gwarchod rhag twyll ac unrhyw anghysondebau eraill.

---

### TYSTYSGRIF Y SWYDDOG CYLLIDOL CYFRIFOL

Tystiaf fod y Datganiad o'r Cyfrifon wedi ei baratoi yn unol â'r trefniadau uchod. Mae'r Datganiad yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Cyd-Bwyllgor GwE ar 31 Mawrth 2020, ac incwm a gwariant y Cyd Bwyllgor am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.

D L Edwards

**3 Mehefin 2020**

**Dafydd L. Edwards B.A., C.P.F.A., I.R.R.V.**
**Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd**

# DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU

Mae'r Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu yn dangos sut mae gwariant blynyddol yn cael ei wario a'i ariannu o adnoddau yn unol â threfn cyfrifo cyffredinol arferol. Mae incwm a gwariant sydd fel arfer yn cael ei gyfrifo yn unol â threfn cyfrifo cyffredinol arferol yn cael ei gyflwyno yn llawnach yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

| 2018/19 | | | | 2019/20 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant Net i'w Ariannu gan falansau'r Gronfa Gyffredinol** | **Addasiadau rhwng y sail Ariannu a'r sail Cyfrifo (Gweler nodyn 7)** | **Gwariant Net yn y Datganiad Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr** | | **Gwariant Net i'w Ariannu gan falansau'r Gronfa Gyffredinol** | **Addasiadau rhwng y sail Ariannu a'r sail Cyfrifo (Gweler nodyn 7)** | **Gwariant Net yn y Datganiad Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr** |
| **£'000** | **£'000** | **£'000** | | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| 4,264 | 662 | 4,926 | Gweithwyr | 4,364 | 907 | 5,271 |
| 297 | 0 | 297 | Eiddo | 288 | 0 | 288 |
| 193 | 0 | 193 | Cludiant | 197 | 0 | 197 |
| 2,558 | 0 | 2,558 | Gwasanaethau a Chyflenwadau | 1,611 | 0 | 1.611 |
| 8,560 | 0 | 8,560 | Trydydd Parti | 7,721 | 0 | 7,721 |
| 0 | 0 | 0 | Costau Heb eu Dosrannu | 0 | 71 | 71 |
| (16,065) | 0 | (16,065) | Incwm | (14,551) | 0 | (14,551) |
| **(193)** | **662** | **469** | **Cost Gwasanaethau** | **(370)** | **978** | **608** |
| 0 | 191 | 191 | Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi | 0 | 225 | 225 |
| **(193)** | **853** | **660** | **(Gwarged)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau** | **(370)** | **1,203** | **833** |
| (148) | | | Balans Agoriadol y Gronfa Gyffredinol | (341) | | |
| (193) | | | (Gweddill)/Diffyg ar y Gronfa Gyffredinol yn y flwyddyn | (370) | | |
| **(341)** | | | Balans Cau y Gronfa Gyffredinol | **(711)** | | |

# DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR

Dengys y datganiad hwn y gost gyfrifyddol yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaeth y Cyd-Bwyllgor yn unol â pholisïau cyfrifeg cyffredinol dderbyniol.

| 2018/19 | | | | | 2019/20 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant Gros** | **Incwm Gros** | **Gwariant Net** | | *Nodyn* | **Gwariant Gros** | **Incwm Gros** | **Gwariant Net** |
| **£'000** | **£'000** | **£'000** | | | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| 4,926 | 0 | 4,926 | Gweithwyr | | 5,271 | 0 | 5,271 |
| 297 | 0 | 297 | Eiddo | | 288 | 0 | 288 |
| 193 | 0 | 193 | Cludiant | | 197 | 0 | 197 |
| 2,558 | 0 | 2,558 | Gwasanaethau a Chyflenwadau | | 1,611 | 0 | 1,611 |
| 8,560 | 0 | 8.560 | Trydydd Parti | | 7,721 | 0 | 7,721 |
| 0 | 0 | 0 | Costau Heb eu Dosrannu | | 71 | 0 | 71 |
| 0 | (16,065) | (16,065) | Incwm | | 0 | (14,551) | (14,511) |
| **16,534** | **(16,065)** | **469** | **Cost Gwasanaethau** | | **15,159** | **(14,551)** | **608** |
| 191 | 0 | 191 | Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi | *10* | 225 | 0 | 225 |
| **16,725** | **(16,065)** | **660** | **(Gwarged) / Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau** | | **15,384** | **(14,551)** | **833** |
| | | 1,313 | Ailfesuriad o'r buddion pensiwn diffiniedig net ymrwymiadau/(asedau) | *16* | | | (1,800) |
| | | **1,313** | **Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall** | | | | **(1,800)** |
| | | **1,973** | **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | | | **(967)** |

# DATGANIAD O'R SYMUDIAD MEWN RESERFAU

Dengys y Datganiad o'r Symudiadau Mewn Reserfau y symudiad o ddechrau'r flwyddyn i'r diwedd mewn gwahanol reserfau a ddelir gan y Cyd-Bwyllgor, wedi eu dadansoddi i 'reserfau defnyddiadwy' (h.y. y rhai hynny sy'n gymwysedig i ariannu gwariant) a 'reserfau na ellir eu defnyddio'. Mae'r Datganiad yn dangos sut mae'r symudiadau yn y flwyddyn yn reserfau'r Cyd-Bwyllgor yn cael eu torri lawr rhwng enillion a cholledion yn unol ag ymarferion cyfrifo sy'n gyffredinol gydnabyddedig. A hefyd yn dangos yr addasiadau statudol sy'n ofynnol i ddychwelyd at y swm godir ar y dreth cyngor (trwy gyfraniadau'r Cynghorau). Mae'r llinell Cynnydd/Gostyngiad Net yn dangos symudiadau statudol y Gronfa Gyffredinol yn y flwyddyn yn dilyn yr addasiadau hyn.

| | | **Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau** | | |
|---|---|---|---|---|
| | ***Nodyn*** | **Cyfanswm Reserfau Defnyddiadwy** | **Reserfau na ellir eu defnyddio** | **Cyfanswm Reserfau'r Cyd-Bwyllgor** |
| | | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Balans 31 Mawrth 2018 a ddygwyd ymlaen** | | **(148)** | **6,827** | **6,679** |
| Symudiad mewn reserfau yn 2018/19 | | | | |
| (Gwarged)/Diffyg ar ddarparu gwasanaethau | | **660** | **0** | **660** |
| Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall | | **0** | **1,313** | **1,313** |
| **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | **660** | **1,313** | **1,973** |
| Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu dan y rheoliadau | *8* | **(853)** | **853** | **0** |
| **(Cynnydd)/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i Reserfau a Glustnodwyd** | | **(193)** | **2,166** | **1,973** |
| ***(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2018/19*** | | **(193)** | **(2,166)** | **1.973** |
| **Balans 31 Mawrth 2019 a ddygwyd ymlaen** | *9* | **(341)** | **8,993** | **8,652** |
| Symudiad mewn reserfau yn 2018/19 | | | | |
| (Gwarged)/Diffyg ar ddarparu gwasanaethau | | **833** | **0** | **833** |
| Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall | | **0** | **(1,800)** | **(1,800)** |
| **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | **833** | **(1,800)** | **(967)** |
| Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu dan y rheoliadau | *8* | **(1,203)** | **1,203** | **0** |
| **(Cynnydd)/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i Reserfau a Glustnodwyd** | *9* | **(370)** | **(597)** | **(967)** |
| ***(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2019/20*** | | **(370)** | **(597)** | **(967)** |
| **Balans 31 Mawrth 2020 a ddygwyd ymlaen** | | **(711)** | **8,396** | **7,685** |

# Y FANTOLEN

Dengys y Fantolen werth asedau ac ymrwymiadau'r Cyd-Bwyllgor ar ddyddiad y Fantolen. Mae asedau net y Cyd-Bwyllgor (asedau llai ymrwymiadau) yn cyfateb i'r reserfau a ddelir gan y Cyd-Bwyllgor. Adroddir ar y reserfau mewn dau gategori. Y categori cyntaf o reserfau yw'r reserfau defnyddiadwy, h.y. y reserfau hynny y gall y Cyd-Bwyllgor eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, yn amodol ar yr angen i gadw lefel ddoeth o reserfau ac unrhyw gyfyngiad statudol o'u defnydd. Yr ail gategori o reserfau yw'r rhai hynny na all y Cyd-Bwyllgor eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Mae'r categori yma o reserfau yn cynnwys reserfau gydag elw a cholledion heb eu gwireddu (er enghraifft, y reserve Ailbrisio), ble nad yw'r symiau ar gael i'w defnyddio i ddarparu gwasanaethau dim ond pan werthir yr asedau yn unig; a reserfau gyda gwahaniaethau amseriad fel y dangosir ar linell 'Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu yn unol â rheoliadau' o'r Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau.

| **31 Mawrth 2019 £'000** | | ***Nodyn*** | **31 Mawrth 2020 £'000** |
|---:|---|---|---:|
| 0 | Dyledwyr Tymor Hir | | 0 |
| **0** | **Asedau Tymor Hir** | | **0** |
| 265 | Dyledwyr Tymor Byr | *11* | 476 |
| 2,872 | Arian a Chyfwerthoedd Arian | *12* | 2,557 |
| **3,137** | **Asedau Cyfredol** | | **3,033** |
| (2,421) | Credydwyr Tymor Byr | *13* | (1,909) |
| (3) | Darpariaethau Tymor Byr | *14* | (3) |
| (461) | Derbyniadau Grantiau o Flaen Llaw | *21* | (502) |
| **(2,885)** | **Ymrwymiadau Cyfredol** | | **(2,414)** |
| (8,904) | Ymrwymiad Pensiwn | *25* | (8,304) |
| **(8,904)** | **Ymrwymiadau Tymor Hir** | | **(8,304)** |
| **(8,652)** | **Asedau Net** | | **(7,685)** |
| (341) | Reserfau Defnyddiadwy | *15* | (711) |
| 8,993 | Reserfau na ellir eu defnyddio | *16* | 8,396 |
| **8,652** | **Cyfanswm Reserfau** | | **7,685** |

# DATGANIAD LLIF ARIAN

Dengys y Datganiad Llif Arian newidiadau mewn arian a chyfwerthoedd arian y Cyd-Bwyllgor yn ystod y cyfnod adrodd. Trwy rannu'r llif arian yn weithgareddau gweithredu a buddsoddi, dengys y datganiad sut mae'r Cyd-Bwyllgor yn cynhyrchu a defnyddio arian a chyfwerthoedd arian. Mae cyfanswm y llif arian net o weithgareddau gweithredu yn ddangosydd allweddol o faint o weithgareddau'r Cyd-Bwyllgor a ariennir trwy incwm grant neu gan dderbynyddion y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyd-Bwyllgor. Mae'r Gweithgareddau Buddsoddi yn cynrychioli'r all-lif arian a wnaed am adnoddau y bwriedir eu defnyddio i gyfrannu tuag at ddarpariad gwasanaethau'r Cyd-Bwyllgor yn y dyfodol.

| **2018/19 £'000** | | ***Nodyn*** | **2019/20 £'000** |
|---|---|---|---|
| 660 | (Gwarged)/Diffyg Net ar Ddarparu Gwasanaethau | | 833 |
| (3,260) | Addasiadau i'r gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau am symudiadau anariannol *(credydwyr, dyledwyr a pensiwn)* | *17* | (518) |
| (2,600) | Llif Arian Net o Weithgareddau Gweithredu | | 315 |
| (1) | Gweithgareddau Buddsoddi | | 0 |
| (2,601) | (Cynnydd)/Lleihad net mewn arian a chyfwerthoedd arian | | 315 |
| (271) | Arian a chyfwerthoedd arian ar ddechrau'r cyfnod adrodd | | (2,872) |
| **(2,872)** | **Arian a chyfwerthoedd arian ar ddiwedd y cyfnod adrodd** | | **(2,557)** |

# NODIADAU I'R CYFRIFON

## NODYN 1 – POLISÏAU CYFRIFO

### 1.1 Egwyddorion Cyffredinol

Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn crynhoi trafodion y Cyd-Bwyllgor yn y flwyddyn ariannol 2019/20 a'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn honno, sef 31 Mawrth 2020. Mae'r Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyd-Bwyllgor baratoi Datganiad o'r Cyfrifon yn flynyddol, a hynny yn unol ag arferion cyfrifo cywir. Mae'r arferion hyn wedi eu cynnwys yn bennaf yn y *Côd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2019/20* ac yn cael eu cefnogi gan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh).

Arfer y Cyd-Bwyllgor yw gweithredu ar y sail bod pob eitem o wariant yn cael eu trin fel refeniw yn y lle cyntaf. Os bydd unrhyw eitemau cyfalaf eu natur (e.e. offer TG, dodrefn) yn profi bod ganddynt arwyddocâd materol ar y cyflwyniad cywir a theg o'r sefyllfa ariannol, yna byddai'r eitemau yn cael eu trin yn unol ag arferion priodol.

Natur gyfyngedig sydd i drafodion y Cyd-Bwyllgor ac felly gweler isod y polisïau perthnasol yn unig.

### 1.2 Croniadau Incwm a Gwariant

Cyfrifir am weithgareddau yn y flwyddyn maent yn disgwydd, nid pan wneir neu dderbynnir taliadau arian parod.

- Bydd y refeniw o gytundebau gyda derbynwyr gwasanaeth, boed am wasanaeth neu nwyddau, yn cael ei adnabod pan fydd y gwasanaeth neu'r nwyddau yn cael eu trosglwyddo i dderbynnydd y gwasanaeth yn unol â'r rhwymedigaethau perfformiad y cytundeb.
- Bydd cyflenwadau yn cael eu trin fel gwariant fel maent yn cael eu treulio – pan fydd bwlch rhwng y dyddiad mae'r cyflenwadau wedi eu derbyn a'u treulio, byddant yn cael eu dal fel stoc ar y Fantolen.
- Bydd treuliau, mewn cysylltiad â'r gwasanaeth a dderbyniwyd (gan gynnwys gwasanaeth gan weithwyr cyflogedig) yn cael eu cofnodi fel gwariant pan fydd y gwasanaeth wedi ei dderbyn yn hytrach na pan fydd y taliad yn cael ei wneud.
- Ble mae refeniw a gwariant wedi eu hadnabod ond nid yw'r arian wedi ei dderbyn neu ei dalu, bydd rhaid creu dyledwr neu gredydwr am y symiau perthnasol ar y Fantolen. Ble mae tebygolrwydd o beidio casglu'r ddyled, bydd rhaid lleihau gwerth y dyledion a chodi tâl ar y Cyfrif refeniw am yr incwm sydd yn anhebygol o gael ei gasglu.

### 1.3 Arian a Chyfwerthoedd Arian

Nid oes gan y Cyd-Bwyllgor gyfrif banc ei hun a gweinyddir yr holl arian parod gan Cyngor Gwynedd o fewn ei gyfrifon ei hun.

### 1.4 Buddiannau Gweithwyr

#### 1.4.1 Buddion sy'n Daladwy yn Ystod Cyflogaeth

Buddion tymor byr yw'r rhai hynny sydd yn ddyledus o fewn 12 mis i ddiwedd y flwyddyn. Maent yn cynnwys buddion megis cyflogau, tâl gwyliau a thâl salwch i weithwyr cyfredol ac maent yn cael eu hadnabod fel cost am wasanaethau yn y flwyddyn y mae'r gweithiwr yn gwasanaethu'r Cyd-Bwyllgor. Gwneir croniad ar gyfer cost hawl gwyliau (neu unrhyw amser i ffwrdd o'r gwaith e.e. amser wedi ei gronni) sydd yn ddyledus i'r gweithwyr ond sydd heb ei gymryd cyn diwedd y flwyddyn ac yn cael ei gario drosodd i'r flwyddyn ariannol nesaf. Mae cost y croniad yn mynd yn erbyn Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau, ond wedyn yn cael ei wrth-droi drwy'r Datganiad o'r symudiad mewn Reserfau fel bod cost y buddion gwyliau yn mynd yn erbyn y flwyddyn ariannol y cymerir y gwyliau.

## NODYN 1 – POLISÏAU CYFRIFO (parhad)

### 1.4.2 Buddion Terfynu Cyflogaeth

Mae buddion terfynu cyflogaeth yn daladwy o ganlyniad i benderfyniad y Cyd-Bwyllgor i derfynu cyflogaeth swyddog cyn y dyddiad ymddeol arferol neu o ganlyniad i benderfyniad y swyddog i dderbyn diswyddiad yn wirfoddol ac fe'u codir ar sail addasiad croniad yn erbyn y gwasanaeth yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr unai pan na all y Cyd-Bwyllgor dynnu'r cynnig o'r buddion hynny yn ôl neu pan fo'r Cyd-Bwyllgor yn cydnabod cost o ail-strwythuro, p'run bynnag sydd gyntaf.

Pan fo buddion terfynu cyflogaeth yn cynnwys ychwanegiadau i bensiynau mae'r ddarpariaeth statudol yn golygu y dylai'r Cyd-Bwyllgor dderbyn y gost sydd yn daladwy gan y Cyd-Bwyllgor i'r gronfa bensiwn neu i'r pensiynwr yn y flwyddyn yn hytrach na'r swm, sydd wedi ei gyfrifo yn unol â'r safonau cyfrifeg berthnasol. Yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau mae angen neilltuo symiau i ac o'r Gronfa Bensiwn er mwyn diddymu'r credydau a'r debydau damcaniaethol am fuddion terfynu pensiynau ychwanegol a rhoi debydau am yr arian a dalwyd i'r Gronfa Bensiwn a'r pensiynwyr ac unrhyw symiau taladwy ond sydd heb eu talu at ddiwedd y flwyddyn yn eu lle.

### 1.4.3 Buddion Ôl-gyflogaeth

Mae gweithwyr y Cyd-Bwyllgor yn aelodau o ddau gynllun pensiwn:

- Y Cynllun Pensiwn Athrawon, a weinyddir gan Capita Teachers' Pensions ar ran Adran Addysg Llywodraeth San Steffan.
- Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a weinyddir gan Gronfa Bensiwn Gwynedd yng Nghyngor Gwynedd.

Mae'r ddau gynllun yn darparu buddion diffiniedig i'w haelodau (pensiynau a lymp-symiau) sydd wedi eu hennill yn ystod eu hamser gyda'r Cyd-Bwyllgor a'u cyn-gyflogwyr.

Fodd bynnag, mae'r trefniadau'r cynllun athrawon yn golygu nad yw ymrwymiadau'r buddion hynny yn cael eu hadnabod i'r Cyd-Bwyllgor. Mae'r cynllun felly yn cael ei gyfrifo fel petai yn gynllun cyfraniadau diffiniedig ac nid yw ymrwymiadau ar gyfer taliadau yn y dyfodol yn cael eu hadnabod yn y Fantolen. Mae'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn cynnwys cost cyfraniadau'r cyflogwr sy'n daladwy i'r Cynllun Pensiwn Athrawon yn y flwyddyn.

### 1.4.4 Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Mae gan bob aelod arall o'r staff, yn amodol ar rai meini prawf, yr hawl i fod yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae'r costau pensiwn a godir ar gyfrifon y Cyd-Bwyllgor ar gyfer y dosbarth yma o weithwyr yn cael eu pennu gan weinyddwyr y gronfa ac yn cynrychioli cyfran sefydlog o gyfraniad y gweithwyr i'r cynllun.

Mae'r Cynllun Llywodraeth Leol yn cael ei drin fel cynllun budd diffiniedig.

Mae ymrwymiadau Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd i'w priodoli i'r Cyd-Bwyllgor yn cael eu cynnwys yn y Fantolen ar sail actiwaraidd drwy'r dull rhagamcanu unedau h.y. asesiad o daliadau fydd yn cael eu gwneud yn y dyfodol mewn perthynas â buddion ymddeol a enillwyd hyd yn hyn gan y gweithwyr, yn seiliedig ar gyfradd marwolaeth, cyfradd trosiant gweithwyr a.y.b. yn ogystal â thafluniad enillion ar gyfer gweithwyr cyfredol.

Gostyngir yr ymrwymiadau i'w gwerth ar sail prisiau cyfredol gan ddefnyddio graddfa ddisgownt o 2.3% wedi ei gyfrifo fel cyfartaledd cymhwysol 'spot yields' ar fondiau corfforaethol o werth AA.

Mae asedau Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd i'w priodoli i'r Cyd-Bwyllgor yn cael eu cynnwys yn y Fantolen ar sail gwerth teg a benderfynir gan Actiwari'r Gronfa.

Dadansoddir y newid yn ymrwymiad net pensiynau i'r cydrannau canlynol:

## NODYN 1 – POLISÏAU CYFRIFO (parhad)

Cost gwasanaeth yn cynnwys:

- Cost gwasanaeth cyfredol – y cynnydd mewn ymrwymiadau o ganlyniad i flynyddoedd o wasanaeth a enillwyd eleni - dyrennir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i'r gwasanaeth.

- Cost gwasanaeth y gorffennol – mae'r cynnydd mewn ymrwymiadau yn deillio o benderfyniadau yn y flwyddyn gyfredol ble mae eu heffaith yn gysylltiedig â'r blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd mewn blynyddoedd cynharach – mae'n cael ei ddebydu i'r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaeth yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o Gostau heb eu Dosrannu.

- Llog net ar yr ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net, h.y. y gost llog net i'r awdurdod - y newid yn ystod y cyfnod yn yr ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net sy'n codi o dreigliad amser sy'n mynd yn erbyn llinell Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr - mae hyn yn cael ei gyfrifo ar sail gweithredu'r gyfradd ddisgownt sy'n cael ei ddefnyddio i fesur yr ymrwymiad buddion diffiniedig ar gychwyn y cyfnod i'r ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net ar gychwyn y cyfnod - gan gymryd i ystyriaeth unrhyw newidiadau yn yr ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net yn ystod y cyfnod o ganlyniad i gyfraniadau a thaliadau budd.

Ailfesuriadau yn cynnwys:

- Enillion ar asedau'r Cynllun - gan eithrio symiau sy'n gynwysedig yn llog net ar yr ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net - yn cael eu debydu i'r Reserf Pensiynau fel Incwm a Gwariant Ariannu Cynhwysfawr Arall.

- Enillion a cholledion actiwaraidd - newidiadau i'r ymrwymiad pensiwn net oherwydd nad yw'r digwyddiadau yn cyd-fynd â'r rhagdybiaethau a wnaethpwyd yn y prisiad actiwaraidd diwethaf neu am nad yw'r actiwari wedi diweddaru ei ragdybiaethau - yn cael eu debydu i'r Reserf Pensiwn fel Incwm a Gwariant Ariannu Cynhwysfawr Arall.

- Cyfraniadau a delir i Gronfa Bensiwn Gwynedd - arian a delir fel cyfraniadau'r cyflogwr i'r Gronfa Bensiwn ar gyfer setliad ymrwymiadau; sydd ddim yn cael eu cyfrifo fel traul.

Gyda buddion ymddeol, mae'n ofynnol, yn unol â darpariaethau statudol, i'r Gronfa Gyffredinol dderbyn cost y swm sy'n daladwy gan y Cyd-Bwyllgor i'r Gronfa Bensiwn neu'n uniongyrchol i'r pensiynwyr yn ystod y flwyddyn, yn hytrach na'r swm a gyfrifir yn ôl y safonau cyfrifeg perthnasol. Yn y Datganiad o'r Symudiadau mewn Reserfau, mae hyn yn golygu bod angen neilltuo arian i neu allan o'r Reserf Pensiwn er mwyn diddymu'r credydau a'r debydau damcaniaethol ar gyfer buddion ymddeol a rhoi'r debydau am arian a dalwyd i'r Gronfa Bensiwn a phensiynwyr ac unrhyw symiau sy'n daladwy ond sydd heb eu talu at ddiwedd y flwyddyn. Mae'r balans negyddol sydd yn deillio o hyn yn y Reserf Pensiwn yn fesur o effaith buddiol i'r Cyd-Bwyllgor o orfod trin buddion ymddeol ar sail llif arian yn hytrach na thros y cyfnod y mae'r gweithwyr yn derbyn y budd.

Mae'r Safon Cyfrifeg Rhyngwladol (SCRh) 19 yn rheoli sut y dylid trin a datgelu'r ymrwymiadau tymor hir sy'n bodoli mewn perthynas â chostau pensiwn. Mae'n ofynnol i gynghorau lleol (yn cynnwys Cyd-Bwyllgorau) Cymru a Lloegr baratoi eu datganiadau ariannol yn unol â gofynion SCRh19.

### 1.4.5 Buddion Dewisol

Mae gan y Cyd-Bwyllgor hefyd bwerau cyfyngedig i wneud dyfarniadau dewisol mewn achosion o ymddeoliadau cynnar. Bydd unrhyw ymrwymiadau sydd yn deillio o ddyfarniad o'r fath i unrhyw aelod o staff (yn cynnwys athrawon) yn cael eu cronni yn y flwyddyn y cymerwyd y penderfyniad i wneud y dyfarniad gan ddefnyddio'r un polisïau â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i gyfrifo amdanynt.

## NODYN 1 – POLISÏAU CYFRIFO (parhad)

### 1.5 Digwyddiadau Wedi'r Cyfnod Adrodd

Digwyddiadau ôl-fantolen yw'r digwyddiadau hynny, ffafriol ac anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd y cyfnod adrodd a'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddiad y Datganiad o'r Cyfrifon. Gellir adnabod dau fath o ddigwyddiad:

- y rhai hynny sy'n darparu tystiolaeth o amgylchiadau a oedd yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd – caiff y Datganiad o'r Cyfrifon ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath; a
- y rhai hynny sy'n dynodi amgylchiadau a gododd ar ôl y cyfnod adrodd – ni chaiff y Datganiad o'r Cyfrifon ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath, ond os ystyrir y byddai'n cael effaith faterol, yna byddai natur y digwyddiadau ynghyd ag amcangyfrif o'r effaith ariannol yn cael ei ddatgelu yn y nodiadau.

Nid yw unrhyw ddigwyddiadau sy'n digwydd wedi'r dyddiad awdurdodi cyhoeddiad yn cael eu hadlewyrchu yn y Datganiad o'r Cyfrifon.

### 1.6 Addasiadau Cyfnod Blaenorol, newidiadau i Bolisïau Cyfrifo, Amcangyfrifon a Gwallau

Gall yr angen i wneud addasiadau cyfnod blaenorol godi o ganlyniad i newid mewn polisïau cyfrifo neu i gywiro gwall sylweddol. Cyfrifir am newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifeg yn rhagolygol, h.y. yn y flwyddyn gyfredol a'r blynyddoedd i ddod a effeithir gan y newid, ac felly ni wneir addasiad cyfnod blaenorol.

Yr unig dro y gwneir newidiadau i bolisïau cyfrifo yw pan mae'n ofynnol gan ymarferion cyfrifo priodol neu fod y newid yn darparu gwybodaeth fwy dibynadwy neu berthnasol am effaith trafodion, digwyddiadau eraill ac amodau ar sefyllfa ariannol neu berfformiad ariannol y Cyd-Bwyllgor. Pan wneir newid, cyfrifir amdano yn ôl-weithredol (oni bai y nodir yn wahanol) trwy addasu balans agoriadol a ffigyrau cymharol y cyfnod blaenorol fel pe bai'r polisi wedi bodoli erioed.

Caiff gwallau materol a ddarganfyddir mewn ffigyrau cyfnodau blaenorol eu cywiro'n ôl-weithredol trwy addasu balans agoriadol a ffigyrau cymharol y cyfnod blaenorol.

### 1.7 Grantiau'r Llywodraeth a Chyfraniadau Eraill

Mae grantiau a chyfraniadau sy'n ymwneud â gwariant cyfalaf a refeniw yn cael eu cyfrifo ar sail groniadol, ac yn cael eu cydnabod ar unwaith fel incwm i'r gwasanaeth perthnasol o fewn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, oni bai bod amod ynghlwm wrth y grant neu gyfraniad nad yw'r Cyd-Bwyllgor wedi ei fodloni.

### 1.8 Gorbenion a Chostau Gwasanaethau Cefnogol

Mae'r taliadau am wasanaethau a ddarperir gan Adrannau Canolog Cefnogol o fewn Cyngor Gwynedd yn seiliedig ar gyfuniad o brisiau a bennir ymlaen llaw, amser y staff a gofnodir, cofnodi trafodion a fformiwlâu penodedig.

### 1.9 Darpariaethau

Mae'r Cyd-Bwyllgor yn gosod darpariaethau o'r neilltu ar gyfer ymrwymiadau penodol sy'n debygol neu'n sicr o godi ond ni ellir ar hyn o bryd eu pennu'n gywir. Gwneir darpariaethau hefyd ar gyfer dyledion sydd yn annhebyg o gael eu talu. Ysgrifennir dyledion drwg i ffwrdd yn erbyn y Cyd-Bwyllgor. Dosberthir y darpariaethau hyn fel ymrwymiadau tymor hir neu dymor byr fel sy'n briodol yn ddibynnol ar natur bob darpariaeth.

### 1.10 Reserfau

Mae reserfau penodol yn cael eu creu ar gyfer rhoi symiau o'r neilltu ar gyfer cynlluniau gwario'r dyfodol. Mae hyn yn cael ei wneud drwy drosglwyddiadau allan o'r Balans Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau.

Cedwir rhai reserfau eraill sef 'reserfau na ellir eu defnyddio', i bwrpasau technegol o reoli'r prosesau cyfrifo ar gyfer asedau anghyfredol, offerynnau ariannol a buddion gweithwyr. Nid yw'r rhain yn cynrychioli adnoddau defnyddiadwy y Cyd-Bwyllgor.

## NODYN 1 – POLISÏAU CYFRIFO (parhad)

### 1.11 Treth ar Werth

Dim ond mewn sefyllfa ble nad oes modd adennill TAW y cynhwysir TAW neu y caiff ei ddangos fel cost 'TAW anadferadwy' mewn gwariant refeniw. Nid yw'r Cyd-Bwyllgor wedi cofrestru gyda TAW. Mae'r TAW yn cael ei adennill drwy gofrestriad TAW Cyngor Gwynedd.

### 1.12 Dyledwyr a Chredydwyr

Cedwir Cyfrifon y Cyd-Bwyllgor ar sail cronni yn unol â'r Côd Ymarfer Cyfrifeg. Mae'r cyfrifon yn adlewyrchu gwir wariant ac incwm sy'n berthnasol i'r flwyddyn dan sylw, boed y taliadau a'r derbyniadau wedi cael eu talu neu eu derbyn yn y flwyddyn.

Eithriad i'r arfer yma yw taliadau chwarterol megis trydan, a gyfrifir yn ôl dyddiad darllen y mesurydd yn hytrach na rhannu'r gost rhwng gwahanol flynyddoedd ariannol, ac hefyd rhai taliadau blynyddol megis yswiriant. Trwy weithredu'r polisi'n gyson ymhob blwyddyn ni chaiff effaith o bwys ar gyfrifon y flwyddyn.

### 1.13 Contractau Tymor Hir

Mae contractau tymor hir yn cael eu cyfrifo ar sail o godi'r gwarged neu'r diffyg ar y Ddarpariaeth o Wasanaethau gyda'r ystyriaeth yn cael ei ddyrannu i'r rhwymedigaethau perfformiad bodlonwyd ar sail y nwyddau neu'r gwasanaethau a drosglwyddwyd i dderbynnydd y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn ariannol.

### 1.14 Gweithrediadau ar y Cyd

Gweithrediadau a reolir ar y cyd yw'r gweithgareddau sy'n cael eu hymgymryd â hwy ar y cyd â mentrwyr eraill sy'n cynnwys defnyddio asedau ac adnoddau'r mentrwyr yn hytrach na sefydlu endid ar wahân. Mae'r Cyd-Bwyllgor GwE wedi ei gategoreiddio fel Gweithred ar y Cyd.

Mae gweithrediadau ar y cyd yn drefniant ble mae gan y partïon sydd â chydreolaeth yr hawl i'r asedau a'r oblygiadau o'r ymrwymiadau sy'n gysylltiedig â'r trefniadau. Mae'r gweithgareddau y mae'r Cyd-Bwyllgor wedi ymgymryd â hwy ar y cyd â gweithredwyr eraill yn cynnwys defnyddio asedau ac adnoddau'r cyd-weithredwyr. Mewn perthynas â'i ddiddordeb mewn trefniant gweithred ar y cyd, mae'r Cyd-Bwyllgor fel gweithredwr ar y cyd yn cydnabod ei gyfran o'r asedau, ymrwymiadau, refeniw a gwariant.

## NODYN 2 – NEWID MEWN POLISI CYFRIFO

Mae'r polisiau cyfrifo presennol y Cyd-Bwyllgor wedi eu haddasu i adlewyrchu'r cyfarwyddiadau yn y Côd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2019/20.

## NODYN 3 - SAFONAU CYFRIFEG SYDD WEDI EU CYHOEDDI OND HEB EU MABWYSIADU ETO

H

Mae'r Côd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig CIPFA yn gofyn i effaith disgwyliedig unrhyw safonau cyfrifeg sydd wedi eu cyhoeddi ond heb eu mabwysiadu eto gael ei ddatgan. Mae hyn yn berthnasol i'r ymarferion newydd neu ddiwygiedig canlynol o fewn Côd 2020/21:-

*Addasiadau i SCRh 28 Buddsoddiadau mewn Endidau Cyswllt a Chyd-fentrau: Buddiannau Hirdymor mewn Partneriaethau Cyswllt a Chyd-fentrau*

*Gwelliannau Blynyddol i Safonau SAARh Cylchred 2015-17.*

*Addasiadau i SCRh 19 Buddiannau Gweithwyr: Newid Cynllun, Cwtogi neu Setliad.*

Mae'n ofynnol fod y Côd yn weithredol o 1 Ebrill 2020 ac felly nid oes unrhyw effaith ar Ddatganiad o'r Cyfrifon 2019/20, a does dim disgwyl i'r safonau newydd neu'r newidiadau o fewn Côd Ymarfer 2020/21 gael effaith materol ar yr wybodaeth a gyflwynir yn y datganiadau ariannol.

## NODYN 4 - BARN ALLWEDDOL WRTH DDEFNYDDIO'R POLISÏAU CYFRIFO

Wrth weithredu'r polisïau cyfrifo a restrir yn Nodyn 1, mae'r Cyd-Bwyllgor wedi gorfod barnu, gwneud amcangyfrifon a thybiaethau ynghylch trafodion cymhleth, rhai sy'n cynnwys ansicrwydd am ddigwyddiadau i'r dyfodol a symiau yr asedau ac ymrwymiadau i'w cario, nad yw'n amlwg o ffynonellau eraill.

Mae'r farn, amcangyfrifon a thybiaethau cysylltiol a wnaed wedi eu selio ar arferion cyfredol priodol, profiad hanesyddol a ffactorau eraill sy'n cynnwys tybiaethau a thafluniadau hanesyddol, cyfredol a rhagamcanion i'r dyfodol, asesiadau proffesiynol, tueddiadau cyfredol a ffactorau lleol a ystyrir yn berthnasol.

Yn y blynyddoedd diwethaf bu peth ansicrwydd am lefelau ariannu grantiau i'r dyfodol gan Lywodraeth Cymru. Mae'r mater yma yn rhan bwysig o Strategaeth Ariannol y Cyd-Bwyllgor sy'n cael ei ddiweddaru yn gyson, gyda'r ffactorau a wybyddir ac a ragwelir yn cael ystyriaeth briodol. Mae effaith penderfyniad Prydain i adael yr Undeb Ewropeaidd yn parhau i fod yn aneglur. Mae effaith yr argyfwng COVID-19 ar ddiwedd Mawrth 2020 yn factor arall i'w ystyried.

Gwneir pob ymdrech i ddod o hyd i, ac i ddefnyddio'r holl wybodaeth berthnasol wrth asesu a phennu'r sefyllfa, sy'n hynod allweddol wrth ystyried materion megis prisiad yr actiwari o asedau a rhwymedigaethau'r Gronfa Bensiwn, reserfau a glustnodwyd, darpariaethau ac ymrwymiadau dibynnol. Fodd bynnag, gan nad oes modd pennu'r materion hyn i sicrwydd gall y gwir ganlyniadau amrywio o'r amcangyfrifon. Mae'r amcangyfrifon a thybiaethau gwaelodol yn cael eu hadolygu'n gyson.

## NODYN 5 - TYBIAETHAU WEDI EU GWNEUD AM Y DYFODOL A FFYNONELLAU ERAILL O AMCANGYFRIF ANSICR

Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn cynnwys ffigyrau wedi eu hamcangyfrif yn seiliedig ar dybiaethau wedi eu gwneud gan y Cyd-Bwyllgor am y dyfodol neu sydd yn ansicr fel arall. Mae'r amcangyfrifon wedi eu seilio ar brofiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, gan na ellir pennu rhai balansau yn bendant, gall y canlyniadau terfynol fod yn wahanol i'r tybiaethau ac amcangyfrifon.

Mae'r eitem ganlynol ar Fantolen y Cyd-Bwyllgor ar 31 Mawrth 2020 yn un a ystyrir gyda risg sylweddol (o ran sicrwydd y gwerth a amcangyfrifir) a allai arwain at gywiriadau arwyddocaol yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod:

- **Ymrwymiad Pensiwn** - Mae sefyllfa'r Ymrwymiad Pensiwn a adlewyrchir yn y cyfrifon yn seiliedig ar nifer o asesiadau a dyfarniadau cymhleth a phroffiliau amrywiol gan gynnwys y gyfradd ddisgowntio a ddefnyddir, rhagolygon lefelau cyflog, newidiadau mewn oedran ymddeol, cyfradd marwolaethau a'r gyfradd adenillion ddisgwyliedig ar asedau'r Gronfa Bensiwn, yn unol â'r wybodaeth a ddarparwyd gan Actiwari'r Gronfa Bensiwn. Mae gwybodaeth bellach ar gael yn Nodyn 24 a 25

## NODYN 6 – EITEMAU MATEROL O INCWM A GWARIANT

Mae'r eitemau materol o incwm a gwariant yn cynnwys y canlynol:-

- (£1,800k) yn y maes pensiwn ar ailfesuriad o'r asedau buddion pensiwn diffiniedig net yn y maes penisynau, yn unol ag asesiad Actiwari Cronfa Bensiwn Gwynedd (Nodyn 16).
- £14,551k mewn grantiau a chyfraniadau a'r gwariant cyfatebol (Nodyn 21). Lleihad o £1,514k o'i gymharu â 2018/19.

## NODYN 7 – NODYN I'R DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU

| **2019/20** | **ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU** | | | |
|---|---|---|---|---|
| Addasiadau o'r Gronfa Gyffredinol i ddod i'r ffigyrau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | **Addasiadau i bwrpas Cyfalaf** | **Gwahaniaeth Net i'r Addasiadau Pensiwn (i)** | **Gwahaniaethau Eraill (ii)** | **Cyfanswm Addasiadau** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Gweithwyr | 0 | 904 | 3 | 907 |
| Eiddo | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cludiant | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwasanaethau a Chyflenwadau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Trydydd Parti | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Costau Heb eu Dosrannu | 0 | 71 | 0 | 71 |
| Incwm | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cost Gwasanaethau** | **0** | **975** | **3** | **978** |
| Gwariant Gweithredol Arall | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi | 0 | 225 | 0 | 225 |
| Treth ac Incwm Grant Amhenodol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **(Gwarged)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau** | **0** | **1,200** | **3** | **1,203** |

| **2018/19** | **ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU** | | | |
|---|---|---|---|---|
| Addasiadau o'r Gronfa Gyffredinol i ddod i'r ffigyrau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | **Addasiadau i bwrpas Cyfalaf** | **Gwahaniaeth Net i'r Addasiadau Pensiwn (i)** | **Gwahaniaethau Eraill (ii)** | **Cyfanswm Addasiadau** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Gweithwyr | 0 | 652 | 10 | 662 |
| Eiddo | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cludiant | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwasanaethau a Chyflenwadau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Trydydd Parti | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Incwm | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cost Gwasanaethau** | **0** | **652** | **10** | **662** |
| Gwariant Gweithredol Arall | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi | 0 | 191 | 0 | 191 |
| Treth ac Incwm Grant Amhenodol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **(Gwarged)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau** | **0** | **843** | **10** | **853** |

**(i) Gwahaniaeth Net i'r Addasiadau Pensiynau**

Newidiadau net ar gyfer dileu cyfraniadau pensiwn ac ychwanegiadau *Buddion Gweithwyr* SCRh 19 sy'n gysylltiedig â chostau ac incwm pensiwn:

- Ar gyfer **Gwasanaethau** – mae hyn yn cynrychioli hepgor y cyfraniadau pensiwn cyflogwr wnaed gan y Cyd-Bwyllgor fel y caniateir trwy statud a'u amnewid gyda'r costau gwasanaeth cyfredol a'r costau gwasanaeth hanesyddol.
- Ar gyfer **Incwm a gwariant ariannu a buddsoddi** – y llog net ar y rhwymedigaeth budd diffiniedig sy'n gost yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

**(ii) Gwahaniaethau Eraill**

Mae gwahaniaethau eraill rhwng y swm sy'n cael ei ddebydu/credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r symiau sy'n daladwy/derbyniadwy i gael eu cydnabod trwy statud:

- Ar gyfer **Gwasanaethau**, mae'r swm yn cynrychioli addasiad am groniad absenoldebau a ennillwyd ond heb eu cymryd yn ystod y flwyddyn.
- Ar gyfer **Incwm a gwariant ariannu a buddsoddi,** mae'r golofn gwahaniaethau eraill yn cydnabod addasiadau i'r Gronfa Gyffredinol ar gyfer gwahaniaethau amseru am bremiymau a disgownt.

## NODYN 8 - ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU

Mae'r nodyn hwn yn manylu ar yr addasiadau a wneir i gyfanswm yr incwm a gwariant cynhwysfawr a gydnabyddir gan y Cyd-Bwyllgor yn ystod y flwyddyn yn unol ag ymarferion cyfrifo priodol i'r adnoddau hynny a benodir gan ddarpariaethau statudol yn rhai sydd ar gael i'r Cyd-Bwyllgor i gwrdd â gwariant yn y dyfodol.

| **2019/20**<br><br>**ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU** | **Reserf Defnyddiadwy Balans Cronfa Gyffredinol** | **Symudiad mewn Reserfau na ellir eu defnyddio** |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| **Addasiadau yn ymwneud â'r Gronfa Bensiwn:** | | |
| Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â budd-dal ymddeol wedi eu debydu/ credydu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (Nodyn 25) | (1,796) | 1,796 |
| Cyfraniadau pensiwn y Cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sydd yn daladwy yn y flwyddyn | 596 | (596) |
| **Addasiadau yn bennaf ymwneud â'r Cyfrif Absenoldeb Cronedig** | | |
| Gwahaniaeth rhwng taliadau swyddogion sydd wedi ei gynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau a'r taliadau swyddogion yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol | (3) | 3 |
| **Cyfanswm Addasiadau** | **(1,203)** | **1,203** |

| **2018/19**<br><br>**ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU** | **Reserf Defnyddiadwy Balans Cronfa Gyffredinol** | **Symudiad mewn Reserfau na ellir eu defnyddio** |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| **Addasiadau yn ymwneud â'r Gronfa Bensiwn:** | | |
| Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â budd-dal ymddeol wedi eu debydu/ credydu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (Nodyn 25) | (1,437) | 1,437 |
| Cyfraniadau pensiwn y Cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sydd yn daladwy yn y flwyddyn | 594 | (594) |
| **Addasiadau yn bennaf ymwneud â'r Cyfrif Absenoldeb Cronedig** | | |
| Gwahaniaeth rhwng taliadau swyddogion sydd wedi ei gynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau a'r taliadau swyddogion yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol | (10) | 10 |
| **Cyfanswm Addasiadau** | **(853)** | **853** |

## NODYN 9 – TROSGLWYDDIAD I/O RESERFAU A GLUSTNODWYD

Mae'r nodyn isod yn amlygu'r swm a neilltuwyd o'r Gronfa Gyffredinol mewn reserfau a glustnodwyd er mwyn darparu cyllid ar gyfer cynlluniau gwario'r dyfodol, gyda cynnydd net o £370k.

**Reserfau a Glustnodwyd**

| | **Reserfau Cyd-Bwyllgor GwE** |
|---|---|
| | **£'000** |
| **Balans 31 Mawrth 2019** | **341** |
| Trosglwyddiadau: Mewn | 370 |
| **Balans 31 Mawrth 2020** | **711** |

## NODYN 10 – GWARIANT AC INCWM ARIANNU A BUDDSODDI

| **2018/19** | | **2019/20** |
|---|---|---|
| **£'000** | | **£'000** |
| 191 | Llog net ar yr ymrwymiadau/(asedau) buddion pensiwn diffiniedig net | 225 |
| **191** | **Cyfanswm** | **225** |

## NODYN 11 – DYLEDWYR TYMOR BYR

| | **31 Mawrth 2019** | **31 Mawrth 2020** |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Symiau Derbyniadwy Masnach | 142 | 91 |
| Blaendaliadau | 49 | 70 |
| Symiau Derbyniadwy Eraill | 74 | 315 |
| **Cyfanswm** | **265** | **476** |

## NODYN 12 – ARIAN A CHYFWERTHOEDD ARIAN

Nid oes gan y Cyd-Bwyllgor gyfrif banc ei hun a gweinyddir yr holl arian parod gan Cyngor Gwynedd o fewn ei gyfrifon ei hun. Dangosir un ffigwr net yn flynyddol yn y tabl, sef swm net yr arian parod wedi ei ddal ar ran y Cyd-Bwyllgor o fewn symiau Cyngor Gwynedd.

| | 31 Mawrth 2019 £'000 | 31 Mawrth 2020 £'000 |
|---|---|---|
| Arian Mewn Llaw | 2,872 | 2,557 |
| **Arian a Chyfwerthoedd Arian** | **2,872** | **2,557** |
| **Cyfanswm** | **2,872** | **2,557** |

## NODYN 13 – CREDYDWYR TYMOR BYR

| | 31 Mawrth 2019 £'000 | 31 Mawrth 2020 £'000 |
|---|---|---|
| Symiau Taladwy Masnach | 417 | 430 |
| Symiau Taladwy Eraill | 2,004 | 1,479 |
| **Cyfanswm** | **2,421** | **1,909** |

## NODYN 14 – DARPARIAETHAU

Mae'r Cyd-Bwyllgor yn gosod o'r neilltu ddarpariaethau ar gyfer ymrwymiadau penodol na ellir ar hyn o bryd eu pennu'n sicr o ran maint neu amser. Ni chaniateir, yn unol ag egwyddorion cyfrifeg, i wneud darpariaethau ar gyfer patrymau gwariant anwastad. Fodd bynnag, gellir sefydlu reserfau wedi eu clustnodi a dangosir y rheiny yn Nodyn 9.

| | Balans ar 31 Mawrth 2019 £'000 | (Ychwanegiad) / Gostyngiad / Trosglwyddiad £'000 | Defnydd yn y flwyddyn £'000 | Balans ar 31 Mawrth 2020 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Darpariaethau Tymor Byr** | | | | |
| Darpariaeth Cynllun Ceir Gwyrdd | (3) | 0 | 0 | (3) |
| | (3) | 0 | 0 | (3) |

**Darpariaeth Cynllun Ceir Gwyrdd** – darpariaeth ar gyfer gofynion cynllun prydlesu ceir staff.

## NODYN 15 – RESERFAU DEFNYDDIADWY

Mae'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau yn manylu ar y symudiad yn reserfau defnyddiadwy'r Cyd-Bwyllgor.

## NODYN 16 – RESERFAU NA ELLIR EU DEFNYDDIO

| 31 Mawrth 2019 | | 31 Mawrth 2020 |
|---|---|---|
| £'000 | | £'000 |
| (8,904) | Reserf Pensiynau | (8,304) |
| (89) | Cyfrif Absenoldeb Cronedig | (92) |
| **(8,993)** | **Cyfanswm Reserfau na ellir eu defnyddio** | **(8,396)** |

**Reserf Pensiynau**

Mae'r Reserf Pensiynau yn amsugno'r gwahaniaethau amser sydd yn deillio o wahanol drefniadau cyfrifo ariannu buddion ymddeol yn unol â darpariaethau statudol. Mae'r Cyd-Bwyllgor yn cyfrifo buddion ymddeol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel mae'r buddion yn cronni blynyddoedd o wasanaeth, gyda'r ymrwymiad yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu chwyddiant, newid tybiaethau ac enillion buddsoddiadau gan unrhyw adnoddau wedi ei neilltuo i gwrdd â'r gost. Fodd bynnag, mae anghenion statudol yn gofyn i fuddion wedi eu hennill cael eu hariannu fel y mae'r Cyd-Bwyllgor yn cyfrannu dros y gweithwyr i'r gronfa bensiwn neu fel mae'n talu'r pensiynau hynny mae'n uniongyrchol gyfrifol amdanynt. Mae balans debyd yn y Reserf Pensiynau felly yn dangos diffyg sylweddol yn y buddion enillwyd gan gyn weithwyr a gweithwyr presennol a'r adnoddau mae'r Cyd-Bwyllgor wedi neilltuo i'w cyfarfod. Mae'r trefniadau statudol yn sicrhau bydd arian wedi ei neilltuo erbyn bydd y buddion angen eu talu.

| 2018/19 | | 2019/20 |
|---|---|---|
| £000 | | £000 |
| **(6,748)** | **Balans 1 Ebrill** | **(8,904)** |
| (1,313) | Ailfesuriad o'r (ymrwymiadau) / asedau buddion pensiwn diffiniedig net (Nodyn 25) | 1,800 |
| (1,437) | Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â budd-dal ymddeol sydd wedi eu debydu neu gredydu i'r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | (1,796) |
| 594 | Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn y flwyddyn | 596 |
| **(8,904)** | **Balans 31 Mawrth** | **(8,304)** |

## NODYN 16 – RESERFAU NA ELLIR EU DEFNYDDIO (parhad)

**Cyfrif Absenoldeb Cronedig**

Mae'r Cyfrif Absenoldeb Cronedig yn amsugno'r gwahaniaethau fyddai fel arall yn ymddangos ar Falans y Gronfa Gyffredinol trwy gronni absenoldebau cyfadfer enilledig ond heb eu cymryd yn y flwyddyn, e.e. hawl gwyliau blynyddol a ddygir ymlaen ar 31 Mawrth. Mae trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i'r effaith ar Falans y Gronfa Gyffredinol gael ei niwtraleiddio gan drosglwyddiadau i neu o'r Cyfrif.

| **2018/19** | | **2019/20** |
|---|---|---|
| **£000** | | **£000** |
| **(79)** | **Balans 1 Ebrill** | **(89)** |
| (10) | Gwahaniaeth rhwng taliadau swyddogion sydd wedi eu cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau a'r taliadau swyddogion yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol | (3) |
| **(89)** | **Balans 31 Mawrth** | **(92)** |

## NODYN 17 – DATGANIAD LLIF ARIAN: ADDASIADAU I'R GWARGED NEU DDIFFYG NET AR DDARPARU GWASANAETHAU AM SYMUDIADAU ANARIANNOL

| **2018/19** | | **2019/20** |
|---|---|---|
| **£'000** | | **£'000** |
| 1,825 | (Cynnydd)/Gostyngiad mewn Credydwyr | 512 |
| (4,045) | Cynnydd/(Gostyngiad) mewn Dyledwyr | 211 |
| (843) | Ymrwymiad Pensiwn | (1,200) |
| (197) | Eitemau anariannol eraill sydd wedi eu cynnwys yn y gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaeth | (41) |
| **(3,260)** | | **(518)** |

## NODYN 18 – DIGWYDDIADAU WEDI DYDDIAD Y FANTOLEN

Awdurdodwyd y datganiad o gyfrifon gan y Pennaeth Cyllid ar 3 Mehefin 2020. Nid yw digwyddiadau sy'n cael eu cynnal ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hadlewyrchu yn y datganiadau neu nodiadau ariannol. Lle'r oedd digwyddiadau a oedd yn digwydd cyn y dyddiad hwn yn darparu gwybodaeth am amodau a oedd yn bodoli ar 31 Mawrth 2020, mae'r ffigurau yn y datganiadau a'r nodiadau ariannol wedi'u haddasu ym mhob ffordd materol i adlewyrchu effaith y wybodaeth hon.

## NODYN 19 – TALIADAU I SWYDDOGION

**19a.** Mae Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018, yn gosod dyletswydd ar y Cyd-Bwyllgor i ddatgan y wybodaeth ganlynol ar rhai sydd wedi eu dynodi fel Uwch Swyddogion, sy'n derbyn chyflog rhwng £60,000 a £150,000. Yn unol â'r gofynion diffiniedig, cynhwysir isod y cyflog pensiynadwy, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a chostau eraill y cyflogwr (sydd yn cynnwys buddion diswyddo), ond ni chynhwysir cyfraniadau yswiriant gwladol y cyflogwr. Gwnaed y taliadau canlynol i uwch swyddogion y Cyd-Bwyllgor sydd wedi eu cyflogi'n uniongyrchol gan GwE:

| 2018/19 | | | | Uwch Swyddogion | 2019/20 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflog | Cyfraniadau Pensiwn Cyflogwr | Costau Eraill Cyflogwr | Cyfanswm | | Cyflog | Cyfraniadau Pensiwn Cyflogwr | Cyfanswm |
| £ | £ | £ | £ | | £ | £ | £ |
| 100,333 | 22,675 | 0 | 123,008 | Prif Swyddog | 100,896 | 22,803 | 123,699 |

**19b.** Talwyd y symiau canlynol i weithwyr eraill y Cyd-Bwyllgor a dderbyniodd mwy na £60,000 o dâl am y flwyddyn (ac eithrio cyfraniadau pensiwn ac yswiriant gwladol y cyflogwr) ond sydd yn cynnwys costau diswyddo. Nid oedd yna unrhyw gostau diswyddo perthnasol yn 2019/20 nac yn 2018/19.

| Nifer gweithwyr eraill a dderbyniodd mwy na £60,000 sydd yn cynnwys cyflogau a chostau diswyddo: | | |
|---|---|---|
| Nifer yn 2018-19 | | Nifer yn 2019-20 |
| Cyfanswm | | Cyfanswm |
| 10 | £60,000 - 64,999 | 8 |
| 4 | £65,000 - 69,999 | 3 |
| 0 | £70,000 - 74,999 | 1 |

## NODYN 20 – COSTAU ARCHWILIO ALLANOL

Mae'r Cyd-Bwyllgor wedi derbyn y costau isod ar gyfer archwilio allanol.

| 2018/19 | | 2019/20 |
|---|---|---|
| £'000 | | £'000 |
| 11 | Ffioedd taladwy i archwilydd apwyntwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru am wasanaethau archwilio allanol | 11 |
| **11** | **Ffioedd Net** | **11** |

Mae Cwmni Deloitte wedi eu penodi gan Archwilydd Cyffredinol Cymru fel archwilydd allanol i Gyngor Gwynedd, ac felly GwE.

## NODYN 21 – INCWM GRANT

**21a.** Mae'r Cyd-Bwyllgor wedi credydu'r grantiau, cyfraniadau a rhoddion canlynol i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:

| | 2018/19 | | 2019/20 | |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Grantiau a Chyfraniadau wedi eu Credydu i Wasanaethau** | | | | |
| Llywodraeth Cymru - | | | | |
| Grant Datblygu Disgyblion - Plant Mewn Gofal | 874 | | 970 | |
| Grant Datblygu Disgyblion - Cynghorydd Strategol | 0 | | 100 | |
| Arall | 263 | | 153 | |
| | | **1,137** | | **1,223** |
| Grant Gwella Ysgolion Consorita Rhanbarthol - | | | | |
| Llywodraeth Cymru (heb gynnwys y GGA) | | **7,077** | | **5,824** |
| Grant Gwella Addysg (GGA) | | | | |
| Llywodraeth Cymru | 2,002 | | 1,836 | |
| Ariannu Cyfatebol gan Gynghorau | 1,232 | | 1,165 | |
| | | **3,234** | | **3,001** |
| Grantiau a Chyfraniadau gan Lywodraeth arall | | | | |
| Cyngor Chwaraeon Cymru | 10 | | 1 | |
| Cyngor Gweithlu Addysg | 309 | | 251 | |
| Cyngor Celfyddydau Cymru | 0 | | 5 | |
| | | **319** | | **257** |
| Grantiau a Chyfraniadau eraill | | | | |
| Cyfraniadau'r Cynghorau tuag at y Gwasanaeth Craidd | | | | |
| Conwy | 633 | | 625 | |
| Dinbych | 626 | | 623 | |
| Fflint | 932 | | 927 | |
| Gwynedd | 725 | | 720 | |
| Ynys Môn | 420 | | 417 | |
| Wrecsam | 778 | | 772 | |
| | | **4,114** | | **4,084** |
| Grantiau a Chyfraniadai eraill | | **184** | | **162** |
| **Cyfanswm Grantiau a Chyfraniadau wedi eu Credydu i Wasanaethau** | | **16,065** | | **14,551** |

## NODYN 21 – INCWM GRANT (parhad)

**21b.** Mae'r Cyd-Bwyllgor wedi derbyn grantiau, cyfraniadau neu roddion sydd eto i'w adnabod fel incwm gan fod amodau wedi ei glynu i'r grantiau sy'n golygu ella y bydd rhaid dychwelyd yr arian i'r rhoddwr. Mae'r balans ar ddiwedd y flwyddyn fel a ganlyn:

| | 31 Mawrth 2019 £'000 | 31 Mawrth 2020 £'000 |
|---|---|---|
| **Derbyniadau Grantiau a Chyfraniadau Ymlaen Llaw** | | |
| **Tymor Byr** | | |
| Rhaglen Athrawon Newydd Gymhwyso | 344 | 493 |
| Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol | 117 | 0 |
| Arall | 0 | 9 |
| **Cyfanswm** | **461** | **502** |

## NODYN 22 – PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Mae'n ofynnol i'r Cyd-Bwyllgor ddatgelu trafodaethau materol-berthnasol gyda phartïon cysylltiedig - cyrff neu unigolion sydd â'r potensial i reoli neu ddylanwadu'r Cyd-Bwyllgor, neu i gael eu rheoli neu ddylanwadu gan y Cyd-Bwyllgor. Mae datgelu'r trafodaethau hyn yn galluogi'r darllenwyr i asesu a oes cyfyngiad ar allu'r Cyd-Bwyllgor i weithredu'n annibynnol, neu a yw'n medru cyfyngu ar allu parti arall i fargeinio'n rhydd gyda'r Cyd-Bwyllgor. I gydymffurfio efo'r gofynion, gwneir hyn drwy ofyn i'r Aelodau a'r Uwch Swyddog gwblhau datganiad personol, fel a ddiffinnir yng Nghôd Ymarfer CIPFA.

**Aelodau**
Mae gan aelodau'r Cyd-Bwyllgor ddylanwad dros bolisïau ariannol a gweithredol y Cyd-Bwyllgor.

Mae aelodau wedi datgan diddordeb neu berthynas (fel y diffinir) mewn cwmnïau neu fusnesau a all fod yn ymdrin â'r Cyd-Bwyllgor. Mae dadansoddiad o'r taliadau a wnaed i'r cwmnïau yma yn ystod 2019/20 a'r balansau ar 31 Mawrth 2020 o dan y pennawd yma fel a ganlyn:

| Taliadau a wnaethpwyd £'000 | Symiau sy'n ddyledus gan y Cyd-Bwyllgor £'000 | Symiau sy'n ddyledus i'r Cyd-Bwyllgor £'000 |
|---|---|---|
| 183 | 2 | 0 |

Mae'r ffigyrau yn seiliedig ar y wybodaeth parthed dychweliadau Cynghorwyr.

**Swyddogion**
Mae Uwch Swyddog y Cyd-Bwyllgor wedi datgan fel sydd yn ofynnol a phriodol, ddiddordeb neu berthynas mewn cwmnïau, cyrff gwirfoddol, elusennol neu gyhoeddus sydd yn derbyn taliadau gan y Cyd-Bwyllgor. Yn ystod 2019/20, ni wnaed unrhyw daliadau i'r cwmnïau a chyrff yma ac nid oes unrhyw swm yn ddyledus gan nac i'r Cyd-Bwyllgor gan y cwmnïau a chyrff a nodwyd.

## NODYN 23 – PECYNNAU TERFYNU GWAITH

Nid oedd yna becynnau terfynu gwaith yn ystod 2019/20 na 2018/19.

## NODYN 24 - CYNLLUNIAU PENSIWN A GYFRIFIR AMDANYNT FEL CYNLLUNIAU CYFRANIADAU DIFFINIEDIG

Mae athrawon sy'n cael eu cyflogi gan y Cyd-Bwyllgor yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Athrawon, sy'n cael ei weinyddu gan yr Adran dros Addysg y Llywodraeth. Mae'r cynllun yn rhoi buddion penodol i Athrawon ar eu hymddeoliad, ac mae'r Cyd-Bwyllgor yn cyfrannu tuag at y gost drwy dalu cyfraniadau sy'n seiliedig ar dâl pensiynadwy aelodau.

Mewn egwyddor, cynllun buddiannau diffiniedig yw'r cynllun. Er hynny, mae'r cynllun heb ei ariannu ac mae'r Adran dros Addysg yn defnyddio cronfa ddamcaniaethol er mwyn cyfrifo cyfradd cyfraniad cyflogwyr i'w talu gan awdurdodau lleol. Nid yw'r Cyd-Bwyllgor yn gallu adnabod ei ran o'r sefyllfa ariannol waelodol a pherfformiad y cynllun gyda digon o ddibynadwyedd at ddibenion cyfrifo. At ddiben y Datganiad o'r Cyfrifon, maent felly yn cael eu cyfrifo ar yr un sail a chynllun cyfraniadau diffiniedig.

Nid oedd aelod o staff y Cyd-bwyllgor yn rhan o'r Cynllun Pensiwn Athrawon, ac felly ni wnaethpwyd gyfraniad yn 2019/20, (Yn 2018/19 talodd y Cyd-Bwyllgor £10k am gost pensiwn athrawon, oedd yn cynrychioli 16.48%, o dâl pensiynadwy athrawon). Yn ychwanegol at hyn mae'r Cyd-Bwyllgor yn gyfrifol am gostau unrhyw fuddiannau ychwanegol a ddyfarnir ar ymddeoliad cynnar tu allan i delerau'r cynllun athrawon. Nid oedd unrhyw gostau am hyn yn 2019/20 nac yn 2018/19. Cyfrifir am y costau hyn ar sail buddiannau diffiniedig a'u cynhwysir yn Nodyn 25.

## NODYN 25 – COSTAU PENSIWN

Fel rhan o delerau ac amodau gwaith eu swyddogion a'u gweithwyr eraill, mae'r Cyd-Bwyllgor yn gwneud cyfraniadau at gostau buddiannau ôl-gyflogaeth. Er na fydd y buddion yma yn daladwy hyd nes i'r gweithwyr ymddeol, mae gan y Cyd-Bwyllgor ymrwymiad i wneud y taliadau. Mae'n rhaid eu dangos ar yr adeg mae'r gweithwyr yn ennill eu hawliau yn y dyfodol.

Mae GwE yn ymwneud â dau gynllun buddiannau ar ôl-gyflogaeth:

a) **Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol** a weinyddir yn lleol gan Gyngor Gwynedd. Mae'n gynllun wedi ei ariannu, gyda buddion diffiniedig yn seiliedig ar gyflog terfynol tan 31 Mawrth 2014 ac yn seiliedig ar gyflog cyfartaledd gyrfa o 1 Ebrill 2014. Mae'r Cyd-Bwyllgor a'r gweithwyr yn talu cyfraniadau i'r gronfa, sydd wedi eu cyfrifo ar lefel sydd i fod i falansio'r ymrwymiadau pensiwn gyda'r asedau a fuddsoddir.

b) **Trefniadau ar gyfer dyfarniad buddiannau ar ôl ymddeol wrth ymddeol yn fuan**. Trefniant buddion a ddiffinnir heb ei ariannu yw hyn, lle adnabyddir yr ymrwymiadau wrth wneud y dyfarniad. Fodd bynnag, nid oes asedau buddsoddi wedi eu cronni er mwyn cwrdd â'r ymrwymiadau pensiwn, ac mae angen cynhyrchu arian er mwyn cwrdd â gwir daliadau pensiynau wrth iddynt ddod yn ddyledus.

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cael ei gweithredu dan y fframwaith rheoleiddio ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a Phwyllgor Pensiynau Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am lywodraethu'r cynllun. Caiff polisi ei bennu yn unol â Rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Yn y gorffennol mae rheolwyr buddsoddiadau'r gronfa wedi cael eu penodi gan Bwyllgor Cronfa Bensiwn Gwynedd. Wrth i'r buddsoddiadau gael eu trosglwyddo i Bartneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) caiff y rheolwyr eu penodi gan y bartneriaeth.

Y prif risgiau i'r Cyd-Bwyllgor o'r cynllun yw'r rhagdybiaethau hirhoedledd, newidiadau statudol i'r cynllun, newidiadau strwythurol i'r cynllun (megis nifer fawr yn tynnu allan o'r cynllun), newidiadau i chwyddiant, enillion bondiau a pherfformiad buddsoddiadau ecwiti a ddelir yn y cynllun. Mae'r rhain wedi'u lliniaru i ryw raddau gan y gofynion statudol i godi'r symiau sy'n ofynnol gan statud fel y disgrifir yn y nodyn polisïau cyfrifo i'r Cyd-Bwyllgor.

### Trafodion sydd yn Perthyn i Fuddion Ôl-gyflogaeth

Mae'r Cyd-Bwyllgor yn adnabod cost y buddion ymddeol yn y gost gwasanaethau a adroddir pan mae gweithwyr yn eu hennill, yn hytrach na phan fydd y buddion yn cael eu talu fel pensiynau. Fodd bynnag, mae'r gost sydd angen ei wneud yn erbyn treth y cyngor (trwy gyfraniadau'r Cynghorau) yn seiliedig ar yr arian a delir yn ystod y flwyddyn syn golygu bod gwir gost buddion ar ôl gyflogaeth/ymddeol yn cael ei wrth-droi allan o'r Gronfa Gyffredinol y Cyd-Bwyllgor trwy'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau. Yn ystod y flwyddyn mae'r trafodion canlynol wedi cael eu gwneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a Balans y Gronfa Gyffredinol trwy'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau.

## NODYN 25 – COSTAU PENSIWN (parhad)

| **Newid mewn Gwerth Teg Asedau'r Cynllun, Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir ac Ymrwymiad Net** | **Cyfnod yn gorffen 31 Mawrth 2019** | | | **Cyfnod yn gorffen 31 Mawrth 2020** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Asedau** | **Ymrwymiadau** | **(Ymrwymiadau) /asedau net** | **Asedau** | **Ymrwymiadau** | **(Ymrwymiadau) /asedau net** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Gwerth Teg Asedau'r Cynllun | 15,969 | 0 | 15,969 | 17,783 | 0 | 17,783 |
| Gwerth Presennol Ymrwymiadau wedi eu hariannu | 0 | (22,717) | (22,717) | 0 | (26,687) | (26,687) |
| Gwerth Presennol Ymrwymiadau heb eu Hariannu | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Sefyllfa Agoriadol ar 1 Ebrill** | **15,969** | **(22,717)** | **(6,748)** | **17,783** | **(26,687)** | **(8,904)** |
| Cost Gwasanaeth | | | | | | |
| Cost Gwasanaeth Cyfredol* | 0 | (1,246) | (1,246) | 0 | (1,500) | (1,500) |
| Cost Gwasanaeth y Gorffennol (gan gynnwys cwtogiadau) | 0 | 0 | 0 | 0 | (71) | (71) |
| **Cyfanswm Cost Gwasanaeth** | **0** | **(1,246)** | **(1,246)** | **0** | **(1,571)** | **(1,571)** |
| Llog Net | | | | | | |
| Incwm Llog ar Asedau'r Cynllun | 437 | 0 | 437 | 433 | 0 | 433 |
| Cost Llog ar Fuddion a Ddiffinnir Ymrwymiad | 0 | (628) | (628) | 0 | (658) | (658) |
| **Cyfanswm Llog Net** | **437** | **(628)** | **(191)** | **433** | **(658)** | **(225)** |
| **Cyfanswm Cost Buddion a Ddiffinnir a Adnabyddir mewn Elw / (Colled)** | **437** | **(1,874)** | **(1,437)** | **433** | **(2.229)** | **(1,796)** |
| Llif Arian | | | | | | |
| Cyfraniadau Aelodau'r Cynllun | 260 | (260) | 0 | 273 | (273) | 0 |
| Cyfraniadau y Cyflogwr | 568 | 0 | 568 | 599 | 0 | 599 |
| Cyfraniadau ynglŷn â buddion wedi eu hariannu | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Buddion a Dalwyd | (345) | 345 | 0 | (433) | 433 | 0 |
| Buddion Heb eu Hariannu a Dalwyd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Sefyllfa Cau y Disgwylir** | **16.889** | **(24,506)** | **(7,617)** | **18,655** | **(28,756)** | **(10,101)** |
| Ail Fesuriadau | | | | | | |
| Newid mewn Tybiaethau Demograffig | 0 | 0 | 0 | 0 | 1,036 | 1,036 |
| Newid mewn Tybiaethau Ariannol | 0 | (2,181) | (2,181) | 0 | 2,480 | 2,480 |
| Profiadau Eraill | 0 | 0 | 0 | 0 | (686) | (686) |
| Enillion ar Asedau ac eithrio symiau a gynhwysir yn llog net | 894 | 0 | 894 | (1,033) | 0 | (1,033) |
| **Cyfanswm yr Holl Ail Fesuriadau yn Incwm Cynhwysfawr Arall (ICA)** | **894** | **(2,181)** | **(1,287)** | **(1,033)** | **2,830** | **1,797** |
| Gwerth Teg Asedau'r Cyflogwr | 17,783 | 0 | 17,783 | 17,622 | 0 | 17,622 |
| Gwerth Presennol Ymrwymiadau wedi eu hariannu | 0 | (26,687) | (26,687) | 0 | (25,926) | (25,926) |
| Gwerth Presennol Ymrwymiadau heb eu hariannu** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Sefyllfa Cau ar 31 Mawrth** | **17,783** | **(26,687)** | **(8,904)** | **17,622** | **(25,926)** | **(8,304)** |

* Mae'r cost gwasanaeth cyfredol yn cynnwys lwfans 0.5% cyflogau ar gyfer costau gweinyddiaeth.

## NODYN 25 – COSTAU PENSIWN (parhad)

### Prif Gategorïau Asedau'r Cynllun fel Canran o Gyfanswm Asedau'r Cynllun

Mae'r Actiwari wedi darparu dadansoddiad manwl o asedau'r Gronfa yn unol â gofynion SCRh19. Mae'r dadansoddiad hwn yn gwahaniaethu rhwng natur a risg yr asedau hynny ac yn eu torri i lawr ymhellach i'r rheini sydd â dyfynbris mewn marchnad actif, a'r rheiny sydd ddim yn cael eu dyfynnu. Tybir bod rhaniad asedau GwE ar yr un gyfran â dyraniad asedau'r Gronfa fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2019. Mae'r tabl isod yn dangos y rhaniad. Mae'r Actiwari yn amcangyfrif bod gwerth bid asedau'r Gronfa yn £1,947m ar 31 Mawrth 2020, yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan yr Awdurdod Gweinyddol a chan roi ystyriaeth i enillion mynegai lle bo hynny'n briodol. Dim ond rhan o'r Gronfa sy'n berthnasol i'r GwE.

### Gwerth Teg Asedau'r Cyflogwr

Mae gwerth yr asedau isod a'r gwerth bid yn unol â gofynion SCRh19.

| **Categori Ased** | **Ar 31 Mawrth 2019** | | | | **Ar 31 Mawrth 2020** | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Prisiau a ddyfynnwyd mewn Marchnadoedd Gweithredol** | **Prisiau na ddyfynnir mewn Marchnadoedd Gweithredol** | **Cyfanswm** | | **Prisiau a ddyfynnwyd mewn Marchnadoedd Gweithredol** | **Prisiau na ddyfynnir mewn Marchnadoedd Gweithredol** | **Cyfanswm** | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | % | £'000 | £'000 | £'000 | % |
| **Ernesau Ecwiti** | | | | | | | | |
| Defnyddiwr | 443 | 0 | 443 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cynhyrchu | 532 | 0 | 532 | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ynni a Gwasanaethau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sefydliadau Ariannol | 208 | 0 | 208 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Iechyd a Gofal | 1,137 | 0 | 1,137 | 6 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Technoleg Gwybodaeth | 311 | 0 | 311 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Eraill | 604 | 0 | 604 | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Ernesau Dyledion** | | | | | | | | |
| Eraill | 0 | 2,584 | 2,584 | 15 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Ecwiti Preifat** | | | | | | | | |
| Y cyfan | 0 | 965 | 965 | 5 | 0 | 1,103 | 1,103 | 6 |
| **Eiddo Diriaethol** | | | | | | | | |
| Eiddo y DU | 565 | 1,061 | 1,626 | 9 | 0 | 1,729 | 1,729 | 10 |
| Eiddo Tramor | 0 | 9 | 9 | 0 | 0 | 2 | 2 | 0 |
| **Cronfeydd Buddsoddi ac Ymddiriedolaethau Unedol** | | | | | | | | |
| Ecwiti | 3,460 | 5,097 | 8,557 | 48 | 0 | 11,760 | 11,760 | 67 |
| Is-adeiladwaith | 0 | 350 | 350 | 2 | 0 | 400 | 400 | 2 |
| Eraill | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2,536 | 2,536 | 14 |
| **Arian a Chyfwerthoedd Arian** | | | | | | | | |
| Y cyfan | 457 | 0 | 457 | 3 | 92 | 0 | 92 | 1 |
| **Cyfanswm** | **7,717** | **10,066** | **17,783** | **100** | **92** | **17,530** | **17,622** | **100** |

## NODYN 25 – COSTAU PENSIWN (parhad)

### Sail ar gyfer amcangyfrif asedau ac ymrwymiadau

Mae'r ymrwymiadau wedi cael eu hasesu ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau, sef amcangyfrif o'r pensiwn fydd yn daladwy yn y dyfodol yn ddibynnol ar dybiaethau ynghylch cyfraddau marwolaeth, disgwyliad oes a lefelau cyflog. Mae disgwyliad oes yn seiliedig ar ragamcanion penodol i'r gronfa a elwir yn VitaCurves a thybir bod gwelliant tymor hir eisoes wedi cyrraedd yr eithaf, sydd gyfystyr â 1.25% y flwyddyn.

Mae Hymans Robertson, cwmni actiwari annibynnol, wedi amcangyfrif ymrwymiadau Cynllun Pensiwn Gwynedd ac ymrwymiadau Buddion Dewisol. Roedd amcangyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd yn seiliedig ar y prisiad llawn ddiweddaraf o'r cynllun fel yr oedd ar 31 Mawrth 2019. Mae'r rhagdybiaethau arwyddocaol a ddefnyddir gan yr actiwari yn y tabl canlynol wedi cael effaith sylweddol ar werthoedd yr asedau a'r ymrwymiadau fel a ganlyn:-

| | 31 Mawrth 2019 | 31 Mawrth 2020 |
|---|---|---|
| **Tybiaethau Ariannol** | **% y.f.** | **% y.f.** |
| Cyfradd Codiad Pensiynau | 2.5 | 1.9 |
| Cyfradd Codiad Cyflogau* | 2.5 | 2.2 |
| Cyfradd Chwyddiant | 2.5 | 1.9 |
| Cyfradd Ddisgownt | 2.4 | 2.3 |
| Cyfradd Enillion Tymor Hir a Ddisgwylir ar yr holl asedau | 2.4 | 2.3 |
| **Nifer a ddisgwylir i gymryd yr opsiwn i drosi pensiwn blynyddol i lwmp swm ymddeol** | | |
| am wasanaeth cyn Ebrill 2008 | 50 | 50 |
| am wasanaeth ar ôl Ebrill 2008 | 75 | 75 |
| **Tybiaethau Marwolaeth** | **Blynyddoedd** | **Blynyddoedd** |
| Hyd oes ar 65 oed am bensiynwyr cyfredol | | |
| Dynion | 22.0 | 21.3 |
| Merched | 24.2 | 23.4 |
| Hyd oes ar 65 oed am bensiynwyr y dyfodol | | |
| Dynion | 24.0 | 22.2 |
| Merched | 26.4 | 25.1 |

*Ar gyfer ymrwymiadau heb eu hariannu ar 31 Mawrth 2020, tybir bod yr holl bensiynau heb eu hariannu yn daladwy am weddill oes yr aelod. Tybir hefyd y bydd 90% o bensiynwyr yn briod (neu'n cyd-fyw) wrth farw ac y bydd eu priod (cydbreswylydd) yn derbyn pensiwn o 50% o bensiwn yr aelod ar ddyddiad marwolaeth yr aelod.

Mae'r amcangyfrifiad o'r rhwymedigaethau buddion diffiniedig yn sensitif i'r rhagdybiaethau actiwaraidd sydd wedi'u nodi yn y tabl uchod. Er mwyn meintioli effaith unrhyw newid yn y rhagdybiaethau ariannol a ddefnyddir, mae'r actiwari wedi cyfrifo a chymharu gwerth ymrwymiadau'r cynllun fel yr oeddynt ar 31 Mawrth 2020 ar seiliau amrywiol. Mae'r dull a ddefnyddiwyd yn gyson â'r dull a fabwysiadwyd i gael y ffigyrau SCRh19 a ddarperir yn y nodyn hwn.

Er mwyn meintioli'r ansicrwydd ynghylch disgwyliad hyd oes, mae'r actiwari wedi cyfrifo'r gwahaniaeth yn y gost i'r Cyd-Bwyllgor pe bai cynnydd o flwyddyn mewn disgwyliad oes. Yn nhermau sensitifrwydd, caiff hyn ei dybio i fod yn gynnydd o tua 3-5% yn y gost o fudd-daliadau. Yn ymarferol bydd gwir gost cynnydd o flwyddyn mewn disgwyliad oes yn ddibynnol ar strwythur y dybiaeth ddiwygiedig (h.y. os yw gwelliannau mewn cyfraddau goroesi yn bennaf berthnasol i oedrannau iau neu hŷn).

## NODYN 25 – COSTAU PENSIWN (parhad)

Mae'r ffigyrau yn y tabl isod wedi deillio'n seiliedig ar broffil aelodaeth y Cyd-Bwyllgor fel yr oedd ar 31 Mawrth 2019, sef dyddiad y prisiad actiwaraidd diweddaraidd. Mae'r dull a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r dadansoddiad sensitifrwydd a ddangosir isod yn gyson â'r dull a ddefnyddiwyd y flwyddyn flaenorol.

| **Effaith ar Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir yn y Cynllun** | | |
|---|---|---|
| **Newid tybiaeth** | **Brasamcan cynnydd i'r Rhwymedigaeth Buddion Diffiniedig 31 Mawrth 2020** | **Brasamcan swm ariannol 31 Mawrth 2020** |
| | % | £'000 |
| 0.5% o leihad i'r gwir gyfradd ddisgownt | 11 | 2,737 |
| 0.5% o gynnydd i'r cyfradd codiad cyflog | 2 | 401 |
| 0.5% o gynnydd i'r gyfradd codiad pensiwn | 9 | 2,305 |

Y prif ragdybiaeth demograffig yw'r dybiaeth hirhoedledd (h.y. disgwyliad oes yr aelod). At ddibenion sensitifrwydd, amcangyfrifir y bydd cynnydd o flwyddyn yn y disgwyliad oes yn cynyddu Rhwymedigaeth Budd Diffiniedig y Cyflogwr tua 3-5%. Yn ymarferol, bydd y gost wirioneddol o flwyddyn o gynnydd yn nisgwyliad oes yn dibynnu ar strwythur y dybiaeth ddiwygiedig (h.y. os yw gwelliannau i'r cyfraddau goroesi yn bennaf berthnasol i oedrannau iau neu hŷn).

**Effaith ar Lif Arian y Cyd-Bwyllgor**

Un o amcanion y cynllun yw y dylid cadw cyfraniadau cyflogwyr ar gyfradd mor gyson â phosib. Mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno ar strategaeth gydag actiwari'r gronfa i gyflawni lefel cyllido o 100% dros yr 17 mlynedd nesaf. Caiff lefelau cyllido eu monitro'n flynyddol.

Caiff y cyfraniadau a delir gan y Cyd-Bwyllgor eu gosod gan Actiwari'r Gronfa yn y prisiad pob tair blynedd (y mwyaf diweddar oedd 31 Mawrth 2019), neu ar unrhyw adeg arall pan roddir cyfarwyddyd i wneud hynny gan yr Awdurdod Gweinyddol. Mae'r cyfraniadau sy'n daladwy dros y cyfnod tan 31 Mawrth 2021 wedi'u gosod yn y dystysgrif Cyfraddau ac Addasiadau. Am fanylion pellach ar y dull a ddefnyddiwyd i osod cyfraddau cyfrannu ar gyfer y Cyd-Bwyllgor, dylid cyfeirio at adroddiad actiwaraidd 2019, dyddiedig 31 Mawrth 2020.

**Gwybodaeth am yr Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir**

| | **Rhaniad Ymrwymiad 31 Mawrth 2020** | | **Cyfnod Cyfartaledd Cymhwysol** |
|---|---|---|---|
| | **£'000** | **%** | |
| Aelodau Gweithredol | 14,213 | 54.8 | 26.0 |
| Aelodau Gohiriedig | 2,893 | 11.2 | 27.0 |
| Aelodau Pensiynwyr | 8,820 | 34.0 | 15.0 |
| **Cyfanswm** | **25,926** | **100.0** | **22.0** |

Mae'r ffigyrau uchod yn cynnwys ymrwymiadau wedi eu hariannu yn unig. nid ydynt yn cynnwys ymrwymiadau pensiynwyr heb eu hariannu. Mae'r parhad yn effeithiol ar brisiad swyddogol blaenorol ar 31 Mawrth 2019.

## NODYN 25 – COSTAU PENSIWN (parhad)

### Effaith ar y Blynyddoedd i ddod

Disgwylir i gyfanswm y cyfraniadau a wneir i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gan y Cyd-Bwyllgor fod yn £780k yn y flwyddyn i 31 Mawrth 2021.

Yn Ebrill 2017, gwnaeth y Cyd-Bwyllgor daliad o £394k i gronfa Bensiwn Gwynedd ar gyfer yr elfen sefydlog o gyfraniad y cyflogwr am y cyfnod 2017/18 i 2019/20. Drwy wneud y taliad yma, roedd y Cyd-Bwyllgor yn elwa o raddfa cyfraniad is na'r hyn y byddai wedi ei gyfrifo fel arall.

Gan fod adroddiad Actiwari yn seiliedig ar amcangyfrifon, ac o ganlyniad i wahaniaethau amser, gwnaed addasiad o £3,067 yn 2019/20 (£25,800 yn 2018/19) i ddod a'r diffyg yn y Gronfa ar sail ffigyrau Actiwaraidd yn unol â'r ymrwymiad perthnasol i gynllun pensiwn buddiannau sydd wedi eu diffinio ar y Fantolen. Mae'r gwahaniaeth yma wedi ei drin fel Enillion a Cholledion Actiwaraidd ar Asedau ac Ymrwymiadau Pensiwn ac felly wedi eu cynnwys yn y ffigyrau Ymrwymiad sy'n berthnasol i gynllun pensiwn buddiannau a ddiffinir yn y Fantolen.

### Dyfarniad Cyfreithiol McCloud a Sargeant

Roedd rhagdybiaeth twf cyflog Cronfa Gwynedd ym mhrisiad 2016 yn hafal i'r Mynegai Pris Defnyddwyr (MPD) ac felly, yn 2018/19, ni wnaed unrhyw lwfans ar gyfer dyfarniadau McCloud/Sargeant. Ond yn y prisiad 2019, cynyddwyd y dybiaeth cynnydd cyflog uwchlaw MPD, felly mae Cyngor Gwynedd bellach wedi cydnabod rhwymedigaeth am ddyfarniadau McCloud/Sargeant am y tro cyntaf yng nghyfrifon 2019/20. Mae effaith bras y dyfarniad hwn wedi'i gynnwys o fewn y ffigur cost gwasanaeth blaenorol a adroddir o fewn y gwarged/diffyg ar ddarparu gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

**ADRODDIAD AR GYFER Y CYD-BWYLLGOR**

**15 GORFFENNAF 2020**

**Adroddiad gan:** Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

**Pwnc:** Datganiad Llywodraethu ar gyfer Cydbwyllgor GwE

**1.0 Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Derbyn a chymeradwyo y datganiad llywodraethu blynyddol

**2.0 Cefndir**

2.1 Mae Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018 yn gosod gofynion penodol ar gyrff cyhoeddus sydd yn gweithredu trefniadau rheoli partneriaethol trwy gyd-bwyllgorau ffurfiol.

2.2 Gofyniad Rhan 5 yw i'r Cyd-Bwyllgor adolygu a chymeradwyo datganiad rheolaeth fewnol. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi ei ddarparu i gyd-fynd â'r gofyniad hwn. Mae'r ddogfen wedi ei pharatoi i gynnig fframwaith i weithrediad y Cyd-Bwyllgor.

**3.0 Argymhellion**

3.1 Gofynnir i'r Cydbwyllgor dderbyn a chymeradwyo y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

**4.0 Goblygiadau ariannol**

4.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

**5.0 Effaith o ran cydraddoldeb**

5.1 Nid oes unrhyw effaith newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

**6.0 Goblygiadau Personél**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran personél yn codi o'r adroddiad hwn.

**8.0 Atodiadau**

8.1 Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2019/20

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Y Swyddog Monitro:**

Rwyf yn fodlon fod y datganiad yn cynnwys disgrifiad priodol o drefniadau llywodraethu GwE

**Y Swyddog Cyllid Statudol:**

Rwyf yn fodlon fod y datganiad yma yn adlewyrchiad teg o drefniadau llywodraethu GwE am y flwyddyn 2019/20, a bod trefniadau ar gyfer atebolrwydd yn briodol. Nodaf yn rhan 5.3.16 o'r datganiad llywodraethu, ac yn y cynllun gweithredu o dan 7.1 fod yr adolygiad o lywodraethu i gael ei ffurfioli erbyn Mawrth 2021, a byddaf yn edrych i gyfrannu at hynny.

Wrth gwrs, mae rôl allweddol a her parhaus i aelodau'r Cyd-bwyllgor (y Cynghorwyr a Prif Swyddogion Addysg o'r 6 awdurdod lleol yng ngogledd Cymru, ynghyd â Rheolwr Gyfarwyddwr y Gwasanaeth) i gydweithio er mwyn sicrhau fod GwE yn parhau i gyflawni'r cyfrifoldebau'n effeithiol, ac yn mynd ymlaen i ddatblygu'n bositif er budd ysgolion a disgyblion y rhanbarth, er gwaethaf cyfyngiadau'r argyfwng Covid-19.

**ATODIAD A**

**DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL**

Mae'r datganiad hwn yn bodloni'r angen i gynhyrchu Datganiad Rheolaeth Fewnol yn unol ag Adran 5 Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygiad) 2018).

**Rhan 1: CWMPAS CYFRIFOLDEB**

1.1 Sefydlwyd GwE yn Gyd-Bwyllgor gan chwe awdurdod lleol Gogledd Cymru yn 2013 i fod yn wasanaeth effeithiolrwydd gwella ysgolion rhanbarthol drwy gyflawni'r swyddogaethau y manylir arnynt mewn cytundeb rhwng y Cyd-Bwyllgor a'r awdurdodau. Yn y cytundeb, mae'r Cynghorau wedi cytuno i weithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth i sefydlu Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol a fydd yn atebol i'r Cynghorau, ac yn cyflawni swyddogaethau statudol y Cynghorau yng nghyswllt effeithiolrwydd a gwella ysgolion.

1.2 Gweledigaeth y Cynghorau oedd sefydlu Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol a fydd yn atebol i, ac yn ymgymryd â chyfrifoldebau statudol y chwe Awdurdod Lleol yng ngogledd Cymru yng nghyswllt eu dyletswyddau i fonitro, herio, darparu gwasanaeth cefnogol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus drwy'r cwricwlwm a rheoli ysgolion, yn ogystal â darparu gwasanaethau y gellir eu comisiynu gan ysgolion ac awdurdodau lleol.

1.3 Mae GwE yn gyfrifol am sicrhau bod ei fusnes yn cael ei gynnal yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a bod cyfrif priodol amdano, a'i fod yn cael ei ddefnyddio mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol.

1.4 Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb cyffredinol hwn, mae GwE hefyd yn gyfrifol am gynnal trefniadau priodol ar gyfer llywodraethu ei swyddogaethau, hwyluso gweithrediad effeithiol ei weithgareddau, sy'n cynnwys trefniadau rheoli risg a rheoli ariannol digonol ac effeithiol.

**Rhan 2: PWRPAS Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU**

Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys y systemau a'r prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd hynny sy'n cyfeirio ac yn rheoli GwE, a'i weithgareddau sy'n gyfrwng ar gyfer bod yn atebol i'r gymuned, ymgysylltu â hi, a'i harwain. Mae'n galluogi'r awdurdodau sy'n rhan o GwE i fonitro'r gwaith o gyflawni ei amcanion strategol ac i ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau cost-effeithiol priodol.

2.2 Mae'r system reolaeth fewnol yn rhan arwyddocaol o'r fframwaith hwnnw ac fe'i lluniwyd i reoli risg ar lefel resymol yn hytrach nag i gael gwared ar bob risg o fethu cyflawni polisïau, nodau ac amcanion; felly dim ond sicrwydd rhesymol, ac nid sicrwydd llwyr o effeithiolrwydd, y gall ei gynnig.

2.3 Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus a luniwyd i ganfod a blaenoriaethu'r risgiau o ran cyflawni polisïau, nodau ac amcanion GwE, i werthuso'r tebygolrwydd y bydd y risgiau hynny'n cael eu gwireddu, a'u heffaith pe bai hynny'n digwydd, ac i'w rheoli'n effeithiol, yn effeithlon ac yn ddarbodus.

2.4 Mae'r fframwaith llywodraethu a ddisgrifir uchod wedi bod ar waith yn GwE ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020, a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r datganiad o gyfrifon 2019/20.

**Rhan 3: Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU**

3.1 Mae GwE wedi defnyddio'r Fframwaith 'Delivering Good Governance in Local Government (2016)' wrth lunio ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae'r Fframwaith yn cynnwys dwy Egwyddor Graidd a phum Egwyddor Ategol:

Egwyddorion craidd

- Ymddwyn yn ddidwyll, dangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol a pharchu rheol y gyfraith;
- Sicrhau ymgysylltiad agored a chynhwysfawr â rhanddeiliaid.

Egwyddorion ategol

- Diffinio canlyniadau o ran buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy;
- Pennu'r ymyriadau sydd eu hangen i sicrhau'r canlyniadau a geisir yn y ffordd orau bosib;
- Datblygu gallu'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion sy'n rhan ohono;
- Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn, a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref;
- Rhoi arferion da ar waith o ran tryloywder, adrodd ac archwilio er mwyn sicrhau atebolrwydd effeithiol.

3.2 Mae GwE wedi cymhwyso'r egwyddorion hyn i strwythuro ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020 ac i asesu'r trefniadau sydd ar waith.

3.3 Mae gan GwE amrywiaeth o drefniadau llywodraethu ar waith ac mae llawer ohonynt wedi'u nodi yn y Cytundeb Rhwng Awdurdodau a / neu yn rhan o drefniadau llywodraethu Cyngor Gwynedd (fel awdurdod lletyol).

Tabl 1 – Enghreifftiau o'r systemau, prosesau a dogfennau allweddol sydd ar waith yn GwE

| **Egwyddorion Llywodraethu Da** | **Enghreifftiau o'r systemau, prosesau a dogfennau allweddol sydd ar waith yn GwE** |
|---|---|
| Ymddwyn yn ddidwyll, dangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol a pharchu rheol y gyfraith; | Drwy lofnodi'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau, mae'r Cynghorau wedi cytuno y byddent yn cynnal eu perthynas yn unol â'r egwyddorion llywodraethu da canlynol:<br>• Bod yn Agored ac Ymddiriedaeth<br>• Ymrwymiad a Chymhelliant<br>• Sgiliau a Chreadigedd<br>• Perthnasau Effeithiol<br>• Datblygu ac Addasu<br>• Enw Da<br>• Rhesymoldeb Gwneud Penderfyniadau<br>• Caniatâd Angenrheidiol<br>• Ymrwymiadau Aelodau a Swyddogion |
| Sicrhau ymgysylltiad agored a chynhwysfawr â rhanddeiliaid | Blaen-gynlluniau ar gyfer cyfarfodydd pwyllgor ynghyd â'r materion i'w hystyried, lle bo'n briodol.<br>Ymgysylltiad llawn â rhanddeiliaid drwy amrywiol fforymau y tu mewn a'r tu allan i'r strwythur llywodraethu ffurfiol, e.e. Fforymau Penaethiaid a'r Grwpiau Defnyddwyr. |

<table>
<tr><td>Diffinio canlyniadau o ran buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy;</td><td rowspan="2">Fframwaith Rheoli Perfformiad<br>Cynllun busnes 3 blynedd a chynllluniau busnes blynyddol<br>Adroddiadau monitro cynlluniau busnes chwarterol i'r Cyd-bwyllgor<br>Diweddariadau rheoli risg rheolaidd i'r Cyd-bwyllgor<br>Cynllun Ariannol Tymor Canolig<br>Cynllun cyllidebol blynyddol<br>Pwyllgorau Craffu<br>Sesiynau Herio ac Adolygu gyda Llywodraeth Cymru.<br>Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc<br>Cynadleddau Gwella / Arolygiadau Estyn Awdurdod Lleol<br>Ymweliadau Cyswllt / Estyn Awdurdod Lleol<br>Proses Categoreiddio / Cymedroli<br>Byrddau Ansawdd Sirol</td></tr>
<tr><td>Pennu'r ymyriadau sydd eu hangen i sicrhau'r canlyniadau a geisir yn y ffordd orau bosib;</td></tr>
<tr><td>Datblygu gallu'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion sy'n rhan ohono</td><td>Cynllun Busnes 3 Mlynedd<br>Cynllun Busnes Blynyddol<br>Proses hunanwerthuso a pharatoi adroddiadau blynyddol<br>Adroddiad Blynyddol</td></tr>
<tr><td>Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn, a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref</td><td>Diweddariadau i'r Gofrestr Risg<br>Adroddiad Blynyddol<br>Archwilio Mewnol<br>Rheoliadau ariannol yr awdurdod lletyol<br>Cynllun Ariannol Tymor Canolig</td></tr>
<tr><td>Rhoi arferion da ar waith o ran tryloywder, adrodd ac archwilio er mwyn sicrhau atebolrwydd effeithiol.</td><td>Datganiad o gyfrifon<br>Datganiad Llywodraethu Blynyddol<br>Cynhyrchu adroddiadau ar feysydd busnes allweddol<br>Archwiliad Mewnol ac Allanol<br>Gwerthusiadau allanol annibynnol drwy gydol y flwyddyn, e.e. Steve Munby<br>Pwyllgorau Craffu Awdurdodau Lleol</td></tr>
</table>

### 3.4 Swyddogaethau

3.4.1 Roedd y Cynghorau wedi arwyddo cytundeb ar 13 Chwefror 2013 i ffurfioli eu rolau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â'r Gwasanaeth, ac maen nhw wedi penodi Cyngor Gwynedd fel yr Awdurdod Lletyol ar gyfer gweithredu a chynnal y Gwasanaeth yn unol â thelerau'r Achos Busnes Terfynol y cytunwyd arno.

3.4.2 Mae'r cytundeb yn gynhwysfawr, ac yn cynnwys gwybodaeth am agweddau llywodraethu a gweinyddol y Cyd-bwyllgor. Y cytundeb yw sylfaen fframwaith llywodraethu GwE. Mae GwE yn gweithredu ac yn neilltuo cyfrifoldeb ac atebolrwydd o dan y fframwaith hwn, fel a ganlyn:

- Cyd-bwyllgor GwE;
- Bwrdd Rheoli GwE;
- Grŵp(iau) Defnyddwyr GwE;
- Yr Awdurdod Lletyol.

**3.5 Aelodaeth**

3.5.1 Mae'r Cynghorau ymrwymo i Gytundeb i sefydlu a gweithredu GwE yn unol â'r pwerau a roddir iddynt o dan Adran 9 o Fesur Llywodraeth Leol Cymru 2009, Adran 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, ac Adrannau 101 a 102 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 a'r Rheoliadau cysylltiedig.

3.5.2 Mae aelodaeth y Cyd-bwyllgor yn cynnwys un aelod yr un o Gyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, sydd â hawliau pleidleisio.

3.5.3 Ar hyn o bryd, mae'r Prif Swyddogion Addysg Statudol, un o bob Awdurdod Lleol yng ngogledd Cymru, yn aelodau heb hawliau pleidleisio.

3.5.4 Mae un cynrychiolydd o'r Esgobaeth, un cynrychiolydd o'r Ysgolion Cynradd, un cynrychiolydd o'r Ysgolion Uwchradd, un cynrychiolydd o'r Ysgolion Arbennig ac un Cynrychiolydd o'r Llywodraethwyr yn aelodau cyfetholedig heb hawliau pleidleisio.

**3.6 Egwyddorion**

Drwy lofnodi'r cytundeb, mae'r Cynghorau wedi cytuno y byddent yn cynnal eu perthynas yn unol â'r egwyddorion llywodraethu da canlynol:

- Bod yn Agored ac Ymddiriedaeth

  Mewn perthynas â'r Cytundeb, bydd y Cynghorau'n agored ac yn ymddiried yn y naill a'r llall wrth ddelio â'i gilydd, yn sicrhau bod gwybodaeth a dadansoddiadau ar gael i'w gilydd, yn trafod ac yn datblygu syniadau'n agored ac yn cyfrannu'n llawn at bob agwedd ar sicrhau llwyddiant y cydweithio;

- Ymrwymiad a Chymhelliant

  Bydd y Cynghorau wedi ymrwymo'n llawn i weithio gyda'i gilydd, yn mynd ati i i gymell yr holl weithwyr i'r graddau mwyaf posib, ac yn mynd i'r afael â heriau'r Gwasanaeth yn llawn bwriad a brwdfrydedd ac yn benderfynol o lwyddo;

- Sgiliau a Chreadigedd

  Mae'r Cynghorau'n cydnabod bod pob un yn cyfrannu sgiliau a gwybodaeth ddefnyddiol y gellir eu defnyddio'n greadigol er mwyn cyflawni amcanion y Cynghorau, sicrhau parhad y cydweithio, datrys anawsterau a datblygu'r berthynas gydweithio a'r staff personél sy'n rhan ohoni;

- Perthnasau Effeithiol

  Bydd rolau a chyfrifoldebau pob Cyngor yn glir, gan ddatblygu perthnasau ar y lefelau priodol ym mhob sefydliad, gyda mynediad hawdd ac uniongyrchol at gynrychiolwyr ei gilydd;

- Datblygu ac Addasu

  Mae'r Cynghorau'n cydnabod eu bod yn rhan o berthynas a allai fod yn un hirdymor, sydd angen datblygu ac addasu, a byddant yn ymdrechu'n rhesymol i ddatblygu a chynnal proses effeithiol ar y cyd er mwyn sicrhau bod y berthynas yn datblygu'n briodol ac yn unol â'r egwyddorion a'r amcanion hyn;

- Enw Da

  Mae'r Cynghorau'n cytuno, mewn perthynas â'r cytundeb a'r Gwasanaeth yn gyffredinol, y byddant yn rhoi'r sylw pennaf i enw da ei gilydd, ac na fyddant yn gwneud neu'n peidio â gwneud unrhyw beth a fyddai'n dwyn gwarth ar enw da unrhyw Gyngor arall neu'n denu cyhoeddusrwydd gwael i unrhyw Gyngor arall;

- Rhesymoldeb Gwneud Penderfyniadau

  Mae'r Cynghorau'n cytuno y bydd yr holl benderfyniadau a wneir mewn perthynas â'r Cytundeb a'r Gwasanaeth yn gyffredinol yn cael eu gwneud gan ymddwyn yn rhesymol ac yn ddidwyll;

- Caniatâd Angenrheidiol

  Mae pob Cyngor drwy hyn yn sicrhau i'r Cynghorau eraill ei fod wedi derbyn pob caniatâd angenrheidiol sy'n ddigonol i sicrhau y dirprwyir y swyddogaethau a'r cyfrifoldebau y darperir ar eu cyfer yn y Cytundeb hwn;

- Ymrwymiadau Aelodau a Swyddogion

  Bydd pob Cyngor yn gwneud pob ymdrech resymol i sicrhau bod ei aelodau a'i swyddogion sydd ynghlwm â'r Gwasanaeth yn gweithio er pennaf les y Gwasanaeth bob tro, ac yn ymateb yn brydlon i bob cais perthnasol gan y Cynghorau eraill.

**3.7 Yr Awdurdod Lletyol**

3.7.1 Mae'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau yn datgan bod y Cynghorau wedi cytuno mai Cyngor Gwynedd fydd Cyngor Lletyol y Gwasanaeth a fydd yn cael ei gyflawni ar gyfer ac ar ran ei hun a'r Cynghorau. Daeth hyn i rym ar Ddyddiad Cychwyn y Gwasanaeth. Mae Cyngor Gwynedd yn cytuno i weithredu yn y capasiti hwnnw yn amodol ar delerau'r Cytundeb hwn, yn unol â'r telerau hynny, ac i'r graddau y mae'r telerau'n darparu ar gyfer hynny  I osgoi amheuaeth, mae rôl y Cyngor Lletyol yn cynnwys:

- yn amodol ar yr indemniadau a'r gwarantiadau, gweithredu fel yr awdurdod cyflogi ar gyfer unrhyw staff a gyflogir i gyflawni swyddogaethau'r Gwasanaeth (penodi, cyflogi neu dderbyn secondiad staff) yn unol â'r Cytundeb hwn;
- gweithredu fel y pwynt cyswllt cyfreithiol at ddibenion rheoli'r Gwasanaeth;
- darparu unrhyw adnoddau a chyfleusterau gweinyddol sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni'r Gwasanaeth, a dal yr holl gronfeydd canolog;
- darparu unrhyw Wasanaethau Adnoddau Dynol sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni'r Gwasanaeth, a dal yr holl gronfeydd canolog;
- darparu uwch swyddogion a fydd yn gweithredu fel Ysgrifennydd, Swyddog Monitro, a Thrysorydd (a fydd hefyd yn gweithredu fel y Swyddog Adran 151) ar gyfer y Gwasanaeth ac a fydd felly'n gweithredu fel prif ymgynghorwyr cyfreithiol ac ariannol i'r Gwasanaeth;
- meddu ar y pŵer i ymrwymo i gontractau ar gyfer cyflenwadau a gwasanaethau yn ôl y gofyn at ddibenion y Gwasanaeth.

3.7.2 I osgoi amheuaeth, bydd dyletswyddau a chyfrifoldebau'r Awdurdod Lletyol yn unol â'r cytundeb hwn dim ond yn rhwymo'r Awdurdod Lletyol i'r graddau y mae wedi cael yr adnoddau i wneud hynny gan y Cynghorau drwy'r Cytundeb hwn.

3.7.3 Ac eithrio lle bo'r gyfraith yn mynnu fel arall, bydd yr holl staff a gyflogir gan yr Awdurdod Lletyol yn unol â'r cytundeb hwn yn cael eu cyflogi o dan delerau ac amodau cyflogaeth perthnasol yr Awdurdod Lletyol, a'i bolisïau staff cysylltiedig, gan gynnwys strwythurau cyflog.

3.7.4 Os bydd y Cyngor Lletyol yn methu a bod y Cytundeb yn cael ei derfynu mewn perthynas â hynny yn unol â Chymal 2 (Terfynu), neu fod y Cyngor Lletyol yn tynnu'n ôl yn unol â Chymalau 21 neu 22 (Tynnu'n Ôl), bydd Cyngor Lletyol newydd yn cael ei benodi gan y Cynghorau ac ni fydd gan y Cyngor sy'n tynnu'n ôl/methu hawliau pleidleisio mewn cysylltiad â'r penodiad hwnnw.

3.7.5 Drwy gydol cyfnod y Cytundeb hwn, bydd y Cyngor Lletyol yn gweithredu'n ddiwyd ac yn ddidwyll pan fydd yn delio â'r Cynghorau eraill.

3.7.6 Drwy gydol cyfnod y Cytundeb hwn, bydd y Cynghorau eraill yn gweithredu'n ddiwyd ac yn ddidwyll pan fyddant yn delio â'r Cyngor Lletyol, ac yn ymdrechu'n rhesymol i helpu'r Cyngor Lletyol i gefnogi'r Gwasanaeth.

**3.8 Ymddygiad Swyddogion**

I sicrhau dull gweithredu cyson o ran yr arferion a phrosesau gweithio, mae'r holl swyddogion yn ddarostyngedig i'r telerau ac amodau cyflogaeth (sy'n seiliedig ar delerau ac amodau gweithredu Cyngor Gwynedd).

**Rhan 4: ASESU'R FFRAMWAITH LLYWODRAETHU**

4.1 Mae GwE yn gyfrifol am adolygu, o leiaf bob blwyddyn, effeithiolrwydd ei fframwaith llywodraethu yn cynnwys y system rheolaeth fewnol.

4.2 Yn unol ag Egwyddorion Craidd ac Ategol y Fframwaith, dyma'r dull gweithredu a ddilynwyd i asesu trefniadau GwE:

- Darparu disgrifiad byr o'r trefniadau a'r gweithdrefnau sydd ar waith;
- Archwilio a chofnodi'r prif weithgareddau sydd wedi digwydd yn y meysydd hyn, gan ystyried tystiolaeth ategol o brosesau mewnol ac adroddiadau archwilio GwE.
- Llunio barn ynghylch i ba raddau y mae'r gweithgareddau'n cydymffurfio â'r gweithdrefnau sydd ar waith;
- Gwneud cynigion ar gyfer gwella.

4.3 Cyngor Gwynedd yw Awdurdod Lletyol y Cyd-bwyllgor. O ganlyniad, bydd adolygiadau o effeithiolrwydd Cod Llywodraethu Lleol, Cyfansoddiad a system rheolaeth fewnol yr awdurdod hwnnw hefyd yn sail i drefniadau llywodraethu'r Cyd-bwyllgor.

4.4 Nodir effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu GwE yn adran 5.

**Rhan 5: EFFEITHIOLRWYDD Y TREFNIADAU LLYWODRAETHU**

**5.1 Y cynnydd a wnaed i weithredu'r argymhellion a adroddwyd yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol 2018/19**

5.1.1 Roedd Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2018/19 yn nodi meysydd lle credwyd bod angen gwelliannau er mwyn atgyfnerthu effeithiolrwydd trefniadau cyfredol GwE ymhellach.

5.1.2 Manylwyd ar y rhain yng Nghynllun Busnes GwE ar gyfer 2019/20 a'r Gofrestr Risgiau, ac yn benodol Amcan Strategol 6, h.y. sicrhau bod gan GwE drefn lywodraethu gref a chefnogaeth fusnes a gweithredol effeithiol sy'n rhoi gwerth am arian.

5.1.3 Yn ystod y flwyddyn, cafodd y cynlluniau eu hadolygu bob chwarter, gan werthuso'r cynnydd a'r effaith; cafodd y Cyd-bwyllgor adroddiadau ar y cynnydd yn eu cyfarfodydd.

5.1.4 Ar 31 Mawrth 2020, roedd cynnydd wedi cael ei wneud yn erbyn yr holl welliannau, ac adeiladir ar hyn yn ystod 2019/20.

5.1.5 Ar sail yr uchod, ystyrir bod cynnydd digonol wedi cael ei wneud yn gyffredinol yn ystod 2019/20 o ran cyflawni'r cynigion ar gyfer gwella, ond ei bod yn ofynnol gwneud rhagor o waith yn ystod 2020/21. Mae'r manylion yn Rhan 7 o'r datganiad hwn.

**5.2 Ymddwyn yn ddidwyll, dangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol a pharchu rheol y gyfraith;**

5.2.1 Mae GwE yn dilyn rheolau gweithredu Cyngor Gwynedd sy'n rhoi manylion am sut dylid gwneud penderfyniadau a'r gweithdrefnau i'w dilyn i wneud yn siwr eu bod yn effeithlon, yn dryloyw ac ar gael i bobl leol.

5.2.2 Mae GwE, gyda chymorth yr awdurdod lletyol, wedi rhoi gweithdrefnau ar waith i wneud yn siŵr bod cyfarfodydd y Cyd-bwyllgor yn cael eu cynnal yn effeithiol a bod ei broses gwneud

penderfyniadau yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod cofnodion cyfarfodydd yn gywir; cyhoeddi rhaglenni ac adroddiadau cyfarfodydd ar-lein ymlaen llaw; gwneud penderfyniadau ar sail adroddiadau seiliedig ar dystiolaeth; a chyhoeddi cofnodion cyfarfodydd. Roedd adolygiad o sampl o gyfarfodydd Cyd-bwyllgor GwE yn ystod y flwyddyn wedi cadarnhau bod y gweithdrefnau wedi cael eu dilyn.

5.2.3 Mae GwE yn mabwysiadu polisïau cyflogaeth yr awdurdod lletyol. Rhoddir sesiwn gynefino a llawlyfr staff i bob swyddog sy'n dechrau gweithio gyda GwE. Yn ogystal â hynny mae proses Adolygu Proffesiynol ar waith ar gyfer yr holl staff. Caiff ei hadolygu bob tymor.

5.2.4 Mae'r prosesau sicrhau ansawdd staff yn parhau i ddatblygu yn unol â datblygiadau ac egwyddorion cenedlaethol. Caiff negeseuon a gwybodaeth eu cyfathrebu'n glir ac yn rheolaidd i bob gweithiwr. Cynigir rhaglenni cymorth generig, pwrpasol ac effeithiol. Mae cyfarfodydd tîm llawn a fesul sector yn cynnig cyfleoedd rheolaidd i gydweithio, i ymgynghori ac i gyfrannu at drafodaethau a phenderfyniadau ynghylch cyfeiriad gwaith GwE yn ystod cyfnod o newid sylweddol.

5.2.5 Os bydd swyddog yn penderfynu gweithredu y tu allan i'r telerau ac amodau cyflogaeth a fwriedir, mae trefniadau ar waith i swyddogion 'chwythu'r chwiban' drwy Bolisi a Gweithdrefn Chwythu'r Chwiban yr awdurdod lletyol. Yn ogystal â'r polisi Chwythu'r Chwiban, mae trefniadau ar waith i fynd i'r afael ag achosion posib o dwyll, llwgrwobrwyo a llygru.

5.2.6 Mae GwE yn dilyn polisi rhoddion a lletygarwch yr awdurdod lletyol ac mae trefniadau ar waith, drwy gofrestri, ar gyfer cofnodi rhoddion a lletygarwch yn unol â'r Polisi.

5.2.7 Mae GwE wedi mabwysiadu’r gwerthoedd personol a gwasanaeth canlynol:

- Diduedddrwydd
- Tegwch
- Parch at amrywiaeth
- Bod yn gefnogol ac yn gydweithredol
- Dwyieithrwydd
- Gwrthrychedd
- Mynnu safonau uchel
- Gonestrwydd.

Mae'r gwerthoedd personol a gwasanaeth hyn wedi’u cynnwys ym mhob disgrifiad swydd; maen nhw'n cael eu defnyddio i arwain trafodaethau fel rhan o'r broses Adolygu Proffesiynol.

5.2.8 Mae'r Rheolwr Gyfarwyddwr yn arwain swyddogion GwE ac yn cadeirio'r Uwch Dîm Arwain.

5.2.9 Yn ystod blwyddyn ariannol 2019/20, roedd un deiliad uwch swydd wedi rhoi'r gorau i'w swydd. Yn dilyn adolygiad mewnol o'r Uwch Dîm Arwain, cytunodd y Cyd-bwyllgor na fyddai'r swydd yn cael ei llenwi. Roedd cael gwared ar yr un uwch swydd hon wedi helpu GwE i fodloni ei ofynion o ran arbedion parhaol.

**5.3 Sicrhau ymgysylltiad agored a chynhwysfawr â rhanddeiliaid**

5.3.1 Mae aelodau Cyd-bwyllgor GwE wedi'u llywodraethu gan God Ymddygiad eu Cyngor perthnasol. Mae'r Codau Ymddygiad ar gyfer Cynghorwyr a gweithwyr yng Nghyfansoddiad yr Awdurdod Lletyol yn seiliedig ar yr egwyddorion bod yn agored, tryloywder a gonestrwydd.

5.3.2 Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data

Daeth y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) i rym ar 25 Mai 2018.
Mae GwE yn dilyn canllawiau'r awdurdod lletyol; yn cofnodi’n ffurfiol ar ba sail gyfreithlon y prosesir data / gwybodaeth mewn cyfres o ddogfennau o’r enw Cofrestri Diogelu Data; ac mae ganddo ‘Hysbysiadau Preifatrwydd’ sydd ar gael ar y wefan sy’n nodi sut mae’n bwriadu defnyddio gwybodaeth a sut bydd yn cyflawni ei wasanaethau a’i gyfrifoldebau statudol. Mae’r Uwch Dîm Arwain Busnes yn GwE yn sicrhau cydymffurfiaeth â GDPR, gan weithio’n agos gyda swyddog rheoli gwybodaeth statudol yr awdurdod lletyol. Credir bod y dull gweithredu hwn yn parhau i helpu GwE i gydymffurfio â GDPR ac yn dangos ei fod yn agored ac yn dryloyw wrth ddelio â’i gwsmeriaid

5.3.3 Mae GwE, gyda chymorth yr awdurdod lletyol, yn gweithredu cynllun cyhoeddi o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn unol â'r gofynion deddfwriaethol. Yn ystod 2019/20, cafwyd dau gais Rhyddid Gwybodaeth ac ymatebwyd iddynt o fewn 20 diwrnod gwaith.

5.3.4 Mae Achos Busnes Llawn wedi cael ei ddarparu i'r Gwasanaeth, dyddiedig mis Mawrth 2012. Mae'r achos busnes yn dangos tystiolaeth fod amcanion clir wedi eu sefydlu a'u bod yn rhai 'SMART', a bod rhaglen waith briodol yn ei lle.

5.3.5 Mae'r fframwaith atebolrwydd clir a chadarn yn un o brif gryfderau GwE. Mae cynlluniau busnes manwl ar bob lefel o gynllunio yn rhoi sylw i'r holl agweddau ar waith GwE, ac yn nodi'n glir beth yw cyfraniad y gwasanaeth at yr agenda trawsnewid. Mae'r cynlluniau wedi'u costio'n llawn, gyda meini prawf llwyddiant clir a cherrig milltir ar gyfer cyflawni amcanion. Mae Cynllun Busnes 3 Blynedd, 2017-2020 ar waith ar gyfer y gwasanaeth. Mae wedi'i gymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor (03/10/17) a Llywodraeth Cymru. Mae'r Cynllun Busnes yn sicrhau bod rhaglen waith briodol (cynllun busnes blynyddol) yn ei lle a bod adroddiadau monitro'n cael eu cyflwyno i'r Cyd-bwyllgor yn eu cyfarfodydd. Ymgynghorodd GwE ar ei weledigaeth a'i flaenoriaethau ar gyfer 2019/20 a chymeradwywyd Cynllun Busnes Blynyddol 2019/20 gan y Cyd-bwyllgor ar 20 Chwefror 2019.

5.3.6 Mae trefniadau hunanwerthuso manwl. Caiff cynlluniau eu hadolygu bob chwarter, gan werthuso'r cynnydd a'r effaith. Mae staff ar bob lefel yn llawn ddeall eu cyfrifoldeb dros welliant ac atebolrwydd parhaus. Yn ystod 2019/20, mae'r Cyd-bwyllgor wedi cael diweddariadau chwarterol ar y cynllun busnes. Ar sail y diweddariadau a ddarparwyd, ystyrir bod gwybodaeth briodol a rheolaidd ar gael i'r Cyd-bwyllgor i adolygu a herio perfformiad, a dal y tîm rheoli i gyfrif.

5.3.7 Gan edrych i'r dyfodol, disgwylir ansicrwydd ynghylch lefel yr adnoddau a ddarperir gan Lywodraeth y DU i Lywodraeth Cymru yn y flwyddyn i ddod, o ganlyniad yn bennaf i effaith Covid-19 a Brexit. Mae gan GwE gynllun ariannol tymor canolig sy'n cael ei ddiweddaru'n flynyddol. Bydd yn hanfodol ailedrych ar y cynllun ariannol tymor canolig ar yr adeg briodol er mwyn ailfodelu'r opsiynau a helpu i lunio cynlluniau gwasanaeth tymor canolig.

5.3.8 Mae gan GwE flaengynllun gwaith ar gyfer cyfarfodydd pwyllgor, a chytunwyd ar galendr cyfarfodydd blynyddol 2019/20 yng nghyfarfod y Cyd-bwyllgor ar 20 Chwefror 2019.

5.3.9 Cyd-bwyllgor GwE yw'r prif gorff penderfynu ac mae ganddo aelodaeth briodol. Mae cylch gorchwyl y Cyd-bwyllgor yn nodi rhai o'i gyfrifoldebau ynghyd â rhestr o aelodau'r Cyd-bwyllgor, a hawliau pleidleisio. Mae rôl yr Awdurdodau wedi cael ei nodi yn y Cytundeb.

5.3.10 Yn ystod 2019/20, cynhaliwyd cyfarfodydd y Cyd-bwyllgor ar y dyddiadau canlynol:

- 22/05/19
- 08/07/19
- 11/09/19
- 17/11/19
- 26/02/20

Yn ystod y cyfarfodydd hyn, cafodd y Cyd-bwyllgor 31 o adroddiadau. Cafodd pob un o'r rhain eu cyhoeddi ar wefan GwE a'r awdurdod lletyol cyn y cyfarfodydd. Cafodd penderfyniadau allweddol eu gwneud gan Fwrdd Rheoli GwE hefyd. Adolygwyd sampl o adroddiadau Cyd-bwyllgor GwE a chadarnhawyd bod fformat cyson yn cael ei ddefnyddio.

5.3.11 Ar sail y wybodaeth uchod, ystyrir bod y trefniadau gwneud penderfyniadau a oedd ar waith yn ystod 2019/20 yn rhai agored a thryloyw, ac yn cydymffurfio â'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau.

5.3.12 O ganlyniad i fabwysiadu'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio ar y Cyd yn Rhanbarthol, adolygwyd strwythur llywodraethu GwE. Roedd hyn yn cynnwys creu Bwrdd Cynghori a Bwrdd Rheoli, ac adolygu strwythur y Cyd-bwyllgor. Mae'r adolygiad o'r cytundeb wrthi'n cael ei ffurfioli.

5.3.13 Mae'r Gwasanaeth yn dilyn trefn cwynion Cyngor Gwynedd. Yn ystod 2019/20, ni chafwyd unrhyw gwynion.

5.3.14 Mae modd i ysgolion ddarparu adborth drwy'r Grŵp Defnyddwyr sydd wedi'i sefydlu i ddarparu cymorth, a her, i'r Cyd-bwyllgor. Mae cynrychiolwyr priodol o ysgolion uwchradd ac ysgolion cynradd y chwe awdurdod yn perthyn i'r Grŵp Defnyddwyr.

Mae'r Grŵp Defnyddwyr yn gweithredu'n effeithiol oherwydd:

- Mae ganddo hawl i adrodd a gwneud argymhellion i'r Cyd-bwyllgor ar unrhyw fater sydd o fewn cwmpas swyddogaethau'r Gwasanaeth.
- Cynhaliwyd cyfarfodydd y Grŵp ar y dyddiadau canlynol:
    - 03/04/19 (cynradd)
    - 21/06/19 (uwchradd)
    - 20/09/19 (cynradd)
    - 20/09/19 (uwchradd)
    - 09/12/19 (cynradd)
    - 28/01/20 (cynradd)

- Mae'r Grŵp yn cynnwys:
    - Chwe chynrychiolydd Uwchradd, un o bob Awdurdod
    - Chwe chynrychiolydd Cynradd, un o bob Awdurdod
    - Un cynrychiolydd Ysgolion Arbennig
    - Llywodraethwyr Ysgol – 1 cynrychiolydd o bob Cyngor.

5.3.15 Mae GwE yn annog rhanddeiliaid i ymgysylltu a darparu adborth drwy amrywiaeth eang o ddulliau cyfathrebu ac ymgysylltu. Dyma rai enghreifftiau: presenoldeb mewn cyfarfodydd ffederasiwn Penaethiaid; trafodaethau grŵp ffocws ar feysydd penodol; bwletin wythnosol; cyfryngau cymdeithasol ayb.

5.3.16 Cynigir bod y broses o ffurfioli'r adolygiad llywodraethu'n cael ei chwblhau.

**5.4 Diffinio canlyniadau o ran buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy.**

5.4.1 Cafodd y blaenoriaethau rhanbarthol drafft ar gyfer 2019/20 eu cymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor yn ei gyfarfod ar 20 Chwefror 2019. Mae'r cynllun busnes rhanbarthol (lefel 1) yn nodi'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer gwella ar draws y rhanbarth. Cafodd y rhain eu diffinio fel a ganlyn:

- Datblygu proffesiwn addysg o ansawdd uchel
- Arweinwyr sy'n ysbrydoli ac sy'n cydweithio i godi safonau
- Ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo i sicrhau rhagoriaeth, tegwch a lles
- Trefniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd cadarn i ategu system hunanwella
- Cwricwlwm Trawsnewidiol
- Busnes

5.4.2 Cafodd cyllideb sylfaenol GwE ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20 ei chymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor yn ei gyfarfod ar 20 Chwefror 2019.

5.4.3 Yn ogystal â chynllun busnes lefel 1, mae gan bob Awdurdod Lleol gynllun busnes manwl y mae'r pennaeth gwasanaeth a'r arweinydd craidd wedi cytuno arno. Caiff y cynnydd tuag at y canlyniadau cytunedig ar lefel awdurdod lleol ei adolygu'n rheolaidd mewn cyfarfodydd rhwng yr arweinydd craidd a'r Awdurdod Lleol. Caiff materion parhaus eu cyfeirio at Uwch Arweinwyr GwE yn brydlon.

5.4.4 Mae'r cynllun busnes rhanbarthol yn nodi'r blaenoriaethau ar draws y rhanbarth. Y blaenoriaethau hyn yw'r rhai ar Lefel 1 a chyfrifoldeb y Rheolwr Gyfarwyddwr a Chadeirydd y

Bwrdd Rheoli yw eu cyflawni, fel y swyddogion atebol. Yn y pen draw, y Cyd-bwyllgor sy'n atebol am gyflawni yn erbyn y blaenoriaethau.

5.4.5 Mae'r cynlluniau Lefel 2 a 3 blynyddol yn eistedd o dan gynllun Lefel 1 ac yn cynnwys gwybodaeth fanylach o ran blaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Mae cynlluniau Lefel 2 a 3 yn cynnwys manylion ynghylch y camau gweithredu i'w cymryd a'r canlyniadau, a'r meini prawf llwyddiant i'w bodloni. Mae fframwaith cynllunio busnes lefel 3 a ddatblygwyd yn sicrhau atebolrwydd am gyflawni ac yn darparu'r strwythur ar gyfer monitro cynnydd yn effeithiol.

5.4.6 Yn ystod 2019/20, mae'r Cyd-bwyllgor wedi cael diweddariadau chwarterol ar y cynllun busnes. Ar sail y diweddariadau a ddarparwyd, ystyrir bod gwybodaeth briodol a rheolaidd ar gael i'r Cyd-bwyllgor i adolygu a herio perfformiad, a dal y tîm rheoli i gyfrif. Mae'r wybodaeth yn cael ei chyhoeddi hefyd.

**5.5 Pennu'r ymyriadau sydd eu hangen i sicrhau'r canlyniadau a geisir yn y ffordd orau bosib;**


5.5.1 Mae'r fframwaith atebolrwydd clir a chadarn yn un o brif gryfderau GwE. Mae cynlluniau busnes manwl ar bob lefel o gynllunio yn rhoi sylw i'r holl agweddau ar waith GwE, ac yn nodi'n glir beth yw cyfraniad y gwasanaeth at yr agenda trawsnewid. Mae'r cynlluniau wedi'u costio'n llawn, gyda meini prawf llwyddiant clir a cherrig milltir ar gyfer cyflawni amcanion.

5.5.2 Mae trefniadau hunanwerthuso manwl. Caiff cynlluniau eu hadolygu bob chwarter, gan werthuso'r cynnydd a'r effaith. Mae staff ar bob lefel yn llawn ddeall eu cyfrifoldeb dros welliant ac atebolrwydd parhaus.

5.5.3 Mae gan bob Awdurdod Lleol gynllun busnes manwl y mae'r pennaeth gwasanaeth a'r ymgynghorydd craidd wedi cytuno arno. Caiff y cynnydd tuag at y canlyniadau cytunedig ar lefel awdurdod lleol ei adolygu'n rheolaidd mewn cyfarfodydd rhwng yr ymgynghorydd arweiniol a'r Awdurdod Lleol. Caiff materion parhaus eu cyfeirio at Uwch Arweinwyr GwE yn brydlon.

5.5.4 Cyflwynwyd adroddiadau perfformiad i'r Cyd-bwyllgor ac i Bwyllgorau Craffu'r Awdurdod Lleol yn ystod 2019/20, a chyflwynwyd adroddiadau i Lywodraeth Cymru hefyd fel rhan o'r cyfarfodydd Herio ac Adolygu. Mae cyfarfodydd Her ac Adolygu blynyddol Llywodraeth Cymru, a gynhelir yn yr hydref, yn cael eu cadeirio gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg. Maen nhw'n canolbwyntio ar berfformiad, cynnydd, cynllunio a chyllidebau yng nghyd-destun blaenoriaethau cenedlaethol. Roedd y cyfarfod diwethaf yn gadarnhaol iawn a mynegwyd ei fod wedi gosod bar uchel, gan ddangos aeddfedrwydd gwleidyddol y Cyd-bwyllgor.

5.5.5 Mae'r diagram isod yn dangos yr adroddiadau atebolrwydd blynyddol a gynhyrchwyd gan GwE yn ystod 2019/20.




5.5.6 Ar sail yr uchod, ystyrir y byddai'r wybodaeth a gyhoeddwyd yn ystod 2019/20 yn rhoi cyfle i randdeiliaid ddeall perfformiad GwE a'i ddal i gyfrif.

5.5.7 Yng nghyfarfod y Cyd-bwyllgor a gynhaliwyd ar 11 Medi 2019, cymeradwyodd y Cyd-bwyllgor y cynllun gweithredu ar gyfer y targedau arbedion effeithlonrwydd. Felly, cynhwyswyd cyfanswm cronnus yr arbedion, £206,485, i'r gyllideb graidd yn 2019/20. Gyda'r cyd-destun hwn mewn golwg, dyrannodd GwE adnoddau a rhoi trefniadau ar waith i gynyddu eu heffaith.

**5.6 Datblygu gallu'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion sy'n rhan ohono**

5.6.1 Mae cysondeb ac ansawdd yr her a'r cymorth i ysgolion yn dda. Mae hyfforddiant, cymorth a thrafodaethau rheolaidd yn sicrhau bod gwybodaeth a dealltwriaeth Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant o ddatblygiadau cenedlaethol a lleol, a goblygiadau hyn i'w rolau, yn dda.

5.6.2 Mae'r prosesau Sicrhau Ansawdd staff yn parhau i ddatblygu yn unol â datblygiadau ac egwyddorion cenedlaethol. Caiff negeseuon a gwybodaeth eu cyfathrebu'n glir ac yn rheolaidd i bob gweithiwr. Cynigir rhaglenni cymorth generig, pwrpasol ac effeithiol. Mae cyfarfodydd tîm llawn a fesul sector yn cynnig cyfleoedd rheolaidd i gydweithio, i ymgynghori ac i gyfrannu at drafodaethau a phenderfyniadau ynghylch cyfeiriad gwaith GwE yn ystod cyfnod o newid sylweddol.

5.6.3 Mae trefniadau hunanwerthuso manwl. Caiff cynlluniau eu hadolygu bob chwarter, gan werthuso'r cynnydd a'r effaith. Mae staff ar bob lefel yn llawn ddeall eu cyfrifoldeb dros welliant ac atebolrwydd parhaus.

5.6.4 Mae proses Adolygu Proffesiynol ar waith ar gyfer yr holl staff. Caiff ei hadolygu bob tymor. Caiff staff eu hannog i gymryd rhan mewn amrywiol weithgareddau datblygiad proffesiynol yn ystod y flwyddyn.

5.6.5 Yn ystod 2019/20, darparwyd hyfforddiant penodol i aelodau ac aelodau craffu gan GwE a gan Lywodraeth Cymru hefyd.

5.6.6 Cynigir bod datblygiad staff yn parhau ac yr adeiladir arno dros y flwyddyn nesaf, gan wneud yn siŵr bod staff yn cael unrhyw ofynion / datblygiadau cymorth newydd o ganlyniad i Covid-19.

**5.7 Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn, a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref**

5.7.1 Mae trefniadau trylwyr a chynhwysfawr ar waith i nodi risgiau'n gywir a'u rheoli ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r gofrestr risgiau yn ddogfen fyw sy'n cael ei diweddaru'n rheolaidd er mwyn nodi risgiau sy'n cynyddu, neu risgiau nad ydynt yn cael eu hystyried yn rhai lefel uchel mwyach. Caiff ei hadolygu bob mis mewn cyfarfod yr uwch arweinwyr, ac mae'r Bwrdd Rheoli a'r Cyd-bwyllgor yn adolygu'r gofrestr bob chwarter. Drwy reoli risgiau yn y rhanbarth yn effeithiol, gall GwE gefnogi amcanion y rhanbarth, defnyddio adnoddau'n effeithiol, a chyflawni'r canlyniadau fel y bwriedir.

5.7.2 O dan y cytundeb, bydd Rheolwr Gyfarwyddwr y Gwasanaeth yn adrodd bob blwyddyn i'r Cyd-bwyllgor ac i bob Cyngor unigol ar berfformiad y Gwasanaeth o ran cyflawni swyddogaethau, a chyflawni Amcanion Allweddol y Gwasanaeth.

5.7.3 Cafodd Adroddiad Blynyddol 2018/19 ei gyflwyno i'r Cyd-bwyllgor yn ei gyfarfod ar 22/05/2019.

5.7.4 Roedd aelodaeth ac amlder cyfarfodydd Cyd-bwyllgor GwE yn ystod 2019/20 yn cyd-fynd â'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau.

5.7.5 Mae GwE yn gweithredu o dan bolisïau corfforaethol yr awdurdod lletyol, gan gynnwys wrth reoli gwybodaeth. Hefyd mae gan GwE ddogfennau penodol sy'n ymwneud â'i waith, e.e. cytundeb Datgelu Data WASPI sy'n ymwneud â datgelu gwybodaeth bersonol am ddisgyblion a geir mewn ffurflenni statudol ysgolion, systemau rheoli gwybodaeth ysgolion ac awdurdodau lleol, a systemau data addysgol eraill gan gynnwys systemau olrhain (e.e. FFT, Incerts).

5.7.6 Ar ddyddiad y fantolen, mae GwE yn gweithredu o dan bolisïau corfforaethol yr awdurdod lletyol, gan gynnwys ei reolau gweithdrefnau ariannol.

5.7.7 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn archwilio datganiad cyfrifon blynyddol GwE a chanlyniad yr archwiliad a adroddir i'r Cyd-bwyllgor.

5.7.8 Mae Cyd-bwyllgor GwE yn monitro ac yn craffu ar berfformiad ariannol a gweithredol GwE.

5.7.9 Cafodd y datganiad cyfrifon archwiliedig diweddaraf (h.y. ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19) adroddiad archwilio diamod a chawsant eu cymeradwyo yng nghyfarfod y Cyd-bwyllgor ar 11 Medi 2019, cyn y terfyn amser statudol sef 15 Medi 2019.

5.7.10 Roedd adroddiad diweddaraf Swyddfa Archwilio Cymru, 'Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol a Llythyr Rheoli', a adroddwyd i'r Cyd-bwyllgor ar 11 Medi 2019, wedi dod i'r casgliad bod y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol GwE ar 31 Mawrth 2019 ac o'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â'r gofynion deddfwriaethol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2018-19.

5.7.11 Mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru dyddiedig 11 Medi 2019 yn gwneud un argymhelliad y mae'n rhaid i GwE a'r awdurdod lletyol roi sylw iddo.

| **Mater yn codi 1 – Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol – yr elfen Grant Gwella Addysg** | |
|---|---|
| **Canfyddiadau** | GwE yw'r corff gweinyddu ar gyfer Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol newydd, ac mae elfen ohono i'w ddosbarthu gan Gyngor Gwynedd (sy'n gweithredu fel awdurdod lletyol) ymysg Cynghorau eraill Gogledd Cymru (awdurdodau lleol cyfansoddol GwE). £35,844 oedd y swm dyfarnu yn 2018-19. Mae £26,638 o hwn, sy'n ymwneud â'r Grant Gwella Addysg, yn cael ei ailddosbarthu. Cafodd £24,636 ei ailddosbarthu i'r awdurdodau lleol eraill yng Ngogledd Cymru, a £2,002 ei gadw gan GwE. Cytunir ar y sail |

| | |
|---|---|
| | dros ailddosbarthu gan Bwyllgor Rheoli GwE drwy addasu dyraniad y blynyddoedd blaenorol yn ôl unrhyw doriadau i'r incwm grant gan Lywodraeth Cymru. Wedyn, mae adran gyllid pob awdurdod yn cadarnhau bod y ffigurau'n gywir (rydym wedi profi hyn drwy adolygu'r ffurflenni a anfonwyd dros e-bost at GwE).<br>Ni chaiff llythyrau cynnig grant ffurfiol eu hanfon at bob awdurdod yn cadarnhau swm y Grant Gwella Addysg, fodd bynnag rydym wedi profi bod ffurflenni cydymffurfio â'r Grant Gwella Addysg blynyddol yn cael eu hardystio gan bob awdurdod.<br>Rydym wedi cytuno ar drosglwyddiadau'r gronfa i gyfriflenni banc a hysbysiadau talu, ac yn fodlon bod Pwyllgor Rheoli GwE yn craffu ar y dosbarthiad. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys cynrychiolwyr o bob awdurdod lleol a fyddai'n nodi achos o gamddatgan sylweddol pe bai un. Fodd bynnag, nid ydym wedi gallu dangos tystiolaeth o'r eitem benodol ar agenda cyfarfod y Pwyllgor Rheoli na chofnodion cyfarfod sy'n cadarnhau'n benodol bod y dyraniad hwn wedi'i gymeradwyo. |
| **Argymhelliad** | Argymhellir bod cyfarfodydd Bwrdd Rheoli GwE yn cynnwys eitem ar yr agenda i gytuno'n bendant ar ddosbarthiad blynyddol y Grant Gwella Addysg. |
| **Blaenoriaeth** | Isel. |
| **Mantais o Weithredu'r Argymhelliad** | Gwneud yn siŵr bod dosbarthiad y Grant Gwella Addysg yn cael ei gymeradwyo'n ffurfiol gan Bwyllgor Rheoli GwE, gan gadarnhau bod y dyraniad yn briodol ac yn cyd-fynd â blaenoriaethau GwE a blaenoriaethau'r Grant. |
| **Derbyniwyd yn llawn gan y tîm rheoli** | Do. |
| **Ymateb y Tîm Rheoli** | Cytuno. |
| **Dyddiad gweithredu** | Yn ystod 2019-20 |

Cytunodd y Tîm Rheoli â'r argymhelliad a chafodd ei weithredu ar 11 Hydref 2019.

5.7.12 Mae gan y consortiwm brosesau rheolaeth ariannol effeithiol ar waith. Mae'r cyfathrebu a'r ymgynghori ynghylch y trefniadau ariannol yn effeithiol ac mae staff GwE, yr awdurdod lleol lletyol a'r Cyd-bwyllgor i gyd yn adolygu'r cyllid craidd a'r gwariant grant yn rheolaidd.

5.7.13 Mae dadansoddiad ariannol cadarn yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r cynllun busnes. Mae cynllun ariannol tymor canolig a chynllun gweithlu ill dau yn cyd-fynd â'r cynllun busnes. Drwy ddefnyddio data'n fwyfwy effeithiol i nodi blaenoriaethau allweddol, mae'r cyswllt rhwng y broses cynllunio busnes a'r penderfyniadau ynghylch cynllunio ariannol yn cael ei gryfhau gan fod y ffrydiau gwaith sy'n sail i'r cynllun busnes nodi'n glir yr adnoddau sydd i'w defnyddio.

5.7.14 Cynhyrchwyd fframwaith ffurfiol i asesu'r gwerth am arian ehangach a ddarperir gan GwE. Mae'r farn bellach yn gyson ar draws yr holl randdeiliaid ar sut i fesur gwerth am arian gweithgareddau GwE o fewn strwythur ac amcanion y cynllun busnes.

5.7.15 Cynigir gwella'r fframwaith gwerth am arian yn ystod y flwyddyn er mwyn dangos ymhellach sut mae adnoddau'n cael eu blaenoriaethu.

**5.8 Rhoi arferion da ar waith o ran tryloywder, adrodd ac archwilio er mwyn sicrhau atebolrwydd effeithiol.**

5.8.1 Mae GwE wedi defnyddio dull gweithredu agored a chyson ar gyfer adrodd ar ei fusnes, fel y nodir yn adrannau 5.4 a 5.5 y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, gyda'r nod o helpu i sicrhau bod gwybodaeth yn ddealladwy i randdeiliaid a'u bod yn cael cyfle i herio perfformiad, cynlluniau a phenderfyniadau GwE.

5.8.2 Mae adolygiad o sampl o wybodaeth a adroddwyd i'r Cyd-bwyllgor wedi dangos:

- Bod Adroddiadau a Chynlluniau Blynyddol yn destun adroddiadau cyhoeddus, gan ddarparu trosolwg o berfformiad, er enghraifft;
- Bod adroddiadau rheoli perfformiad yn cael eu cynhyrchu bob chwarter a bod yr holl wybodaeth ar gael yn gyhoeddus;
- Bod cofnodion cyfarfodydd yn cadarnhau bod swyddogion dynodedig yn mynychu pob cyfarfod i gyflwyno adroddiadau ar lafar ac i ateb cwestiynau, a nodwyd nifer o achlysuron lle darparwyd y wybodaeth ddiweddaraf ar ffurf cyflwyniadau.

**Rhan 6: MATERION LLYWODRAETHU ARWYDDOCAOL**

6.1 Mae'r prosesau a ddisgrifir mewn rhannau blaenorol o'r datganiad hwn yn disgrifio'r dulliau a ddefnyddiwyd gan GwE i nodi'r materion llywodraethu mwyaf arwyddocaol sydd angen sylw.

6.2 Ar sail yr asesiad a gynhaliwyd, ystyrir bod trefniadau llywodraethu GwE yn addas i'r diben ac yn dangos yn gyhoeddus sut roeddent yn cyfrannu at gyflawni canlyniadau gwell o ran perfformiad ysgolion, fel y nodir yn y Cynllun Busnes.

6.3 Sail y casgliad cyffredinol yw:

- Dull agored o ymgysylltu â rhanddeiliaid, o gynllunio gwasanaethau a'u darparu, ac o adrodd am berfformiad GwE a chraffu arno;
- Trefniadau clir ar gyfer gwneud penderfyniadau a gefnogir gan drefniadau rheoli gwasanaeth a rheolaeth ariannol cadarn;
- Adrodd am flaenoriaethau ac uchelgeisiau dealladwy, fel yr amlinellir yng Nghynllun Busnes GwE, ac adroddiadau cynnydd sy'n dangos gwelliannau mewn canlyniadau a pherfformiad ar yr un pryd â chynnal sefydlogrwydd ariannol;
- Trefniadau cadarn i helpu Aelodau a Swyddogion etholedig i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol, a chynnal safonau ymddygiad uchel wrth gyflawni busnes ar ran GwE;
- Dull gweithredu tymor canolig ar gyfer cynllunio ariannol, a oedd wedi helpu i ddylanwadu ar benderfyniadau strategol ac ar flaenoriaethau adnoddau.

6.4 Serch y sefyllfa gyffredinol hon, mae'r asesiad wedi nodi meysydd lle ystyrir bod gwelliannau yn angenrheidiol i atgyfnerthu ymhellach effeithiolrwydd trefniadau presennol GwE. Mae manylion am y rhain yn adran 7.

6.5 Gan edrych i'r dyfodol, bydd trefniadau llywodraethu cadarn GwE, ynghyd â gweithredu'r cynigion ar gyfer gwella a nodir yn adran 7 isod, yn hanfodol wrth helpu'r sefydliad i addasu ac aildrefnu'r cymorth rhanbarthol, a pharhau i ddarparu gwasanaeth gwella ysgolion effeithiol yn ystod Covid-19 a'r cyfnod adfer.

**Rhan 7: CYNIGION AR GYFER GWELLA**

7.1 Ar ôl cwblhau'r asesiad o drefniadau llywodraethu GwE, mae'r cynigion ar gyfer gwella i'w gweld isod:

| Egwyddor graidd | Cyf. | Cynnig ar gyfer gwella | Amserlen ar gyfer gweithredu | Enw'r Swyddog Cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| Sicrhau ymgysylltiad agored a chynhwysfawr â rhanddeiliaid | 5.3.16 | Gwneud yn siŵr bod yr adolygiad llywodraethu'n cael ei gwblhau'n derfynol. | Mawrth 2021 | Awdurdod lletyol / Rheolwr Gyfarwyddwr |
| Datblygu gallu'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion sy'n rhan ohono | 5.6.6 | Parhau â datblygiad staff ac adeiladu arno yn ystod y flwyddyn nesaf, gan wneud yn siŵr bod staff yn cael unrhyw ofynion / datblygiadau cymorth newydd o ganlyniad i Covid-19. | Mawrth 2021 | Rheolwr Gyfarwyddwr |
| Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn, a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref | 5.7.15 | Gwella'r fframwaith gwerth am arian yn ystod y flwyddyn er mwyn dangos ymhellach sut mae adnoddau'n cael eu blaenoriaethu. | Mawrth 2021 | Rheolwr Gyfarwyddwr |

7.2 Mae Uwch Dîm Arwain GwE wedi derbyn y cynigion ar gyfer gwella ac wedi ymrwymo i'w gweithredu yn ystod 2020/21. Cadarnhawyd hefyd y bydd diweddariad ar y cynnydd yn cael ei adrodd i'r Cyd-bwyllgor yn ystod y flwyddyn, er mwyn galluogi aelodau i adolygu a chraffu ar hyd a lled y cynnydd sy'n cael ei wneud.

______________________________ ______________________________

______________________________ ______________________________

| | |
|---|---|
| **Swyddog Arweiniol GwE** | **Cadeirydd GwE** |
| **Dyddiad :** ______________________________ | **Dyddiad:** ______________________________ |
| ARWYN LLOYD THOMAS | CYNGHORYDD PHIL WYNN |
| RHEOLWR GYFARWYDDWR GwE | |

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**15 GORFFENNAF**

**Report by:** Arwyn Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

**Subject:** Adroddiad Blynyddol GwE 2019-20

## 1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Cyflwyno Adroddiad Blynyddol GwE ar gyfer y flwyddyn gyllidol 2019-20.

## 2.0 Cefndir

2.1 Fel y datgenir yng Nghytundeb Rhyng–Awdurdod GwE, bydd GwE yn adrodd yn flynyddol am berfformiad y Gwasanaeth o ran cyflawni Swyddogaethau'r Gwasanaeth a'r Nodau Allweddol.

## 3.0 Materion i'w hystyried

3.1 Ynghlwm, cyflwynir yr adroddiad blynyddol sydd yn rhoi trosolwg o'r meysydd a ganlyn: safonau, y blaenoriaethau a'r ddarpariaeth ranbarthol, cyfraniad y gwasanaeth i'r daith ddiwygio, gweithio mewn partneriaeth a materion busnes.

3.2 Adnabuwyd y prif feysydd sydd angen eu datblygu o drefn hunan arfarnu'r gwasanaeth ac mae'r rhain wedi eu cynnwys yn ein Cynllun Busnes. Cymeradwywyd y Cynllun Busnes a'r blaenoriaethau rhanbarthol ar gyfer 2020-2023 yng nghyfarfod o'r Cyd-bwyllgor ar 26 Chwefror 2020.

3.3 Mewn ymateb i COVID-19, ar 23 Mawrth 2020, newidiwyd pwrpas ysgolion, i gefnogi plant gweithwyr allweddol a rhai dysgwyr bregus. Mae GwE hefyd wedi addasu ac adolygu'r blaenoriaethau rhanbarthol a'r ffrydiau gwaith er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau a chefnogi ein holl ysgolion. Ein prif flaenoriaethau a ffrydiau gwaith yn ystod y cyfnod yma yw:

- Cam 1: Cyn y cyfnod clo
- Cam 2: Cefnogi ysgolion ar ddechrau'r cyfnod clo
- Cam 3: Dysgu o Bell
- Cam 4: Cefnogi ysgolion i ailagor
- Cam 5: Dysgu Cyfunol

Mae crynodeb o'r gweithgareddau, deilliannau a'r effaith wedi eu hamlinellu yn yr adroddiad 'Rhaglen waith GwE'.

**4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor gymeradwyo a derbyn yr adroddiad.

**5.0 Goblygiadau ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn. Bydd GwE yn gweithredu oddi fewn yr adnoddau ariannol cyfredol.

**6.0 Effaith o ran cydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran personél yn codi o'r adroddiad hwn.

**8.0 Ymgynghori â wnaed**

8. 1 Ymgynghorwyd â Grwpiau Defnyddwyr GwE, Byrddau Ansawdd Sirol, Fforymau Strategol Penaethiaid, Bwrdd Rheoli GwE a'r Cydbwyllgor.

**9.0 Atodiadau**

9.1 Adroddiad Blynyddol GwE 2019-20

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**
Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**
Mae rhan 5 o'r adroddiad yn egluro "nad oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn" gan fydd "GwE yn gweithredu o fewn ei adnoddau ariannol presennol". O ganlyniad, nid oes gennyf sylwadau i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.

# ADRODDIAD BLYNYDDOL GwE

# 2019 – 2020

## CYNNWYS


1. **Cefndir a chyd-destun**

2. **Safonau**
    - **Proffil Arolygiadau Ysgolion Estyn**
    - **Categoreiddio Cenedlaethol**

3. **Cwestiynau sy'n dod i'r amlwg i helpu'r Cyd-bwyllgor, swyddogion ALl a Phwyllgorau Craffu i arfarnu cynnydd, safonau a pherfformiad disgyblion.**

4. **Blaenoriaethau a Darpariaeth Ranbarthol GwE:**
    - **Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel**
    - **Arweinwyr sy'n ysbrydoli ac sy'n cydweithio i godi safonau**
    - **Ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo i sicrhau rhagoriaeth, tegwch a lles**
    - **Trefniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd cadarn i ategu system hunanwella.**
    - **Cwricwlwm trawsnewidiol**

5. **Y daith ddiwygio:**
    - **Atebolrwydd**
    - **Datblygu Cwricwlwm**
    - **Dysgu Proffesiynol**
    - **Digidol**
    - **Y Gymraeg**
    - **Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)**

6. **Gweithio mewn partneriaeth:**
    - **Adolygu gan Gymheiriaid**
    - **Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu**
    - **Addysg Gychwynnol Athrawon**
    - **Ymchwil a Gwerthuso**

7. **Busnes**

8. **Blaenoriaethau'r Cynllun Busnes ar gyfer 2020-2021**

## 1. CEFNDIR A CHYD-DESTUN

Mae Llywodraeth Cymru, ochr yn ochr ag amryw o bartneriaid ac arbenigwyr, wedi mynd ati i adolygu'r system atebolrwydd i ysgolion yng Nghymru.

Amlygodd y canfyddiadau bod gan y system bresennol, a'i defnydd o fesurau perfformiad, amryw o ganlyniadau anfwriadol negyddol, megis:

- culhau'r dewis yn y cwricwlwm;
- ffocws anghymesur ar grwpiau penodol o ddysgwyr;
- sut y defnyddir meincnodi, sy'n gyrru cystadleuaeth rhwng ysgolion yn hytrach nag annog cydweithredu;
- llwyth gwaith cynyddol a diangen i athrawon ac eraill yn y system, heb yr effaith na'r budd angenrheidiol i ddysgwyr; a
- cyfuno data at ddibenion *atebolrwydd,* pan y'i lluniwyd at ddibenion gwella.

O ganlyniad, mae ysgolion wedi clywed negeseuon anghyson gan y gwahanol rannau o'r system ynghylch yr hyn sy'n bwysig. Yn aml, mae hyn wedi gwyro ymdrechion oddi wrth y dysgu a'r addysgu a'n symud tuag at ddiwylliant o gydymffurfio a biwrocratiaeth.

Roedd gohebiaeth ar y cyd gan Lywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Estyn i Gadeiryddion Craffu, Aelodau Cabinet, Cyfarwyddwyr Addysg, Prif Swyddogion Gweithredol, a Rheolwyr Gyfarwyddwyr Consortia Addysg Rhanbarthol, a gyhoeddwyd ar **16 Gorffennaf 2019** yn datgan:

> "*Mae'n wrthgynhyrchiol rhoi pwysau anghymesur ar ysgolion ar sail mesurau unigol. Nid yw'n llesol i welliant ysgol, a gallai danseilio y newid parhaus mewn diwylliant yr ydym ni'n gweithio gyda'n gilydd i'w gyflawni. Disgwyliwn i awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol gefnogi ysgolion i wneud penderfyniadau priodol am eu cwricwlwm i osgoi culhau'r dewis i ddysgwyr.*
>
> *Ar y cyd, rydym wedi cytuno mai dyma'r ffordd gywir i weithredu, ac fe'ch cynghorwn yn gryf i ddefnyddio ystod eang o wybodaeth a data heb ei gyfuno, fel bod modd i chi gyflawni eich dyletswyddau wrth adrodd ar berfformiad ysgolion. Bydd arfarnu perfformiad ysgolion unigol yn hytrach na chynhyrchu data wedi'i gyfuno ar lefel awdurdod lleol yn fwy buddiol ar gyfer cefnogi a herio ysgolion unigol i wella*."

Bydd yr adran ar berfformiad yng Ngogledd Cymru o'r adroddiad hwn yn cadw at y canllawiau hyn.

**Adrodd ar Asesiad Athro (Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 3)**

Cyflwynwyd newidiadau cenedlaethol o ran adrodd ar asesiad athro yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Ategir amcanion allweddol dogfen Llywodraeth Cymru: 'Cenhadaeth ein cenedl' wrth ddarparu trefniadau asesu, arfarnu ac atebolrwydd cadarn i gefnogi system sy'n hunan wella.

Er mwyn i bob dysgwr gyflawni ei botensial yn llawn, awgryma tystiolaeth ryngwladol bod angen system asesu ac atebolrwydd gydlynol. Prif ddiben asesu yw darparu gwybodaeth sy'n llywio penderfyniadau am y ffordd orau o symud dysgu disgyblion yn ei flaen.

Bellach, mae mwy o ffocws ar i ysgolion ddefnyddio data wrth hunan arfarnu. Yn y system ddiwygiedig, mae ysgolion yn cael eu harfarnu yn unol â'r gwahaniaeth a wnânt i gynnydd pob disgybl.

Mae'r data a'r wybodaeth sydd ar gael i ysgolion er mwyn mesur y cynnydd hwn yn cynnwys: data

diwedd cyfnod allweddol, data mynediad gwaelodlin, data cynnydd disgyblion dros amser, data gwerth ychwanegol rhwng y gwaelodlin a chyfnodau allweddol, data profion diagnostig ar ddarllen a rhifedd, ymchwil weithredol a data profion penodol yn ogystal â deilliannau arolygiad ESTYN.

Mae data a gyfunwyd ar i fyny yn hanesyddol, at ddibenion cymharu, wedi'i ddileu. Nid yw meincnodi, cymharu â sefydliadau eraill, data profion darllen a rhifedd, gosod ysgolion ac Awdurdodau Lleol yn ôl trefn, bellach yn dderbyniol nac yn bosibl. Ers y llynedd, yr unig ddata cymharol sydd ar gael i Awdurdodau Lleol yn y cyfnodau allweddol hyn yw cyfartaleddau Cenedlaethol diwedd y cyfnodau allweddol hyn.

Yn ychwanegol, cyhoeddodd Y Gweinidog Addysg ddatganiad ar dargedau perfformiad ysgolion ym mis Mehefin 2019. Meddai:

' ……, *Rwyf am ei gwneud yn gwbl glir mai dim ond fel cyfrwng i ategu gwaith hunanwerthuso ysgolion y dylid defnyddio targedau, ac na ddylid eu hystyried yn fesur perfformiad y bydd ysgolion yn atebol i awdurdodau lleol ar ei sail.'*

Bydd y newidiadau diweddar hyn mewn gofynion adrodd ar asesu yn cryfhau manwl gywirdeb asesu. Bydd yn lleihau lefelau chwyddedig a 'chwarae'r gêm' ac yn sicrhau bod pob ysgol yn ystyried pob dysgwr yn ofalus, nid yn unig y dysgwyr ffiniol sy'n cael dylanwad ar a fydd ysgol yn cyflawni mesur cul ai peidio.

Bydd pwyslais o'r newydd yn y trefniadau cenedlaethol ar Asesu ar gyfer Dysgu fel rhan hanfodol ac annatod o ddysgu ac addysgu; mae'n gam arwyddocaol oddi wrth casglu gwybodaeth am berfformiad pobl ifanc fesul ysgol at ddibenion atebolrwydd.

Ni fydd data asesiad athro na data Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol ar lefel ysgol, awdurdod lleol na chonsortia yn cael ei gyhoeddi mwyach. Mae hyn yn berthnasol i'r Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 ym mhob ysgol gynradd ac ysgol uwchradd a gynhelir.

Trefniadau fydd yn parhau:

- Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol ac Asesiad Athro ar gyfer dysgwyr unigol, fodd bynnag ni chyhoeddir unrhyw wybodaeth feincnodol lefel ysgol genedlaethol.
- Gofynnir i Benaethiaid adrodd ar berfformiad ysgol i rieni ac oedolion sy'n ddysgwyr pob blwyddyn academaidd.
- Gofynnir i Gyrff Llywodraethu lunio adroddiad blynyddol i rieni, prosbectws ysgol, cynllun datblygu ysgol a gosod targedau perfformiad ac absenoldeb. Mae gan ysgolion, cyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol fynediad i'w data eu hunain o hyd (ynghyd â data ar lefel genedlaethol), at ddibenion hunan arfarnu.
- Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gasglu data ar lefel dysgwr unigol er sicrhau tryloywder ar lefel perfformiad cenedlaethol, ac i lywio'r gwaith o lunio polisïau.

Trefniadau a fydd yn newid:

- Ni chyhoeddir gwybodaeth gymharol am asesiadau athro a phrofion mewn perthynas ag ysgolion eraill mewn awdurdod lleol, na 'theulu o ysgolion'.
- Nid yw Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu, nac yn cyhoeddi, Adroddiadau Cymharol Ysgolion na Setiau Data Craidd Cymru Gyfan mwyach i ysgolion ac awdurdodau lleol, o safbwynt data asesiadau athrawon.
- Ar wefan *My Local School*, ni cheir mwyach ddata asesiadau athrawon sy'n is na'r lefel genedlaethol (o 2018).

**Newidiadau yn y Meysydd Dysgu yn y Cyfnod Sylfaen**
Ym mis Hydref 2014, adolygwyd Meysydd Dysgu (MD) y Cyfnod Sylfaen ar gyfer Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a Datblygiad Mathemategol i gyd-fynd â'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLlRh), yn ogystal â'u gwneud yn fwy heriol. Yn unol â hyn, cafodd ddeilliannau'r Cyfnod Sylfaen eu hail-galibro i gyd-fynd â disgwyliadau cynyddol y Meysydd Dysgu diwygiedig.

Cyflwynwyd y MDaPh diwygiedig ar sail statudol o fis Medi 2015. Golyga hyn mai'r garfan a ddechreuodd yn y dosbarth Derbyn ym mis Medi 2015 oedd y garfan gyntaf o blant i gael eu hasesu'n ffurfiol yn erbyn y deilliannau diwygiedig ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn Haf 2018. Felly, dylid osgoi cymharu deilliannau'r Cyfnod Sylfaen â blynyddoedd blaenorol ar lefel ysgol, gan nad ydynt yn cael eu mesur ar sail gymaradwy.

**Adrodd ar ganlyniadau CA4**
Cyflwynwyd mesurau CA4 newydd dros dro ar gyfer 2019 yn rhan o'r rhaglen diwygio addysg yng Nghymru.

Cesglir data cenedlaethol i ysgolion unigol yn seiliedig ar ganlyniadau arholiadau cyntaf. Bydd y ddata a ddarperir yn rhanbarthol i ysgolion unigol ac AauLl hefyd yn seiliedig ar ganlyniadau arholiadau cyntaf.

Mae JCQ/CBAC wedi cyhoeddi eu data a'u cyhoeddiad i'r wasg yn seiliedig ar y 'deilliant gorau' a gyflawnwyd gan ddysgwyr 16 oed ar draws cyfres mis Tachwedd a'r Haf. Bydd gwahaniaethau rhwng y data arholiad cyntaf a'r deilliant gorau.

O ganlyniad, ar draws amryw o ddangosyddion, ni fydd modd cymharu ffigyrau 2019 â pherfformiad blaenorol.

Yn y tabl isod, gwelir y mesurau dros dro newydd a'r fethodoleg a ddefnyddir ar gyfer cyfrifo. Dengys hefyd y gwahaniaethau allweddol â blynyddoedd blaenorol.

| **Mesur Dro Dro** | **Sut y caiff ei gyfrifo** | **Gwahaniaethau o'r blynyddoedd blaenorol, a pham na ellir cymharu** |
|---|---|---|
| Capio 9 | Mae'r Sgôr Pwyntiau 9 wedi'i gapio yn fesur perfformiad sy'n cyfrifo cyfartaledd y sgoriau am y dyfarniadau gorau i bob disgybl unigol yn y garfan, wedi'i gapio ar gyfer nifer penodol o TGAU neu gymwysterau cyfwerth.<br><br>Mae tri o'r naw slot angen dyfarniadau pynciau a chymwysterau penodol er mwyn cyfrannu unrhyw bwyntiau tuag at y mesur. Mae'r slotiau hyn yn rhai maint TGAU, sy'n nodi gofynion mewn TGAU llythrennedd, rhifedd a gwyddoniaeth yn unig.<br><br>Gall y radd orau o unrhyw TGAU llenyddiaeth neu Gymraeg iaith gyntaf neu Saesneg gyfrannu tuag at y slot llythrennedd. | ✓ Dim ond arholiad cyntaf disgybl fydd yn cyfrif<br>✓ TGAU Gwyddoniaeth CBAC yn unig |

| | | |
|---|---|---|
| | Gall y radd orau o naill ai mathemateg neu fathemateg- rhifedd TGAU gyfrannu at y slot rhifedd.<br><br>Gall y radd orau o TGAU gwyddoniaeth gyfrannu at y slot gwyddoniaeth (ar hyn o bryd, mae hyn wedi'i gyfyngu i ddyfarniadau yng nghyfres cymwysterau TGAU gwyddoniaeth sydd ar gael i ddysgwyr ar hyn o bryd: bioleg, cemeg, ffiseg, gwyddoniaeth (dyfarniad dwbl), gwyddoniaeth gymhwysol (dyfarniad dwbl) a gwyddoniaeth gymhwysol (dyfarniad sengl).<br><br>Bydd y chwe chymhwyster sy'n weddill yn cynnwys perfformiad gorau'r disgybl naill ai mewn TGAU ac/neu gymhwyster galwedigaethol sy'n gyfwerth. | |
| Mesur Llythrennedd | Cyfrifo'r cyfartaledd o'r sgoriau i bob disgybl unigol yn y garfan, cymryd y radd orau o unrhyw TGAU llenyddiaeth neu Gymraeg iaith gyntaf neu Saesneg a ddyfernir i ddisgybl. | Mesur 2019 newydd, dim ond yr arholiad cyntaf fydd yn cyfrif, efo Llenyddiaeth hefyd yn cael ei derbyn o fewn y mesur hwn. |
| Mesur Rhifedd | Cyfrifo'r cyfartaledd o'r sgoriau i bob disgybl unigol yn y garfan, cymryd y radd orau o unrhyw TGAU mathemateg neu fathemateg - rhifedd a ddyfernir i ddisgybl. | Mesur 2019 newydd, dim ond yr arholiad cyntaf fydd yn cyfrif |
| Mesur gwyddoniaeth | Cyfrifo cyfartaledd y sgorau i bob disgybl unigol yn y garfan, cymryd y radd orau o TGAU gwyddoniaeth a ddyfernir i ddysgwr (ar hyn o bryd, mae hyn wedi'i gyfyngu i ddyfarniadau yng nghyfres cymwysterau TGAU gwyddoniaeth sydd ar gael i ddysgwyr: bioleg, cemeg, ffiseg, gwyddoniaeth (dyfarniad dwbl), gwyddoniaeth gymhwysol (dyfarniad dwbl) a gwyddoniaeth gymhwysol (dyfarniad sengl) - adnabyddir bod y rhain yn gallu cyfrannu tuag at fesurau gwyddoniaeth. | Mesur 2019 newydd, dim ond yr arholiad cyntaf fydd yn cyfrif |
| Mesur Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru | Cyfrifo cyfartaledd y sgorau i Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru i bob dysgwr unigol yn y garfan, boed yn ddyfarniad Sylfaen (Lefel 1) neu Genedlaethol (Lefel 2). | Adroddir ar wahân fel prif ddangosydd am y tro cyntaf yn 2019 |

Yn y cyd-destun hwn, dylid dadansoddi'r data ar lefel leol ac fel man cychwyn i gwestiynu blaenoriaethau lleol.

Er bod data 2019 ar gael ar hyn o bryd ar fesurau perfformiad hanesyddol (L1, L2, L2+ a 5A*-A), nid yw'n ddilys cymharu â blynyddoedd blaenorol oherwydd bod yr arholiad cyntaf yn cyfrif yn hytrach na'r deilliant gorau.

## Craffu ar Berfformiad Ysgolion Unigol

Cynhelir cyfarfodydd Bwrdd Ansawdd Lleol cyson rhwng Arweinyddion Craidd GwE a phob ALl. Trafodir unrhyw ysgolion sy'n achosi pryder, a nodir unrhyw gryfderau a meysydd i'w gwella. Mae hyn yn cysylltu â'r cyfarfodydd rheolaidd a gynhelir gan yr arweinydd craidd efo Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant i drafod cynnydd ysgolion. Mae'r gohebu rheolaidd rhwng yr ALl a swyddogion GwE yn sicrhau y rhennir gwybodaeth am allu ysgolion i wella. Ble gwelir bod pryderon, bydd pawb yn gweithio mewn partneriaeth i adolygu'r safonau a'r ddarpariaeth yn yr ysgol a gosod a monitro targedau pendant ar gyfer gwella.

Mae gan bob ALl ei brosesau monitro ei hun i graffu ar berfformiad ysgolion unigol. Mae hyn yn cynnwys defnyddio 'Byrddau Gwelliant Carlam' i ysgolion sy'n achosi pryder.

## Ysgolion sy'n achosi pryder

Mae pob ysgol ar daith tuag at welliant, ac felly mae arnynt angen cymorth a her sy'n briodol a gwahaniaethol i amrywiol raddau. Bydd angen targedu ymyrraeth ddwysach o safbwynt rhai ysgolion.

Mae'r label 'ysgolion sy'n achosi pryder' yn un eang iawn, ac nid yw'r canllawiau cenedlaethol yn diffinio'r term ehangach yn glir. I'n dibenion ni yn GwE, rydym wedi llunio'r diffiniadau hyn:

- Ysgolion y mae arnynt angen cymorth i gynnal neu wella safonau [h.y. symud o 'dda' i 'ragorol' neu 'ysgolion sy'n perfformio'n gyfforddus'];
- Ysgolion sy'n gwella ond y mae arnynt angen rhagor o gymorth i wella'u cofnod llwyddiant ac/neu leihau amrywiad o fewn yr ysgol ymhellach;
- Ysgolion ble mae angen targedu cynhaliaeth ac ymyrraeth fwy penodol i'w hatal rhag achosi pryder sylweddol;
- Ysgolion y gwelir sy'n achosi pryder sylweddol ac/neu sydd mewn categori statudol.

Mae gan GwE, a'r awdurdodau lleol, hanes gyffredinol dda o ran cefnogi ysgolion yn effeithiol, ac yn benodol yr ysgolion hynny sy'n achosi pryder. Mae gan bob ysgol uwchradd 'Gynllun Cefnogaeth' unigryw sy'n sicrhau bod cefnogaeth GwE yn cyd-fynd yn agos â blaenoriaethau eu CDY. Fel hyn, gellir defnyddio adnoddau, arbenigedd ac arferion gorau y rhanbarth yn fwy effeithiol.

Caiff her a chefnogaeth eu targedu yn amserol ac yn effeithiol, sy'n arwain, yn y rhan fwyaf o achosion, at gyflymu'r daith wella yn yr ysgolion sydd wedi'u hadnabod a, ble'n berthnasol, cânt eu tynnu o gategori dilyniant Estyn.

Cynhelir cyfarfodydd Bwrdd Safonau Ansawdd Lleol yn gyson, rhwng yr ALl ac uwch swyddog GwE, a defnyddir y cyfarfodydd hyn i rannu gwybodaeth am berfformiad a chynnydd ysgol, a chytuno ar unrhyw addasiadau sydd angen eu gwneud i'r cynlluniau cymorth. Mae Byrddau Gwella Carlam Dros Dro yn rhoi her ac ymyrraeth i'r ysgolion hyn sydd mewn catgoriau pryder difrifol. Ble erys pryderon, gweithredir ar lefel uwch allai gynnwys defnyddio pwerau ymyrraeth, fel y diffinnir gan ganllawiau cenedlaethol.

## Sefyllfa bresennol y rhanbarth

Bu proffil arolygiadau ysgolion cynradd ac arbennig yn gyson gryf, ac yn cymharu'n ffafriol gyda phroffil Estyn ar gyfer ysgolion ar draws Cymru. O safbwynt yr ysgolion cynradd a roddwyd mewn categori dros y tair blynedd diwethaf, fe'u tynnwyd oddi yno yn sydyn o ganlyniad i'r her a'r gefnogaeth lefel uchel a dargedwyd.

Erys safonau yn y sector uwchradd yn destun pryder. Dros y flwyddyn a hanner ddiwethaf, mae GwE wedi:

- ail greu proffil y gwasanaeth i sicrhau bod adnoddau ychwanegol yn cael eu targedu tuag at y sector uwchradd;
- cryfhau'r tîm o YCG cyswllt uwchradd i sicrhau profiad ac arbenigedd perthnasol;
- sicrhau bod gan bob ysgol uwchradd raglen gymorth generig ac unigryw;
- hwyluso mynediad at y rhwydweithiau cwricwlwm, MAT, ôl-16 a phynciol i rannu arferion da;
- mabwysiadu dull targedu cynhaliaeth ar ffurf 'ton' i sicrhau gwelliannau parhaus mewn pynciau craidd;
- cyfoethogi cynnig GwE o gyfleoedd datblygiad proffesiynol [ac yn arbennig felly i arweinwyr profiadol, newydd a darpar arweinwyr y dyfodol];
- arwain *y fenter Asesu ar gyfer Dysgu* ranbarthol i wella dysgu ac addysgu efo Shirley Clarke;
- sicrhau rhagor o gymorth i benaethiaid drwy gyfarfodydd fforymau strategol, ac i'r ysgolion sy'n cymryd rhan drwy'r fforwm *Rhagoriaeth ac Arloesi* ;
- cefnogi 12 ysgol yn y rhanbarth i ymchwilio i amrywiad mewn ysgol, a rhoi sylw iddo, drwy wella prosesau tracio data ac ymyrraeth. Bydd modd trosglwyddo'r gwersi a ddysgwyd o'r peilot i bob ysgol ar draws yr ALl;
- darparu cymorth ariannol er mwyn gweithredu mewn ffordd fwy diagnostig i sicrhau gwelliannau mewn Saesneg a Mathemateg yn CA4 drwy PIXL;
- darparu hyfforddiant penodol ar gais ysgolion i arweinwyr canol cwricwlwm ac arweinwyr bugeiliol;
- cefnogi hyfforddiant unigryw i ysgolion ac adrannau targed i wella agweddau ar ddysgu ac addysgu, e.e. efo Tom Sherrington, Olevi ITP ac OTP.
- dwysau cymorth ac arweiniad i ysgolion sector uwchradd mewn awdurdod penodol fel rhan o weithredu ôl-arolygiad

Ar ben y gefnogaeth unigryw a ddarparwyd i ysgolion uwchradd yn y pynciau craidd, rhoddwyd arweiniad rhanbarthol a lleol drwy'r rhwydweithiau a'r fforymau pynciol. Dyma rai o'r meysydd allweddol gafodd sylw:


- Saesneg: Cefnogaeth astudio Safon Uwch, Hyfforddiant Darllen Carlam, datblygu llythrennedd ar draws y cwricwlwm, gwella llafaredd i gefnogi ysgrifennu, gwella tracio ac ymyrraeth yn CA4, gwella safonau ysgrifennu yn CA4, arweiniad ar ddarpariaeth MAT mewn Saesneg, datblygu adnoddau e.e. *Adnodd 'Fix-it' i gefnogi'r gwaith atgyweirio sydd ei angen i roi sylw i sgiliau gwan, Pecynnau Meistroli i CA4, Cynllun Gwaith Gothic efo pwyslais ar ramadeg i Flwyddyn 7*
- Mathemateg: arweiniad ar arweinyddiaeth a diweddariadau ar y cwricwlwm newydd, rhannu'r arferion gorau o *Whiterose Maths Academies* ar ddatblygu addysgeg yn eu clwstwr o ysgolion, datblygu addysgeg adrannol drwy 'ddyfnhau'r meddwl', datblygu addysgeg Safon Uwch, cefnogi gwaith cydweithio rhwng cydlynwyr rhifedd i adnabod yr arferion gorau o ran datblygu sgiliau ar draws y cwricwlwm, datblygu arweinyddiaeth cydlynwyr rhifedd sydd yn eu dwy flynedd gyntaf yn y swydd, datblygu dealltwriaeth o'r newidiadau yn y profion Rhifedd Gweithdrefnol.
- Gwyddoniaeth: rhagori mewn Gwyddoniaeth TGAU - rhannu'r arferion gorau, rhannu strategaethau ymyrraeth llwyddiannus yn CA4, datblygu llythrennedd gwyddonol - ymchwil sy'n seiliedig ar dystiolaeth gan Brifysgol Bangor, datblygu strategaethau i ennyn diddordeb dysgwyr mewn Gwyddoniaeth, gweithio gydag ysgolion i ddatblygu gwybodaeth wyddonol a chefnogi disgyblion wrth iddynt ddysgu am gysyniadau gwyddonol, datblygu sgiliau darllen mewn Gwyddoniaeth, rhannu 'strategaethau sut i ddysgu' ac arferion galw i gof, datblygu sgiliau darllen a deall geiriau gorchymyn a dwy haen, datblygu dealltwriaeth ddyfnach o'r manylebau TGAU.

## Symud Ymlaen

Rydym yn cydnabod bod pob ysgol ar gontinwwm gwella.  Mae rhai yn eu dyddiau cynnar ac yn datblygu, mae eraill yn datblygu ac yn cryfhau tra bod ein hysgolion cryfaf yn fwy annibynnol a grymus.

Yn aml, gofynnir i'r Gwasanaeth blethu llu o fetrigau gwella ysgol mewn un diffiniad.  Er hynny, mae hi'r un mor bwysig darlunio'r daith nid yn unig y 'ciplun' o ble mae'r ysgol arni ar y daith honno.

Bwriad y diagram canlynol, gan DfE yn Lloegr, yw diffinio'r camau ar hyd taith ysgol, ac mae'n dechrau diffinio taith wella ysgol:




Teimlwn fod y math hwn o ddiagram yn adnodd mwy defnyddiol wrth i ni fod yn trafod lefel a natur ofynnol y gefnogaeth efo ysgolion.  O'i weithredu, gall fod yn strategaeth effeithiol hefyd i weld lle mae ysgolion arni ar ddechrau unrhyw duedd 'at i lawr', felly ni fyddai angen iddynt gael eu hadnabod fel '*'ysgolion sy'n achosi pryder.'*

Credwn hefyd y dylai gwaith cefnogi ac ymgysylltu â chymheiriaid fod wrth wraidd gwella ysgol.  Mae gweledigaeth Llywodraeth Cymru am system werthuso, gwella ac atebolrwydd yn un sy'n deg, yn gydlynol, yn gymesur, yn dryloyw ac yn seiliedig ar werthoedd cyffredin ar gyfer addysg yng Nghymru. Mae Cenhadaeth ein Cenedl yn ein hymrwymo i weithio gyda Llywodraeth Cymru, a rhanddeiliaid allweddol eraill, i sefydlu trefniadau newydd ar gyfer arfarnu a gwella, a hynny ar bob lefel.  Bydd angen i'r trefniadau hyn fod yn ddigon cadarn a chryf i sicrhau'r gwelliannau a fynnir mewn ysgolion, ac yn arbennig felly yn y sector uwchradd.  O fewn y trefniadau hyn, mae disgwyliad clir i ysgolion ddatblygu nid yn unig y capasiti a'r sgiliau i herio eu hunain yn effeithiol, ond hefyd y gallu i weithio ar y cyd ac yn systematig mewn model gwella ysgolion yn seiliedig ar ymgysylltiad cymheiriaid proffesiynol.

Mae GwE a'r chwe awdurdod lleol rhanbarthol wedi cynnal proses ymgynghori â Phenaethiaid ar yr amrywiol agweddau ar *y Daith Ddiwygio Genedlaethol*. O ran datblygu fframwaith rhanbarthol ar gyfer cefnogi ac ymgysylltu â chymheiriaid, awgrymodd y penaethiaid yr egwyddorion hyn:

- dylid mabwysiadu dull gweithredu adolygu gan gymheiriaid yn rhanbarthol er mwyn gyrru cynnydd ymhellach tuag at system hunan wella;
- ni ddylid datblygu'r model adolygu gan gymheiriaid hwn i gyflwyno *system o 'ffug arolygiadau'*;
- dylai rhanddeiliaid weithio gyda'i gilydd yn effeithiol er sicrhau ein bod yn creu'r amodau priodol ar gyfer adolygu gan gymheiriaid sy'n effeithiol;
- dylem gytuno ar set ranbarthol o egwyddorion ac iaith dechnegol ar gyfer ein model, a'u harfer;
- dylem gytuno ar ffiniau'r fframwaith, fydd yn rhoi hyblygrwydd i ysgolion weithredu ystod o fodelau;
- dylai ysgolion gael rhyddid a hyblygrwydd i ddethol eu cymheiriaid;
- dylai'r model gynnwys ymgysylltu â chymheiriaid ar bob lefel mewn ysgol;
- dylai'r model hybu ymddiriedaeth, gonestrwydd, tryloywder a ffydd broffesiynol;
- dylai ymgysylltu fod yn broses gefnogol a chynaliadwy, yn hytrach nag un digwyddiad beichus, un-tro;
- dylai'r model gefnogi symud diwylliannol tuag at berchenogaeth ar y cyd

Mae Steve Munby a Michael Fullen (2016) yn eu papur '*Inside-out and downside-up*' yn amlinellau y 'ffactorau llwyddiant hanfodol ar gyfer cydweithrediad effeithiol ysgolion ar draws y system gyfan:

- mae'n rhaid mai pwrpas y cydweithredu yw gwella deilliannau;
- mae'n rhaid i'r bartneriaeth fod yn seiliedig ar bwrpas moesol eglur a rennir;
- mae tryloywder, ymddiriedaeth a gonestrwydd yn hanfodol;
- mae ymrwymiad i, a chapasiti ar gyfer, adolygu effeithiol gan gymheiriaid yn creu'r peiriant sy'n llywio gwelliant;
- mae angen cynnal adolygiadau gan gymheiriaid fel rhan o berthynas hirdymor ac ymrwymiad i wella arferion a systemau yn gyson drwy gylchoedd ymholi ar y cyd;
- mae'n rhaid bod gan y bartneriaeth gynllun i ddatblygu o gydweithrediad i gyfrifoldeb ar y cyd i rannu atebolrwydd proffesiynol;
- dylai'r bartneriaeth fynd y tu hwnt i arweinwyr ysgolion ac ymgysylltu â disgyblion, athrawon, teuluoedd a chymunedau;
- mae partneriaethau'n croesawu gwaith craffu a chefnogaeth gan bartneriaethau eraill fel eu cyfraniad at system leol, ranbarthol a chenedlaethol gysylltiedig.

Credwn yn gryf y dylai gwaith ymgysylltu â chymheiriaid fod yn sail i gylch trylwyr o welliant parhaus, a chynnwys:

- ***Hunan-adolygiad***: dylai adolygu effeithiol gan gymheiriaid ddechrau efo pa mor dda mae'r ysgol yn adnabod ei hun, a chael ei harwain gan yr ysgol sy'n cael ei hadolygu. Dylai'r adnodd hunan arfarnu cenedlaethol a ddatblygwyd gan Estyn/OECD a'r proffesiwn chwarae rhan allweddol yn yr agwedd hon. Dylai hunan arfarnu ganolbwyntio ar y dysgwr, eu cyflawniadau, eu cynnydd a'u profiadau yn yr ysgol, a chanolbwyntio ar ddysgu ac addysgu, arweinyddiaeth, datblygu diwylliant o ddysgu, lles disgyblion a staff, cydraddoldeb a chynhwysiant. Wrth symud ymlaen, dylai hunan arfarnu hefyd ganolbwyntio ar bedwar diben y cwricwlwm newydd ac arfarnu cynnydd yr ysgol tuag at gyflawni'r cwricwlwm newydd. Dylai prosesau hunan arfarnu'r ysgol adael i'r ysgol adnabod cryfderau a blaenoriaethau gwella. Dylai hefyd nodi agweddau ar eu taith wella ble mae angen cymorth gan gymheiriaid i gefnogi gwelliant.

- ***Adolygiad gan gymheiriaid***: mae ffocws cyffredin i'r adolygiadau cymheiriaid mwyaf effeithiol. Rhaid mai pwrpas y cydweithio yw gwella deilliannau a dylai unrhyw ffocws cyffredin fod yn seiliedig ar dystiolaeth gref o'r hyn sydd angen i wella, a pha ddeilliannau fyddai'n elwa'r ysgol fwyaf. Mae adolygwyr cymheiriaid sy'n gweithio fel tîm, neu driawd, yn gweithio orau ble gallant driongli tystiolaeth a dadansoddi eu canfyddiadau ar y cyd. Nid ydynt yno i farnu, ond yn hytrach chwilio am dystiolaeth a chytuno ar ganfyddiadau i'w rhannu efo'r ysgol. Mae'n hanfodol nad yw'r broses adolygu gan gymheiriaid yn dod yn *system o 'ffug arolygiadau'*. Mae'n rhaid i'r bartneriaeth fod yn seiliedig ar bwrpas moesol eglur a rennir, ble mae tryloywder, ymddiriedaeth a gonestrwydd yn allweddol ac yn greiddiol i'r broses. Dylai'r adolygu gan gymheiriaid hefyd roi cyfleoedd i ddatblygu'n broffesiynol, a chynnwys arweinwyr ar bob lefel.

- ***Cymorth Ysgol i Ysgol*** : os yw'r adolygu gan gymheiriaid am fod yn gyfrwng ar gyfer gwelliant parhaus mewn systemau ysgolion, yna rhaid iddo fynd ymhellach na'r adolygiad eu hun, a chynnwys cymorth ysgol i ysgol neu gymorth clwstwr. Ble mai'r staff sy'n berchen ar y deilliannau, bydd yr effaith hirdymor a'r effaith gynaliadwy, yn fwy. Bydd hyn yn helpu i ddatblygu cynhwysedd a gwella gwydnwch o fewn system sy'n hunan wella. Dylai'r bartneriaeth fynd y tu hwnt i arweinwyr ysgolion ac ymgysylltu â disgyblion, athrawon, teuluoedd a chymunedau.

Mae GwE a'r chwe awdurdod lleol rhanbarthol wrthi'n gweithio gydag ysgolion i sefydlu model rhanbarthol ar gyfer ymgysylltu â chymheiriaid, sy'n llawn adlewyrchu'r egwyddorion a'r gwerthoedd a nodwyd gan Benaethiaid, ac sydd hefyd yn dysgu o arferion da yn genedlaethol a thu hwnt. Mae Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant yn ganolog wrth i ni hwyluso a datblygu'r model hwn.

Mae hyn yn cyfleu ein dull gweithredu o fewn agwedd 'atebolrwydd' y daith ddiwygio. Mae'n manylu ar sut y gellir defnyddio gwaith ymgysylltu â chymheiriaid i fod yn sylfaen i gylch trylwyr o ddatblygiad a gwelliant parhaus. Credwn y dylai ymgysylltu â chymheiriaid fod yn rhan ganolog o wella ysgol wrth symud tuag at system hunan wella, tra hefyd yn cynnal yr ysgolion hynny sy'n achosi pryder.

## 2. SAFONAU

Yn hanesyddol mae'r proffil arolygiadau ar draws y rhanbarth wedi bod yn gryf, ar y cyfan.

Cyfuno arolygiadau ysgolion Medi 2017 – Chwefror 2020

| Blwyddyn | Rhanbarth | Nifer a arolygwyd | Dim dilyniant | | Adolygu gan Estyn | | Gwelliant Sylweddol | | Mesurau Arbennig | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | % | # | % | # | % | # | % | # |
| 17/18 | GwE | 69 | 82.6 | 57 | 14.5 | 10 | 1.4 | 1 | 1.4 | 1 |
| 17/18 | Cymru | 237 | 75.1 | 178 | 17.3 | 41 | 4.6 | 11 | 3.0 | 7 |
| 18/19 | GwE | 64 | 79.7 | 51 | 17.2 | 11 | 1.6 | 1 | 1.6 | 1 |
| 18/19 | Cymru | 227 | 75.8 | 172 | 19.8 | 45 | 1.8 | 4 | 2.6 | 6 |
| 19/20* | GwE | 36 | 63.9 | 23 | 25.0 | 9 | 2.8 | 1 | 8.3 | 3 |

*-Arolygiadau hyd at Chwefror 2020

Y farn yn yr holl ysgolion 2018-19

| | Safonau | | Llesiant | | Addysgu | | Cymorth | | Arweinyddiaeth | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | GwE | Cymru | GwE | Cymru | GwE | Cymru | GwE | Cymru | GwE | Cymru |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhagorol | 18.8 | 11.5 | 25.0 | 19.8 | 17.2 | 11.9 | 23.4 | 18.9 | 28.1 | 17.2 |
| Da | 62.5 | 65.2 | 67.2 | 67.4 | 62.5 | 62.1 | 71.9 | 70.9 | 51.6 | 58.6 |
| Digonol | 15.6 | 21.1 | 7.8 | 12.3 | 20.3 | 24.2 | 4.7 | 8.4 | 18.8 | 20.7 |
| Anfoddhaol | 3.1 | 2.2 | 0.0 | 0.4 | 0.0 | 1.8 | 0.0 | 1.8 | 1.6 | 3.6 |

Y farn yn yr holl ysgolion a arolygwyd yn 2019-20 hyd at diwedd Chwefror 2019-20

| | Safonau | | Llesiant | | Addysgu | | Cymorth | | Arweinyddiaeth | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | GwE | Cymru | GwE | Cymru | GwE | Cymru | GwE | Cymru | GwE | Cymru |
| Rhagorol | 5.6 | - | 25.0 | - | 5.6 | - | 19.4 | - | 16.7 | - |
| Da | 75.0 | - | 63.9 | - | 66.7 | - | 66.7 | - | 47.2 | - |
| Digonol | 8.3 | - | 11.1 | - | 22.2 | - | 13.9 | - | 27.8 | - |
| Anfoddhaol | 11.1 | - | 0.0 | - | 5.6 | - | 0.0 | - | 8.3 | - |

Arolygiadau Ysgolion Cynradd   Medi 2017 – Chwefror 2020

| Blwyddyn | Rhanbarth | Nifer a arolygwyd | Dim dilyniant | | Adolygu gan Estyn | | Gwelliant Sylweddol | | Mesurau Arbennig | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | % | # | % | # | % | # | % | # |
| 17/18 | GwE | 59 | 86.4 | 51 | 11.9 | 7 | 1.7 | 1 | 0.0 | 0 |
| 17/18 | Cymru | 200 | 80.5 | 161 | 14.5 | 29 | 3.5 | 7 | 1.5 | 3 |
| 18/19 | GwE | 54 | 88.9 | 48 | 11.1 | 6 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 |
| 18/19 | Cymru | 188 | 80.9 | 152 | 16.5 | 31 | 0.5 | 1 | 2.1 | 4 |
| 19/20* | GwE | 29 | 65.5 | 19 | 27.6 | 8 | 0.0 | 0 | 6.9 | 2 |

*-Arolygiadau hyd at Chwefror 2020 / Yn cynnwys ysgolion gydol oes

Arolygiadau Ysgolion Uwchradd/Pob Oedran Medi 2017 – Chwefror 2020

| Blwyddyn | Rhanbarth | Nifer a arolygwyd | Dim dilyniant | | Adolygu gan Estyn | | Gwelliant Sylweddol | | Mesurau Arbennig | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | % | # | % | # | % | # | % | # |
| 17/18 | GwE | 7 | 57.1 | 4 | 28.6 | 2 | 0.0 | 0 | 14.3 | 1 |
| 17/18 | Cymru | 30 | 50.0 | 15 | 33.3 | 10 | 10.0 | 3 | 6.7 | 2 |
| 18/19 | GwE | 8 | 12.5 | 1 | 62.5 | 5 | 12.5 | 1 | 12.5 | 1 |
| 18/19 | Cymru | 32 | 43.8 | 14 | 40.6 | 13 | 9.4 | 3 | 6.3 | 2 |
| 19/20* | GwE | 8 | 50.0 | 4 | 25.0 | 2 | 12.5 | 1 | 12.5 | 1 |

*-Arolygiadau hyd at Chwefror 2020 / Yn cynnwys ysgolion gydol oes

Y farn mewn ysgolion Cynradd 18/19 & 19/20

| | Safonau | | Llesiant | | Addysgu | | Cymorth | | Arweinyddiaeth | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 18/19 | 19/20 | 18/19 | 19/20 | 18/19 | 19/20 | 18/19 | 19/20 | 18/19 | 19/20 |
| Rhagorol | 20.4 | 6.9 | 27.8 | 17.2 | 18.5 | 6.9 | 25.9 | 13.8 | 31.5 | 17.2 |
| Da | 70.4 | 79.3 | 68.5 | 75.9 | 72.2 | 69.0 | 72.2 | 75.9 | 57.4 | 48.3 |
| Digonol | 9.3 | 6.9 | 3.7 | 6.9 | 9.3 | 20.7 | 1.9 | 10.3 | 11.1 | 27.6 |
| Anfoddhaol | 0.0 | 6.9 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 3.4 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 6.9 |

*-Arolygiadau hyd at Chwefror 2020 / Yn cynnwys ysgolion gydol oes

Y farn mewn ysgolion Uwchradd 18/19 & 19/20

| | Safonau | | Llesiant | | Addysgu | | Cymorth | | Arweinyddiaeth | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 18/19 | 19/20 | 18/19 | 19/20 | 18/19 | 19/20 | 18/19 | 19/20 | 18/19 | 19/20 |
| Rhagorol | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 50.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 37.5 | 0.0 | 12.5 |
| Da | 12.5 | 50.0 | 62.5 | 25.0 | 0.0 | 50.0 | 75.0 | 25.0 | 12.5 | 37.5 |
| Digonol | 62.5 | 25.0 | 37.5 | 25.0 | 100.0 | 37.5 | 25.0 | 37.5 | 75.0 | 37.5 |
| Anfoddhaol | 25.0 | 25.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 12.5 | 0.0 | 0.0 | 12.5 | 12.5 |

*-Arolygiadau hyd at Chwefror 2020 / Yn cynnwys ysgolion gydol oes

**Cynradd** - O'r 29 o ysgolion cynradd a'r un ysgol gydol oes a arolygwyd yn 2019/20 hyd at ddiwedd Chwefror barnwyd nad oedd angen dilyniant ar 19 ohonynt (65.5%) o gymharu â 88.9% yn 2018/19. Roedd 10 ysgol (34.5%) angen gweithgarwch dilynol o gymharu â 11.1% yn 2018-19. Dyfarnwyd y categori dilyniant lleiaf dwys sef Adolygu gan Estyn i 8 o'r 10 gyda 2 mewn mesurau arbennig. Ar hyn o bryd, mae 14 ysgol mewn categori dilyniant gyda 2 ysgol mewn Categori Statudol (mesurau arbennig).

**Uwchradd** - o'r 8 ysgol a arolygwyd hyd yma yn ystod 2019/20 barnwyd nad oedd angen unrhyw ddilyniant mewn 4 ysgol (50% mewn cymhariaeth â 12.5% yn 2018/19). Barnwyd bod 2 i'w hadolygu gan Estyn (25% mewn cymhariaeth â 62.5% yn 2018/19) tra gosodwyd dwy mewn categori dilyniant statudol [un mewn mesurau arbennig a un angen gwelliant sylweddol]. Roedd y ddwy ysgol hyn eisoes wedi'u hadnabod fel 'risg uchel' yn ein proffil.

O ystyried y meysydd arolygu barnwyd bod safonau yn dda neu well mewn 4 o'r 8 wyth ysgol (sef 50% mewn cymhariaeth â 12.5% yn 2018/19) ac yn dda neu well mewn 6 ysgol o ran lles ac agweddau at ddysgu (sef 75% mewn cymhariaeth â 62.5% yn 2018/19). Ym maes arolygu 3 barnwyd bod yr addysgu yn dda neu well mewn 4 ysgol (sef 50% mewn cymhariaeth â 0% yn 18/19). Barnwyd bod 5 ysgol yn dda neu well o ran gofal, cymorth ac arweiniad (sef 62.5% mewn cymhariaeth â 75% yn 2018/19) tra barnwyd bod 4 ysgol yn dda neu well o ran arweinyddiaeth (sef 50% mewn cymhariaeth â 12.5% yn 2018/19). Gwelwyd cynnydd yn y dyfarniadau rhagorol gyda lles ac agweddau dysgu yn rhagorol mewn 4 ysgol, gofal, cymorth ac arweiniad yn rhagorol mewn 3 ysgol a'r arweinyddiaeth yn rhagorol mewn un ysgol. Ni ddyfarnwyd 'rhagorol' i'r un ysgol yn unrhyw un o'r meysydd arolygu yn ystod 2018/19.

Mae proffil presennol y rhanbarth yn dangos bod 7 ysgol uwchradd mewn categori statudol. Mae gan bob ysgol CGOA cyfansawdd ac mae Estyn wedi cadarnhau cynllun cymorth yr ALl. Mae'r ysgolion hyn mewn mannau gwahanol ar y continiwm gwelliant gyda chynnydd amlycach mewn dwy ysgol. Mae pob ysgol yn cael ymweliadau monitro yn rheolaidd, a rhoddir gwybod i swyddogion yr awdurdod lleol perthnasol o'r cynnydd a wneir, ac fe dynnir eu sylw at unrhyw bryderon sy'n codi. Mae 7 arall yn cael eu hadolygu gan Estyn ac mae disgwyliad clir y bydd pob ysgol yn tystio i'r gwelliannau angenrheidiol oddi fewn i'r terfyn amser bennwyd.

**Arbennig/UCD –** Ni arolygwyd dim un Ysgol Arbennig na Uned Cefnogi Dysgu hyd yma yn 2019-20.


## CATEGOREIDDIO CENEDLAETHOL


### Pob ysgol

Ar draws pob sector, roedd canran yr ysgolion wedi'u categoreiddio yn Radd A a B yng Ngham 2 wedi lleihau ychydig o 92.2% yn 2018 i 89.6% (361 ysgol) yn 2019 oherwydd bod nifer yr ysgolion y dyfarnwyd gradd C iddynt wedi codi o 9 i 35 (8.7%), a bod nifer yr ysgolion y dyfarnwyd gradd D iddynt

wedi codi o 1 i 7 (1.7%). Mae'r ganran sydd wedi'i chategoreiddio fel Gradd A yn dal i godi efo 47.6% (192 ysgol) yn cael gradd A.

Mae canran yr ysgolion sydd wedi'u categoreiddio yn Wyrdd neu'n Felyn yng Ngham 3 wedi lleihau o 91.0% yn 2018 i 88.1% (335 ysgol) yn 2019 gyda chanran yr ysgolion Melyngoch neu Goch yn codi 2.9% oherwydd 10 ysgol ychwanegol yn cael eu dyfarnu yn Felyngoch, ac 1 ychwanegol yn cael ei dosbarthu yn Goch. Mae'r ganran sydd wedi'i chategoreiddio yn Goch wedi codi o 0.2% i 2.2% (9 ysgol), a'r ganran yn Wyrdd wedi codi eto i 40.4% (163 ysgol).








**Cynradd**

Roedd canran yr ysgolion wedi'u categoreiddio yn Radd A a B yng Ngham 2 wedi lleihau o 94.6% yn 2018 i 92.7% (319 ysgol), a roedd nifer yr ysgolion y dyfarnwyd gradd C iddynt wedi codi 4 i 23, a nifer yr ysgolion y dyfarnwyd gradd D iddynt wedi codi 0 i 2. Mae'r ganran sydd wedi'i chategoreiddio fel Gradd A wedi codi'n sylweddol, o 35.5% yn 2017, 44.1% yn 2018 i 51.2% (176 ysgol) yn 2019.

Mae canran yr ysgolion sydd wedi'u categoreiddio yn Goch neu'n Felyngoch yng Ngham 3 wedi codi o 6.6% yn 2081 i 8.7% (30 ysgol) efo 7 ysgol ychwanegol wedi'u categoreiddio yn Felyngoch neu'n Goch. Mae'r ganran sydd wedi'i chategoreiddio yn goch wedi codi o 0% yn 2018 i 0.6% yn 2019 oherwydd bod 2 ysgol wedi'u categoreiddio yn Goch. Mae'r ganran sydd wedi'i chategoreiddio yn wyrdd wedi codi'n sylweddol, o 30.7% yn 2017, 38.1% yn 2018 i 43.0% (148 ysgol) yn 2019.








**Uwchradd**

Gostyngodd canran yr ysgolion sydd wedi'u categoreiddio yn Radd A neu B yng Ngham 2 o 75.9% (41 ysgol) yn 2018 i 64.8% (35 ysgol) yn 2019. Gostyngodd y ganran sydd wedi'i chategoreiddio yn D o 11.1% (6 ysgol) i 9.3% (5 ysgol). Mae’r ganran sydd wedi'i chategoreiddio fel Gradd A yn dal i godi o 22.2% yn 2017 i 25.9% (14 ysgol) yn 2019.

Mae canran yr ysgolion sydd wedi'u categoreiddio yn goch neu'n felyngoch yng Ngham 3 wedi codi o 25.9% (14 ysgol) yn 2018 i 37.0% (20 ysgol) yn 2019. Mae’r ganran sydd wedi'i chategoreiddio yn goch wedi gostwng o 14.8% (8 ysgol) yn 2018 i 13.0% (7 ysgol) yn 2019. Mae’r ganran sydd wedi'i chategoreiddio yn Wyrdd wedi aros yn gyson ar 24.1% (13 ysgol), a'r ganran wedi'i chategoreiddio yn Felyn wedi codi o 50% yn 2018 i 38.9%. O ganlyniad, mae'r ganran sydd wedi'i chategoreiddio yn Felyngoch wedi codi o 11.1% yn 2018 i 24.1%, a nifer yr ysgolion Melyngoch wedi codi o 7 i 13.








**Arbennig**

Mae canran yr ysgolion sydd wedi'u categoreiddio fel Gradd C a D yng Ngham Cam 2 wedi gostwng i 0. Ni chafodd yr un ysgol arbennig ei chategoreiddio fel Gradd D ers 2016. Mae’r ganran a gategoreiddiwyd fel Gradd A wedi lleihau o 55.6% (5 ysgol) yn 2018 i 33.3% (3 ysgol) yn 2019. Mae 6 o'r 9 ysgol wedi'u categoreiddio yn Radd B, fyny o 3 yn 2018.

Mae canran yr ysgolion sydd wedi'u categoreiddio yn goch neu'n felyngoch yng Ngham 3 wedi gostwng i 0.0%, ac ni chafodd yr un ysgol arbennig ei rhoi mewn categori coch ers 2016. Mae'r ganran sydd wedi'i chategoreiddio yn wyrdd wedi lleihau o 44.% (4 ysgol) i 33.3% (3 ysgol). Mae 6 o'r 9 ysgol wedi'u categoreiddio yn Felyn, fyny o 4 yn 2018.



## 3. CWESTIYNAU SY'N DOD I'R AMLWG I HELPU'R CYD-BWYLLGOR, SWYDDOGION ALL A PHWYLLGORAU CRAFFU I ARFARNU CYNNYDD, SAFONAU A PHERFFORMIAD DISGYBLION.

### Asesiadau Athro

- Pam y mae deilliannau'r Cyfnod Sylfaen, CA2 a CA3 yn ymddangos yn is yn y ddwy flynedd ddiwethaf?
- Pam y mae proffil rhanbarthol ESTYN a gweithgarwch casglu gwybodaeth GwE yn gwrth-ddweud deilliannau sy'n gostwng yn y Cyfnod Sylfaen?
- Pa mor effeithiol y dadansoddir ac yr adroddir am gynnydd a data gwerth ychwanegol er mwyn cryfhau perfformiad a gwella safonau?
- I ba raddau mae ysgolion yn olrhain asesu yn rymus, a hynny ar gyfer dysgwyr o bob oedran?
- Sut y mae ysgolion yn defnyddio data asesu gwaelodlin i dargedu a chynllunio ymyrraeth?
- A yw dysgwyr unigol a grwpiau o ddysgwyr yn cael eu hadnabod yn gywir a'u cefnogi'n effeithiol?
- A yw ysgolion wedi datblygu trefniadau hunan arfarnu effeithiol sydd yn mynd y tu hwnt i ddata perfformiad diwedd cyfnod allweddol er mwyn adnabod yr hyn maen nhw'n wneud yn dda a'r hyn sydd angen newid?
- Pa gamau gweithredu y mae arweinwyr yn rhoi sylw iddynt gyda dosbarthiadau sy'n tanberfformio yn barhaus?
- Pa mor gadarn yw gweithdrefnau safoni mewnol a chymedroli clwstwr mewn ysgolion?
- Pa brosesau monitro sydd ar waith i sicrhau bod ysgolion yn gosod targedau priodol?
- A yw ysgolion yn sicrhau cwricwlwm eang a chytbwys, ac nid â'u holl fryd ar set gul o bynciau a meysydd dysgu?

  Pa ddata ysgol ellir ei ddefnyddio at ddibenion hunan arfarnu Awdurdod Lleol a sut gellir cyflwyno hwn?

### Cyfnod Allweddol 4

- I ba raddau mae pob ysgol yn croesawu'r newid cenedlaethol mewn cyfeiriad ac ymddygiad er mwyn datblygu i'r eithaf berfformiad disgyblion unigol ar draws yr ystod gallu? A oes gan arweinwyr ysgolion weledigaeth glir o ran beth i'w newid a pham?
- A yw pob ysgol wedi datblygu trefniadau hunan arfarnu effeithiol sydd yn mynd y tu hwnt i ddata perfformiad arholiadau er mwyn adnabod yr hyn maen nhw'n wneud yn dda a'r sydd angen newid?
- Pa mor briodol y gweithredir cwricwlwm ysgolion ar draws y rhanbarth? A yw pob ysgol wedi arfarnu'n rymus effaith a chyfraniad pynciau di-graidd unigol yn y mesur C9 diwygiedig? A gefnogir hyn gan arweinwyr yn defnyddio diweddariadau bwletin Llywodraeth Cymru yn effeithiol ac yn amserol?
- A yw prosesau atebolrwydd a SA mewnol presennol yn ddigon cadarn i sicrhau perfformiad cyson gan ddisgyblion unigol yn eu dewisiadau h.y. a yw arweinwyr yn mynd i'r afael ag Amrywiad mewn Ysgol yn effeithiol?
- Pa gamau gweithredu y mae arweinwyr yn rhoi sylw iddynt gydag adrannau sy'n perfformio'n well na chyfartaled yr ysgol a chyda'r rhai hynny sy'n tanberfformio?
- I ba raddau mae tystiolaeth bod adrannau unigol yn dadansoddi'r data a rennir gan CBAC ar berfformiad pynciol?
- I ba raddau mae staff adrannol, yn yr holl bynciau, yn deall y pwysoliad asesu ar gyfer pob manyleb? Sut y mae hyn yn cael effaith effeithiol ar eu cynllunio a'u darpariaeth ac ar y ddealltwriaeth o raddio, dyfarnu ac adrodd ble bo'n berthnasol?
- I ba raddau mae adrannau yn defnyddio'n effeithiol adroddiad y Prif Arholwr, sy'n nodi cryfderau a gwendidau mewn perfformiad?

- Mae gan lawer o ysgolion athrawon sy'n marcio papurau arholiad CBAC. I ba raddau y defnyddir eu harbenigedd yn llawn mewn ac ar draws ysgolion?
- Pam y mae perfformiad mewn Saesneg wedi gostwng yn sylweddol mewn nifer o adrannau ble bu perfformiad cryf yn hanesyddol?
- Pam y mae amrywiad mewn nifer o ysgolion rhanbarthol rhwng perfformiad mathemateg a mathemateg-rhifedd?
- Pa mor dda y mae'r strategaethau 14-19 lleol presennol yn sicrhau y defnyddir cyllid yn effeithiol i gyflwyno profiadau a chymwysterau priodol i grwpiau o ddisgyblion sydd wedi'u targedu, ac i ba raddau maen nhw'n cyfrannu at y mesurau interim diwygiedig ym mhob awdurdod lleol?
- A ydym ni'n hyderus bod y newid cenedlaethol mewn cyfeiriad wedi cael digon o effaith ar y ddarpariaeth leol ar gyfer disgyblion gaiff addysg heblaw yn yr ysgol? (EOTAS). I ba raddau mae eu perfformiad yn 2019 wedi cael effaith ar ddeilliannau awdurdod lleol?
- A ydym ni'n hyderus bod y newid cenedlaethol mewn cyfeiriad wedi cael digon o effaith ar y ddarpariaeth leol ar gyfer Ysgolion Arbennig (145 o ddisgyblion ym Mlwyddyn 11) ac Unedau? I ba raddau mae eu perfformiad yn 2019 wedi cael effaith ar ddeilliannau awdurdod lleol?
- Mae 247 o ddisgyblion EOTAS Blwyddyn 11 yn y rhanbarth - trwy eu grwpio gyda'i gilydd mae hon yn garfan fwy na'r un sydd gennym mewn unrhyw ysgol. I ba raddau mae arweinwyr a staff mewn UauCD yn cael eu cefnogi a'u sgilio i nodi'n glir sut i ddatblygu i'r eithaf berfformiad disgyblion unigol ar draws y mesurau perfformiad diwygiedig?

## 4. BLAENORIAETHAU A DARPARIAETH RANBARTHOL GWE

### DATBLYGU PROFFESIWN ADDYSG O SAFON UCHEL

#### Y Cyfnod Sylfaen

Cyflwynwyd gweithdai a Rhwydweithiau Cyfnod Sylfaen yn ddwyieithog i Uwch Dimau Arwain, athrawon a chymorthyddion dysgu (CD) ledled y rhanbarth ble rhannwyd negeseuon lleol, rhanbarthol a chenedlaethol a lledaenu arfer dda. O ganlyniad, barnwyd bod y rhan fwyaf o ysgolion a arolygwyd yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf yn dda neu'n rhagorol ar gyfer darpariaeth yn y Cyfnod Sylfaen.

Bu niferoedd uchel o staff o ysgolion prif lif ac arbennig ar y gweithdai rhanbarthol, a'r cyfarfodydd rhwydwaith tymhorol (1,746), a chafodd hyn effaith gadarnhaol ar addysgeg, dysgu ac addysgu. Roedd gweithdai a chyfarfodydd rhwydwaith yn gydnaws â'r Cwricwlwm newydd i Gymru, gan ganolbwyntio ar y pedwar diben a'r 12 egwyddor addysgegol, ac yn seiliedig ar ddull creadigol, cyfannol a thrawsgwricwlaidd, gan hybu datrys problemau drwy ddysgu drwy brofiad.

Yn gyffredinol, mae ansawdd dysgu awyr agored yn gwella mewn ymateb i'r cyfarfodydd rhwydwaith a hyfforddiant dysgu awyr agored i athrawon a chymorthyddion dysgu. Mae llais disgyblion yn neges gyson a gyflwynir trwy hyfforddiant a chyfarfodydd sy'n dechrau dylanwadu ar arfer yn yr ystafell ddosbarth. At ei gilydd, mae gwell dealltwriaeth o addysgeg a darpariaeth Cyfnod Sylfaen, dysgu trwy brofiad a chymhwyso sgiliau allweddol gan athrawon a chymorthyddion dysgu Cyfnod Allweddol 2 Blwyddyn 3.

Tynnwyd pob ysgol a gefnogwyd dan dîm y Cyfnod Sylfaen allan o gategori, ac mae bron pob ysgol a nodwyd yn risg uchel wedi gwneud cynnydd disgwyliedig, neu well, yn erbyn meysydd ar gyfer gwelliant. Bu gostyngiad yn yr amrywiad yn y dysgu a'r addysgu yn y Cyfnod Sylfaen.

Cyflwynwyd hyfforddiant penodol i ysgolion unigol a chlystyrau sydd â blaenoriaethau cyffelyb, fel y nodwyd gan yr Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant. (102 ysgol unigol ac 19 clwstwr).

Mae arfer dda yn cael ei lledaenu'n rhanbarthol ac yn genedlaethol trwy'r rhwydweithiau a'r gweithdai, ac mae cyflwyniadau ac adnoddau'n cael eu rhannu ar Hwb Cyfnod Sylfaen GwE. Mae hyn yn galluogi ysgolion i gael mynediad at adnoddau ac arfer dda ranbarthol.

### Llythrennedd a Rhifedd

Bu ymgysylltiad cadarn gan ysgolion o bob Awdurdod ar draws y Rhanbarth. Mae bron pob ysgol sydd wedi cymryd rhan mewn rhaglenni datblygu yn nodi:

- effaith gadarnhaol sylweddol ar agweddau'r dysgwyr at ddysgu;
- agweddau at addysgeg bynciol a gwell gwybodaeth gan staff;
- effaith gadarnhaol ar safonau cynnydd a chyrhaeddiad dysgwyr mewn ymresymu rhifyddol, rhifedd, mathemateg, llafaredd, darllen ac ysgrifennu yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2.

Bellach, mae tystiolaeth ar gael yn ganolog a gynhyrchwyd gan aelodau'r rhaglenni hyn sy'n dangos cynnydd disgyblion o ran deilliannau dysgwyr/data cynnydd, gwaith disgyblion, cynlluniau gwaith a strategaethau addysgu arfer effeithiol. Cedwir y dystiolaeth hon yn ganolog.

Ym mhob maes datblygu, mae'r 12 egwyddor addysgegol, y Pedwar Diben a gofynion trawsgwricwlaidd llythrennedd, rhifedd a'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol (FfCD) yn nodweddion creiddiol. Adrodda llawer o ysgolion fod datblygu llafaredd yn eu hysgolion nid yn unig yn galluogi dysgwyr i gael mynediad at feysydd eraill y cwricwlwm yn fwy llwyddiannus, ond ei fod hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar les, ymgysylltu ac agweddau at ddysgu. Bu llafaredd, yn enwedig drwy Wyddoniaeth a Stem a Dysgu Tu allan, yn ffactor canolog ym mron pob un o'r rhaglenni datblygu uchod, ar gyfer llythrennedd a rhifedd.

Mae ymarferwyr o ysgolion y rhanbarth wedi cefnogi datblygiad ymarfer seiliedig ar ymholi mewn ysgolion sydd yn y garfan newydd trwy rannu eu tystiolaeth a'u profiad eu hunain. O ganlyniad, mae gan ysgolion fwy o berchenogaeth ar y canfyddiadau, y dysgu a'r deilliannau. Mae hyn wedi cyfoethogi yn sylweddol y cynnydd mewn gwybodaeth bynciol ac arfer sy'n seiliedig ar effeithiolrwydd yn yr ysgolion hyn. Mae hyn i gyd wedi bod yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru a'r Safonau Proffesiynol newydd.

Mae athrawon bellach yn llawer mwy gwybodus am ddatblygiad llythrennedd a rhifedd ar draws cwricwlwm ehangach, sut i ddylanwadu'r dysgu a'i symud yn ei flaen i bob grŵp o ddysgwyr, arwain y pwnc yn effeithiol yn yr ysgol a chynnig cymorth i ysgolion eraill gyda golwg ar eu taith ddatblygu eu hunain. Dengys ymweliadau ag ysgolion i Sicrhau Ansawdd bod bron pob ysgol wedi gwneud newidiadau cynaliadwy a bod addysgeg newydd yn cael ei rhaeadru a'i gwreiddio ar draws yr ysgol, yn aml fel rhan o ystod ehangach o weithgareddau datblygu eraill.

Mae rhai clystyrau wedi bod wrthi'n annibynnol yn datblygu cysylltiadau gwaith â'i gilydd ac wedi mynd ati ymhellach i ddatblygu Dysgu Tu Allan, STEM a Llafaredd mewn cynlluniau cydweithredol, pontio i CA3 a datblygiadau CiG. Hwyluswyd hyn ymhellach hefyd gan yr Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant Llythrennedd a Rhifedd a rhwydwaith ehangach o asiantaethau annibynnol, er mwyn datblygu ymhellach ddiwylliant o gydweithio a gwneud gwelliannau sy'n fwy cynaliadwy i'r dyfodol.

### Ieithoedd Tramor Modern (ITM) a Dyfodol Byd-Eang (DB)

Mae'r tîm Dyfodol Byd-eang ac adrannau Ieithoedd Tramor Modern (ITM) y rhanbarth wedi parhau i gydweithio a gweithio'n effeithiol gydag amrywiol bartneriaid megis Llwybrau at Ieithoedd, Mentora Myfyrwyr, y British Council, Goethe Institute, Confucius Institute, Institut Français, Prifysgol Bangor ac ati er mwyn hybu ieithoedd yn y sector cynradd a'r sector uwchradd, ar hyd a lled y rhanbarth.

O ganlyniad i fonitro manwl gan y tîm Dyfodol Byd-eang a hybu'r mentrau sydd ar gael yn effeithiol, gwelsom yr adrannau ITM yn cymryd rhan yn gyson yn yr amrywiol weithgareddau i hybu ieithoedd. Eleni, mae pob ysgol wedi cymryd rhan mewn un neu ragor o'r gweithgareddau a gynigir, sy'n tystio i werth y cyfleoedd a bod ysgolion yn eu croesawu.

Mae'r tîm DB yn gweithio'n llwyddiannus i sicrhau cydlyniad, eglurder ac ymrwymiad cyffredin i wireddu'r weledigaeth ar gyfer addysgeg, dysgwyr, cyd-weithwyr a'r gymuned ehangach. Mae’r Tîm DB wedi datblygu rhwydweithiau cadarn ymysg ymarferwyr ITM ar draws y rhanbarth drwy gyfarfodydd cyson, cyfloed hyfforddi a chyfarfodydd. Mae’r rhwydwaith yma o gyd-gefnogaeth a chydweithio yn cael ei ddefnyddio yn helaeth gan bob ysgol ac, o ganlyniad, mae addysgeg effeithiol wedi lledaenu ar draws y rhanbarth.

Mae gan y tîm DB adnabyddiaeth dda iawn o adrannau ITM y rhanbarth, a gall dargedu athrawon ac adrannau unigol yn effeithiol i wella neu i ddatblygu'r safonau proffesiynol ar gyfer athrawon a phenaethiaid adrannau. Mae'r adborth gan ysgolion yn gadarnhaol iawn ac wedi dylanwadu ar dwf proffesiynol. Trefnwyd sesiynau hyfforddi amrywiol yn ystod cyfarfodydd, cynadleddau, cyfarfodydd addysgu a gwaith cydweithredol hefyd gan y tîm mewn ymateb i anghenion a cheisiadau athrawon. Mae hyn wedi creu hinsawdd gadarnhaol ar gyfer arloesi a datblygu technegau a dulliau i wella canlyniadau addysgeg ar draws y consortiwm.

Sector Cynradd: Llwyddodd y tîm DB i hybu dysgu ac addysgu Ieithoedd Rhyngwladol yn y sector cynradd am yr ail flwyddyn: mae 40 o ysgolion cynradd ledled y rhanbarth bellach yn cymryd rhan yn y peilot Dyfodol Byd-eang i gyflwyno ieithoedd yn y sector cynradd.

Parhaodd y tîm i ddarparu cyfleoedd i athrawon ysgolion cynradd ddatblygu'n broffesiynol. Y cwrs dysgu sut i addysgu ieithoedd mewn ysgolion cynradd: Mae'r ail flwyddyn (Menter y Brifysgol Agored/Llywodraeth Cymru) yn rhoi cyfle i ddysgu iaith dramor newydd yn ogystal â chaffael yr addysgeg i fod yn cyflwyno iaith. Mae'n gyfle unigryw ar gyfer datblygiad proffesiynol blaengar. Bu'r prosiect hwn yn gymorth i ddatblygu ymarferwyr cynradd medrus wrth baratoi ar gyfer y Cwricwlwm Newydd.

Cynhaliwyd pedair cynhadledd i gefnogi gwaith cyflwyno ieithoedd yn y cynradd. Cyflwynodd siaradwyr ITM cynradd arbenigol syniadau ac adnoddau ymarferol a ddyluniwyd yn arbennig ar gyfer pobl nad ydynt yn arbenigwyr, a'u galluogi i integreiddio ieithoedd ar draws y cwricwlwm. Cafodd athrawon gyfle i rannu arfer dda gyda ffocws ar gynllunio a rhoddwyd amser iddynt barhau i gynllunio i ymgorffori ieithoedd o fewn y cwricwlwm. Mae ysgolion wedi cael cyllid i barhau i gynllunio i wreiddio dysgu ieithoedd o fewn y cwricwlwm a defnyddio'r adnoddau a brynwyd gan y Tîm Dyfodol Byd-eang. Erbyn hyn, mae pob athro yn deall yn well sut i gynllunio eu darpariaeth ar gyfer ieithoedd ac ymgorffori hynny yn eu gwaith thematig neu ran arall o'r cwricwlwm. Cafwyd adborth rhagorol ac mae'r holl athrawon yn awyddus i roi'r syniadau amrywiol a gyflwynwyd yn ystod y cynadleddau ar waith.

Mae athrawon yn deall y cysylltiad uniongyrchol rhwng y sgiliau dysgu iaith ryngwladol a'r agenda llythrennedd. Maent yn fwy ymwybodol y gellir ymgorffori ieithoedd rhyngwladol yn y cwricwlwm, yn hytrach na dysgu’r pynciau hynny fel ychwanegiad, gan gyfrannu at ddatblygu sgiliau llythrennedd. O ganlyniad, mae ganddyn nhw well dealltwriaeth o sut i ymateb i ofynion y Cwricwlwm Newydd ac yn benodol Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu.

Sector Uwchradd: Mae'r tîm DB wedi darparu cyfleoedd rheolaidd i athrawon ymestyn eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth o ran dysgu, addysgu, a chynllunio ITM yn effeithiol. Cynlluniwyd yr hyfforddiant a ddarparwyd yn ofalus er mwyn ymateb i argymhelliad Estyn ar gyfer

ITM ac i ddarparu HMS o safon uchel. Bu'r sesiynau yn fodd i rhoi brwdfrydedd a chymhelliant i ymarferwyr ITM ar draws y Consortiwm a chyfrannu at eu datblygiad proffesiynol a'u cymhwysedd i gyflwyno ITM.

Er mwyn sicrhau dilyniant a gweithredu'r syniadau a'r technegau a gyflwynir gan arbenigwyr ITM, mae'r Tîm Dyfodol Byd-eang wedi galluogi athrawon i weithio ar y cyd i greu adnoddau ymarferol, effeithiol a chreadigol. Sicrhawyd ansawdd y rhain oll ac fe'u rhannwyd drwy gyfarfodydd ac ar lwyfan Hwb. Erbyn hyn, mae yna ystod eang o adnoddau ar gyfer Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg ar gyfer CA3, CA4 a CA5 yn ogystal â phecyn cymorth ITM ac arweiniad ar gyfer Cynlluniau Gwaith.

Mae athrawon unigol yn parhau i wneud defnydd rheolaidd o'r adnoddau ar Safle Hwb ITM GwE sy'n cael ei ddiweddaru a'i boblogi'n rheolaidd gydag adnoddau gan y Tîm Dyfodol Byd-eang i sicrhau ansawdd. Mae hyn yn gwella ansawdd dysgu ac addysgu. O ganlyniad, mae dysgwyr o bob gallu yn cael eu herio'n llawn ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau iaith creadigol sy'n datblygu eu meistrolaeth ar yr iaith.

### Pynciau Craidd

Mae gan ysgolion uwchradd ledled y rhanbarth fynediad at gymorth arbenigol ym mhob pwnc craidd. Mae strategaeth gynhwysfawr ar waith ar gyfer gwella safonau mewn Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth a Chymraeg ar draws y rhanbarth.

Gweithia Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant y Pynciau Craidd yn agos gyda'r Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant cyswllt a'r Arweinydd Craidd Uwchradd, i herio a chefnogi adrannau mewn ysgolion uwchradd sy'n tanberfformio. Ar ben y gefnogaeth unigryw a ddarparwyd i ysgolion uwchradd yn y pynciau craidd, rhoddwyd arweiniad rhanbarthol a lleol drwy'r rhwydweithiau a'r fforymau pynciol hefyd. Dyma'r prif flaenoriaethau ar gyfer 2019-20.

**Gwyddoniaeth**

Dyma'r prif flaenoriaethau ar gyfer 2019-20:

- Rhaglen Cymorth Gwyddoniaeth
- Rhaglen Ysgolion Hwb
- Cyfarfodydd rhwydwaith, rhwydweithiau cymorth pynciol a chydweithio
- Adnoddau TGAU ar-lein (www.tanio.cymru)
- Cefnogi dysgwyr is eu gallu sy'n dilyn cyrsiau TGAU

Rhaglen Cymorth Gwyddoniaeth - Rhoddwyd YCG Gwyddoniaeth cyswllt i'r 54 ysgol ac ymwelwyd â phob un o leiaf unwaith eleni. Mae'r gefnogaeth wedi'i theilwra'n benodol ar gyfer pob ysgol unigol ac mae lefel y gefnogaeth wedi'i chysylltu'n uniongyrchol â lefel yr angen. Mae'r gefnogaeth wedi cynnwys datblygu arweinyddiaeth, gwella ansawdd y dysgu a'r addysgu, cynllunio'r cwricwlwm, asesu ac olrhain ac ati, a bydd yn cael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau disgyblion.

Rhaglen ysgolion Hwb - Mae'r tair ysgol Hwb wedi cefnogi nifer sylweddol (dros 50%) o ysgolion ac athrawon unigol o bob rhan o'r rhanbarth. Mae hyn wedi cynnwys cynnal athrawon a rhannu'r arferion gorau, rhannu adnoddau, cefnogi pynciau unigol mewn ysgolion a mentora athrawon ac arweinwyr. Roedd ysgolion yn gallu gofyn am gefnogaeth benodol gan yr ysgolion hwb ac maent wedi elwa o'r gefnogaeth a'r cydweithio.

Cyfarfodydd rhwydwaith, rhwydweithiau cymorth ar gyfer pynciau penodol a chydweithio - Mae'r cyfarfodydd rhwydwaith wedi gwella dealltwriaeth ysgolion o'r newidiadau i fesurau perfformiad CA4 mewn Gwyddoniaeth/ar lefel ysgol, datblygiadau yn y cwricwlwm newydd ar gyfer Cymru, safonau yn CA2 (cyflwyniadau gan ymarferwyr CA2) a'r ddarpariaeth ar gyfer STEM. Cynyddodd hyn y cydweithio

ar draws ysgolion/Awdurdodau Lleol/y Rhanbarth a datblygodd wybodaeth a dealltwriaeth athrawon o fanylebau CA4 a CA5.

Adnoddau TGAU ar-lein (www.tanio.cymru) - Mae'r wefan wedi esblygu'n barhaus ac mae bron yr holl adnoddau cyflwyno/adolygu ar gyfer pob uned ym mlynyddoedd 10 ac 11 (DA Science) bellach arni. Mae parth athrawon sy'n cynnwys amrywiaeth o adnoddau i gefnogi addysgu a dysgu hefyd ar gael bellach. Mae'r wefan yn parhau i gael ei diweddaru yn rheolaidd, ac yn derbyn 'hits' dyddiol o oddeutu 500 o ymweliadau. Mae'r adborth a gafwyd gan rieni, athrawon a disgyblion wedi bod yn hynod gadarnhaol. Yn ogystal â bod yn adnodd adolygu ar gyfer dysgu gartref, mae'n cael ei defnyddio'n helaeth ledled y rhanbarth mewn ysgolion.

Cefnogi dysgwyr is eu gallu sy'n dilyn cyrsiau TGAU - Cynhyrchwyd llyfrynnau gwaith a deunyddiau asesu dwyieithog sydd wedi'u gwahaniaethu ar gyfer y dysgwyr is eu gallu. Mae ysgolion yn defnyddio'r rhain yn eang ac wedi gweld cynnydd yn ymgysylltiad y grwpiau hyn o ddysgwyr ers eu cyflwyno .

**Cymraeg**
Y blaenoriaethau ar gyfer 2019-20 oedd:

- Datblygu a chynnal darpariaeth Cymraeg Iaith a Llenyddiaeth yn ysgolion uwchradd y rhanbarth
- Cefnogi arweinwyr canol i greu adrannau cryf a chynhwysol gydag athrawon sy'n meithrin potensial pob dysgwr.
- Datblygu system asesu effeithiol gydag arweinwyr canol i dracio cynnydd dysgwyr ac i godi safonau.
- Datblygu gwybodaeth athrawon Cymraeg ar draws y rhanbarth am y cwricwlwm newydd ac egwyddorion addysgeg.

Drwy gyfarfodydd a phenaethiaid adran Cymraeg cafwyd darlun clir o'r ddarpariaeth ar draws y gogledd a bu'n gyfle i feithrin perthynas agos gyda hwy er mwyn cefnogi eu gwaith o fod yn arweinwyr canol llwyddiannus. Yn y cyfarfodydd hynny rhoddwyd sylw i'r pedwar blaenoriaeth uchod a theilwra'r gefnogaeth i anghenion yr adran gan rannu deunyddiau cefnogi.

Gosododd yr ymweliadau hyn gyfeiriad ychwanegol i waith y flwyddyn hefyd gan fod arferion da yn gallu cael eu rhannu mewn cyfarfodydd rhanbarth / HMS / cyrsiau Cynnig GwE / yn rhwydwaith 'Cymraeg GwE' yn Hwb ac mewn ymweliadau cefnogol pellach gydag ysgolion unigol.

Rhoddwyd cefnogaeth mwy penodol i rai adrannau yn dilyn y cyfarfodydd cychwynnol yma ac hefyd ar gais YCG yr ysgol yn ystod y flwyddyn. Rhoddwyd cefnogaeth i'r PA a oedd yn wynebu arolwg Estyn drwy ymweliadau craffu a thrwy gefnogaeth gyda llunio dogfennau strategol a chynllunio gwersi i ddangos cynnydd.

Llwyddwyd i gynnal cyrsiau safonol dan arweiniad arbenigwyr. Roedd y rhain wedi eu selio ar waith ymchwil ac addysgeg ac yn ysgogi athrawon i fynd yn ôl i'r ysgolion i rannu a threialu gyda gwahanol ddulliau addysgu a dysgu. Rhannyd dulliau arwain a cynllunio oedd yn fodel i eraill ac yn sbarduno mynychwyr y cwrs i dreialu dulliau arwain a rheoli newydd.

**Mathemateg**
Dyma'r prif flaenoriaethau ar gyfer 2019-20:

- Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth ymarferwyr mewn perthynas â dysgu ac addysgu sy'n cael effaith
- Datblygu rolau arwain i gefnogi datblygiad dysgu mewn adrannau

- Datblygu unigolion sydd arnynt angen cefnogaeth i wella eu haddysgeg
- Cefnogi athrawon unigol i ddatblygu eu haddysgeg
- Datblygu system olrhain sy'n rhoi cyfle i arweinwyr canol adnabod dysgwyr sy'n tangyflawni i gael ymyraethau parhaus ac addas.
- Datblygu adnoddau i gefnogi adolygu a dysgu y tu allan i'r dosbarth - lefel ganolradd wedi'i chwblhau.
- Datblygu dealltwriaeth arweinwyr canol o 'asesu addas' a sut y gellid defnyddio hwn i lywio olrhain ac ymyrraeth.

Rhannwyd arferion llwyddiannus gydag adrannau ar draws y rhanbarth. Mae cefnogaeth unigol i Benaethiaid Adran newydd wedi'i darparu ledled y rhanbarth trwy gyfuniad o ymweliadau ysgol a gwahodd unigolion i ysgolion lle mae gwahanol aelodau o adrannau wedi cyfrannu at ddiwrnod arddangos.

Mae GwE wedi bod yn gweithio gydag athrawon unigol mewn ysgolion i ddatblygu addysgeg yn eu hystafelloedd dosbarth trwy:

- weithio gydag athrawon a Phenaethiaid Mathemateg mewn Gofal i ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach trwy gwestiynu meddylgar a chynllunio gofalus
- modelu technegau adolygu i gefnogi gwytnwch dysgwyr wrth wynebu cwestiynau arholiad a all ymddangos yn anghyfarwydd
- gweithio gydag athrawon unigol ar effaith cynllunio'n ofalus yn ystod gwersi gyda dysgwyr heriol
- gweithio gydag athrawon unigol ar gynllunio ac effaith ystyried natur y cwestiynau ar y modd y mae dysgwyr yn ymgysylltu;
- gweithio gydag athrawon unigol i baratoi dysgwyr ar gyfer arholiadau
- gwahaniaethu wrth addysgu a rhoi adborth i grwpiau gallu cymysg
- cynllunio a modelu addysgu a dysgu effeithiol yn y fanyleb Rhifedd
- cynllunio ar gyfer gwella ac ymgysylltu â disgyblion is eu gallu
- datblygu dysgu ac addysgu

Cwblhawyd y cam cyntaf ar gyfer datblygu system olrhain sy'n rhoi cyfle i arweinwyr canol adnabod dysgwyr sy'n tangyflawni i gael ymyraethau parhaus ac addas. Mae Penaethiaid Adran wedi derbyn cyflwyniad ar ddefnyddio'r system. Bydd angen datblygu'r model hwn ymhellach a threialu'r adnodd yn drylwyr cyn lansio fersiynau pellach gan Y Penaethiaid Mathemateg.

Datblygwyd adnoddau ar gyfer cefnogi adolygu a dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth a lansiwyd gwefan Maths.Cymru ar yr haen ganolradd i Benaethiaid Mathemateg yn y rhanbarth.

Mae ysgolion unigol wedi cydweithio â GwE i greu a threialu systemau asesu a marcio newydd, sydd wedi galluogi athrawon i nodi meysydd allweddol ar gyfer ymyrraeth ac i roi cyfarwyddyd clir i ddisgyblion am yr hyn y mae angen iddynt ei wella a sut i wneud hynny. Mae ysgolion unigol wedi rhoi hyfforddiant a chefnogaeth i weithredu strategaethau olrhain ac adborth sy'n targedu gwendidau penodol.

**Saesneg**

Dyma'r prif flaenoriaethau ar gyfer 2019-20:

- Gwella safonau dysgu ac addysgu yn benodol mewn ysgolion targed
- Gwella cynllunio a'r modd y darperir gwaith ysgrifenedig a llafaredd
- Lefel uwch o her a gwell darpariaeth ar gyfer myfyrwyr mwy galluog
- Cyflwynwyd Rhaglen Ymyrraeth Llythrennedd Effeithiol mewn 25 o ysgolion
- Gwell systemau olrhain ac atgyweirio yn y mwyafrif o adrannau Saesneg

- Gwella sgiliau ac arbenigedd ymhlith arweinwyr canol
- Gwell gwybodaeth a dealltwriaeth o ofynion y Cwricwlwm i Gymru.

Datblygu a gweithredu rhaglen Ymyrraeth Llythrennedd - Mae pecyn cymorth 'ail don' ar gyfer Ymyrraeth Llythrennedd wedi cael ei ddatblygu a'i rannu ag ysgolion. Darparwyd dau ddiwrnod o sesiynau hyfforddi a rhoddwyd cefnogaeth unigol/bwrpasol i sefydlu rhaglen ymyrraeth i ysgolion.

Mae Penaethiaid Saesneg a Gwyddoniaeth wedi bod yn gweithio ar y cyd i ddatblygu dulliau o ddysgu darllen a geirfa – darparwyd cefnogaeth a mentora pwrpasol i 7 Pennaeth Saesneg. Mae hyn wedi arwain at arweinyddiaeth gryfach. Mae rhaglen gymorth cymheiriaid wedi'i sefydlu ac mae ymweliadau 'cyfeillion' (buddy) wedi'u cynllunio. Mae hyn wedi gwella capasiti arweinwyr canol.

Datblygu a gweithredu system olrhain Saesneg ac adnoddau 'Fix It' - mae system olrhain Saesneg wedi'i datblygu a'i rhannu ymhellach gydag ysgolion. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn defnyddio'r system olrhain neu wedi addasu egwyddorion. Mae deunyddiau 'Fix It ' wedi'u datblygu ac mae'r rhain wedi'u rhannu ac yn cael eu defnyddio'n llwyddiannus mewn ysgolion. Mae deunydd safoni wedi'i ddatblygu a'i rannu. Mae 'Walking talking mocks' wedi'u datblygu i gefnogi myfyrwyr ac athrawon ymhellach. Datblygwyd system olrhain llenyddiaeth a deunydd 'Fix It' i gefnogi ysgolion.

Gellir gweld gwelliannau mewn ymarfer o fewn yr ystafell ddosbarth. Mae'r ffocws wedi bod ar ddatblygu sgiliau llafar a gwella cysylltiadau ag ysgolion cynradd dalgylchol. Darparwyd hyfforddiant i athrawon dosbarth a Phenaethiaid Saesneg ar wella'r ddarpariaeth ar gyfer myfyrwyr mwy galluog. Mae ystod o adnoddau wedi'u datblygu a'u rhannu'n rhanbarthol. Mae gwefan wedi cael ei ddatblygu i gefnogi myfyrwyr ac athrawon wrth adolygu ar gyfer Iaith a Llenyddiaeth Saesneg gyda ffocws ar ymestyn a herio. Gwelwyd bod dysgu ysgrifennu yn CA4 wedi cryfhau, fel y gwelwyd yn y dystiolaeth mewn dogfennau craffu ar lyfrau a nodiadau ymweliadau.

**Ôl-16**

Mae'r gefnogaeth ôl-16 i ysgolion wedi cryfhau. Mae gwaith yn parhau i ddatblygu ar draws y rhanbarth wrth edrych ar y ddarpariaeth ym mhob maes i sicrhau cryfder ac ehangder parhaus yn y ddarpariaeth ôl-16.

Mae cynllunio consortia yn parhau i ychwanegu at sgiliau penaethiaid Chweched Dosbarth. Mae gwaith traws-gonsortia da yn parhau, yn enwedig o ran datblygu rhaglen ddatblygu Arweinyddiaeth yn y Chweched Dosbarth i sicrhau fod gan bob arweinydd a darpar arweinydd y sgiliau, y ddealltwriaeth o gyd-destunau ac adnoddau cenedlaethol a lleol i gynorthwyo disgyblion allu cael y canlyniadau gorau. Mae'r adborth wedi bod yn gadarnhaol iawn ac mae'r cyflwyniadau ar wahanol agweddau ar arweinyddiaeth fugeiliol wedi bod o safon uchel.

Daeth nifer dda i'r Gynhadledd Ranbarthol (Chwefror 2020) eto eleni - dros 40 o gynrychiolwyr. Canolbwyntiwyd ar les ar gais penaethiaid y Chweched Dosbarth. Roedd y sesiynau yn rhagorol ac yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan y cynrychiolwyr oedd yn mwynhau'r cyfle i ddysgu'n broffesiynol fel hyn.

Mae'r Rhwydweithiau Pwnc sydd wedi'u sefydlu ar draws y saith pwnc Safon Uwch mwyaf poblogaidd wedi datblygu'n fforymau defnyddiol ar gyfer datblygu syniadau a rhannu arfer dda. Mae'r cyfarfodydd yn canolbwyntio ar anghenion ysgolion a'u hadrannau.

Mae'r defnydd o 'ALPs Connect' wedi cynyddu eto eleni. Mae mwy o hyfforddiant wedi'i ddarparu i chwe ysgol ac mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn defnyddio neu o leiaf yn edrych ar 'Connect' yn rhanbarthol. Mewn ysgolion eraill, caiff adnoddau gwahanol eu defnyddio.

Er mwyn sicrhau bod gan ysgolion y sgiliau i gefnogi myfyrwyr i ddysgu'n annibynnol, darparwyd rhaglen VESPA Gogledd Cymru (dan arweiniad tîm Meddylfryd Safon Uwch) i un ar ddeg o ysgolion. Croesawyd y rhaglen yn fawr gan yr ysgolion a'u myfyrwyr hyd yn hyn, a gobeithir y bydd y rhaglen yn parhau'r flwyddyn nesaf ac yn ehangu i gynnwys ysgolion eraill.

### Llwybr Dysgu i Gymorthyddion Addysgu (LlDGA)

Gwelwyd cynnydd yn niferoedd cymorthyddion ymsefydlu a phrofiadol a fynychodd hyfforddiant LlDGA yn dilyn gwaith hyrwyddo gyda phenaethiaid.

Mae'r model clwstwr wedi profi'n ddull effeithiol o hyfforddi cymorthyddion profiadol. Llwyddwyd i gynnal 11 hyfforddiant clwstwr newydd yn ystod y flwyddyn gan hyfforddi 240 o gymorthyddion. Bellach, rydym wedi llwyddo i godi ymwybyddiaeth penaethiaid o'r model clwstwr ac rydym yn dechrau derbyn ceisiadau gan ysgolion am gael cynnal hyfforddiant clwstwr, gyda 5 clwstwr pellach wedi ymrwymo i ddarparu hyfforddiant ar gyfer 2020-21 yn ogystal.

Mae'r cydweithio cenedlaethol ar y rhaglen Darpar Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch (CALU) newydd yn arbennig o dda, gyda phob consortia yn cyfrannu'n dda i drafodaethau ac i waith paratoi a chreu adnoddau. Bu'r dyddiau cydweithio'n hynod llwyddiannus, gan arwain at ddeunyddiau hyfforddi, asesu a recriwtio o safon uchel.

Mae'r Rhaglen Darpar CALU newydd yn datblygu'n dda iawn. Bu GwE yn gwbl gyfrifol am baratoi'r deunyddiau hyfforddi digidol.

Mae 818 o gymorthyddion addysgu wedi mynychu hyfforddiant y Llwybr Dysgu i Gynorthwywyr Addysgu yn y cyfnod Mawrth 2019 – Ebrill 2020, gyda 66 wedi mynychu sesiynau gwybodaeth CALU a 41 wedi mynychu'r sesiwn Darpar CALU.

Mae 8 hyfforddwr newydd wedi eu hyfforddi ar draws y rhanbarth.

| Niferoedd Cyrsiau Llwybr Dysgu i Gymorthyddion 2019-20 | |
|---|---|
| Ymsefydlu | 51 |
| Profiadol (deuddydd) | 135 |
| Profiadol (model clwstwr) | 241 |
| CALU 17 ac 18 | 66 (31+35) |
| Sesiynau Gwybodaeth CALU Rownd 18 | 66 |
| Sesiynau Gwybodaeth Darpar CALU | 41 |
| Darpar CALU | 29 |
| Diwrnod Datblygu | 180 |
| HMS Conwy (sesiwn blasu) | 9 |
| **Cyfanswm** | **818** |

## ARWEINWYR SY'N YSBRYDOLI AC SY'N CYDWEITHIO I GODI SAFONAU

### Arweinyddiaeth

Mae GwE yn darparu rhaglenni datblygu cyson, teg ac o ansawdd uchel ar bob cam o'r llwybr datblygu dysgu proffesiynol mewn arweinyddiaeth, o arweinyddiaeth ganol i Benaethiaid profiadol. Mae'r rhaglenni hyn yn galluogi ymarferwyr i ddatblygu eu hysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu fel y gallant "ymateb yn gynt i amgylcheddau sy'n newid, croesawu arloesi mewn trefniadaeth fewnol ac, yn y pen

draw, gwella deilliannau i fyfyrwyr". Mae'r rhaglenni yn sicrhau datblygu arweinyddiaeth broffesiynol ar bob cam yng ngyrfa arweinydd er mwyn sicrhau arfer tra effeithiol parhaus, a hynny yng nghyd-destun y safonau arweinyddiaeth ffurfiol. Mae'r rhaglenni datblygu yn hybu agweddau ar arweinyddiaeth gydweithredol, gydag ymarferwyr effeithiol o ysgolion ac Awdurdodau Lleol yn cyd-gyflwyno sesiynau gyda staff GwE. Mae hyn yn datblygu ymhellach y syniad o ddatblygu system sy'n hunan wella a datblygu ymgysylltiad cymheiriaid ar draws Gogledd Cymru. Mae sefydlu'r Grŵp Arweinyddiaeth Rhanbarthol, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o GwE a'r chwe awdurdod lleol, yn sicrhau yr adnabyddir anghenion a bod rhaglenni yn bodloni anghenion y proffesiwn. .

Drwy'r rhaglenni, mae GwE wedi sicrhau y diweddarir uwch arweinwyr ar ddatblygiadau allweddol y daith ddiwygio. Mae llwybr datblygu arweinyddiaeth clir ar gyfer uwch arweinwyr y dyfodol ac, o ganlyniad, mae'r rhanbarth yn datblygu arweinwyr cymwys a medrus. Gwelir cynnydd yn nifer y ceisiadau o ansawdd uchel a gyflwynir ar gyfer swyddi arwain ym mhob sector yn y rhanbarth.

Anogwyd arweinwyr ysgolion i gymryd rhan mewn cydweithio ysgol-i-ysgol a phrosiectau sy'n seiliedig ar ymholiad. Mae arweinwyr canol ac uwch arweinwyr wedi'u huwchsgilio i arwain yn fwy effeithiol ar weithredu Cwricwlwm i Gymru yn eu hysgolion. Mae gan arweinwyr ysgolion fwy o ymwybyddiaeth o'r safonau proffesiynol newydd ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth.

Mae gan GwE ran allweddol wrth gyfathrebu, hybu a chydlynu amrywiaeth o raglenni sy'n bodloni anghenion staff ar amrywiol lefelau. Dyma fanylion y rhaglenni:

- **Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol (RhDAG)** - Aeth y RhDAG yn ei blaen, fel y cynlluniwyd. Ers 2017-18, mae dros 300 o arweinwyr canol ledled Gogledd Cymru wedi elwa ar fynychu'r rhaglen traws sector hon. Modiwl 3 y Rhaglen (Chwefror 2020)- Mae 135 o ymgeiswyr, ar draws y rhanbarth, wedi cofrestru ar y Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol (2 garfan cyfrwng Saesneg ac 1 garfan cyfrwng Cymraeg). Bu YCG yn rhagweithiol o ran annog eu hysgolion cyswllt i adnabod ymgeiswyr posib ar gyfer y RhDAG. Bu Grŵp Arweinyddiaeth GwE yn monitro niferoedd y rhaglen drwy YCG cyswllt. Mae'r adborth gan aelodau yn hynod o gadarnhaol. Rhennir yr arfarniadau â'r ALl yng nghyfarfodydd y grwp arweinyddiaeth rhanbarthol. Bydd yr hwylusydd hefyd yn darparu adborth ar y rhaglen. Trwy ddilyn y rhaglen i arweinwyr canol, mae'r rhan fwyaf o unigolion yn teimlo eu bod wedi ennill gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth o arweinyddiaeth, gan nodi eu cryfderau a'u meysydd i'w datblygu yn eu hysgol. Mae pob unigolyn ar y rhaglen wedi cael cyfleoedd i roi sgiliau arwain ar waith, gan ddatblygu strategaethau i godi safonau yn eu hysgol.

- **Rhaglen Datblygu Darpar Benaethiaid (RhDDB)** - Ers 2017-18, mae dros 192 o ddarpar benaethiaid ar draws Gogledd Cymru wedi elwa ar fynychu'r rhaglen traws sector hon. Cynhaliwyd pedair sesiwn codi ymwybyddiaeth ym mis Rhagfyr ledled y rhanbarth, i egluro sut mae'r rhaglen yn cyfuno â'r Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP - NPQH) fel rhaglen genedlaethol yn 2020. Lluniwyd tri o'r pum diwrnod datblygu yn genedlaethol i'w cyflwyno'n rhanbarthol. Cymeradwywyd 34 ymgeisydd ym mis Ionawr 2020 yn dilyn proses ymgeisio.

- **Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP)** - Yn y tair blynedd diwethaf, derbyniwyd 181 unigolyn ar y rhaglen. Derbyniwyd 58 o ymarferwyr eleni (o'i gymharu â 54 yn 2017-2018 a 69 yn 2018 –2019) o'r sectorau cynradd, uwchradd, arbennig, a staff GwE. Trafodwyd y meini prawf ar gyfer ymgeiswyr CPCP yn drylwyr efo aelodau'r Grŵp Arweinyddiaeth Rhanbarthol. Bu ymgeiswyr ar ddau Ddiwrnod Datblygu yn ystod Tymor yr Hydref - Diwrnod Cenedlaethol a Diwrnod Rhanbarthol. Cynhaliwyd y Canolfannau Asesu yn ystod pythefnos cyntaf mis Chwefror. Roedd bron yr holl adborth ffurfiol ar y Dyddiau Datblygu yn gadarnhaol, a bron

pob ymgeisydd yn cadarnhau bod ganddynt wybodaeth ddyfnach o'r angen i ddefnyddio arddulliau arwain gwahanol mewn gwahanol gyd-destunau a sefyllfaoedd. Roedd trylwyredd y Ganolfan Asesu yn sicrhau mai dim ond yr ymgeiswyr sydd wedi dangos eu bod yn barod ar gyfer prifathrawiaeth sydd wedi ennill y cymhwyster. Mae cymedroli asesiadau yn sicrhau gwell cysondeb. Ar draws y rhanbarth, mae mwy o ymgeiswyr nag yn y gorffennol wedi dangos eu bod yn barod ar gyfer Prifathrawiaeth, a hynny yn erbyn y Safonau Proffesiynol ar gyfer Arweinyddiaeth.

- **Rhaglen Datblygu Penaethiaid Newydd a Phenaethiaid Dros Dro** - Cychwynnodd Rhaglen Ddatblygu Genedlaethol newydd ym mis Tachwedd 2019, a gymeradwywyd gan yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru (NAEL), gyda 30 o unigolion yn cymryd rhan. Darparodd bob awdurdod lleol yn y rhanbarth fanylion i GwE ynghylch Penaethiaid newydd a Phenaethiaid dros dro y rhanbarth. Bellach, mae cronfa ddata ganolog o'r holl Benaethiaid newydd a Phenaethiaid dros dro. Cynhaliwyd ail ddiwrnod y Rhaglen ar 16 Ionawr, 2020 yn Venue Cymru efo tîm o hwyluswyr o De a Gogledd Cymru. Ffocws y diwrnod oedd 'Rheoli Newid', ac roedd sesiynau ar Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu, rheoli newid a datblygu gwydnwch unigolion, y tîm a'r ysgol gyfan. Mae Carfan 2 (Penaethiaid ym mlwyddyn gyntaf eu swydd) wedi cwblhau dau ddiwrnod hyfforddiant llwyddiannus. Roedd pob Pennaeth yn rhan o grwpiau hyfforddi dan arweiniad penaethiaid profiadol y rhanbarth.

- **Rhaglen Ddatblygu i Benaethiaid Profiadol** - Ymestynnwyd dyddiad cau y Rhaglen Ddatblygu i Benaethiaid Profiadol yn ystod Tymor yr Hydref. Dyrannwyd 20 o lefydd i bob consortiwm ac mae cyfanswm o 17 o benaethiaid ar draws y rhanbarth wedi llwyddo yn eu cais. Bu carfan 1 ar gwrs preswyl deuddydd yng nghanolbarth Cymru ym mis Mawrth 2020 a gafodd dderbyniad da iawn.

### Cymorth i Lywodraethwyr

Yn unol â phrotocol GwE, ac ar gais Awdurdodau Lleol, mae cefnogaeth ar gael i ysgolion wrth benodi aelodau Uwch Dim Rheoli, gyda Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant ar gael i gyfrannu at drafodaethau yn ystod llunio rhestr fer a hefyd ar gael i'w cyfweld Mae pob corff llywodraethu yn elwa o brofiad a chyngor YCG wrth benodi er mwyn iddynt allu wneud penderfyniad gwybodus am yr ymgeisydd mwyaf addas.

Cynnigir arlwy Dysgu Proffesiynol gan YCG GwE ar gais ALl. Mae hyn yn sicrhau y gall yr Awdurdodau Lleol ddewis y Dysgu Proffesiynol mwyaf priodol ar gyfer eu rhanbarth. Cynigir cyfleoedd Dysgu Proffesiynol i Lywodraethwyr mewn perthynas â'r Daith Ddiwygio i sicrhau fod gan bob llywodraethwr sy'n mynychu well dealltwriaeth o'r agweddau a gyflwynir, bod ganddynt fwy o hyder wrth gefnogi eu hysgolion a'u bod yn gallu cyfrannu'n fwy strategol at drafodaethau'r corff llywodraethu.

Mae GwE yn sicrhau cefnogaeth cyn-arolygiad unigryw i bob ysgol ym mhob sector o'r ALl. Mae gan bob ysgol fynediad at y gefnogaeth hon cyn arolygiad Estyn sydd yn sicrhau eu bod yn llawer mwy ymwybodol o'r broses arolygu a'r disgwyliadau ar yr Ysgol. Mae'r llywodraethwyr sy'n mynychu cyfweliad Estyn yn fwy hyderus wrth ymateb i gwestiynau ar eu rôl fel cyfaill beirniadol.

Mae'r berthynas dda rhwng Swyddogion Cefnogi Llywodraethwyr ac arweinydd portffolio GwE wedi sicrhau fod cyfathrebu clir a dealltwriaeth gyffredin o anghenion hyfforddi. Mae cyfathrebu effeithiol rhwng GwE a phob Awdurdod Lleol yn ystod cyfarfodydd tymhorol yn sicrhau fod cefnogaeth i Lywodraethwyr yn cael ei bennu ar sail anghenion rhanbarthol.

## YSGOLION CRYF A CHYNHWYSOL SYDD WEDI YMRWYMO I SICRHAU RHAGORIAETH, TEGWCH A LLES

### Llesiant

Gweithredwyd Cynllun Cymorth GDD clir a chadarn ar gyfer PYD a Phlant Mewn Gofal (PMG) ar draws y rhanbarth, gyda chynlluniau cyfathrebu a llinellau atebolrwydd clir.

Mae pwyslais cryfach ar fonitro ac arfarnu perfformiad cyffredinol dysgwyr PYD ar draws y meysydd portffolio allweddol, yn y sector cynradd a'r uwchradd. Rhannwyd arweiniad wedi'i ddiweddaru â phob YCG ac ysgolion o ran monitro grantiau. Mae YCG bellach yn herio ysgolion ar eu defnydd o arian grant, gyda set pendant o feini prawf i bwyso a mesur sut maent yn defnyddio'r arian hwn. Gwelwyd hyn yn lleihau'r anghysondebau rhwng ysgolion o ran gweld beth yw effaith defnyddio'r arian grant ar ddeilliannau disgyblion.

Mae'r GDD PMG wedi'i ddefnyddio'n effeithiol mewn ysgolion/AauLl i ddatblygu ymhellach ethos cynhwysol a chefnogol sy'n cael effaith fuddiol ar lesiant a datblygiad personol disgyblion. Yn y fframwaith diwygiedig, mae set o ddibenion craidd ar gyfer rôl y cydlynwyr arweiniol GDD PMG, a bydd modd cael cysondeb yn genedlaethol i sicrhau y deilliannau addysgol gorau i blant mewn gofal ar draws Cymru.

Mae systemau monitro ar waith, mewn perthynas â phlant sydd mewn gofal, drwy'r YCG a'r Cydgysylltwyr Addysg Plant Mewn Gofal a'r ALl. Mae strategaethau cyfathrebu cadarnach ar waith er mwyn rhoi gwybod i Gydgysylltwyr Addysg PMG, staff ysgol a rhanddeiliaid ehangach am y ynlluniau rhanbarthol, y ddarpariaeth ar lefel consortiwm addysg rhanbarthol a'r prosesau ar gyfer cael mynediad i'r cyllid sydd wedi'i ddirprwyo neu sy'n agored ar gyfer gwneud cais.

Mae'r model canllawiau GDD PMG yn cael ei weithredu'n llawn ar draws y rhanbarth. Mae'r rhan fwyaf o glystyrau yn defnyddio'r GDD ac mae ysgolion hefyd yn defnyddio'r bwrsari unigol ar gyfer PMG. Mae 42 o brosiectau clwstwr wedi gweithredu cymorth/ymyraethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn ystod 2019-20.

Yn ystod 2019/20, mae oddeutu hanner y PMG wedi cael gwersi ychwanegol ym Mlwyddyn 10/11 i'w cefnogi gyda thechneg arholiad a sgiliau astudio ac adolygu, sydd wedi cael effaith ar eu cyflawniad cyffredinol.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion cynradd ac uwchradd wedi mynychu hyfforddiant trawma/ymlyniad ar gyfer plant mewn gofal. O ganlyniad, mae staff yn fwy hyderus wrth ddelio efo dysgwyr ac adnabod cymorth a darpariaeth sy'n briodol. Gellir gweld modelau effeithiol o weithredu'r Ysgolion sy'n Wybodus am Drawma mewn arferion o ddydd i ddydd a darparu o fewn y dysgu a'r addysgu. Ffurfiwyd grwpiau rhanbarthol gan ysgolion sydd wrthi'n datblygu adnoddau ymhellach a sut i roi cyngor i ysgolion.

Mae cynnydd yn nifer yr ysgolion/lleoliadau sy'n wybodus am drawma a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACE). Bu 650 ar ddysgu proffesiynol pwrpasol dros y flwyddyn. Yn ogystal, bu mwy na 300 ar sesiwn bwrpasol gan GwE yn ystod dyddiau HMS yn canolbwyntio ar arferion sy'n edrych ar drawma o fewn y dysgu a'r addysgu. Canlyniad hyn yw bod staff addysgu yn fwy hyderus wrth ddelio efo dysgwyr ac adnabod cymorth a darpariaeth addas, a rhagor o ysgolion cynhwysol mewn perthynas â'r dysgu a'r addysgu.

Mae awdurdodau wedi defnyddio'r GDD PMG yn dda i gefnogi ysgolion i adnabod anghenion dysgu ychwanegol PMG a dysgwyr bregus drwy gyflwyno'r Proffil Boxall Ar-lein. Gweithredwyd hyn yn effeithiol mewn rhai ysgolion/AauLl i asesu, olrhain a monitro cynnydd PMG. Mae gan bron bob PMG Broffil Boxall i fesur anghenion datblygiadol a chynnydd. Defnyddiwyd y GDD PMG i gynnig hyfforddiant a mentora i ysgolion ddefnyddio'r adnodd yn llwyddiannus. Yn ogystal, mae ffocws cynyddol ar gefnogi ysgolion i fesur llesiant trwy gyfrwng amrywiaeth o fesurau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Bu cynnydd hefyd yn nifer yr ysgolion sy'n defnyddio'r GDD PMG i gefnogi plant sydd wedi'u mabwysiadu. Mae'r consortiwm wedi rhannu Cynllun Dysgwr Mabwysiedig i'w rannu â'r rhieni sy'n mabwysiadu ac er mwyn canfod meysydd cymorth allweddol. Mae adborth cychwynnol yn gadarnhaol gan ei fod yn sicrhau dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

### Uned Cyfeirio Disgyblion

Mae perthnasoedd cadarnhaol wedi'u sefydlu ledled y rhanbarth yn ogystal â chydweithio a rhannu arfer gorau mewn dull mwy ystyrlon.

Mae arweinwyr UCD wedi derbyn gwybodaeth berthnasol a mynediad at gyfleoedd hyfforddi a chefnogaeth o fewn GwE.

Datblygwyd y Rhwydwaith UCD ymhellach drwy gyfrwng cyfarfodydd i’w diweddaru a chyswllt rheolaidd. Maent hefyd yn ddull effeithiol o rannu arfer dda, er enghraifft:

- Defnyddio dulliau sy'n seiliedig ar Drawma
- Cais llwyddiannus ar y cyd am hyfforddiant Amser Cylch ar gyfer 15 aelod o staff UCD.
- Alinio diwrnodau HMS i ganiatáu mwy o weithio ar y cyd
- Traciwr lles effeithiol

Mae pob lleoliad bellach yn agored i newid ac yn edrych ar wahanol ffyrdd o weithio.

## TREFNIADAU ASESU, GWERTHUSO AC ATEBOLRWYDD CADARN I ATEGU SYSTEM HUNANWELLA.

### Olrhain ac Asesu

Gwelir effaith crynhoi data a'r adnoddau olrhain mewn llawer o ysgolion. Mae hyn yn cynnwys:

- Athrawon ac arweinwyr ysgolion yn canolbwyntio ar gynnydd disgyblion unigol, o'r gwaelodlin hyd at ddiwedd addysg gynradd.
- Ysgolion yn canolbwyntio ar gynnydd grwpiau o ddysgwyr.
- Gwell cysondeb mewn asesiad athro a gosod targedau, ar draws ysgolion, sy'n arwain at hunan arfarnu a chynllunio gwelliant mwy cadarn.
- Defnyddio amrywiol ffyrdd i ddadansoddi data disgyblion a chyflwyno'r canfyddiadau, er enghraifft, mewn graffiau a siartiau.

Mewn ysgolion cynradd, mae ffocws clir ar olrhain cynnydd disgyblion.

- System Olrhain Ysgol Gyfan: Nifer cynyddol o ysgolion yn nodi bod Estyn yn cydnabod y traciwr fel offeryn cynhwysfawr i'w ddefnyddio i olrhain cynnydd yr holl ddisgyblion, grwpiau o ddysgwyr a charfannau. Cafodd bob Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant hyfforddiant i’w diweddaru ar y traciwr ac roeddent yn wedyn yn gallu cefnogi mwy o ysgolion yn well i'w ddefnyddio'n fwy effeithiol

- Taenlen Crynhoi Data: Crynodeb data disgyblion Blwyddyn 2 a Blwyddyn 6 wedi eu darparu ar gyfer pob ysgol gynradd - mae penaethiaid wedi canmol hyn ac am y wybodaeth a roddir sydd yn lleihau'r llwyth gwaith. Derbyniodd bob ysgol y fersiwn ddiwygiedig wedi'i diweddaru i nodi datblygiad pellach PYD, data cynnydd Bechgyn/Merched, siartiau ac adroddiad naratif. Mae llawer o ysgolion wedi mynegi eu diolch gan ddweud ei fod yn lleihau llwyth gwaith ysgolion ymhellach.
- Cymedroli CA2 a CA3: Mae negeseuon clir am gywirdeb y gwaelodlin a'r effaith y gall ei chael ar ddangos cynnydd disgyblion wedi arwain at fwy o athrawon Cyfnod Sylfaen ledled y rhanbarth yn mynychu sesiynau hyfforddi data'r Cyfnod Sylfaen. Yn ystod ymweliadau Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant, a thrwy adrodd ar ansawdd y broses gymedroli clwstwr, cafodd ysgolion a chlystyrau a oedd angen cefnogaeth gyda'u hasesiadau athrawon eu hadnabod.

Cynigiwyd hyfforddiant i bob ysgol ar draws y rhanbarth. Mae'r hyfforddiant hwn yn dal i fynd, ar gais.

Mae pum deg pump y cant o ysgolion uwchradd y rhanbarth wedi'u cofrestru'n llwyddiannus ar y rhaglen Amrywiad o fewn ysgol ar gyfer y flwyddyn academaidd hon. Gan fod amrywiad o fewn ysgol bedair gwaith yn fwy sylweddol nag amrywiad ysgol i ysgol, mae rhoi sylw i'r mater hwn yn allweddol er mwyn gwella perfformiad ar draws y rhanbarth. Mae hyn wedi codi ymwybyddiaeth ysgolion y rhanbarth o bwysigrwydd amrywiad o fewn ysgol wrth ddatblygu eu strategaeth tuag at Berfformiad Capio 9. Mae nifer dda wedi mynychu clinigau 4Matrix ac mae cyfleusterau cymorth ar-lein wedi'u defnyddio'n dda.

Mae GwE yn gweithio yn agos gydag arbenigwyr o Brifysgol Warwick a Phrifysgol Bangor i ddatblygu model cyrhaeddiad plentyn unigol (iCAM) ar gyfer ysgolion uwchradd yng Nghymru, a hynny er mwyn rhagfynegi cyrhaeddiad a llywio blaenoriaethau a yrrir gan y plentyn. Bydd y model yn seiliedig ar ddata hanesyddol ar hyd a lled Cymru. Os yw'n llwyddiannus, byddai'n cael gwared ar yr angen am gymariaethau mympwyol rhwng ysgolion, gan, yn lle hynny, fodelu disgwyliadau am gyrhaeddiad disgyblion unigol yng nghyfnod allweddol 4.

Mae cefnogaeth i ysgolion rhanbarthol weithredu'n hyderus mewn hinsawdd o 'ymreolaeth haeddiannol' wedi canolbwyntio ar ddatblygu eu gallu i reoli data yn erbyn ffiniau cynyddol amrywiol ac sy'n newid yn gyflym. Yn yr hinsawdd hon, sy'n newid o hyd, mae disgwyl i ysgolion weithredu'n fwy effeithiol ar dair lefel: rhagamcanion ar sail proffilio personol, cymdeithasol ac economaidd, lleihau amrywiad mewn ysgol a dadansoddi ar lefel cwestiwn gyda chymheiriaid ac ar lefel ranbarthol er mwyn creu her briodol.

### Ysgolion bach

Cynhaliwyd cynhadledd ar gyfer Penaethiaid ysgolion bach gyda 56 o ysgolion yn mynychu.

Cafwyd adborth da gydag 85% yn nodi fod y diwrnod yn dda neu'n well. Croesawodd penaethiaid ysgolion llai y cyfle i gwrdd a thrafod y siwrnai ddiwygio a'i heriau mewn sefyllfa lle mae'r Pennaeth hefyd yn addysgu.

Cynhaliwyd cyfarfodydd i benaethiaid ac/neu athrawon yn y rhanbarth sydd yn addysgu pedwar grŵp oedran gwahanol yn y Cyfnod Sylfaen neu Gyfnod Allweddol 2, a hynny er mwyn rhoi arweiniad ar syniadau ar gynllunio'r Cwricwlwm i Gymru (CiG) ar gyfer dosbarthiadau oedrannau cymysg. Cawsant gyfle i fynychu sesiynau rhanbarthol ar ganllawiau cynllunio Cwricwlwm i Gymru yn eu dosbarthiadau oedran cymysg.

Roedd cyfle hefyd am y tro cyntaf i benaethiaid ysgolion llai ddod at ei gilydd i dderbyn gwybodaeth berthnasol, ond yn bwysicach fyth, i rannu arferion a rhwystrau, a chreu rhwydweithiau anffurfiol.

## CWRICWLWM TRAWSNEWIDIOL

### Dysgu ac Addysgu

Gweithredwyd llawer o brosiectau cyffrous a phellgyrhaeddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a'r gobaith yw y bydd y rhain yn cael dylanwad sylweddol ar ansawdd yr addysgu yn ysgolion y rhanbarth. Mae'r prosiectau hyn yn cynnig cyfle i athrawon gydweithredu, rhannu eu harbenigedd a'u hangerdd dros addysgu ac i ddod i adnabod cydweithwyr proffesiynol newydd. Maent hefyd yn galluogi pob athro yn y rhanbarth i ddatblygu a dyfnhau eu sgiliau addysgu a'u dealltwriaeth o egwyddorion asesu ffurfiannol ac addysgeg ragorol. Yn y pendraw, daw ein disgyblion i fod yn ddysgwyr annibynnol a hyderus, yn union fel ag y maent yn haeddu.

<u>Prosiect Ymchwil Gweithredol Asesu Ffurfiannol</u>

Bu Prosiect Ymchwil Gweithredol Asesu Ffurfiannol (GwE a Shirley Clarke) yn weithredol yn y rhanbarth ers mis Hydref 2017. Mae'r prosiect yn dod yn ei flaen yn effeithiol, ac fe'i weithredir fesul haen, gan roi egwyddorion addysgegol ar waith mewn dosbarthiadau ar sail tystiolaeth gadarn.

Nod y rhaglen yw datblygu unigolion i allu arwain ar ddatblygu addysgu yn eu hysgolion, gan arwain at:

- gael effaith gadarnhaol, nid yn unig ar ansawdd addysgu mewn dosbarthiadau ond ar safonau lles disgyblion, eu hagweddau at ddysgu a'u datblygiad fel dysgwyr annibynnol.
- dyfnhau dealltwriaeth athrawon o addysgeg effeithiol a hynny ar sail ymchwil lleol a rhyngwladol eang a chyfredol.
- Athrawon yn ymgymryd â gwaith ymchwil gweithredol yn eu hysgolion, ac wedi cydweithio'n broffesiynol ac arloesi'n hyderus. O ganlyniad, mae'r ysgolion sy'n rhan o'r prosiect yn datblygu'n dda fel sefydliadau sy'n dysgu
- gynnydd yn y ffocws ar addysgeg effeithiol yng ngwaith clystyrau cydweithredu'r rhanbarth.
- wneud cyfraniad sylweddol at barodrwydd a pharatoadau ysgolion ar gyfer y Daith Ddiwygio a Cwricwlwm i Gymru, yn benodol felly drwy roi sylw da i'r pedwar diben, 12 egwyddor addysgegol, ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu, y safonau proffesiynol i arweinwyr ac athrawon ynghyd â'r agenda lleihau baich gwaith athrawon

Dyma ymrwymiad ysgolion ar draws y rhanbarth i brosiect dros dair haen:

- Haen 1 - 27 ysgol / 54 o athrawon.
- Haen 2 - 193 ysgol / 386 o athrawon.
- Haen 3 141 ysgol / 261 o athrawon

  **Cyfanswm 361 ysgol / 701 o athrawon**

Mae effaith y prosiect felly yn cyrraedd o leiaf 17,500 o ddisgyblion ar draws y rhanbarth (ar sail pob athro yn dysgu 25 o ddisgyblion, ar gyfartaledd). Mae'r prosiect yn dod yn ei flaen yn effeithiol, ac mae ymrwymiad ysgolion Haen 1, 2 a 3 yn gadarnhaol iawn. Ers mis Medi, bu ysgolion Haen 1, 2 a 3 yn cydweithio ar lefel clwstwr i gefnogi ymchwil gweithredol ac arbrofi efo'r addysgu yn eu dosbarthiadau, a datblygu a rhannu arferion da.

Mae sylwadau'r athrawon yn gadarnhaol iawn, a gwelwyd bod y prosiect wedi cael effaith gadarnhaol, a hynny ar ansawdd yr addysgu mewn dosbarthiadau, a hefyd ar safonau lles, ac agweddau disgyblion at ddysgu.

Cyhoeddwyd adroddiad gweithredu ac effaith Haen 2 ym mis Rhagfyr gyda chanfyddiadau calonogol iawn o ran ymrwymiad ysgolion ac effaith y gwaith ar draws y rhanbarth.

Gweithredu rhaglen 'Outstanding Teacher Programme – Olevi' (OTP)
Cafwyd adborth cadarnhaol i'r hyfforddiant a'i effaith ar addysgu yn yr ysgolion. Mae'r rhaglen yn datblygu unigolion i allu arwain ar ddatblygu addysgu yn eu hysgolion, a thrwy hynny:

- Negeseuon ac egwyddorion gwaith Olevi yn parhau i ymestyn y tu draw i'r siroedd cychwynnol.
- Datblygu ymhellach unigolion i allu arwain ar ddatblygu addysgu yn eu hysgolion
- Adborth cadarnhaol i'r hyfforddiant a'i effaith ar addysgu yn yr ysgolion
- Cynyddu cynhwysedd ar draws y rhanbarth o ran cefnogaeth a chydweithrediad ysgol i'r ysgol
- Cynyddu yng ngallu a chynhwysedd mewn ysgolion / ystafelloedd dosbarth i wella ansawdd addysgu ymhellach a chynnal cynnydd.
- Athrawon ac arweinwyr wedi dyfnhau dealltwriaeth ac arbenigedd er mwyn gallu arwain a
- datblygu addysgeg effeithiol ar draws ysgolion ar gyfer arwain ym maes addysgeg

Mantell yr Arbenigwr ( Cynradd)
Mae Ysgol Cae'r Nant ysgol wedi ei hachredu a derbyn statws ymarferydd ac wedi cefnogi ac arwain ysgolion eraill yn y maes.

Mae ymrwymiad ysgolion ar draws y rhanbarth i arbrofi a gweithredu egwyddorion Mantell yr Arbenigwr mewn dosbarthiadau wedi datblygu'n dda yn ystod y flwyddyn gyda mwy o ysgolion yn dangos diddordeb mewn hyfforddiant pellach.

Datblygiad darpariaeth i ddisgyblion Mwy Abl a Thalentog (MATh) - (Uwchradd)
Mae datblygiadau o ran y maes yma wedi mynd rhagddynt yn llwyddiannus. Mae'r prif weithgarwch fel a ganlyn:

- Ysgolion yn cydweithio mewn triawdau i wella cyfleoedd i ddisgyblion MATh a cydweithio gyda rhwydwaith Seren ( ar gyfer Disgyblion MATh 6ed Dosbarth).
- Amrywiaeth o gefnogaeth gan dimau craidd GwE e.e. Hyfforddiant ar draws y rhanbarth gan dîm Ymgynghorwyr Saesneg GwE ar gyrraedd A/A* mewn Saesneg, trafodaethau gyda grwpiau o benaethiaid adran Saesneg am ddulliau o gefnogi disgyblion MATh, Hyfforddiant ar strategaethau ymarferol i'w defnyddio mewn dosbarth i ddatblygu uwch sgiliau meddwl mewn Saesneg, cefnogaeth o tan Gwyddoniaeth, hyfforddiant a chefnogaeth ar draws y rhanbarth i wella addysgeg yn CA4 a CA5 i godi safnau a pharatoi disgyblion MATH Bl 11 ar gyfer astudio Mathemateg yn y 6ed dosbarth, modelu gwersi MaTH mewn rhai ysgolion.
- Grwpiau cydlynwyr MATh wedi eu sefydlu ar gyfer rhannu a rhaeadru arfer dda.
- Cydweithio o fewn gweithgor traws gonsortia ar arweiniad ac adnoddau i adnabod a chefnogi cyrhaeddiad a lles disgyblion MATh
- Cydlynydd wedi cyfrannu at Fodiwl 3 y Cynnig Proffesiynol ar gyfer Arweinwyr canol sy'n canolbwyntio ar Ddysgu ac Addysgu.
- Ystod o adnoddau wedi eu creu a'u rhannu gydag ysgolion er mwyn codi lefel her yng Nghyfnod Allweddol 4. Hefyd adnoddau cynllunio cwricwlwm wedi eu creu.
- Mike Gershon, Ymgynghorydd Addysg wedi cynnal hyfforddiant Gwahaniaethu i benaethiaid Saesneg a Chymraeg a herio meddwl.

Mae arferion da yn cael ei rannu o fewn awdurdodau ac ar draws y rhanbarth. Mae'r hyfforddiant a'r arweiniad wedi derbyn adborth cadarnhaol gan athrawon a chydlynwyr MATh gyda nifer o ysgolion ar draws y rhanbarth yn nodi eu bod yn gwneud defnydd da o adnoddau ac o gynnwys yr hyfforddiant yn eu dosbarthiadau. Mae hyn oll yn cyfoethogi profiadau a chyfleoedd ar gyfer disgyblion MATh o fewn yr ysgolion a thu hwnt.

Prosiect Cenedlaethol dan arweiniad Lynn Sharrat - Clarity (Uwchradd)
Dan Arweiniad Dr Lynn Sharrat, mae ysgolion ar draws y 4 consortiwm yn cydweithio ar brosiect ymchwil gweithredol dwy flynedd ym maes Arweinyddiaeth, Addysgeg a'r Cwricwlwm Newydd. Mae'r prosiect yn defnyddio 14 paramedr Dr Sharrat i annog myfyrio ar a gwella ymagwedd yr ysgolion at y cwricwlwm newydd a'i le wrth gefnogi ysgolion eraill**.**

Mae 5 o ysgolion uwchradd Wrecsam yn rhan o'r prosiect gyda dros 20 o arweinwyr wedi cael dwy sesiwn hyfforddiant gan Dr Lynn Sharratt. Prif ffocws y ddau ddiwrnod hyfforddiant cychwynnol oedd asesu llythrennedd. Mae dwy sesiwn arall i ddod.

Mae'r prosiect yn symud ymlaen yn dda ac yn cael ei yrru'n effeithiol yn fewnol yn yr ysgolion gyda'r arferion gorau wedi eu rhannu mewn cynhadledd prifathrawon Gogledd Cymru. Mae diddordeb yng ngwaith y prosiect mewn nifer o awdurdodau a thu hwnt ac mae sawl ysgol wedi ymweld â'r ysgolion prosiect a chychwyn treialu strategaethau.

Mae arweinwyr yn hynod gadarnhaol ynglŷn ag effaith cychwynnol y prosiect sydd wedi dyfnhau eu dealltwriaeth ac arbenigedd er mwyn gallu arwain a datblygu addysgeg effeithiol ar draws ysgolion.

Mae ysgolion yn datblygu eu hymarfer ac arweinyddiaeth yn seiliedig ar syniadau ac ymchwil Dr Lynn Sharrat gyda ymchwil gweithredol yn arwain at wella dealltwriaeth a chynhwysedd ysgolion i arwain gwelliannau pellach ac at adnabod set gyffredin o offer, strategaethau ar gyfer gwella'r addysgu/dysgu.

Cefnogaeth wedi ei deilwra i Ysgolion Uwchradd drwy gyfrwng Cynlluniau Unigol
Mae Cynlluniau yn weithredol ar gyfer pob ysgol ar draws y rhanbarth. Mae'r ffocws i wella dysgu ac addysgu wedi ei flaenoriaethu ymhob ysgol ble mae hyn wedi'i adnabod fel gweithredu ol-arolwg ac wedi'i dargedu ar gyfer adrannau/agweddau penodol yn yr ysgolion eraill, yn unol â blaenoriaethau'r Cynllun Datblygu Ysgol a'r Cynllun Datblygu Adran. Yn ychwanegol, rhoddir ffocws i agweddau penodol o addysgeg wedi'i gyflwyno trwy gyfrwng fforymau pynciol.

Mae'r dystiolaeth o ymweliadau monitro, trafodaethau hefo arweinwyr ac ymarferiadau craffu / arsylwi yn dangos effaith gadarnhaol ar addysgeg yn y mwyafrif o'r ysgolion a'r sefyllfaoedd ble targedwyd cefnogaeth.

Mae ysgolion y rhanbarth yn datblygu'n effeithiol yn eu parodrwydd at Gwricwlwm Newydd a'i weithrediad ar lawr dosbarth. Mae cynlluniau wedi eu gwneud i fireinio a chryfhau'r prosesau o adnabod anghenion cefnogi ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Mae'r ddarpariaeth drwy'r prosiectau uchod wedi gwneud cyfraniad sylweddol at barodrwydd ysgolion a'u paratoadau ar gyfer y Daith Ddiwygio a dyfodiad Cwricwlwm i Gymru - y pedwar diben, 12 egwyddor addysgegol, ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu, y safonau proffesiynol i arweinwyr ac athrawon ynghyd â'r agenda lleihau baich gwaith athrawon. Maent hefyd wedi dyfnhau dealltwriaeth ac arbenigedd athrawon ac arweinwyr er mwyn gallu arwain a datblygu addysgeg effeithiol oddi mewn ac ar draws ysgolion .

Mae nifer cynyddol o athrwon ac arweinwyr ysgolion yn arwain a chefnogi ei gilydd gan raeadru arferion da ac arddangos dealltwriaeth gref o addysgeg effeithiol gyda'r gwaith uchod yn rhannu negeseuon cyson parthed addysgeg.

Mae rhan fwyaf o ysgolion y rhanbarth wedi elwa o arweiniad a chydweithrediad arbenigwyr rhyngwladol megis Shirley Clarke , Dr Lynn Sharrat a Mike Gershon a hefyd o fod yn raglenni o ansawdd uchel megis Mantell yr Arbenigwr ac Olevi.

Maent hefyd yn dyfnhau eu dealltwriaeth o addysgeg effeithiol, a hynny ar sail ymchwil lleol a rhyngwladol sy'n eang a chyfredol. Maent yn ymgymryd â gwaith ymchwil gweithredol yn eu hysgolion, yn cydweithio'n broffesiynol ac yn datblygu'n dda o ran hyder ac arloesi.

## 5. Y DAITH DDIWYGIO

Mae GwE yn gweithio gydag ysgolion pob awdurdod lleol i sicrhau dull clir a systematig o gefnogi a myfyrio ar eu hymwneud â phob agwedd ar y daith ddiwygio. Ym mhob clwstwr o ysgolion, mae dau arweinydd dynodedig yn hwyluso'r broses rheoli newid a'r cynllunio y mae ysgolion wedi'i wneud wrth ddatblygu'r cwricwlwm newydd a gweithredu'r safonau proffesiynol newydd. Mae YCG yn lledaenu negeseuon allweddol cyson yn effeithiol, gan gynnwys enghreifftiau o arferion llwyddiannus mewn perthynas â'r agenda ddiwygio genedlaethol. Mae'r daith ddiwygio genedlaethol wedi'i gwreiddio mewn blaenoriaethau rhanbarthol ac awdurdod lleol, ac mae YCG yn darparu gwybodaeth drylwyr i bob clwstwr am agweddau allweddol ar y daith ddiwygio.

### Atebolrwydd - y trefniadau gwerthuso a gwella newydd

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu trefniadau gwerthuso a gwella newydd i gymryd lle rhannau o'r system atebolrwydd bresennol. Bydd hyn yn golygu newidiadau sylweddol i ddiwylliant ac ymddygiadau ar draws y system gyfan. Hunan arfarnu cadarn a pharhaus sydd wrth wraidd y trefniadau gwerthuso a gwella. Bydd hyn, ochr yn ochr ag ymgysylltiad cymheiriaid, yn cefnogi dysgu a gwella, yn gwreiddio cydweithio, yn gyrru hunan welliant ac yn codi safonau ar gyfer ein holl ddysgwyr.

Mae'r trefniadau ar sail y pedair egwyddor allweddol a ganlyn.

Byddant yn:

- **deg** - byddant yn hybu tegwch, cynhwysiant, dewis, llwybrau unigol at ddysgu ac ni fyddant byth yn colli golwg ar y dysgwr
- **cydlynol** - gan ganiatáu i bob rhan o'r system weithio gyda'i gilydd heb orgyffwrdd, gyda rolau a chyfrifoldebau clir
- **cymesur** - gan sicrhau bod gweithredu'r trefniadau a'r broses newydd yn hylaw, a'u bod yn gwneud gwahaniaeth Fe'u tan ategir gan egwyddor sybsidiaredd, gan sicrhau bod cyfrifoldeb am atebolrwydd yn lleol o dan arweiniad ysgolion gwybodus
- **tryloyw** - cydnabod ehanger profiadau dysgu ar draws ysgolion a gwerth ychwanegol athrawon yn y dosbarth.

Bydd hunan arfarnu a yrrir gan ddata yn nodwedd gref o drefniadau'r dyfodol. Cefnogir hyn drwy'r Adnodd Cenedlaethol ar gyfer Gwerthuso a Gwelliant a ddatblygir gan Estyn, Llywodraeth Cymru, y consortia rhanbarthol a'r proffesiwn (gweler isod). Deilliant y broses hunan arfarnu fydd adnabod blaenoriaethau ar gyfer gwella. Bydd gofyn o hyd i ysgolion gyhoeddi eu blaenoriaethau gwella, yn unol â rheoliadau cynlluniau datblygu ysgolion. Disgwylir y bydd ysgolion yn cynnwys cymheiriaid i gefnogi eu trefniadau hunan arfarnu.

Bydd angen i gategoreiddio cenedlaethol, sy'n dynodi lefel y gefnogaeth y mae ar ysgolion ei hangen gan y system i wella, esblygu i broses fwy soffistigedig sy'n edrych ar ystod ehangach o ddangosyddion, megis llesiant dysgwyr. Disgwylir y bydd hyn yn esblygu i system barhaus o ddilysu hunan arfarnu a

blaenoriaethau ar gyfer datblygiad ysgolion. Y consortia rhanbarthol fydd yn gweithredu'r broses ddilysu hon ar gyfer ysgolion. Bydd y consortia yn parhau i ddarparu cefnogaeth ar gyfer ysgolion yn unol ag angen, ac yn unol â'r blaenoriaethau gwella a nodwyd.

Y mae disgwyliadau gosod targedau ar lefel ysgol yn parhau, yn ogystal â'r angen i awdurdodau lleol gymeradwyo'r broses gosod targedau. Fodd bynnag, mae natur y targedau bellach wedi esblygu gan roi hyblygrwydd i ysgolion adnabod targedau lleol ar gyfer gwelliant sy'n briodol i'w cyd-destun ac felly yn adlewyrchu eu blaenoriaethau fel ysgol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu mesurau system gyfan i helpu i farnu cynnydd yn genedlaethol wrth roi polisi ar waith, ac osgoir crynhoi data lefel ysgol.

Bydd trylwyredd arolygu yn parhau i roi tystiolaeth glir o ansawdd safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Bydd arolygiadau yn cael eu hatal yn rhannol o fis Medi 2020 tan fis Awst 2021 er mwyn i'r arolygaeth weithio gydag ysgolion a'r consortia ar y diwygio cwricwlwm.

Bydd ysgolion sy'n parhau yn destun pryder yn cael eu monitro o hyd gan Estyn yn ystod y cyfnod hwn, a byddant yn dal i gael cymorth gan eu consortia rhanbarthol a'u hawdurdodau lleol.

Wrth symud ymlaen bydd Estyn yn newid y dull arolygu. Bydd hyn yn cynnwys dilysu prosesau hunan arfarnu a gwella ysgolion, a bydd yn digwydd yn fwy rheolaidd nag yn y drefn bresennol. Maes o law bydd Estyn yn dechrau ymgynghori â rhanddeiliaid ar y trefniadau newydd o 2021. Bydd hyn yn cynnwys arolygu ysgolion fwy nag unwaith mewn cylch saith mlynedd.

### Adnodd Gwerthuso a Gwella Cenedlaethol

Fel rhan o'r drefn genedlaethol i ddatblygu trefniadau gwerthuso, gwella ac atebolrwydd diwygiedig, bu Estyn a Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu adnodd cenedlaethol gyda'r nod o gynyddu trylwyredd a chysondeb mewn prosesau hunan arfarnu a chynllunio gwelliant, a hynny wrth hybu a meithrin y diwylliant a'r ymddygiadau sydd eu hangen i gefnogi gweithredu'r cwricwlwm newydd ac agenda ehangach y daith ddiwygio.

Mae rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys cynrychiolaeth o GwE, wedi bod yn cyfrannu i'r trafodaethau ac i raglenni gwaith y grŵp rhanddeiliaid a'r gweithgor. Bydd yr adnodd cenedlaethol hwn yn seiliedig ar 4 thema [Arweinyddiaeth, Addysgu a Phrofiadau Dysgu, Llesiant a Chynhwysiant a 4 Diben y cwricwlwm] gydag egwyddorion Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu yn plethu drwy'r themâu hyn. Fe fydd yr adnodd yn gyfuniad o ysgogiadau gwerthuso, deunydd enghreifftiol a chyfeirio at arferion llwyddiannus. Ers mis Medi 2019 mae grŵp peilot o ysgolion traws sector (un o bob awdurdod) wedi dechrau ar y gwaith o dreialu'r ysgogiadau sydd yn yr adnodd gan flaenoriaethu'r rhai sydd yn ymwneud a pharatoi ar gyfer y cwricwlwm newydd. Mae cynrychiolaeth o GwE ynghyd ag Estyn, Llywodraeth Cymru a'r consortia rhanbarthol eraill yn rhan o'r grŵp sydd yn cyfeirio gwaith yr ysgolion peilot ynghyd a datblygiad yr adnodd yn ddigidol yn Hwb a sicrhau ansawdd y cynnwys gorffenedig.

Rhannwyd diweddariadau ynglŷn â datblygiad yr adnodd gyda Phenaethiaid mewn amrywiol ddigwyddiadau. Y nod yw y bydd adran yr adnodd sy'n ymwneud yn benodol a phedwar diben y cwricwlwm ar gael i ysgolion yn ystod y flwyddyn academaidd 2020-2021.

### Datblygu Cwricwlwm

Mae gwaith diwygio Cwricwlwm i Gymru yn mynd rhagddo ar gyflymdra yn y rhanbarth, gan ddefnyddio strwythur y rhwydweithiau clwstwr. Mae'r 53 rhwydwaith clwstwr yn parhau i gyfarfod, ac mae diwygio Cwricwlwm i Gymru yn eitem reolaidd ar gyfer cael diweddariad. Mae Ymgynghorwyr

Cefnogi Gwelliant yn mynychu'r cyfarfodydd hyn yn rheolaidd, ac maent yn allweddol er mwyn cyfathrebu y naill ffordd a'r llall i rannu ac adrodd yn ôl ar negeseuon cyson.

O ran y daith ddiwygio, rydym wedi gweithredu'n integredig ym mhob agwedd ar ein gwaith o'r cychwyn cyntaf. Mae ein blaenoriaethau yn gyfuniad o wella darpariaeth, arweinyddiaeth a deilliannau ysgolion, yn ogystal â chyflawni'r daith ddiwygio. Mae ystod o sianeli cyfathrebu effeithiol wedi'u sefydlu i gynnwys fforymau penaethiaid sy'n trafod y dulliau gweithredu a datblygu cynnwys priodol i ddiwallu anghenion lleol.

Cytunwyd mewn egwyddor ar gynigion y 53 clwstwr ar gyfer y camau nesaf i ddatblygu ymwybyddiaeth am y cwricwlwm, ac mae meini prawf llwyddiant yn cynnwys:

- Amcanion cytûn tryloyw i wella deilliannau i ddysgwyr
- Nifer cynyddol o staff yn ymwybodol o ddatblygiadau'r cwricwlwm newydd
- Nifer cynyddol o staff ysgolion yn cydweithio
- Nifer cynyddol o gyfleoedd i gynllunio a pharatoi ar gyfer y continwwm dysgu 3-16 oed.
- Darparu cyfleoedd i athrawon fyfyrio ac arloesi gyda dulliau addysgegol

Ar y cyd â rhanddeiliaid, mae GwE wedi datblygu strategaeth gefnogol a chynaliadwy yn yr hirdymor sydd yn llwyddo i feithrin cynhwysedd ar draws y rhanbarth i wynebu heriau y diwygio ehangach. Mae'r dull gweithredu integredig wedi canolbwyntio ar ddatblygu cyfleoedd cydweithredol ar draws clystyrau o ysgolion.

Mae GwE wedi annog ysgolion i gydweithio drwy rannu arferion a chyd-lunio meysydd sydd angen eu gwella a heriau'r daith ddiwygio. Rydym wedi buddsoddi mewn amrywiol fodelau clwstwr ac wedi annog ysgolion i ganfod ystod o bartneriaid priodol i gyflawni gwelliannau a newidiadau.

Bu datblygu'r G6 yn help i gefnogi ysgolion wrth iddynt feddwl am baratoi ar gyfer yr agenda drawsnewid barhaus. Rhydd gyfeiriad clir hefyd ar sut y bydd GwE yn gweithio mewn dull clir a threfnus i gefnogi ysgolion, ar draws yr ALl, i fyfyrio ar eu parodrwydd ar gyfer y cwricwlwm newydd, a'u paratoadau ar gyfer y daith ddiwygio.

Mae cerrig milltir tymhorol G6 yn parhau i arwain ysgolion a chynnig disgwyliadau o dan penawdau penodol. Dyma'r ffigurau rhanbarthol ar gyfer defnyddio G6:

| Ysgolion sy'n defnyddio G6: | <u>Gwybodaeth ac ymwybyddiaeth</u> - rhannol ar drac neu well: | <u>Ymgysylltu a chymryd rhan</u> - rhannol ar drac neu well: |
|---|---|---|
| 74% (Tachwedd 2018)<br>82% (Mehefin 2019)<br>96% (Tachwedd 2019) | 77% (Tachwedd 2018)<br>82% (Mehefin 2019)<br>91% (Tachwedd 2019) | 69% (Tachwedd 2018)<br>76% (Mehefin 2019)<br>96% (Tachwedd 2019) |

Mae ymgysylltu yn gryf ar draws y rhanbarth. Mae'r adborth yn glir, ar hyn o bryd, teimla ysgolion eu bod ar drac o ran ymwybyddiaeth eu staff o'r wybodaeth sydd ar gael am ddatblygiadau'r cwricwlwm, yn enwedig y 4 diben a'r 12 egwyddor addysgegol.

Mae cyfleoedd Dysgu Proffesiynol misol yn parhau i ddarparu cyfleoedd pwysig i staff rhanbarthol roi cyfleoedd pwysig i'r tîm llawn rannu diweddariadau a datblygu negeseuon cyson ar lwyfan integredig ar draws y daith ddiwygio addysg ehangach. Datblygir yr holl adnoddau ar y cyd gan yr Arloeswyr, ac fe'u cyflwynir mewn digwyddiadau ymgysylltu a'u rhannu drwy ein system G6 sydd ar gael i bob ysgol

yn y rhanbarth. Mae GwE yn cyfrannu'n at ddatblygu fframwaith cenedlaethol y Cwricwlwm i Gymru drwy staff rhanbarthol a rhwydweithiau ysgolion arloesi.

### Dysgu Proffesiynol

Mae cynnig proffesiynol GwE yn gynhwysfawr ac eang, gan ddarparu cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer staff ysgolion. Ceir ynddo hefyd amrywiol gyfleoedd eraill ar gyfer Dysgu Proffesiynol, er enghraifft Llythrennedd a Rhifedd yn y sector cynradd, pynciau craidd yn y sector uwchradd, cynllunio'r cwricwlwm a lles. Cynlluniwyd cynnig proffesiynol GwE gyda datblygiad yr unigolion sydd ar lawr y dosbarth mewn golwg, tra bodlonir hefyd agweddau ar ysgol gyfan; cefnogi clystyrau o ysgolion ac ymateb i anghenion ALl.

Mae blaenoriaethau GwE wrth wraidd y Cynnig Proffesiynol. Mae egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru wedi'u hymgorffori yn y cynnig. Dyma'r edefyn aur, sy'n cysylltu popeth a gaiff ei gynnig gyda'i gilydd. Mae'r pedwar diben yn flaenoriaeth i gyflwynwyr wrth iddynt gynllunio hyfforddiant perthnasol, cyfredol a chyffrous.

Yn sail i bob cynnig dysgu proffesiynol GwE mae Model Rhesymeg sy'n nodi'r angen am hyfforddiant, ynghyd â mewnbynnau ac allbynnau, gan gynnwys unrhyw fygythiadau allanol a allai effeithio ar ddysgu proffesiynol.

Yr uchelgais yng Nghymru yw i bob ysgol ddatblygu fel sefydliad dysgu, yn unol ag egwyddorion yr OECD. Mae'r gwasanaeth wedi esblygu i gynnig hyfforddiant ar sail yr egwyddorion hyn ac mae'n gweithio i sicrhau bod yr holl ddysgu proffesiynol a gynigir yn hyrwyddo dimensiynau sefydliadau dysgu, gan ddarparu cyfleoedd i ysgolion archwilio dulliau newydd ac addasu i'r amgylchedd sy'n newid. Mae'r ffocws ar ddysgu proffesiynol lle darperir cefnogaeth mewn sawl ffurf, gan gynnwys rhaglenni dysgu proffesiynol penodol oddi ar y safle, dysgu o bell, mentora a chydweithio effeithiol rhwng ysgolion. Mae hyn i gyd yn hyrwyddo hunan-welliant ac addysgeg gyda'r nod o ledaenu arfer dda.

Mae'r cynnig wedi'i gynllunio i ddatblygu unigolion yn y dosbarth ac agweddau ysgol gyfan, cefnogi clystyrau o ysgolion ac ymateb i anghenion yr Awdurdodau Lleol. Mae'r ddarpariaeth yn seiliedig ar wybodaeth a dealltwriaeth gadarn yr Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant o'u hysgolion, ar anghenion clystyrau penodol, dyheadau'r awdurdodau lleol a blaenoriaethau cenedlaethol.

Mae'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arwain yn canolbwyntio ar elfennau hanfodol gwaith pob athro - addysgeg, cydweithio, arweinyddiaeth, arloesi a dysgu proffesiynol. Mae cynnig proffesiynol GwE yn cefnogi datblygiad y safonau proffesiynol hyn.

Bydd Dysgu Proffesiynol yn ganolog i sicrhau bod gan holl staff ysgolion yr wybodaeth broffesiynol a'r sgiliau i gyflawni'r diwygiadau addysg sydd yn mynd rhagddynt yng Nghymru. Adnabuwyd fframwaith pendant ar gyfer themâu dysgu proffesiynol i ymarferwyr mewn ysgolion. Ym mis Chwefror 2020, dechreuodd y rhaglen dysgu proffesiynol i Benaethiaid ac Uwch Arweinwyr, ar sail y themâu a ganlyn:

- Arwain newid
- Datblygu gweledigaeth a rennir
- Creu amser a gofod ar gyfer Dysgu Proffesiynol
- Cynllunio ar gyfer newid cwricwlwm/cynllunio'r cwricwlwm
- Arwain addysgeg

Drwy waith y cwricwlwm, mae nifer cynyddol o glystyrau wedi adnabod a gofyn am ddysgu proffesiynol penodol i ddiwallu eu hanghenion. Yn ôl y sylwadau, gwelir bod y dull gweithredu lleol

hwn at ddysgu'n broffesiynol yn cael ei groesawu, a bod arwyddion cynnar o effaith gadarnhaol ar iaith gyffredin ar gyfer dysgu ac addysgu.

Mae rhannu rhesymeg a dulliau gweithredu Dysgu Proffesiynol mewn grwpiau clwstwr bach wedi cael ei werthfawrogi gan benaethiaid fel cyfle effeithiol i ymgysylltu â chyfoedion a chael trafodaethau proffesiynol. Cofrestrodd dros 230 o arweinwyr o fewn y 24 awr cyntaf.

Mae nifer cynyddol o glystyrau yn datblygu dulliau lleol rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd i gydweithio ar lawer o flaenoriaethau ysgol e.e. datblygu strategaethau addysgu a dysgu; datblygu model rhesymeg i adnabod cyfleoedd Dysgu Proffesiynol ar y cyd.

## Digidol

Rhan hanfodol o'r genhadaeth genedlaethol yw sicrhau fod gan bob dysgwr sgiliau digidol lefel uchel fel eu bod yn gymwys yn ddigidol i fod yn feddylwyr beirniadol, creadigol a mentrus.

Mae GwE wedi cynhyrchu rhaglen dysgu proffesiynol ddigidol i gynorthwyo athrawon ac arweinwyr i ddatblygu profiadau dysgu digidol effeithiol a chynaliadwy i ddysgwyr er mwyn sicrhau fod gan ein pobl ifanc sgiliau digidol lefel uchel.

Er mwyn sicrhau fod disgyblion yn datblygu eu sgiliau digidol, mae GwE yn cynnig cyngor, arweiniad, hyfforddiant a chefnogaeth broffesiynol yn y meysydd allweddol canlynol:

**Gwella darpariaeth dysgu digidol ysgolion y rhanbarth**

- Strategaeth dysgu digidol rhanbarthol wedi'i ffurfio ac wedi cychwyn cael ei gweithredu sy'n amlinellu prif gamau'r gwasanaeth er mwyn codi safonau dysgu digidol ysgolion dros y tair blynedd nesaf.
- Adnodd i alluogi ysgolion i lunio gweledigaeth ar gyfer dysgu digidol a'i drosi mewn i gynllun wedi cael ei greu a'i ryddhau. Cyflwynwyd yr adnodd yma i hwylusydd digidol pob clwstwr er mwyn cael ei ddefnyddio fel arf i glwstwr gydweithio i lunio eu gweledigaeth.
- Dros 200 wedi cofrestru i fynychu'r Digwyddiad Dysgu Digidol Rhanbarthol mis Mawrth 2020.
- 96% o ysgolion yn ymgysylltu â Hwb (Data Hwb – Mawrth 2020).

**Gwella sgiliau rhaglennu ar draws y rhanbarth**

- 12 ysgol arweiniol wedi cael eu hadnabod gydag un athro/athrawes o bob ysgol wedi cael eu huwch-sgilio.
- Her codio ar lein GwE wedi cael ei lansio.
- Strategaeth wedi ei baratoi ar gyfer 2020-21 ar gyfer darparu adnoddau i gefnogi clybiau codio a sicrhau fod dysgwyr ar draws y CS, CA2 a CA3 yn cael profiad o raglennu fel rhan o'r paratoadau ar gyfer yr elfen gyfrifiadura o'r cwricwlwm cyn Medi 2022.
- 45 Ysgol wedi derbyn hyfforddiant a phecyn dosbarth o Microbits.

**Mabwysiadu model clwstwr GwE i alluogi a hyrwyddo cydweithio er mwyn gwella ansawdd arweinyddiaeth digidol a chyfleoedd dysgu proffesiynol.**

- 45 clwstwr wedi penodi hwylusydd digidol ar gyfer y clwstwr – hyfforddiant cychwynnol wedi ei gynnal yn Ionawr 2020.
- 172 ysgol o'r rhanbarth wedi bod yn rhan o weithgaredd lefel clwstwr rhwng Ionawr a Mawrth 2020.
- 16 clwstwr wedi gwneud cais am gyllid ychwanegol i gefnogi prosiect ychwanegol i godi safonau dysgu digidol.

- Rhwydwaith rhithiol wedi ei sefydlu er mwyn hwyluso rhannu dogfennau a negeseuon allweddol.

**Sicrhau fod dealltwriaeth ysgolion y rhanbarth o faterion e-ddiogelwch yn gyfredol a chynyddu eu hymgysylltiad â'r offeryn hunan arfarnu '360 Degree Safe Cymru'.**

- 7 Sesiwn ar gyfer penaethiaid wedi cael eu cynnal ar draws y rhanbarth – dros 200 yn mynychu.
- 65 o ysgolion wedi ymgysylltu gyda'r offeryn arfarnu '360 Degree Safe Cymru' yn dilyn y sesiynau hyn
- YCG GwE wedi derbyn hyfforddiant diogelwch ar-lein.

**Datblygu a sefydlu offeryn hunanarfarnu dysgu digidol cenedlaethol a sicrhau fod ysgolion yn ei ddefnyddio'n effeithiol i gynllunio gwelliant.**

- Cynnwys a strwythur yr offeryn wedi ei lunio gan y 4 rhanbarth.

**Gwella ymgysylltiad y sector uwchradd wrth i'r ysgolion baratoi i weithredu'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol.**

- Ymgynghori wedi ei gynnal â rhai fforymau penaethiaid uwchradd y rhanbarth ac mae'r awydd yn gryf i dderbyn cefnogaeth ar sut i ddatblygu dysgu digidol yn yr ysgolion.
- Bwriad i ddod ag uwch arweinwyr yr ysgolion at ei gilydd fesul rhanbarth er mwyn eu hyfforddi a hwyluso cydweithio i ddatblygu gweledigaeth a'i drosi i gynllun ymarferol.

**Y Gymraeg**

Mae'r system addysg yng Nghymru mewn cyfnod o drawsnewid, ac mae'r iaith Gymraeg yn rhan annatod o'r diwygiadau hynny. Mae gan y system addysg gyfraniad allweddol i'w wneud ac mae'r rhanbarth wedi ymrwymo i ymateb i bolisi a gweledigaeth Llywodraeth Cymru a'u cyflawni. Amlinellir isod y prif ddatblygiadau yn ystod y flwyddyn:

- Cymeradwyodd y Cyd-Bwyllgor y cynllun strategol "Datblygu'r Gymraeg mewn addysg ar draws rhanbarth Gogledd Cymru 2019-22" (Tachwedd, 2019).
- Datblygwyd llawlyfr cryno ar gyfer YCG i'w cynorthwyo wrth iddynt gyd-gynllunio ar gyfer taith y Gymraeg o fewn y daith ddiwygio.
- Datblygwyd Cyfeirlyfr Hyfforddiant Iaith Gymraeg ar gyfer y rhanbarth sydd yn cynnwys manylion hyfforddiant cychwynnol, yn amrywio o apiau/gwefannau sylfaenol, cyrsiau a gynhelir gan Athrawon Ymgynghorol y Gymraeg/Tiwtoriaid Cymraeg yn yr awdurdodau, hyd at Gyrsiau Sabothol.
- Parheir i hyrwyddo'r cyrsiau Sabothol drwy fwletin GwE a'r ALl. Mae 43 wedi mynychu cyrsiau sabothol yn ystod 2019 – 20 sef Cwrs Cymraeg mewn Blwyddyn, Cwrs Uwch i Gymorthyddion, Cwrs Sylfaen i Athrawon a chyda 12 wedi ymrwymo i'r Cwrs Dilyniant ar gyfer y Cwrs Cymraeg mewn Blwyddyn.
- Mae'r model clwstwr weithredol. Adnabuwyd Cydlynydd Clwstwr y Gymraeg i bob un o'r 54 clwstwr ar draws y rhanbarth. Sicrheir cyllid drwy ddarparu Cynllun GweithreduClwstwr er mwyn hyrwyddo defnydd anffurfiol o'r Gymraeg a datblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu.
- Mae'r gwaith o gefnogi'r Siarter Iaith a'r tri Cydlynydd yn parhau gan gynyddu'r cyd weithio rhwng y Siarter a Chymraeg Campus.
- Mae 8 o staff GwE wedi mynychu'r Cwrs Dysgu Cymraeg (Cymraeg Gwaith) yn ystod 2019-20 ac wedi llwyddo yn yr arholiad Mynediad ym mis Mehefin 2019.
- Mae'r cyd weithio'n parau gyda'r rhanbarthau eraill i ffurfio Cynllun Prosiect Arweinwyr Strategol y Gymraeg.

### Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Sefydlwyd gwaith clwstwr ar drawsnewid ADY yr draws Gogledd Cymru, gan ddarparu dull cyson o gefnogi parodrwydd ysgolion i weithredu'r diwygiadau ADY. O ganlyniad, mae gan ysgolion ymwybyddiaeth o'r diwygio ac maent wedi gweithio gyda'u clwstwr i adnabod blaenoriaethau ar y cyd a chyflwyno cynllun gweithredu clwstwr. Mae'r model yn sicrhau y caiff pob ysgol yn y rhanbarth gyngor a chefnogaeth manwl gywir, amserol a chyson wrth i ni symud at ddiwedd y daith drawsnewid ac at weithredu.

Ar ben hynny, mae uwch arweinwyr a chlystyrau wedi adnabod eu hanghenion dysgu proffesiynol eu hunain ar gyfer cefnogi'r gweithredu, sydd wedi llywio cynnig dysgu proffesiynol 2019-20 ar gyfer trawsnewid ADY.

Bu gwaith arloesi llwyddiannus ar lefel clwstwr, gan gynnwys diffinio darpariaeth gyffredin, diffinio addysgu o'r radd flaenaf a gweithredu strategaethau ar gyfer cyfathrebu â rhieni a gofalwyr.

Anogwyd clystyrau i ddatblygu eu gwaith ar drawsnewid ADY ar y cyd ac yn gydlynus lle bo modd, gan gefnogi dysgwyr wrth iddynt symud i gam nesaf eu haddysg.

Bydd gwaith cefnogi yn parhau i sicrhau bod pob clwstwr yn rhagweithiol wrth weithio ar y cyd, gan nodi blaenoriaethau a datblygu cynllun gweithredu.

### G6

Mae G6 (y system gwybodaeth reoli ranbarthol) wedi cefnogi ysgolion i fyfyrio ar eu paratoadau ar gyfer yr agenda drawsnewid barhaus. Rhydd gyfeiriad clir hefyd ar sut y bydd GwE yn gweithio mewn ffordd glir a threfnus i gefnogi ysgolion, ar draws yr ALl, i fyfyrio ar eu parodrwydd ar gyfer y cwricwlwm newydd, a'u paratoadau ar gyfer y daith ddiwygio.

Mae'r system yn cynnig strwythur ar gyfer cael darlun o brosesau gwella a blaenoriaethau ysgolion, ac mae'n casglu tystiolaeth feintiol o daith wella ysgolion. Mae ysgolion yn defnyddio'r cerrig milltir yn y modiwlau Cwricwlwm i Cymru ac Anghenion Dysgu Ychwanegol yn effeithiol. Mae hyn yn caniatáu i ysgolion fyfyrio ar eu sefyllfa bresennol mewn perthynas â'r daith ddiwygio, a darperir camau nesaf clir i'w hystyried. Mae'r system hefyd yn rhoi darlun o'r arferion gorau, ac yn eu rhannu rhwng ysgolion. Cyfoethogir gwaith clwstwr drwy rannu blaenoriaethau ar G6, ac mae deialog yn gymorth i weld y lefel o gefnogaeth sydd ar ysgol ei hangen a'r cydweithio rhwng ysgolion. Caiff ysgolion fynediad at Ddysgu Proffesiynol ALl drwy'r system a gallant weld cysylltiadau rhwng blaenoriaethau ysgol gyfan ac anghenion dysgu proffesiynol.

Trwy gyfathrebu rheolaidd a chryno rhwng ysgolion a GwE, mae'r system yn canolbwyntio ar drosglwyddo data byw i gefnogi cynnydd disgyblion. Gyda mwyfwy o ddeialog broffesiynol rhwng yr YCG a'r ysgol, gall YCG ymateb yn gynt i helpu ysgolion gyda meysydd sydd angen cefnogaeth.

Yn dilyn cyflwyno'r system yn llwyddiannus yn y rhanbarth ac yn draws sector, cynigiwyd rhaglen o hyfforddiant a chymorth effeithiol i arweinwyr ysgolion a defnyddwyr GwE er sicrhau bod y system yn gwreiddio ymhellach.

Sicrhaodd diweddariad ar draws y system ym mis Chwefror 2020 fod bron pob agwedd ar ddatblygiad cam 4 bellach wedi'i gwblhau. Mae'r rhain yn cynnwys datblygu ardaloedd staff GwE i sicrhau cysondeb negeseuon ar gyfer holl staff GwE ac ardal Ymchwil Weithredol i sicrhau fod gan bob ysgol fynediad at wybodaeth am y prosiect ymchwil gweithredol rhanbarthol.

Mewn ymateb uniongyrchol i adborth gan grwpiau defnyddwyr, cafodd y system ei diweddaru i wella’r rhyngwyneb i ddefnyddwyr G6 trwy ganiatáu mynediad cyflym i'r datblygiadau diweddaraf, ynghyd â chaniatáu i ysgolion olygu ac argraffu adroddiadau o'r sylwebaeth a gedwir yn y system am eu blaenoriaethau.

Darparwyd pecynnau hyfforddi pwrpasol hefyd i wahanol ddefnyddwyr ar draws y rhanbarth, yn ôl yr anghenion a welwyd gan yr YCG, gan gynnwys penaethiaid newydd ac aelodau UDA.

Mae nifer yr astudiaethau achos y sicrhawyd eu hansawdd a'u cyhoeddi yn y modiwl Arferion Llwyddiannus, wedi dyblu bron. Mae gwaith pellach i'w wneud i ddatblygu'r ystod o astudiaethau achos a rennir, yn ogystal â'r cydbwysedd rhwng sectorau. Mae'r cyfrifoldeb hwn wedi'i gynnwys yn y gofynion sylfaenol a nodwyd ar gyfer Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant.

Dengys ffigurau rhanbarthol yn 2019-20 ar gyfer defnyddio G6 bod:

- 99% o ysgolion Cynradd wedi gosod eu blaenoriaethau ar G6 yn ystod Tymor yr Hydref 2019.
- 92% o ysgolion Uwchradd wedi gosod eu blaenoriaethau ar G6 yn ystod Tymor yr Hydref 2019.

Dengys ffigurau rhanbarthol ym mis Ionawr 2020 ar gyfer modiwl ADY Cymru bod:

- 96% o ysgolion yn datgan eu bod naill ai'n rhannol ar drac, neu ar drac, gyda'r garreg filltir 'Ymwybyddiaeth ac Ymgysylltu'. Bu cynnydd o 32% ar ffigyrau Mawrth 2019.
- Nododd 95% o Ysgolion eu bod naill ai'n rhannol ar y trywydd iawn neu ar y trywydd iawn ar gyfer carreg filltir y Dull sy'n Canolbwyntio ar y Disgybl. Mae hyn yn gynnydd o 29% ar y ffigurau ar gyfer Mawrth 2019.

Mae ymgysylltiad cynyddol gan ysgolion (gweler y ffigurau uchod) wedi arwain at fwy o hyder. Mae'r hyfforddiant diweddaraf ar gyfer ysgolion wedi cynnwys cyflwyniadau yn dangos arfer effeithiol gan ystod o ysgolion.

## 6. GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH

### Adolygu gan Gymheiriaid

Mae GwE a'r chwe awdurdod lleol rhanbarthol yn gweithio gydag ysgolion i sefydlu model rhanbarthol ar gyfer ymgysylltu â chymheiriaid, sy'n llawn adlewyrchu'r egwyddorion a'r gwerthoedd a nodwyd gan Benaethiaid, a hefyd dysgu o arferion da yn genedlaethol a thu hwnt.

Drwy ddatblygu model ymgysylltu â chymheiriaid ar amryw o lefelau a haenau, a'r model hwnnw wedi'i lunio a'i pherchnogi gan yr ysgolion eu hunain, bydd modd i sefydliadau fynd i'r afael â'r daith ddiwygio genedlaethol mewn ffordd integredig. Bydd yr awdurdodau lleol a GwE yn cefnogi'r dull gweithredu integredig yn effeithiol.

Bydd y model yn sail i gylch trylwyr o ddatblygiad a gwelliant parhaus, a bydd yn rhan ganolog o wella ysgol wrth symud tuag at system hunan wella, tra hefyd yn cynnal yr ysgolion hynny sy'n achosi pryder.

Gwahoddwyd ysgolion i fynegi diddordeb mewn cymryd rhan mewn prosiect ymgysylltu â chymheiriaid rhanbarthol a oedd yn adlewyrchu'n llawn yr egwyddorion a'r gwerthoedd a nodwyd gan Benaethiaid y rhanbarth.

Gweithredwyd mewn dwy ffordd i ddatblygu adolygu gan gymheiriaid ar draws y rhanbarth:

1. Ymrwymodd clystyrau o ysgolion i weithredu'n fwy strwythuredig o ran adolygu cymheiriaid i finiogi a datblygu *model y Rhaglen Partneriaeth Ysgolion* a addaswyd i fodloni anghenion yn lleol o fodel a welwyd wrth ymchwilio i arferion da;
2. Bu clystyrau o ysgolion wrthi'n datblygu eu modelau eu hunain ar gyfer adolygu cymheiriaid oedd yn arddel yr egwyddorion a'r gwerthoedd hynny a welwyd yn lleol.

Daeth ceisiadau i law gan 290 o ysgolion i gymryd rhan yn y peilot adolygu cymheiriaid. Dewiswyd a hyfforddwyd deg clwstwr (60 ysgol) i gymryd rhan yn y *Rhaglen Partneriaeth Ysgolion*. Yn ogystal, dewiswyd 28 o glystyrau (171 o ysgolion) i gymryd rhan mewn modelau adolygu cymheiriaid a ddatblygwyd yn lleol ac a gefnogwyd yn llawn gan yr Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant (YCG). Darparwyd hyfforddiant a chymorth parhaus i holl YCG GwE ar adolygu gan gymheiriaid, hwyluso a hyfforddi.

Cyflwynwyd hyfforddiant, cyngor a chefnogaeth ar adolygu cymheiriaid a chefnogaeth ysgol i ysgol i uwch arweinwyr ysgol sy'n ymwneud â'r prosiect.

Fel rhan o'r Rhaglen Partneriaeth Ysgolion, cyflwynwyd digwyddiadau hyfforddi cynhwysfawr i 'Adolygwyr Cymheiriaid' a 'Hwyluswyr Gwelliant'. Cynhaliwyd Gweithdai Effaith a Chefnogaeth hefyd trwy gydol y flwyddyn.

Ar gyfer y model adolygu cymheiriaid lleol, cynlluniwyd amserlenni gweithredu clir a hwyluswyd a chefnogwyd y gwaith gan Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant GwE .

Hefyd, datblygwyd rhaglen werthuso ac asesu effaith a sefydlwyd gwaelodlin ar gyfer y prosiect.

Hyd at fis Mawrth 2020:
- Derbyniodd holl aelodau staff GwE hyfforddiant cychwynnol ar adolygu gan gymheiriaid, hwyluso a hyfforddi
- Derbyniodd 6 aelod o staff GwE hyfforddiant cynhwysfawr i'w galluogi i fod yn hyfforddwyr 'Adolygwyr Cymheiriaid' a 'Hwyluswyr Gwelliant'
- Hyfforddwyd 72 o uwch arweinwyr fel adolygwyr cymheiriaid
- Hyfforddwyd 49 o arweinwyr uwch/canol fel Hwyluswyr Gwelliant
- Cymrodd 300+ o uwch arweinwyr ran yn llwyddiannus mewn adolygiad cymheiriaid
- Roedd o leiaf 500 o staff yn ymwneud a chymryd rhan mewn adolygiad cymheiriaid
- Roedd pob clwstwr yn gweithredu eu rhaglenni adolygu cymheiriaid yn llwyddiannus

Mae'r arferion gwell canlynol wedi'u hadnabod:
- Cydweithio gwell ar draws y rhanbarth gydag arfer effeithiol ar gyfer hunan arfarnu a chynllunio gwella yn cael ei rannu o fewn dalgylchoedd a thu hwnt.
- Mae'r model adolygu gan gymheiriaid yn gwreiddio yn y rhanbarth ac fe'i gwelir fel rhan annatod o wella ysgolion.
- Arweinwyr ac athrawon talentog wedi'u hadnabod a'u hyfforddi i hwyluso gwelliant, sy'n datblygu capasiti arweinyddiaeth ar draws y rhanbarth.
- Gwell deialog broffesiynol rhwng penaethiaid gyda mwy o barodrwydd i dderbyn adborth gan gyfoedion sydd wedi arwain at hogi a miniogi gweithdrefnau hunan arfarnu.
- Ar y cyfan, mae adolygiadau cymheiriaid wedi cael eu llunio'n dda iawn, yn graff, yn addas at y diben ac wedi'u trefnu'n dda.
- Mae arwyddion clir yn dechrau dod i'r amlwg fod adolygu cymheiriaid yn dylanwadu ar ganlyniadau a chynnydd disgyblion mewn llawer o'r ysgolion sy'n cymryd rhan.

## Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu (YSD)

Mae GwE wedi gweithio gyda'r OECD i ddatblygu'r Consortia a'r AauLl fel sefydliadau sy'n dysgu. Rhannwyd canfyddiadau'r gwaith hwn â'r rhanbarthau eraill, ac yn rhyngwladol, gan ein bod yn ymdrechu i ddatblygu ymhellach sefydliad bywiog ac iach.

Yn ystod 2018-19, detholwyd 50 o ysgolion rhanbarthol ar hap gan Lywodraeth Cymru i ymateb i arolwg yn canolbwyntio ar saith dimensiwn Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu (YSD). Cafodd ysgolion giplun o'u canlyniadau. Trosolwg sydyn oedd hwn o agweddau ar gyfer datblygiad pellach.

Cafodd yr ysgolion hyn gymorth gan GwE i ddatblygu'r agweddau hyn trwy gyfarfodydd rheolaidd, gweld arferion effeithiol mewn cynhadledd genedlaethol ynghyd ag edrych ar agweddau penodol ar ymchwil weithredu trwy fynychu cyflwyniad 'Spiral of Enquiry'.

Bu amryw o ysgolion GwE yn gweithio ar ddatblygu adnodd i gyfleu Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu i'n disgyblion. Cydweithiodd saith ysgol i ddatblygu animeiddiad gyda disgyblion a phobl ifanc. Gellir gweld hwn ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae ysgolion rhanbarthol hefyd wedi datblygu fersiwn cymunedol o'r cyflwyniad, a fydd yn cael ei gynnwys mewn adnodd cenedlaethol a ddatblygwyd ar y cyd â'r rhanbarthau eraill.

Mae pob ysgol sydd wedi cymryd rhan yn yr arolwg wedi cynnal amrywiol weithgareddau i ddatblygu YSD ymhellach yn eu hysgolion, ac wedi llunio astudiaethau achos i'r diben hwn.

Gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r rhanbarth greu adnodd i godi ymwybyddiaeth ysgolion Cymru o'r hyn yw bod yn YSD. Datblygwyd yr adnodd hwn ar y cyd â'r rhanbarthau eraill yng Nghymru, ac mae 20 o ysgolion GwE yn ei ddefnyddio bellach i godi ymwybyddiaeth o YSD yn eu dalgylchoedd a thu hwnt, ar draws pob ysgol yn y Gogledd.

Datblygwyd cynllun cenedlaethol ar y cyd â'r rhanbarthau eraill ar sut y byddwn yn datblygu pob ysgol yng Nghymru i fod yn sefydliad sy'n dysgu. Er bod hwn yn gynllun cenedlaethol, bydd blas lleol iddo pan fydd yn cael ei gyflwyno'n rhanbarthol.

Anfonwyd yr arolwg YSD i bob ysgol yng Nghymru cyn diwedd tymor yr haf, ac roedd modd i ysgolion weld pa rai o'r 7 dimensiwn sydd angen iddynt eu datblygu ymhellach trwy dynnu ar eu cynllun gweithredu.

Mae nifer o ysgolion y rhanbarth wedi cyflwyno sesiynau lleol i godi ymwybyddiaeth ynghylch YSD gyda phob ysgol yn y rhanbarth .

Mae rhestr draws ranbarthol, yn cynnwys nifer o astudiaethau achos, wedi'i datblygu i helpu ysgolion gael dealltwriaeth ddyfnach o'r hyn y mae bod yn YSD effeithiol yn ei olygu.

Mae'r rhanbarth hefyd wedi gweithio'n agos gyda Phrifysgol Bangor yn ddiweddar er mwyn datblygu arolwg SD ar gyfer yr haen ganol. Mae pob rhanbarth bellach wedi cytuno ar gynnwys yr arolwg, ac fe fydd yn barod yn y flwyddyn newydd i'r rhanbarthau ei gwblhau.

Mae Llywodraeth Cymru wedi penodi aelod staff o'n hysgolion arolwg YSD gwreiddiol i ddatblygu YSD ymhellach ar draws ysgolion Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i GwE gefnogi a chynghori'r unigolyn hwn yn nyddiau cynnar ei swydd newydd.

### Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA)

Mae cydweithio agosach rhwng GwE a CaBan wedi arwain at fwy o gydlynu a chydweithredu. Mae GwE wedi cefnogi Achrediad llwyddiannus rhaglenni BA/TAR, ac wedi gweithio efo CaBan ac ysgolion y rhanbarth i gyd-lunio modelau.

Dyma'r prif flaenoriaethau ar gyfer 2019-20.

- Gwella ansawdd Addysg Gychwynnol Athrawon a dysgu proffesiynol ar gyfer athrawon dan hyfforddiant - Mae rhaglenni llawn yn eu lle ac wedi'u datblygu gydag ystyriaeth fanwl i ymarfer, addysgeg, yr iaith Gymraeg a'r Cwricwlwm i Gymru, fel y gwelir yng nghynnwys y rhaglen.
- Rôl estynedig i'r mentor mewn ysgolion partner sy'n cael effaith gadarnhaol ar ansawdd yr addysgu ar draws ysgolion partneriaethol - darparwyd hyfforddiant i fentoriaid a chyflwynwyd diweddariadau rheolaidd. Mae'r holl fentoriaid wedi bod drwy broses Sicrwydd Ansawdd gadarnhaol, gan arwain at well darpariaeth i fyfyrwyr fel y gwelir yn yr adroddiadau Sicrhau Ansawdd.
- Meithrin hyder Athrawon Newydd Gymhwyso wrth ddarparu'r cwricwlwm - mae sesiynau hyfforddi hynod effeithiol wedi'u cyflwyno i Athrawon Newydd Gymhwyso.
- Recriwtio a dewis ymgeiswyr ar gyfer y Rhaglen Athrawon Graddedig (GTP) i ddiwallu anghenion rhanbarthol - dewiswyd a chefnogwyd ymgeiswyr Rhaglen Athrawon Graddedig a bydd pob un yn cyflawni Statws Athro Cymwysedig trwy ddarpariaeth estynedig gan ysgolion. Ni fydd y Rhaglen Athrawon Graddedig bellach yn cael ei chynnal o fis Gorffennaf 2020 ymlaen.
- Mae gwaith gyda'r Brifysgol Agored i ddewis ysgolion rhanbarthol i gyd-greu opsiynau rhan-amser a chyflogaeth wedi'i gynllunio ac yn ei le - achrediad gan Gyngor y Gweithlu Addysg am 5 mlynedd.
- Gweithio gyda'r Brifysgol Agored i recriwtio ysgolion ac ymgeiswyr addas ar gyfer peilot Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR) gwyddoniaeth yn seiliedig ar gyflogaeth - 4 ysgol bartner arweiniol wedi'u recriwtio, 7 ysgol gyflogwyr ac 8 ysgol gysylltiedig, ac mae recriwtio cenedlaethol ar hyn o bryd (nid yw'r ffigurau rhanbarthol ar gael eto).

Mae Arweinydd AGA GwE yn dal i fynd i gyfarfodydd i ddechrau arfarnu'r rhaglen a datblygu ail achrediad. Mae YCG perthnasol yn darparu mewnbwn arbenigol wrth gyflwyno'r modiwl.

### Ymchwil ac Arfarnu

Mae GwE yn gweithio'n agos gyda Phrifysgol Bangor ar y Prosiect 'Sefydliad Cydweithredol er Ymchwil i Addysg, Tystiolaeth ac Effaith' (CIEREI) i sicrhau systemau arfarnu grymus ar gyfer eu rhaglenni datblygu ac ar gyfer mesur eu heffaith mewn ysgolion fel rhan o ddull gweithredu rhanbarthol. Dyma'r amrywiol brosiectau:

- Astudiaeth Ddarllen Ar-lein Gogledd Cymru: Prosiect Gweithredu Traws Rhanbarthol (NorthWORTS-TRIP): Gwella'r ddarpariaeth o ran strategaethau addysgu, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, i ysgolion cynradd ar draws pob ALl (y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2). NorthWORTS-TRIP yn gwella safonau darllen efo Darllen Cynnar Headsprout (HER) a rhaglenni Darllen a Deall (HRC). Rhannwyd canlyniadau cychwynnol y prosiect hwn yn ystod cynadleddau GwE a chyfarfodydd clwstwr, yn ogystal ag amryw o gynadleddau ymchwil.
- Prosiect Darllen Ailadroddol Gogledd Cymru (NWRRP): Gweld pa mor effeithiol yw ymyrraeth Darllen drwy Ailadrodd i wella rhwyddineb darllen plant ysgol gynradd. Cymharu effeithiolrwydd y dull Darllen drwy Ailadrodd (PR) efo'r dull geiriau cyffredin (HFW) Ymunodd 28 ysgol â'r prosiect ym mis Medi 2019.
- Dyluniwyd Prosiect Darllen Clwstwr Dinbych i helpu cefnogi ysgolion cynradd i wella safon rhuglder darllen plant trwy hyfforddi staff i ddefnyddio Headsprout, Darllen dro ar ôl tro, Geiriau Amledd Uchel a gweinyddu DIBELS.

- Prosiect Gwella Lles ac Ymddygiad (iWaB-RLC) yng Nghymuned Ddysgu i arfarnu effaith strategaethau ymddygiad a rhaglenni lles: Gwella'r ddarpariaeth o ran strategaethau, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, i ysgolion cynradd ac uwchradd (2017-2020). Dosbarthwyd canlyniadau cychwynnol y prosiect hwn yn ystod cynadleddau GwE a chyfarfodydd clwstwr, yn ogystal ag amryw o gynadleddau ymchwil.
- Prosiect Parodrwydd Cadarnhaol ar gyfer Dysgu (PR4L): Gwella safonau cyrhaeddiad, ymddygiad ac ymgysylltiad disgyblion. Cynyddu'r ddarpariaeth o strategaethau seiliedig ar dystiolaeth mewn ysgolion cynradd partner(2017-2020). Galluogi disgyblion i fod yn ddysgwyr annibynnol, uchelgeisiol a galluog. Datblygu'r holl randdeiliaid fel arweinwyr wrth wella dull ysgol gyfan o ddatblygu parodrwydd ar gyfer dysgu. Gweithredu'r dibenion craidd yn unol â Dyfodol Llwyddiannus y Cwricwlwm Newydd. Dosbarthwyd canlyniadau cychwynnol y prosiect hwn yn ystod cynadleddau GwE a chyfarfodydd clwstwr. Cyflwynwyd canfyddiadau hefyd i Lywodraeth Cymru yn ystod mis Tachwedd 2019. Mae'r gwaith hwn hefyd yn cael ei goladu i'w gynnwys mewn llyfr academaidd newydd sy'n canolbwyntio ar ddefnyddio systemau ymddygiad ysgol gyfan.
- Prosiect Gwella Safonau drwy Adolygu Effeithiol (iStER-GwE): Archwilio effaith strategaethau adolygu sy'n seiliedig ar dystiolaeth mewn pynciau gwyddoniaeth yng nghyfnod allweddol 4, er mwyn helpu i wella cyrhaeddiad gwyddonol disgyblion yn awr ac yn y dyfodol. Prif nodau iStER yw: 1) lledaenu gwybodaeth gywir am strategaethau dysgu effeithiol ymhlith disgyblion ysgolion uwchradd; (2) annog disgyblion i fuddsoddi amser ar gyfer astudio ac adolygu annibynnol; a darparu system i helpu'r gwaith o drefnu amser astudio/adolygu a dysgu annibynnol i ddisgyblion.

Disgrifiwyd canlyniadau cyfunol yr astudiaethau yma mewn papur diweddar yn y *Wales Journal of Education*: Mae bron bob un o'r prosiectau uchod yn canolbwyntio ar ddefnyddio syniadau a strategaethau sy'n seiliedig ar ymchwil i wella deilliannau. Mae'r holl brosiectau yn ymwneud â myfyrwyr ymchwil yn gweithio gydag ysgolion i hyfforddi, cyflwyno ac asesu effaith strategaethau a syniadau effeithiol. Maent hefyd yn cynnig syniadau a strategaethau ymarferol i ysgolion ar gyfer gwella ymddygiad a lles trwy ddefnyddio syniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Bydd y gwaith hwn yn llywio ysgolion wrth iddynt edrych tuag at ddiwygio cwricwlwm a'r MDaPh iechyd a lles.

## 7. BUSNES

### Datblygu Staff

Mae cysondeb ac ansawdd yr her a'r gefnogaeth i ysgolion yn dda. Mae hyfforddiant, cefnogaeth a thrafodaethau cyson yn sicrhau bod gan yr Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant wybodaeth dda a chyfredol am ddatblygiadau cenedlaethol a lleol, a goblygiadau hyn i'w rôl.

Mae prosesau Sicrhau Ansawdd yn parhau i ddatblygu ac esblygu yn unol â datblygiadau ac egwyddorion cenedlaethol. Cyfathrebir negeseuon a gwybodaeth yn glir a chyson i holl weithwyr y sefydliad, a chynigir rhaglenni cefnogaeth generig a phwrpasol effeithiol. Sicrheir cyfleoedd cyson mewn cyfarfodydd tîm llawn a sector i gydweithio, i ymgynghori a chyfrannu at drafodaethau a phenderfyniadau am gyfeiriad gwaith GwE mewn cyfnod o newid sylweddol.

### Rheoli Perfformiad ac Atebolrwydd

Mae'r fframwaith atebolrwydd clir a grymus yn gryfder allweddol yn GwE. Mae cynlluniau busnes manwl ar bob lefel yn rhoi sylw i bob agwedd ar waith GwE ac yn nodi'n glir gyfraniad y gwasanaeth i'r agenda trawsnewid. Mae'r cynlluniau wedi'u costio'n llawn, gyda meini prawf llwyddiant a cherrig milltir clir ar gyfer cyflawni'r amcanion hynny.

Ceir trefniadau hunan arfarnu manwl ble adolygir y cynlluniau bob chwarter, gan arfarnu y cynnydd a'r effaith. Mae staff, ar bob lefel, yn llawn ddeall eu cyfrifoldeb am welliant parhaus ac atebolrwydd.

Mae gan bob Awdurdod Lleol gynllun busnes manwl y cytunwyd arno gan Bennaeth y gwasanaeth a'r Ymgynghorydd Craidd. Caiff cynnydd tuag at gyflawni'r deilliannau cytûn, ar lefel awdurdod lleol, ei adolygu'n gyson mewn cyfarfodydd rhwng yr Ymgynghorydd Arweiniol a'r Awdurdodau Lleol. Caiff materion parhaus eu cyfeirio'n amserol at uwch arweinwyr GwE.

Mae hunan arfarnu yn nodwedd gref yn GwE ac mae'r broses yn un gylchol a pharhaus. Rhoddir pwys mawr ar atebolrwydd ac adolygu parhaus, ac mae pwyslais cyson ar gyflawni cynnydd yn unol â'r blaenoriaethau. O ganlyniad, mae arweinwyr GwE yn adnabod, yn fanwl gywir, meysydd ble mae perfformiad yn dda, a meysydd sydd angen eu datblygu neu ble mae elfen o risg o ran gwella'r profiadau a'r deilliannau addysgol i ddysgwyr.

### Gwerth am Arian

Mae gan y consortiwm brosesau rheolaeth ariannol effeithiol ar waith. Mae cyfathrebu ac ymgynghori ar drefniadau ariannol yn effeithiol, ac mae staff GwE, yr awdurdod lleol lletyol, a'r Cyd-bwyllgor yn adolygu'r cyllid craidd a'r gwariant grant yn rheolaidd.

Mae dadansoddiad ariannol cadarn yn ein cefnogi wrth gyflawni'r cynllun busnes. Mae cynllun ariannol tymor canolig a chynllun gweithlu yn cyd-fynd â'r cynllun busnes. Drwy ddefnyddio data yn fwyfwy effeithiol i adnabod ein blaenoriaethau allweddol, cryfheir y cyswllt rhwng y broses cynllunio busnes a phenderfyniadau cynllunio ariannol gan fod y ffrydiau gwaith sy'n sail i'r cynllun busnes yn nodi'n glir yr adnoddau i'w defnyddio.

Lluniwyd fframwaith ffurfiol i asesu'r gwerth am arian ehangach a ddarperir gan GwE. Mae'r farn bellach yn gyson ar draws yr holl randdeiliaid ar sut y gellir mesur gwerth am arian weithgareddau GwE o fewn strwythur ac amcanion y cynllun busnes.

### Cofrestr Risg

Mae trefniadau trylwyr a chyfansawdd i adnabod yn fanwl gywir risgiau ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol, ac ar gyfer rheoli'r risgiau hyn. Mae'r gofrestr risg yn ddogfen fyw, a chaiff ei diweddaru'n gyson i adnabod risgiau sy'n cynyddu, neu risgiau na fernir sy'n lefel uchel mwyach. Caiff ei hadolygu'n fisol yng nghyfarfod yr uwch dîm arweinyddiaeth, ac yn chwarterol gan y Bwrdd Rheoli a'r Cyd-bwyllgor.

Trwy reoli risgiau'r rhanbarth yn effeithiol mae GwE yn gallu cefnogi amcanion y rhanbarth, defnyddio adnoddau yn effeithiol a chyflawni'r deilliannau yn ôl y bwriad.

## 8. BLAENORIAETHAU'R CYNLLUN BUSNES AR GYFER 2020-21

Mae'r blaenoriaethau a'r meysydd ar gyfer gwelliant wedi'u gwreiddio'n gadarn ar ganfyddiadau'r prosesau hunan arfarnu mewnol, ac adolygiadau allanol o'n harferion presennol a chyfeiriad ein taith, a thrwy ymgynghori â Phenaethiaid a'r Awdurdodau Lleol. Rhydd y Cynllun Busnes sylw hefyd i flaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru a'r Awdurdodau Lleol, sydd o fewn cylch gorchwyl GwE. Yn ogystal, bydd GwE yn gweithio mewn partneriaeth gydag Awdurdodau Lleol i gefnogi blaenoriaethau lleol ychwanegol, fel y bo'n briodol. Rhydd ystyriaeth hefyd i safbwyntiau a

blaenoriaethau partneriaid haen ganol eraill fel Estyn, Cymwysterau Cymru, CBAC, yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol (NAEL), Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) a Chyngor y Gweithlu Addysg.

Mae'r Cynllun Busnes yn cysylltu â chynlluniau gwasanaeth manylach, efo targedau mesuradwy ar gyfer gwelliant a meini prawf llwyddiant pendant er mwyn gallu mesur cynnydd y rhanbarth yn union. Adroddir ar y cynnydd yn erbyn y Cynllun Busnes bob chwarter, yn unol â'r Fframwaith Atebolrwydd.

Mae gan bob Awdurdod Lleol gynllun busnes manwl sydd wedi'i gytuno rhwng y pennaeth gwasanaeth a'r Arweinwyr Craidd. Ym mhob cynllun, nodir yn fanwl y materion allweddol o fewn yr awdurdod lleol, ynghyd â chynllun gwella unigryw i roi sylw i'r heriau penodol. Caiff cynnydd tuag at gyflawni'r deilliannau cytûn, ar lefel awdurdod lleol, ei adolygu'n gyson.

Cymeradwyodd y Bwrdd Rheoli a'r Cyd-Bwyllgor ein hamcanion strategol a'n blaenoriaethau ar gyfer 2020-2021. Mae chwe adran i'r Cynllun Busnes, ac mae'n cyd-fynd ag *'Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl*'. Nodir yn glir cyfraniad y gwasanaeth at yr agenda trawsnewid.

Dyma ein hamcanion strategol:

1. Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel
2. Arweinwyr sy'n ysbrydoli ac sy'n cydweithio i godi safonau
3. Ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo i sicrhau rhagoriaeth, tegwch a lles
4. Trefniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd cadarn i ategu system hunanwella.
5. Cwricwlwm trawsnewidiol
6. Busnes

Dyma ein prif flaenoriaethau gwella ar gyfer 2020-2021:

| **1: DATBLYGU PROFFESIWN ADDYSG O SAFON UCHEL** |
|---|
| **Blaenoriaethau gwella:** |
| 1.1 Cefnogi ysgolion uwchradd mewn categori statudol, a'r rheiny sy'n achosi pryder, i wella perfformiad |
| 1.2 Cymraeg 2050 – darparu strategaeth ranbarthol i gefnogi cyflawni 'Miliwn o Siaradwyr'. |
| 1.3 Cefnogi CaBan i ddatblygu darpariaeth AGA o safon uchel. |

| **2: ARWEINWYR SY'N YSBRYDOLI AC SY'N CYDWEITHIO I GODI SAFONAU** | |
|---|---|
| **Blaenoriaethau gwella:** | |
| 2.1 | Gweithio gyda rhanbarthau eraill i ddarparu rhaglenni datblygu ar draws y gweithlu i sicrhau arweinyddiaeth o safon uchel |
| 2.2 | Cefnogi ysgolion uwchradd i wella perfformiad arweinyddiaeth ganol |
| 2.3 | Datblygu model ymgysylltu â chymheiriaid efo ysgolion i sicrhau bod hunan arfarnu a chynllunio gwelliant yn gadarn ar bob lefel |

| **3: YSGOLION CRYF A CHYNHWYSOL SYDD WEDI YMRWYMO I SICRHAU RHAGORIAETH, TEGWCH A LLES** |
|---|

| Blaenoriaethau gwella: |
|---|
| 3.1 Datblygu ymhellach y broses o weithredu Model Fframwaith y Grant Datblygu Disgyblion Rhanbarthol (GDD).<br><br>3.2 Datblygu ymhellach y strategaeth PMG.<br><br>3.3 Gweithio efo ALl ac ysgolion i weld sut orau i baratoi ar gyfer trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol |

| 4: TREFNIADAU ASESU, GWERTHUSO AC ATEBOLRWYDD CADARN I ATEGU SYSTEM HUNANWELLA |
|---|
| **Blaenoriaethau gwella:** |
| Cefnogi ysgolion i wella perfformiad yn y sector uwchradd:<br>4.1 Datblygu systemau tracio ac asesu<br>4.2 Datblygu atebolrwydd a systemau rheoli<br>4.3 Datblygu ymhellach trefniadau atebolrwydd a phrosesau ar gyfer hunan arfarnu a chynllunio gwelliant cadarn |

| 5: CWRICWLWM TRAWSNEWIDIOL |
|---|
| **Blaenoriaethau gwella:** |
| 5.1 Cefnogi ysgolion a chlystyrau wrth iddynt baratoi i gynnig Cwricwlwm Trawsnewidiol drwy raglen o ddysgu proffesiynol ar y themâu hyn:<br>• Arwain newid<br>• Datblygu gweledigaeth gytûn<br>• Creu amser a lle ar gyfer Dysgu Proffesiynol<br>• Cynllunio ar gyfer newid cwricwlwm/dylunio cwricwlwm<br>• Addysgeg arweiniol |

| 6: BUSNES |
|---|
| **Blaenoriaethau gwella:** |
| 6.1 Cynnal adolygiad o'r gyllideb a'r gweithlu |

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**15 GORFFENNAF 2020**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad gan:** | **Alwyn Jones, Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE** |
| **Pwnc:** | **Rhaglen waith GwE** |

## 1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Cyflwyno gwybodaeth i aelodau'r Cyd-Bwyllgor am raglen waith GwE am y cyfnod 23 Mawrth 2020 i 22 Mai 2020.

## 2.0 Cefndir

2.1 Mae'r ymateb i COVID-19 wedi newid ein bywydau yn aruthrol. Yn y cyd-destun heriol hwn, amharwyd yn sylweddol ar y system addysg ac ysgolion. Ar 23 Mawrth 2020, newidiwyd pwrpas ysgolion, i gefnogi plant gweithwyr allweddol a rhai dysgwyr bregus. Mae arweinwyr ysgolion wedi gweithio'n ddiflino i addasu i drefniadau newydd a datblygu prosesau i gefnogi dysgwyr a theuluoedd yn eu cartrefi a'u cymunedau.

2.2 Mae staff GwE hefyd wedi addasu eu gwaith er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau a chefnogi ein holl ysgolion.

## 3.0 Materion i'w hystyried

3.1 Credwn mai'r peth pwysicaf i bob ysgol yn ystod y cyfnod hwn o newid a tharfu digynsail yw diogelwch a lles ein plant a'n gweithlu, a gwneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi lles corfforol a meddyliol ein plant a'n pobl ifanc drwy gydol y cyfnod hwn.

3.2 Ein prif flaenoriaethau a ffrydiau gwaith yn ystod y cyfnod yma yw:

- Cam 1: Cyn y cyfnod clo
- Cam 2: Cefnogi ysgolion ar ddechrau'r cyfnod clo
- Cam 3: Dysgu o Bell
- Cam 4: Cefnogi ysgolion i ailagor
- Cam 5: Dysgu Cyfunol

3.3 Mae'r adroddiad ynghlwm (Atodiad 1) yn manylu ar y gweithgareddau, deilliannau ac effaith ein gwaith ers i'r cyfnod clo gychwyn, dros y cyfnod 23 Mawrth 2020 i 22 Mai 2020 (Cam 1 – 4).

Mae'r gweithgareddau wedi eu rhannu i'r categorïau canlynol:

- Cefnogi a gweithio gyda ysgolion
- Gwaith Rhanbarthol ac Awdurdodau Lleol
- Cefnogi Dysgu Proffesiynol
- Parhad Dysgu Cenedlaethol
- Arall

3.4 Bydd gan ein Hymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant (YCG) rôl esblygol yn ystod y misoedd nesaf yn cefnogi ysgolion o ran:

- Cefnogi dysgu o bell a datblygu dull cyfunol sy'n cwmpasu dysgu o bell a dysgu wyneb-yn-wyneb
- Cefnogi gydag addasu ysgolion at wahanol ddibenion
- Cefnogi Dysgu Proffesiynol (DP)

Cyflwynir adroddiad pellach i'r Cyd-bwyllgor ym Medi 2020.

**4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor dderbyn cynnwys yr adroddiad.

**5.0 Goblygiadau ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

**6.0 Effaith o ran cydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran personél yn codi o'r adroddiad hwn.

**8.0 Ymgynghori a wnaed**

8.1 Ymgynghorwyd â Bwrdd Rheoli GwE a Fforymau Strategol Penaethiaid.

**9.0 Atodiadau**

9.1 Atodiad 1 – Adroddiad Rhaglen waith GwE.

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**
Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Yng nghyd-destun heriol Covid-19 a chyfyngiadau, rhaid i GwE addasu, esblygu a blaenoriaethu cefnogaeth o fewn yr adnoddau presennol.

## ADRODDIAD AR RAGLEN WAITH GwE

### Cyd-destun a chrynodeb

Mae'r ymateb i COVID-19 wedi newid ein bywydau yn aruthrol. Yn y cyd-destun heriol hwn, amharwyd yn sylweddol ar y system addysg ac ysgolion. Ar 23 Mawrth newidiwyd pwrpas ysgolion, i gefnogi plant gweithwyr allweddol a rhai dysgwyr bregus. Mae arweinwyr ysgolion wedi gweithio'n ddiflino i addasu i drefniadau newydd a datblygu prosesau i gefnogi dysgwyr a theuluoedd yn eu cartrefi a'u cymunedau.

Mae staff GwE hefyd wedi addasu eu gwaith er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau a chefnogi ein holl ysgolion. Credwn mai'r peth pwysicaf i bob ysgol yn ystod y cyfnod hwn o newid a tharfu digynsail yw diogelwch a lles ein plant a'n gweithlu, a gwneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi lles corfforol a meddyliol ein plant a'n pobl ifanc drwy gydol y cyfnod hwn, fel y byddant, pan fo'n briodol, yn dychwelyd i'r ysgol gyda chymhelliant a brwdfrydedd i ddysgu. Mae pob Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant (YCG) wedi sicrhau cyswllt rheolaidd â Phennaeth eu hysgolion cyswllt, a hynny er mwyn cefnogi eu lles a sicrhau eu bod yn derbyn y gefnogaeth angenrheidiol. Mae llawer o aelodau staff GwE hefyd wedi cynnig cymorth ymarferol dros y misoedd diwethaf drwy helpu mewn ysgolion sy'n brin o staff.

Nid yw'r ddarpariaeth a'r dysgu yn adlewyrchiad o'r hyn fyddai ysgolion yn ei gynnig yn arferol. Mae rheoliadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol wedi'u llacio. Felly, mae gan ysgolion gyfle i ystyried pa ddysgu sy'n briodol i'w dysgwyr yn yr amgylchiadau hynod heriol hyn, ar sail:

- amser i gynnal a datblygu sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol;
- datblygu gwytnwch a myfyrio ar les personol;
- cynnig cyfleoedd i gynnal cysylltiadau ag athrawon, staff cymorth a chymheiriaid yn ystod y cyfnod hwn o ymbellhau cymdeithasol.

Mae ysgolion a GwE wedi cydweithio i sicrhau y caiff dysgwyr fynediad i ystod o ddeunyddiau dysgu drwy lwyfan digidol. Mae GwE wedi sefydlu Google Classroom i bob cyfnod allweddol ac uwchlwytho banc cychwynnol o adnoddau ymarferol a dolenni i ysgolion eu haddasu a'u defnyddio gyda'u dysgwyr. Rydym hefyd wedi creu canllawiau sain a fidio i athrawon i ddangos sut y gellir defnyddio arfau digidol yn effeithiol i greu adnoddau effeithiol ar gyfer dysgu o bell.

Coladwyd gwybodaeth ar gapasiti ein hysgolion i ddefnyddio llwyfannau dysgu, ac a ydyn nhw wedi cael unrhyw drafferthion mynediad neu gyda'u defnyddio. Diben hyn oedd adnabod pa ysgolion oedd arnynt angen cymorth ychwanegol i ddatblygu eu sylfaen adnoddau dysgu o bell ar-lein, a pha aelodau staff oedd arnynt angen hyfforddiant pellach ar ddefnyddio'r dechnoleg. Rydym hefyd wedi edrych ar sut y gellir datblygu ein dysgwyr mwy bregus, gan gynnwys sut orau y gall rhieni neu ofalwyr eu cefnogi gyda'u dysgu.

Ar lefel genedlaethol, gweithredwyd trefniadau gweithio agos iawn rhwng y pedwar consortiwm, er sicrhau manteision di-oed o ymateb ar y cyd i'r amodau hynod heriol hyn. Rydym wedi bod yn trafod yn rheolaidd â chyd-weithwyr Llywodraeth Cymru ac yn cydweithio ar gyflwyno Cynllun Parhad Dysgu, ac yn rhan o gefnogi'r rhan fwyaf o'r allbynnau allweddol.


Cynhyrchwyd canllawiau i gefnogi dysgu o bell effeithiol ac rydym hefyd wedi bod yn rhagweithiol iawn o ran helpu ysgolion i greu eu modelau Dysgu o Bell eu hunain. Rydym wedi creu modelau enghreifftiol i'w rhannu ag ysgolion, gan ddatblygu'r arfer dda oedd eisoes ar waith. Mae'r rhain yn seiliedig ar waith ymchwil rhyngwladol cadarn a dealltwriaeth ddyfnach o ddiffiniadau ac egwyddorion dysgu o bell. Rhannwyd y rhain hefyd yn genedlaethol.

Felly, rydym yn blaenoriaethu cymorth i bob dysgwr i ddal ati i ddysgu, ac yn cefnogi'r gwaith o gynllunio ar gyfer trosglwyddo'n effeithiol yn ôl i'r ysgol, pan ddaw'r amser. Bydd ein cyngor a'n cymorth yn canolbwyntio ar waith ysgolion o ran ystyried sut y gellir cefnogi pob dysgwr i ddychwelyd i addysg gydag agwedd meddwl gadarnhaol, ac i barhau â'u dysgu mor esmwyth ag y bo modd.

**Gweithgareddau a gofnodwyd ac amser a dreuliwyd**

Mae pob Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant (YCG) yn cysylltu â'i r(h)eolwr llinell bob bore a chofnodir rhestr o'u tasgau dyddiol yn eu calendr. Dyma grynodeb o weithgareddau staff GwE ers i'r cyfnod clo ddechrau, rhwng 23 Mawrth a 22 Mai 2020.

| Categori | Oriau | % |
|---|---|---|
| Cefnogi a gweithio gydag ysgolion | 9049 | 44% |
| Gwaith Rhanbarthol ac Awdurdod Lleol | 6992 | 34% |
| Cefnogi Dysgu Proffesiynol | 1645 | 8% |
| Parhad Dysgu Cenedlaethol | 2879 | 14% |
| Arall | 45 | <1% |




**Crynodeb o'r gweithgareddau, deilliannau ac effaith**

| GWEITHGAREDDAU |
|---|
| **Cefnogi a gweithio gydag ysgolion**<br>• Cefnogi ysgolion unigol neu Hybiau pan fu prinder staff.<br>• Cysylltu ag ysgolion yn rheolaidd er mwyn sicrhau iechyd a lles staff a disgyblion.<br>• Datblygu canllawiau, cymorth ac adnoddau i ysgolion er mwyn cefnogi dysgu o bell effeithiol mewn ysgolion.<br>• Cyfeirnodi arferion effeithiol yn rhyngwladol ym maes dysgu o bell. |

| |
|---|
| • Darparu cyfres o wefannau a phwyntiau cyfeirio i athrawon y Cyfnod Sylfaen, CA2, CA3 a CA4.<br>• Modelu enghreifftiau o ddysgu o bell effeithiol a'u rhannu'n genedlaethol.<br>• Cefnogi ysgolion gyda sut orau i ddarparu Dysgu o Bell drwy ddull cyfunol sy'n cynnwys fidios wedi'u recordio, defnyddio Hwb yn effeithiol, rhoi deunydd ar Google Classroom, defnyddio copïau papur pan nad oes mynediad i'r We ac ati.<br>• Trefnu cyfarfodydd cyswllt 'Teams' rheolaidd gyda phob clwstwr (cynradd, uwchradd, ysgolion arbennig ac UauCD) i rannu diweddariadau rheolaidd a sicrhau y caiff Penaethiaid gyswllt rheolaidd ac amser i rannu unrhyw broblemau sy'n codi.<br>• Cefnogi ysgolion gyda Dysgu Digidol a chynhyrchu fidios cymorth defnyddiol fel y gall athrawon ddatblygu ymhellach ac amrywio eu dysgu o bell.<br>• Cefnogaeth unigol i athrawon pwnc benodol yn y sector uwchradd.<br>• Cyfarfodydd rheolaidd efo grwpiau o athrawon pwnc yn y sector uwchradd.<br>• Sicrhau arweiniad a chefnogaeth ar faterion perthnasol i fforymau Penaethiaid yn y chwe Awdurdod Lleol. Cyflwyno diweddariadau mewn cyfarfodydd ac ateb cwestiynau sy'n codi.<br>• Darparu cymorth i ysgolion mewn perthynas â Chymwysterau - cyfres arholiadau haf 2020 a 2021.<br>• Cymorth i ysgolion gyda'u paratoadau ar gyfer addasu ysgolion at pan fydd dysgwyr yn dychwelyd i'r ysgol yn ystod gwahanol gamau llacio'r cyfyngiadau.<br>• Adnabod arfer dda, yr angen am gymorth ac ymgysylltu disgyblion/rhieni ag ysgolion. |
| **Gwaith Rhanbarthol ac Awdurdod Lleol**<br>• Rhannu gwybodaeth, negeseuon allweddol a ffrydiau gwaith â Swyddogion ALl.<br>• Diweddaru swyddogion ALl am ysgolion ac amrywiol faterion GwE<br>• Mynychu cyfarfodydd Bwrdd Ansawdd Sirol, rhoi sylwi i faterion gweithredu dilynol.<br>• Trafod strategaethau cychwynnol, ymgysylltu a rhwystrau.<br>• Cefnogi cyfweliadau Penaethiaid - cyfarfodydd gyda'r panel penodi i gefnogi a thrafod y rhestr fer, trefniadau'r cyfweliad a chwestiynau.<br>• Mynychu a chyfrannu i alwadau cynadledda Penaethiaid.<br>• Cefnogi gyda dysgu o bell ac ymgysylltu/cefnogi dysgwyr bregus.<br>• Datblygu rhestr wirio mewn perthynas â lles cyffredinol.<br>• Sicrhau cymorth ac arweiniad i Arweinwyr Craidd.<br>• Adrodd yn ôl am ysgolion a gwaith clwstwr.<br>• Rhannu gwybodaeth ranbarthol a sicrhau negeseuon cyson.<br>• Cefnogi ysgolion i ailagor - mae YCG GwE wedi cydweithio â chynrychiolwyr awdurdod lleol i lunio cynllun dychwelyd i'r ysgol cadarn, a fydd yn cefnogi pob ysgol yn y rhanbarth i sicrhau bod ganddynt y polisïau cywir mewn lle ac asesiad risg cynhwysfawr y gallant ei deilwra at ddibenion eu hysgol.<br>• Dysgwyr yn trosglwyddo yn ôl i'r ysgol - datblygu asesiad risg a chanllawiau.<br>• Datblygu canllawiau rhanbarthol, cymorth ac adnoddau i ysgolion.<br>• Datblygu adnoddau a dulliau o weithredu dysgu o bell trwy sgiliau, a sicrhau ansawdd deunyddiau a ddatblygir.<br>• Sicrhau cysondeb o ran gwybodaeth genedlaethol a rhanbarthol.<br>• Sicrhau cyfathrebu effeithiol â holl aelodau'r tîm trwy gyfarfodydd Tîm Llawn wythnosol, cyfarfodydd tîm Lleol ac ati.<br>• Adolygiadau Rheoli Perfformiad<br>• Coladu gwybodaeth am ddysgu o bell ac ymgysylltu dysgwyr ag ysgolion. |

- Adnabod a rhannu arfer dda, yr angen am gymorth ac ymgysylltu disgyblion/rhieni ag ysgolion.
- Paratoi ar gyfer a mynychu cyfarfodydd rhanbarthol - y Bwrdd Rheoli a'r Cyd-bwyllgor.
- Adolygu cynlluniau busnes, adroddiadau blynyddol.
- Cydlynu ymateb rhanbarthol ac ymateb lleol i ymgynghori cenedlaethol.
- Cysylltu â rhanddeiliaid allweddol, er enghraifft ymweliadau ACALl Estyn, Colegau Addysg Bellach, SauAU ac ati.

**Cefnogi Dysgu Proffesiynol**

Mae staff GwE hefyd wedi datblygu'r canlynol ar gyfer ysgolion, neu maen nhw wrthi'n eu datblygu:

- Catalog cynhwysfawr o Ddysgu Proffesiynol i Gymorthyddion Dysgu. Sefydlwyd Google Classroom i gymorthyddion dysgu yn benodol. Eisoes, mae mwy o ymgeiswyr na sydd o le, ac mae dros 1,500 o aelodau.
- Canllawiau a gweithgareddau codi ymwybyddiaeth o Cwricwlwm i Gymru i athrawon
- Gweminarau ar Reoli Newid yn benodol i Benaethiaid, gan roi sylw i ddatblygu gweledigaeth ysgol, creu amser a gofod ar gyfer Dysgu Proffesiynol, Cynllunio ar gyfer Newid Cwricwlwm ac Arwain Addysgeg. Bydd y rhain yn cynnwys peth rhyngweithio wyneb-yn-wyneb, trafodaethau grŵp a  darnau meddwl ar glipiau fidio at ddibenion myfyrio.
- Myfyrio ar addysgeg - o ran arferion presennol ac ar gyfer y cwricwlwm newydd.
- Cyfrannu at y strategaeth genedlaethol ar gyfer cefnogi ANG yn ystod y cyfnod hwn, ble bydd eu ffocws ar addysgeg ac ymchwil gan na allant fod ar lawr dosbarth.

Mae YCG wedi ymgymryd ag amryfal weithgareddau Datblygiad Proffesiynol er mwyn sicrhau'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth ddiweddaraf:

- Deall Dysgu o Bell effeithiol er mwyn darparu canllawiau a chreu modelau.
- Gwella'r sylfaen wybodaeth o ran dysgu ac addysgu effeithiol mewn llythrennedd, a hynny o waith ymchwil/gweithiau byd-eang.
- Defnyddio TGCh ar gyfer Dysgu o Bell.

**Parhad Dysgu Cenedlaethol**

- Strategaeth Parhad Dysgu Cenedlaethol - cyfraniad rhanbarthol i ffrydiau gwaith cenedlaethol LlC.
- Canllawiau a strategaeth ar gyfer dysgu o bell: datblygu strategaeth a chanllawiau cenedlaethol gyda rhanbarthau mewn  perthynas ag allbynnau Parhad Dysgu
- Datblygu canllawiau, cymorth ac adnoddau i athrawon, ysgolion a rhanddeiliaid.
- Darparu modelau ac adnoddau i ysgolion, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Ystyried dull lleol, i gynnwys modelau, cynllunio, asesu a monitro cynnydd.
- Sicrhau ansawdd deunyddiau a ddatblygir.
- Datblygu dysgu digidol.
- Mynychu cyfarfodydd gydag Estyn, LlC a'r Consortia eraill
- Cyfrannu i brosiectau parhaus, er enghraifft MATh, Ôl-16.
- Cefnogi gwaith dilynol Prosiect PISA Cymru 2020.
- Paratoi rhaglen CALU newydd.
- Darparu gwybodaeth i Lywodraeth Cymru i lywio'r Bil ar y Cwricwlwm newydd.

| **Arall** |
| --- |
| • Cefnogaeth i Athrawon sydd Newydd Gymhwyso a sicrhau eglurder o ran cwblhau'r flwyddyn sefydlu.<br>• Gweithio mewn partneriaeth gadarn gyda Phrifysgol Bangor er sicrhau bod y system benodi ar gyfer flwyddyn nesaf yn glir i fyfyrwyr HCA.<br>• Gweithio mewn partneriaeth gadarn gyda CaBan er sicrhau mwy o gyfleoedd ar gyfer gwaith ymchwil a chydnabod rhagoriaeth mewn ysgolion. |
| **DEILLIANNAU AC EFFAITH** |
| • Darparu cyfathrebu effeithiol drwy gyfrwng un pwynt cyswllt (YCG) ar gyfer arweinwyr ysgolion, a'u bod yn medru cael gafael ar gymorth yn rhwydd.<br>• Mae ysgolion wedi gallu aros ar agor i weithwyr allweddol os oes diffyg o ran staffio.<br>• Mae ysgolion yn wybodus ac yn hyderus bod cymorth ar gael os oes angen. Cefnogir lles arweinwyr ysgolion trwy gyfathrebu rheolaidd.<br>• Cyd-ddealltwriaeth o bwysigrwydd lles disgyblion, rhieni ac aelodau staff.<br>• Rhoddir canllawiau clir ar sut i flaenoriaethu a threfnu Dysgu o Bell.<br>• Mae gan ysgolion fynediad i doreth o adnoddau o safon uchel, adnoddau y gallant gyfeirio atyn nhw wrth baratoi ar gyfer a chyflwyno dysgu o bell.<br>• Modelau cynhwysfawr ar gael i ysgolion eu defnyddio, eu haddasu neu gyfeirio atyn nhw. Mae hyn, yn ei dro, wedi sicrhau arweinyddiaeth fwy cadarn a gwell cydbwysedd o ran gwaith y gellir ei gwblhau gartref.<br>• Dull cydlynol o gefnogi ysgolion, sydd wedi arwain at well cysondeb ac ansawdd o ran dysgu o bell yn y rhanbarth.<br>• Rhannu arferion gorau ar draws ysgolion, hynny yw, ymgysylltu â dysgwyr a theuluoedd amharod, llwyfannau digidol a systemau cyfathrebu, ac ati.<br>• Defnydd fwy cadarn o DGCh, i alluogi cyfathrebu effeithiol rhwng ysgolion, o fewn ysgolion a chyda rhanddeiliaid ysgolion.<br>• Uwchsgilio staff ysgolion drwy ddefnyddio llwyfan digidol ar gyfer datblygiad proffesiynol.<br>• Rhennir yr wybodaeth ddiweddaraf ag AauLl, a rhoddir cymorth amserol i unrhyw ysgol.<br>• Ar y cyd â'r ALl, sicrheir bod y broses o benodi ymgeiswyr arweinyddiaeth ysgol yn briodol a theg.<br>• Swyddogion GwE/ALl yn rhannu negeseuon cyson ag ysgolion.<br>• Cydweithredu fwy cadarn rhwng cymheiriaid ar lefel clwstwr trwy ddull digidol, sy'n sicrhau meddwl strategol ar y cyd.<br>• Cydweithredu fwy cadarn rhwng swyddogion awdurdod lleol a GwE.<br>• Dull rhanbarthol a lleol clir mewn lle ar gyfer addasu ysgolion at wahanol ddibenion.<br>• Rhannu negeseuon allweddol yn effeithiol â staff ysgolion er mwyn sicrhau cysondeb ac eglurder.<br>• Mwy o gydweithredu rhwng y rhanbarthau a rhanddeiliaid eraill.<br>• Gwell dealltwriaeth o negeseuon allweddol a ffrydiau gwaith.<br>• Arweinwyr ysgolion yn fwy ymwybodol o strategaethau effeithiol i sicrhau parhad busnes ysgol.<br>• Datblygu Dysgu Proffesiynol o ansawdd uchel, i fod yn barod am anghenion y dyfodol.<br>• Eglurder i Athrawon sydd Newydd Gymhwyso o ran cwblhau eu blwyddyn sefydlu.<br>• Gweithio mewn partneriaeth gadarn gyda Phrifysgol Bangor er sicrhau bod y system benodi ar gyfer flwyddyn nesaf yn glir i fyfyrwyr HCA.<br>• Gweithio mewn partneriaeth gadarn gyda CaBan er sicrhau mwy o gyfleoedd ar gyfer gwaith ymchwil a chydnabod rhagoriaeth mewn ysgolion. |

**Y camau nesaf**

Bydd gan ein Hymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant (YCG) rôl hanfodol yn ystod y misoedd nesaf:

- Parhau i gysylltu'n rheolaidd ag ysgolion i gefnogi lles Penaethiaid ac aelodau staff;
- Cefnogi ysgolion i ddatblygu modelau dysgu o bell a modelau dysgu cyfunol, gan gynnwys rhannu arferion effeithiol;
- Cefnogi ysgolion i sicrhau dysgu ac addysgu effeithiol mewn perthynas â'r modelau hyn;
- Cefnogi awdurdodau lleol ac ysgolion gyda pharatoi dysgwyr ar gyfer dychwelyd yn ôl i'r ysgol;
- Gweithio gydag awdurdodau lleol ac ysgolion i sicrhau bod gan bob ysgol gynllun cymorth cynhwysfawr i'w helpu i fynd i'r afael â'r heriau sylweddol sydd o'i blaen;
- Darparu, neu froceru, cymorth angenrheidiol, a hynny ar sail anghenion bob ysgol unigol;
- Cefnogi a hwyluso cyfarfodydd clwstwr a rhwydweithiau er mwyn sicrhau cymorth ysgol i ysgol effeithiol a gweithio ar y cyd;
- Cefnogi ysgolion i ddatblygu prosesau effeithiol a dogfennau strategol sy'n briodol i'r amgylchiadau presennol, sy'n esblygu o hyd;
- Darparu cefnogaeth a chyngor i lywodraethwyr;
- Cefnogi ysgolion gyda recriwtio a phenodi;
- Cefnogi ysgolion gyda dysgu proffesiynol, pan fo'n briodol ac amserol.
- Cefnogi ysgolion a chlystyrau gyda chanllawiau a chymorth ar y daith ddiwygio genedlaethol, pan fo'n briodol ac amserol.

Dyma fanylion gwaith y rhanbarth a rôl esblygol Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant (YCG) GwE.

**1. Cefnogi dysgu o bell a datblygu dull cyfunol sy'n cwmpasu dysgu o bell a dysgu wyneb-yn-wyneb**

Hyd yma, cyfran helaeth o waith yr YCG oedd cefnogi dysgu o bell effeithiol mewn ysgolion cyn ac yn sgil cyhoeddi Dogfen Ganllaw Llywodraeth Cymru ar Ddysgu o Bell effeithiol (manylion y gweithgareddau uchod).

Bydd angen i'r gwaith hwn barhau yn y tymor byr, ac wrth i drafodaethau ddatblygu ynghylch rhai dysgwyr yn dychwelyd yn raddol i ysgolion, bydd angen i YCG:

- Gefnogi ysgolion gyda dysgu cyfunol effeithiol, ble bydd rhai disgyblion yn cael eu cefnogi gartref ac eraill yn cael eu haddysgu yn yr ysgol.
- Sicrhau nad oes bwlch o ran darpariaeth deg wrth i rai disgyblion ddychwelyd i un ffurf ar addysg.
- Parhau i gefnogi iechyd a lles athrawon (fydd efallai yn addysgu sawl grŵp blwyddyn) pan fydd angen iddynt addysgu rhai dysgwyr yn yr ysgol a pharhau i gefnogi eraill gartref.
- Parhau i sicrhau iechyd a lles dysgwyr, fydd yn dychwelyd yn raddol i ddosbarth gwahanol iawn.
- Darparu Dysgu Proffesiynol pellach i athrawon a chymorthyddion dysgu ar sut orau i fodelu'r ddarpariaeth 'economi gymysg' hon.
- Wrth i'r cyfnod clo barhau i'r rhan fwyaf, cefnogi athrawon wrth bontio rhwng atgyfnerthu dysgu blaenorol ac addysgu agweddau newydd.
- Cefnogi ysgolion wrth symud i fonitro a rhoi adborth cadarnhaol ar waith a gyflwynir.

## 2. Cefnogi gydag addasu ysgolion at wahanol ddibenion

Mae trefniadau ymarferol agor ysgolion ymhellach yn gymhleth ac yn creu problemau niferus, agor nid yn unig i blant gweithwyr allweddol a phlant bregus ond hefyd i grwpiau blwyddyn penodol. Mae Bwrdd Rheoli GwE wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth gadarn ar draws y rhanbarth, er mwyn gweithredu dull cyson wrth ddatblygu fframwaith cefnogol i helpu ysgolion yn ystod y cam nesaf hwn o baratoi am y normal newydd, a gweithio o fewn y normal newydd hwnnw. Fel rhan o hyn, mae YCG GwE wedi cydweithio â chynrychiolwyr awdurdod lleol i lunio cynllun dychwelyd i'r ysgol cadarn, a fydd yn cefnogi pob ysgol yn y rhanbarth i sicrhau bod ganddi'r polisïau cywir mewn lle ac asesiad risg cynhwysfawr y gall ei deilwra at ddibenion yr ysgol. Bydd hyn yn cynnwys:

- Dogfen cyfrifoldebau allweddol, gyda phwyntiau gweithredu i'w hystyried.
- Polisïau generig y cytunwyd arnynt gydag AauLl, y gall ysgolion eu defnyddio a'u haddasu gyda'u Llywodraethwyr i ymateb i'r cymhlethdodau iechyd a diogelwch niferus yn sgil COVID-19.
- Asesiad risg generig manwl i ysgolion ei ddefnyddio a'i addasu yn eu lleoliadau eu hunain.
- Dangosfwrdd un stop a ddatblygwyd gan YCG GwE, a fydd yn cynnwys yr uchod yn ogystal â dolenni i wefannau pwysig a dogfennau allweddol.
- Rhoi sylw i agweddau pwysig ar ddiogelwch, safle ac adeiladau, dysgu ac addysgu, cefnogi staff, cefnogi disgyblion a thasgau rheolaethol allweddol eraill.
- Sicrhau sefydlu sianeli cyfathrebu clir, i gynnwys fforymau Penaethiaid ble gellir rhannu diweddariadau yn rheolaidd a chynnig modelau arfer dda o ran cyfathrebu â llywodraethwyr, dysgwyr a rhieni/gofalwyr.
- Gan weithio mewn partneriaeth efo'r tîm ehangach o gyd-weithwyr ALl, er enghraifft cynhwysiant, AD, cludiant, bydd GwE yn ystyried anghenion ymarferol, anghenion lles ac anghenion hyfforddiant staff ysgolion, gan sicrhau y cefnogir y rhain yn briodol, i gynnwys dysgu proffesiynol ble bo'n briodol.
- Fel rhan o'r elfen dysgu ac addysgu, bydd GwE yn gweithio mewn partneriaeth i ystyried anghenion dysgwyr a phrofiadau dysgu priodol ar eu cyfer pan fyddant yn dychwelyd i'r ysgol, yn benodol cefnogi iechyd a lles.
- Fel rhan o weithio yn y normal newydd, bydd tîm YCG GwE yn gweithio gydag ysgolion i sicrhau dysgu o bell, a sut y mae hyn yn cyfrannu i'r dysgu 'yn yr ysgol'. Fel rhan o hyn, bydd GwE yn parhau i weithio gyda phartneriaid ALl i fonitro a diweddaru asesiadau o ran risg a chapasiti, fel bo'r angen.
- Bydd YCG GwE a chynrychiolwyr ALl hefyd yn gweithio'n agos gydag ysgolion wrth iddynt geisio addasu eu lleoliadau i fod mor ddiogel ag y bo modd ar gyfer eu dysgwyr.

## 3. Cefnogi Dysgu Proffesiynol (DP)

Dysgu o bell effeithiol fu ffocws y cymorth DP yn ystod y ddau fis diwethaf. Mae pob ysgol wedi bod ar daith i ddod o hyd i'r model dysgu o bell sy'n gweithio orau iddyn nhw, eu clwstwr a'u dysgwyr. Afraid yw dweud y bydd cymorth parhaus o du GwE ar gyfer dysgu o bell effeithiol wrth i ni symud at ddychwelyd yn raddol i ysgolion. Cydnabyddir hefyd y bydd ar rai athrawon a chymorthyddion dysgu angen DP pellach yn y dyfodol. Mae'r ffocws presennol ar y meysydd a ganlyn:

- Rhannu modelau cenedlaethol a rhyngwladol ar sut orau i ddatblygu dysgu o bell effeithiol.
- Darparu modelau dysgu o bell a dysgu cyfunol effeithiol i ysgolion eu defnyddio a'u haddasu fel y gwelont orau.
- Darparu canllawiau a chyngor gydag pharatoi disgyblion at ddychwelyd i ysgolion.
- Myfyrio ar addysgeg - o ran arferion presennol ac ar gyfer y cwricwlwm newydd.
- Darparu dysgu proffesiynol i Gymorthyddion Dysgu.

- Cyfrannu at y strategaeth genedlaethol ar gyfer cefnogi ANG yn ystod y cyfnod hwn, ble bydd eu ffocws ar addysgeg ac ymchwil gan na allant fod ar lawr dosbarth.
- Canllawiau a gweithgareddau codi ymwybyddiaeth o Cwricwlwm i Gymru i athrawon.
- Datblygu a chyflwyno gweminarau ar Reoli Newid i Benaethiaid yn benodol, gan roi sylw i ddatblygu gweledigaeth ysgol, creu amser a gofod ar gyfer Dysgu Proffesiynol, Cynllunio ar gyfer Newid Cwricwlwm ac Arwain Addysgeg. Bydd y rhain yn cynnwys peth rhyngweithio wyneb-yn-wyneb, trafodaethau grŵp a darnau meddwl ar glipiau fidio at ddibenion myfyrio.

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**15 GORFFENNAF 2020**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad gan:** | **Alwyn Jones, Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE** |
| **Pwnc:** | **Dysgu Cyfunol** |

## 1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Cyflwyno gwybodaeth am y ddogfen arweiniol 'Datblygu dulliau integredig i gefnogi dysgu cyfunol ar gyfer agor ysgolion yn raddol' (Atodiad 1), i aelodau'r Cyd-Bwyllgor.

## 2.0 Cefndir

2.1 Ar y 3ydd o Fehefin, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (LlC) y bydd ysgolion yn cael eu hagor yn raddol o 29 Mehefin i roi cyfle i bob disgybl "ailgydio, dal i fyny a pharatoi." Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Canllawiau ar Ddysgu er mwyn rhoi cyngor i ysgolion a lleoliadau am weddill tymor yr haf hwn ac i gefnogi ymarferwyr wrth iddynt baratoi ar gyfer tymor yr hydref.

2.2 Mae'r canllawiau a ddarparwyd gan LlC yn rhoi hyblygrwydd sylweddol i ysgolion weithredu eu barn broffesiynol o ran sut y byddant yn cynllunio eu cynnig ar gyfer eu disgyblion. Nawr mae gan ysgolion fframwaith amlinellol ar gyfer cynllunio addysgu a dysgu am weddill tymor yr haf a thymor yr hydref 2020. Mae'r canllawiau yn cefnogi ysgolion wrth iddynt ail-werthuso dysgu ar gyfer y dyfodol rhagweladwy mewn ymateb i ystod o heriau.

2.3 Gan adeiladu ar y canllawiau dysgu a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, mae'r arweiniad hwn, dogfen a ddatblygwyd ar y cyd gan y Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol ac Estyn, yn nodi'r arfer gorau a'r dulliau dysgu cyfunol gorau i gefnogi ymarferwyr.

2.4 Dylai lleoliadau ac ysgolion adeiladu ar eu strategaethau dysgu o bell, a bydd angen iddynt gael mynediad at gefnogaeth gan gonsortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol wrth iddynt ddatblygu eu dulliau dysgu cyfunol.

**3.0 Materion i'w hystyried**

3.1 Bydd lleoliadau ac ysgolion ar wahanol gamau wrth ddatblygu eu cefnogaeth ar gyfer cyfuno dysgu yn yr ysgol a dysgu o bell a bydd eu dull yn amrywio yn ôl eu cyd-destun a'u gallu. Bydd pob lleoliad ac ysgol yn ymateb i'r gofynion ar sail ei asesiad risg, cynhwysedd y safle, argaeledd staff, nifer y dysgwyr a pha mor aml y gallant fynychu'r sefydliad yn ddiogel. Dylid seilio'r cynllunio ar ganllawiau sy'n seiliedig ar yr hyn sy'n gweithio orau mewn dysgu cyfunol.

3.2 Nid yw'r egwyddorion a'r cyngor sylfaenol yn ceisio disodli'r arfer effeithiol sy'n bodoli, ond gallant helpu i'w fireinio a'i ddatblygu ymhellach.

3.3 Mae'r ddogfen hon yn darparu awgrymiadau ymarferol i gefnogi ysgolion gyda'u dull integredig o ddysgu cyfunol ac mae'n rhoi sylw i'r meysydd canlynol:

- Cefnogi iechyd a lles
- Cefnogi ffitrwydd dysgu
- Dull dysgu cyfunol
- Trefnu'r dysgu
- Sefydlu trefn a phrotocolau
- Ymgysylltu â dysgwyr
- Cefnogi rhieni a gofalwyr
- Cefnogi tegwch i ddysgwyr cyfrwng Cymraeg
- Cefnogi'r dysgu trwy gydweithio
- Dysgu proffesiynol

**4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor nodi a derbyn cynnwys yr adroddiad.

**5.0 Goblygiadau ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

**6.0 Effaith o ran cydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran personél yn codi o'r adroddiad hwn.

**8.0 Ymgynghori a wnaed**

8.1 Ymgynghorwyd â Bwrdd Rheoli GwE a Fforymau Strategol Penaethiaid.

**9.0 Atodiadau**

9.1 Atodiad 1 – 'Datblygu dulliau integredig i gefnogi dysgu cyfunol ar gyfer agor ysgolion yn raddol'.

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**
Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Nodaf eto fod rhan 5 o'r adroddiad yn egluro "nad oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn". Yng nghyd-destun heriol Covid-19 a chyfyngiadau, rwy'n gwerthfawrogi fod GwE yn ychwanegu gwerth o fewn yr adnoddau presennol..

# Datblygu dulliau integredig i gefnogi dysgu cyfunol ar gyfer agor ysgolion yn raddol o dymor yr hydref 2020

*Mehefin 2020*



Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol
Regional School Improvement Consortia

Estyn

Consortiwm Canolbarth y De
Central South Consortium

EAS
Education Achievement Service for South East Wales
Gwasanaeth Cyflawni Addysg i Dde Ddwyrain Cymru

ERW

GwE

# Cyflwyniad

Ar y 3ydd o Fehefin cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (LlC) y bydd ysgolion yn cael eu hagor yn raddol o 29 Mehefin i roi cyfle i bob disgybl "ailgydio, dal i fyny a pharatoi." Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Canllawiau ar Ddysgu (https://llyw.cymru/diogelu-addysg-canllawiau-ar-ddysgu-dros-dymor-yr-haf) er mwyhn rhoi cyngor i ysgolion a lleoliadau am weddill tymor yr haf hwn ac i gefnogi ymarferwyr wrth iddynt baratoi ar gyfer tymor yr hydref.

Mae'r canllawiau a ddarparwyd gan LlC yn rhoi hyblygrwydd sylweddol i ysgolion weithredu eu barn broffesiynol o ran sut y byddant yn cynllunio eu cynnig ar gyfer eu disgyblion. Nawr mae gan ysgolion fframwaith amlinellol ar gyfer cynllunio addysgu a dysgu am weddill tymor yr haf a thymor yr hydref 2020.

Mae'r canllawiau yn cefnogi ysgolion wrth iddynt ail-werthuso dysgu ar gyfer y dyfodol rhagweladwy mewn ymateb i ystod o heriau:

- Cefnogi dysgwyr i ddychwelyd at 'ffitrwydd dysgu'.
- Datblygu dysgu sy'n caniatáu i ddysgwyr barhau i wneud cynnydd.
- Sicrhau bod dysgu yn yr ysgol a dysgu o bell wedi eu cydlynu ar gyfer dysgwyr.
- Datblygu dysgu priodol tra bod gofynion cwricwlwm presennol wedi eu datgymhwyso*.
- Defnyddio ethos, egwyddorion ac arweiniad y Cwricwlwm i Gymru newydd fel modd o gefnogi'r heriau presennol, yn hytrach na'i fod yn faich ychwanegol.
- Annog ymarferwyr i ddefnyddio a datblygu eu barn broffesiynol i roi'r budd gorau i ddysgwyr.

**Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau bod y Cwricwlwm Sylfaenol wedi ei ddatgymhwyso dros dro [dolen:https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-creu-hyblygrwydd-i-ysgolion-lleoliadau-datgymhwysor-cwricwlwm-sylfaenol]. I ddechrau, bydd yr hysbysiad hwn yn berthnasol am gyfnod o fis o 22 Mehefin hyd at 21 Gorffennaf. Bydd y Gweinidog Addysg yn adolygu hyn, yng ngoleuni'r cyngor iechyd cyhoeddus a'r trefniadau gweithredu ar gyfer ysgolion a lleoliadau, yn ystod gweddill tymor yr haf. Bydd Llywodraeth Cymru yn egluro'r disgwyliadau ar gyfer tymor yr hydref maes o law. Bydd Llywodraeth Cymru'n egluro'r disgwyliadau ar gyfer tymor yr hydref maes o law.*

## Agor ysgolion yn raddol

Effaith gyffredinol effaith arweiniad LlC yw ei gwneud yn ofynnol i ysgolion i gynllunio i ailagor mewn tri cham:

1. Tymor yr haf 2020

Bydd ysgolion yn ailagor o 29 Mehefin i roi cyfle i bob disgybl "ailgydio, dal i fyny a pharatoi." Mae'r sail ar gyfer cynllunio'n eglur a dylai ganolbwyntio ar:

- Gefnogi iechyd a lles dysgwyr a staff
- Dal i fyny gyda dysgwyr i sicrhau fod ganddynt 'ffitrwydd dysgu' a'u bod yn barod ar gyfer y cam nesaf. Bydd trosglwyddo esmwyth yn allweddol
- Sefydlu a phrofi trefniadau ar gyfer ailagor yn rhannol

- Magu hyder teuluoedd
- Paratoi ar gyfer tymor yr hydref, y trefniadau ailagor yn rhannol ac addysgu a dysgu

2. Tymor yr hydref 2020

- Dull dysgu cyfunol effeithiol fel rhan o'r normal newydd

3. Rywbryd yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf, gallai ysgolion ddychwelyd i fod yn gwbl agored i'r holl ddisgyblion.

## Nod

Gan adeiladu ar y canllawiau dysgu a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru [https://llyw.cymru/diogelu-addysg-canllawiau-ar-ddysgu-dros-dymor-yr-haf], mae'r arweiniad hwn yn nodi'r arfer gorau a'r dulliau dysgu cyfunol gorau i gefnogi ymarferwyr. Dylai lleoliadau ac ysgolion adeiladu ar eu strategaethau dysgu o bell, a bydd angen iddynt gael mynediad at gefnogaeth gan gonsortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol wrth iddynt ddatblygu eu dulliau dysgu cyfunol.

## Egwyddorion sylfaenol

Bydd lleoliadau ac ysgolion ar wahanol gamau wrth ddatblygu eu cefnogaeth ar gyfer cyfuno dysgu yn yr ysgol a dysgu o bell a bydd eu dull yn amrywio yn ôl eu cyd-destun a'u gallu. Bydd pob lleoliad ac ysgol yn ymateb i'r gofynion ar sail ei asesiad risg, cynhwysedd y safle, argaeledd staff, nifer y dysgwyr a pha mor aml y gallant fynychu'r sefydliad yn ddiogel. Dylid seilio'r cynllunio ar ganllawiau sy'n seiliedig ar yr hyn sy'n gweithio orau mewn dysgu cyfunol.

Nid yw'r egwyddorion a'r cyngor sylfaenol canlynol yn ceisio disodli'r arfer effeithiol sy'n bodoli, ond gallant helpu i'w fireinio a'i ddatblygu ymhellach:

- Hyrwyddo lles dysgwyr a staff i barhau'n flaenoriaeth allweddol
- Dylid canolbwyntio ar 'ffitrwydd dysgu'r' disgyblion a chefnogi eu cynnydd a'u camau nesaf nid lefel cyrhaeddiad neu weithgareddau dal i fyny.
- Dylid cynllunio pob profiad ar sail anghenion y dysgwyr yn hytrach na cheisio parhau â'r trefniadau arferol. Mae datgymhwyso'r Cwricwlwm Cenedlaethol wedi galluogi'r dull hwn.
- Bydd angen cynllunio a darparu'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr CA4 a CA5 o amgylch mewnbwn pwnc-benodol. Gallai'r trefniadau ar gyfer Blwyddyn 10 a Blwyddyn 13 fod yn wahanol i'r rhai ar gyfer disgyblion eraill yr ysgol er mwyn ymateb i'r heriau o'u paratoi nhw ar gyfer arholiadau 2020-2021. Nid yw'r cyngor allweddol gan Cymwysterau Cymru ar unrhyw newidiadau i ddyfarniadau TGAU a Safon Uwch er llywio'r cynllunio ar gyfer cyfres arholiadau haf 2021 wedi'i ddarparu hyd yma a bydd angen i ysgolion ymateb yn unol â hynny pan fydd hwn ar gael.
- Dylai'r cyfuniad o addysg yn yr ysgol a dysgu o bell gael ei yrru gan yr un cwricwlwm, h.y. mae angen i'r ddwy elfen gefnogi ei gilydd yn hytrach na gweithio ochr yn ochr.
- Dylid defnyddio dibenion ac egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru newydd i gefnogi dysgu. Mae'r hyblygrwydd presennol sydd ar gael i ysgolion wrth benderfynu ar eu blaenoriaethau dysgu ar gyfer carfannau o ddysgwyr yn gyfle go iawn i wneud hyn. Efallai bydd arweinwyr ysgolion ac athrawon yn dymuno ystyried Pedwar Diben y Cwricwlwm i Gymru newydd ac fe allai'r arweiniad '*Cynllunio eich Cwricwlwm*' fod yn fan cychwyn defnyddiol.

Cefnogi athrawon sy'n cydweithio o fewn timau ac adrannau i ystyried y cynnig cyfannol i ddysgwyr gan gynnwys y profiadau dysgu ehangach. Efallai y bydd cyfle i adeiladu ar y sgiliau newydd y mae staff

- wedi'u datblygu dros y ddeufis diwethaf, yn cynnwys gweithio'n fwy creadigol a datblygu sgiliau digidol.
- Y nod yw lefel uchel o degwch a chydraddoldeb mynediad ar draws yr ystod o grwpiau blwyddyn. Fodd bynnag, dylid ystyried y ffordd orau o flaenoriaethu cefnogi disgyblion nad ydynt wedi ymgysylltu'n rheolaidd hyd yma a'r dysgwyr hynny ag ADY, er mwyn sicrhau nad yw'r bwlch yn lledu. Dylai ysgolion hefyd gofio sut maen nhw'n cefnogi dysgwyr i drosglwyddo rhwng cyfnodau allweddol.
- Yn ôl disgresiwn y pennaeth a'r staff ysgol y penderfynir defnyddio 'ffrydio byw' fel rhan o'r ddarpariaeth gyfunol. Os bydd ysgol yn cynnwys ffrydio byw yn ei model dysgu cyfunol, dylid sicrhau bod y ddarpariaeth yn cydymffurfio â'r arweiniad cenedlaethol ac unrhyw ofynion lleol eraill.
- Dylai'r model dysgu o bell cyfredol esblygu i sicrhau bod cyswllt wyneb yn wyneb [ac unrhyw ffrydio byw, os yw'n briodol] yn atgyfnerthu ac yn cyfoethogi'r gwaith y mae dysgwyr yn ei gwblhau gartref, fel bod darpariaeth ddi-dor ar gael.
- Dylai lleoliadau ac ysgolion achub ar y cyfle i fyfyrio ar y dysgu o bell hyd yma, gan nodi'r hyn a weithiwyd yn dda, pa ddysgu sydd wedi digwydd a beth yw rôl rhieni / gofalwyr yn y dyfodol wrth gefnogi.
- Mae cyfathrebu â rhieni a gofalwyr yn hanfodol. Dylid cyfathrebu'n rheolaidd ac yn effeithiol â rhieni a llywodraethwyr er mwyn sicrhau bod disgwyliadau'n eglur i bartneriaid yr ysgol, ac yn benodol, bod y cwricwlwm wedi'i ddatgymhwyso.
- Dylai lleoliadau ac ysgolion fod yn sensitif mewn sefyllfaoedd lle mae rhieni / gofalwyr yn dewis peidio ag anfon eu plant yn ôl i'r ysgol, a dylid sicrhau bod y model dysgu cyfunol yn ystyried hyn.

Mae'r ddogfen hon yn darparu awgrymiadau ymarferol i gefnogi ysgolion gyda'u dull integredig o ddysgu cyfunol ac mae'n rhoi sylw i'r meysydd canlynol:

- Cefnogi iechyd a lles
- Cefnogi ffitrwydd dysgu
- Dull dysgu cyfunol
- Trefnu'r dysgu
- Sefydlu trefn a phrotocolau
- Ymgysylltu â dysgwyr
- Cefnogi rhieni a gofalwyr
- Cefnogi tegwch i ddysgwyr cyfrwng Cymraeg
- Cefnogi'r dysgu trwy gydweithio
- Dysgu proffesiynol

## Cefnogi iechyd a lles

Mae cefnogi iechyd a lles dysgwyr a staff yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol. Mae'n elfen allweddol sy'n galluogi dysgu a bydd profiadau'r cyfnod cloi, ymbellhau cymdeithasol, dychwelyd yn raddol a phrofedigaeth bosib wedi gosod heriau sylweddol. Mae dylunio darpariaeth i bawb gyda mynediad at gefnogaeth arbenigol yn hanfodol. Tu hwnt i gynllunio'n gyffredinol ar gyfer sut gellir cefnogi a gwreiddio lles mewn dysgu mae yna gyfle i ddarparu ymyriadau cynnar penodol ar gyfer dysgwyr sydd â phroblemau sy'n bodoli eisoes neu anghenion newydd, a chyfle i godi pryderon o ran

diogelu.
Wrth drosglwyddo'n ôl i'r ysgol bydd rhai grwpiau o ddysgwyr yn debygol o fod angen mwy o gefnogaeth nag eraill, fel y rhai sydd wedi treulio'r cyfnod cloi mewn amgylchiadau heriol neu sydd wedi'i chael hi'n anodd ymdopi. Mae lles meddyliol ac emosiynol yn ffocws allweddol. Bydd angen cyfleoedd ar ddysgwyr i siarad ag oedolyn dibynadwy, anogaeth i gyfleu eu teimladau a'r cyfle i dreulio amser gyda ffrindiau.

Bydd perthnasoedd a lles cymdeithasol yn gofyn am feithrin perthnasoedd cymheiriaid a'r perthnasoedd rhwng staff a dysgwyr. Bydd hyn yn helpu i ddatblygu ymdeimlad o gymuned a sicrhau bod dysgwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a bod rhywun yn gwrando. Bydd cyfleoedd i weithio ar y cyd yn werthfawr.

Mae lles corfforol yn gofyn am ystod o weithgareddau corfforol. Mae hyn yn rhan o'r angen i uchafu'r amser y mae dysgwyr yn ei dreulio yn yr awyr agored.

Mae lles yn ddull integredig o addysgu a dysgu. Nid yw'n cael ei ystyried yn faes ar wahân, ond yn hytrach mae'n cael ei ymgorffori'n rhan o brofiad ymarferol bob dydd, e.e., adeiladu perthnasoedd cadarnhaol rhwng plant a phlant, plant ac oedolion er mwyn mynd i'r afael â lles trwy ddysgu naturiol sy'n seiliedig ar ddysgu drwy chwarae / dysgu trwy brofiad.

Rhai meysydd i'w hystyried:

- Creu'r hinsawdd emosiynol – yr oedolion i greu'r hinsawdd emosiynol o fewn yr amgylchedd dysgu, drwy ddull cyson a chytunedig.
- Darparu digon o gyfleoedd i blant rannu eu profiadau ac i siarad a rhyngweithio'n ddiogel â'i gilydd wrth chwarae, mewn sesiynau dysgu ffurfiol ac amseroedd egwyl/amser cinio.
- Cydnabod bod profiadau'r disgyblion yn unigryw iddynt hwy.
- Blaenoriaethu perthnasoedd dibynadwy o ansawdd. Ffurfio perthnasoedd cadarnhaol, yn arbennig gyda disgyblion sy'n cael trafferth ffurfio bond emosiynol. Rhoi amser i'r cysylltiad emosiynol. Dylai oedolion fod yn bresennol ac ymateb gyda chysylltiadau syml, e.e. gwenu, nodio, cyswllt llygad, iaith y corff gadarnhaol ac ati.
- Bydd rhai disgyblion eisoes wedi datblygu geirfa emosiynol ac yn gallu rheoleiddio eu hemosiynau, ond ni fydd eraill. Bydd rhai wedi cael cymorth i ddatblygu gwytnwch emosiynol, ond bydd eraill efallai wedi amsugno negeseuon/meddyliau negyddol/straen. Addysgwch ddisgyblion i enwi'r emosiynau y maen nhw edi eu teimlo ac yn eu teimlo. Mae disgyblion sy'n gallu enwi a disgrifio eu hemosiynau'n dda yn llai tebygol o gael eu cynhyrfu, ar lafar neu'n gorfforol.
- Dylai ymarferwyr ymarfer gwrando gweithredol. Rhowch amser a chyfle i ddisgyblion fynegi ac archwilio eu hemosiynau, ar lafar ac yn ddi-eiriau.
- Gwneud amser i wrando a siarad â disgyblion wrth iddynt chwarae'n naturiol, fel rhan o'r dysgu ac fel rhan o arferion bob dydd, yn enwedig gyda dysgwyr iau.
- Rhoi digon o sicrwydd o safbwynt lles a dysgu gan ganmol gwytnwch ac ymdrech
- Darparu trefn a strwythur ar gyfer pob dysgwr yn enwedig y rhai ag anghenion penodol.
- Adolygu ac addasu'r polisi ymddygiad yn ôl yr angen.
- Efallai y bydd rhai ysgolion yn teimlo y gallai ystyried y Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles fod yn briodol fel egwyddor sylfaenol sy'n cydnabod bod iechyd a lles da yn bwysig er mwyn galluogi dysgu llwyddiannus

## Cefnogi ffitrwydd dysgu

Bydd angen i leoliadau ac ysgolion gefnogi dysgwyr wrth ddatblygu eu cymhelliant a'u parodrwydd i ddysgu. Mae tystiolaeth gychwynnol bod y cyfnod cloi wedi cynyddu'r bwlch anfantais.
Yn nhymor yr hydref pan fydd dysgwyr yn dychwelyd i'r ysgol yn yr hydref, mae angen cael ffocws eglur ar eu paratoi ar gyfer y camau nesaf yn eu profiad addysgol. Dylid ystyried y canlynol:

- Cynllunio cyfleoedd asesu diddorol fydd yn galluogi athrawon i asesu sgiliau allweddol ac ymateb yn unol â hynny.
- Datblygu cwestiynu effeithiol er mwyn canfod gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion.
- Ail ymweld â phynciau allweddol fel sail ar gyfer cynnydd ac i ailadeiladu hyder a hunan barch dysgwyr.
- Canolbwyntio ar adborth llafar a deialog er mwyn rhoi sicrwydd ac arwain disgyblion. Bydd rhoi adborth llafar yn aml, yn arbennig o effeithiol wrth adeiladu hyder disgyblion a meithrin agweddau cadarnhaol at ddysgu.
- Addasu'r ddarpariaeth i ddiwallu anghenion y dysgwyr.
- Nodi a darparu unrhyw gefnogaeth ddi-oed ar gyfer llythrennedd, rhifedd a sgiliau digidol.
- Atgyfnerthu gwybodaeth disgyblion mewn perthynas â sut i gadw'n ddiogel ar-lein, yn cynnwys ymddygiad priodol ar-lein a chyfathrebu â staff a chymheiriaid.

## Dull dysgu cyfunol

Bydd angen i ysgolion ystyried sut i esblygu eu modelau dysgu o bell presennol i gynnwys cyswllt wyneb yn wyneb yn yr ysgol lle bo hynny'n briodol, ffrydio byw a recordio gwersi. Byddwn yn cyfeirio at y dull hwn fel 'Dysgu Cyfunol'. Mae mabwysiadu dull un cwricwlwm di-dor yn hanfodol, lle gall ymarferwyr ddatblygu dull mwy integredig o ddysgu a lle gall dysgwyr adeiladu cysylltiadau ar draws eu dysgu'n unol ag egwyddorion Cwricwlwm i Gymru.
Dylai ysgolion ddefnyddio agweddau o arweiniad y cwricwlwm newydd i'w cefnogi wrth ddatblygu eu dulliau dysgu cyfunol.

Gallent ystyried:

- Defnyddio'r 4 diben fel sail i'w cefnogi i gynllunio eu gweithgareddau dysgu .
- Wrth i athrawon ddod yn fwy cyfforddus wrth ddatblygu dysgu cyfunol, anogwch nhw i gynllunio'n greadigol ac i arbrofi â chynllunio dysgu cyfunol a'u cwricwlwm eu hunain.
- Defnyddio iaith bwysig o'r arweiniad cwricwlwm gyda staff, er enghraifft, cynnydd, disgrifiadau o'r dysgu.

Mae egwyddorion addysgu a dysgu da dal yn berthnasol. Fodd bynnag, yn y dasg ymarferol o gynllunio dysgu cyfunol mae sawl ffactor i athrawon ei hystyried. Mae hefyd yn werth ystyried y bydd rhai disgyblion yn elwa'n sylweddol ar fwy o gefnogaeth wyneb yn wyneb, megis disgyblion difreintiedig neu ddisgyblion nad ydynt wedi bod yn ymgysylltu'n dda â dysgu o bell.

Dylai lleoliadau ac ysgolion ystyried y '12 Egwyddor Addysgegol' sy'n sail i'r cwricwlwm newydd. Efallai y byddent hefyd am ystyried y canlynol, yn enwedig ar gyfer y cyfnod sylfaen hyd at gyfnod allweddol

3:

- Cynllunio ar gyfer rhoi cymaint o gyfle â phosib i ddisgyblion ryngweithio / cymdeithasu'n ddiogel tra eu bod yn yr ysgol e.e. adolygu dysgu, trafodaeth partner siarad o bell, adborth llafar - dosbarth a chyfoedion.
- Gosod heriau diddorol a phleserus.
- Darparu cyfleoedd dysgu awyr agored rheolaidd er mwyn datblygu ystod o sgiliau e.e. llythrennedd, rhifedd, creadigol, corfforol, personol a chymdeithasol/lles.
- Darparu pecynnau dysgu ar gyfer disgyblion unigol yn seiliedig ar eu hanghenion dysgu a'u hanghenion datblygiadol, - e.e. adnoddau aml-ddefnydd, deunyddiau crefft a deunyddiau hydrin, llyfr ymarfer, offer ysgrifennu / chromebooks. Hefyd, byrddau gwyn personol a phin ffelt er mwyn rhannu syniadau, ymarfer sgiliau, dangos a rhannu eu hatebion gyda'r athro/athrawes neu'r cymhorthydd (i ddibenion asesu ffurfiannol) Yr athro neu'r cymhorthydd i fynd i'r afael ag unrhyw gamsyniadau.
- Cynllunio cyfleoedd ymarferol i blant ymarfer ac atgyfnerthu'r sgiliau hynny a addysgwyd yn yr ysgol fel rhan o elfen 'gartref' dysgu cyfunol. Bydd hyn yn sicrhau, dros amser, y bydd plant wedi cael cyfleoedd dysgu uniongyrchol ac annibynnol trwy brofiadau ymarferol sy'n seiliedig ar chwarae/bywyd go iawn. Ystyriwch weithgareddau y gellir eu cwblhau gydag adnoddau sydd i'w cael yn y rhan fwyaf o gartrefi.
- Defnyddio waliau ystafell ddosbarth i hwyluso / rhannu dysgu a hyrwyddo lles e.e. lluniau o ddisgyblion wrth eu gwaith neu'n chwarae, negeseuon gan ffrindiau i'w gilydd, datblygu wal weithio i ddisgyblion gyfeirio ati wrth weithio ar ddarn o ysgrifennu, neu waith mathemateg neu rifedd. Mae angen i bob disgybl allu eu gweld yn glir o'u seddi.
- Darparu digon o gyfleoedd i weithgareddau hyrwyddo lles a rhoi sylw i anghenion disgyblion fel bo'n briodol.
- Darparu ffyrdd effeithiol o gychwyn gwersi er mwyn sicrhau ymgysylltiad, adolygu gwybodaeth flaenorol. Sicrhau cwestiynu effeithiol er mwyn cael cymaint â phosib o adborth disgybl i athro/athrawes.
- Trafod modelau o waith/ modelu sgil fel dosbarth er mwyn cynhyrchu Meini Prawf Llwyddiant a thrafod 'Beth Sy'n Gwneud un Da' wrth baratoi ar gyfer cyflawni tasgau. Bydd hyn yn sail ar gyfer asesu cymheiriaid a hunan asesu.
- Ail ymweld â dysgu blaenorol, adolygu ac ail-addysgu - darparwch amser a chefnogaeth ar gyfer hyn yn unol ag anghenion y disgybl.
- Darparu cyfleoedd adalw ac ymarfer yn rheolaidd i atgyfnerthu dysgu blaenorol ac i ddyfnhau dysgu newydd.
- Addysgu unrhyw ddysgu newydd mewn camau bach, gan ymatal rhag cyflwyno gormod o gynnwys ar unwaith.
- Modelu adborth / hunanasesiad / asesiad cymheiriaid effeithiol gan ddarparu sgaffaldiau lle bo angen atgoffa disgyblion.
- Darparu cyfleoedd ar gyfer ymarfer annibynnol a chymhwyso'r sgiliau a ddysgwyd - yn y dosbarth ac yn y cartref
- Ystyried y cyfleoedd a'r heriau ar gyfer grwpiau penodol o ddysgwyr.

Dylid defnyddio'r amser yn yr ysgol i gefnogi'r gweithgareddau y gall dysgwyr eu cwblhau gartref yn eu pwysau. Mae'r rhain yn cynnwys ymchwiliadau dan arweiniad a chyfleoedd estynedig i gymhwyso sgiliau,

gwybodaeth a chysyniadau newydd. Mewn dull dysgu ‘gwrthdro’, gallai’r cynllunio gynnwys cyfleoedd i’r dysgwyr ymchwilio, paratoi a meddwl cyn defnyddio amser cyswllt ag athrawon yn yr ysgol i archwilio ac atgyfnerthu.

Bydd dysgu cyfunol yn cynnwys ystod o ddulliau y gellir eu categoreiddio fel hyn:

1. Amser wyneb yn wyneb â dysgwyr
2. Dysgu ar-lein
- Gweithgareddau wedi eu cyflwyno ar-lein, e.e., trwy HWB
- Gwersi wedi eu recordio
- ‘Dysgu gwrthdro’ (disgyblion yn gweithio ar dasgau gartref cyn trafod yn y dosbarth)
- Ffrydio byw

1. Defnyddio gwerslyfrau ac adnoddau eraill i weithio gartref.

O fewn model dysgu cyfunol, defnyddir amser wyneb yn wyneb yn y dosbarth orau i wneud y canlynol:

- Uchafu’r defnydd o amser addysgu uniongyrchol;
- Cyflwyno syniadau a sgiliau newydd yn cynnwys sgiliau dysgu annibynnol.
- Arwain dysgwyr trwy gynnwys a sgiliau newydd gan gysylltu â dysgu blaenorol lle bo hynny’n bosib.
- Asesu a pharhau i sicrhau cynnydd disgyblion o ran sgiliau a gwybodaeth.
- Darparu adborth ar y pryd, yn enwedig adborth llafar, er mwyn mynd i’r afael â chamsyniadau cychwynnol.
- Defnyddio ystod o fodelau er mwyn dangos y gyrchfan ddysgu.
- Arwain ac addysgu’r llwybr newydd drwy’r dysgu, yn agos.
- O fewn canllawiau ymbellhau cymdeithasol, galluogi disgyblion i ymgysylltu â’i gilydd – cydweithio ar dasgau, trafod a chynllunio dysgu, gweld gwaith ei gilydd.
- Gwella ymgysylltiad a sicrhau y caiff tasgau eu cwblhau trwy ddathlu a gwobrwyo yn ogystal â sancsiynau.
- Cynnal perthnasoedd cadarnhaol gydag athrawon a staff.

Er mwyn hwyluso’r agwedd ‘ar-lein’ o Ddysgu Cyfunol, sicrhewch fod gan ddysgwyr fynediad at eu llwyfan dysgu ar-lein (Hwb) a bod ganddynt ddealltweriaeth glir o’r canlynol:

  - Sut i gyrchu deunyddiau a ddarparwyd gan yr athro/awes
  - Sut i ddefnyddio’r offer ar-lein mwyaf priodol i gwblhau unrhyw dasg a osodwyd, yn cynnwys darparu tystiolaeth o waith a gwblhawyd heb ddyfais e.e. llun neu fideo o weithgareddau corfforol ac ymarferol, lle bo’n briodol.
  - Sut i gyflwyno unrhyw ddeunudd digidol i’r athro/awes.
  - Sut i gyrchu ac ymateb i unrhyw adborth a ddarparwyd gan yr athro/awes

Bydd angen i leoliadau ac ysgolion ystyried a ellir defnyddio ffrydio byw law yn llaw â chyswllt wyneb yn wyneb i atgyfnerthu a chyfoethogi’r gwaith y mae dysgwyr y ei gwblhau gartref. Rhaid i leoliadau ac ysgolion gydymffurfio ag arweiniad LlC ‘*Ffrydio byw – arferion ac egwyddorion diogelu ar gyfer ymarferwyr addysg’*.

https://hwb.gov.wales/parthau/diogelwch-ar-lein/ffrydio-byw-arferion-ac-egwyddorion-diogelu-i-ymarferwyr-addysg

O fewn model dysgu cyfunol, defnyddir ffrydio byw orau i wneud y canlynol:

- Cefnogi ymgysylltiad a lles dysgwyr.
- Caniatáu mynediad at arweiniad a chefnogaeth athrawon ar agweddau penodol neu feysydd tasgau penodol.
- Caniatáu mynediad at wersi pwnc-benodol, yn enwedig yn CA4 a CA5.
- Rhoi adborth di-oed a rhyngweithiol ac asesu ar gyfer dysgu.

Efallai y bydd ysgolion eisiau ystyried sut gellid defnyddio ffrydio byw i rannu gwers â'r rhai sy'n mynychu 'wyneb yn wyneb' yn y dosbarth a'r rhai sy'n astudio gartref. Efallai y bydd ysgolion hefyd am ystyried sut i wneud y defnydd gorau o'r dechnoleg ar gyfer defnyddio adnoddau addysgu a recordiwyd.

Dylai lleoliadau ac ysgolion gadw pethau'n syml o ran y tasgau, yr asesiadau a'r adborth a rennir â dysgwyr. Mae'n bwysig cydbwyso'r angen i sicrhau parhad eu haddysg gyda'u hiechyd a'u lles.

O fewn model dysgu cyfunol, dylai asesu ac adborth effeithiol:

- Ganolbwyntio ar yr elfen ffurfiannol fel y caiff dysgwyr eu cefnogi i symud ymlaen mewn cyd-destun anghyfarwydd;
- Canolbwyntio ar helpu i nodi camau nesaf a magu hyder er mwyn eu galluogi i fod yn barod i ddysgu ac i wneud cynnydd yn eu dysgu;
- Beidio â bod ynghylch profi dysgwyr ar y cam hwn. Nid yw'n briodol yn y cyfnod hwn i ysgolion ddefnyddio asesu crynodol ar gyfer tracio cynnydd disgyblion unigol yn erbyn targedau.

Diben adborth yng nghyd-destun dysgu cyfunol:

- Cadw cysylltiad yn ystod elfen 'gartref' dysgu cyfunol a chynnal positifrwydd;
- Cydnabod a gwerthfawrogi ymdrechion dysgwyr, dathlu eu gwaith a chynnig anogaeth;
- Cefnogi'r dysgwyr i sicrhau eu bod wedi deall y tasgau ac ymateb i unrhyw gamsyniadau neu gamddealltwriaeth sydd ganddynt;
- Rhoi cymaint o wybodaeth âg sy'n bosib i'r athro/awes am wybodaeth a dealltwriaeth gyfredol y dysgwyr a'r ffyrdd y gellir eu cefnogi yng nghamau nesaf eu dysgu; a
- Helpu rhieni i gefnogi dysgu eu plant.

Natur yr adborth a roddir:

- Cyflwyno ac egluro'r tasgau a osodwyd ar gyfer y diwrnod neu'r wythnos gan roi disgwyliadau clir;
- Barn broffesiynol yr athro/awes yn dilyn ei arfarniad o anghenion dysgu'r disgyblion a natur y gweithgaredd dan sylw fydd yn llywio sut y caiff unrhyw adborth, yn cynnwys marcio, ei gyflwyno;
- Cyfathrebu'n glir, syml a chryno wrth gyflwyno adborth llafar neu ysgrifenedig i unigolyn neu grŵp;
- Cywiro camsyniadau a chamddealltwriaeth cyffredin; a

Rhoi cyfleoedd i ddysgwyr gadw mewn cysylltiad a chyfathrebu â'u cymheiriaid, ac i weld a dathlu gwaith ei gilydd fel eu bod yn dysgu gan ei gilydd.

## Trefnu'r dysgu

Wrth benderfynu ar drefniadaeth a chynnwys y dysgu ar gyfer tymor yr hydref mae ffactorau allweddol i'w hystyried:

- Cynhwysedd y safle – ystafelloedd bwyta, ardaloedd bwyta ac ati – yng ngoleuni arweiniad Llywodraeth Cymru ar ymbellhau cymdeithasol. Gall ysgolion dderbyn hyd at draean y disgyblion ar unrhyw ddiwrnod penodol o dan yr arweiniad ymbellhau cymdeithasol cyfredol. Fodd bynnag, gall hyn newid dros y misoedd nesaf a dylai ysgolion fod yn barod i addasu'n unol â hynny.
- Argaeledd staff. Mae angen i ysgolion fod yn glir ynglŷn â hyn tra hefyd yn ystyried materion Adnoddau Dynol allweddol, ee., gofal plant ac ati.
- Nifer y disgyblion yn yr ysgol. Bydd hyn yn dibynnu ar y canllawiau ymbellhau cymdeithasol a fydd yn weithredol yn nhymor yr hydref ac i raddau ar gysgodi a thrafnidiaeth. Ffactor allweddol arall fydd cefnogaeth rhieni. Felly hefyd presenoldeb disgyblion bregus a phlant gweithwyr allweddol.

Wrth benderfynu ar y cwricwlwm gaiff ei gynnig ac wrth adolygu amserlenni disgyblion a staff unigol, mae angen gwneud penderfyniadau eraill yn seiliedig ar yr arweiniad presennol sydd ar gael mewn perthynas â diogelwch staff a dysgwyr:

- A fydd disgyblion yn dychwelyd mewn grwpiau blwyddyn? Fe allai grwpiau o ddysgwyr gael yr amser hwn fel un bloc ond bydd dysgu cyfunol yn gweithio'n well gyda chyswllt wythnosol rheolaidd. Fe allai dysgwyr ddod i mewn am ddau hanner diwrnod yn hytrach nag un diwrnod llawn, ond efallai na fydd hyn yn gweithio cystal lle mae cludiant yn broblem
- Penderfynu ar y diwrnod ysgol – dechrau a gorffen ar wahanol amseroedd, amser egwyl a chinio?
- Ym mha rannau o'r ysgol y bydd y disgyblion wedi'u lleoli? Bydd hylendid, glanhau a thoiledau yn ffactorau yma.
- Sut gaiff dysgwyr eu grwpio? Ar hyn o bryd mae gofynion ymbellhau cymdeithasol yn awgrymu swigod yn seiliedig ar un dosbarth gydag athrawon yn symud. Defnyddio gofod mawr y tu mewn a'r tu allan?
- Beth fydd disgyblion yn ei ddysgu? Mae'r canllawiau'n glir y dylid canolbwyntio ar les ond yn amlwg bydd angen datblygu sgiliau dysgu annibynnol a'r gwytnwch sy'n angenrheidiol ar gyfer cefnogi dysgu o bell. Bydd cyfleoedd i ddefnyddio a datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd yn werthfawr.
- Cydbwysedd ymrwymiadau dysgu yn yr ysgol a dysgu o bell o ran llwyth gwaith athrawon. Mae'n werth pwysleisio dulliau addysgu tîm a chynllunio ar y cyd. Gan adeiladu ar y thema hon o gydweithio, mae cyfle i dimau o fewn ac ar draws ysgolion ddatblygu hyder mewn dulliau creadigol wrth gynllunio profiadau dysgu yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru newydd.
- Penderfynu sut i ddyrannu staff cefnogol.
- Cytuno ar y trefniadau gyda'r All, er mwyn gallu trafod opsiynau os oes prinder lle.

## Sefydlu trefn a phrotocolau.

Bydd angen i leoliadau ac ysgolion sefydlu trefn a phrotocolau eglur:

- Mae cyfathrebu â rhieni/gofalwyr yn hanfodol. Bydd angen i ysgolion gyfathrebu eu dulliau mabwysiedig o ran dysgu cyfunol yn glir.

- Er mwyn sicrhau dull cyson, sicrhewch fod gan staff amser i drafod arweiniad a threfn newydd yn cynnwys rhyngweithio â disgyblion cyn i'r dysgwyr ddychwelyd i'r ysgol
- Sefydlwch / ailsefydlwch y berthynas dysgwr/athro/awes yn enwedig os caiff y dosbarth ei addysgu gan athro/awes gwahanol.
- Crëwch ethos tawel yn yr ysgol o ran yr amgylchedd ac o ran y rhyngweithio rhwng pawb.
- Treuliwch amser yn cyflwyno ac adolygu mesurau diogelwch (mewn modd ymarferol gyda dysgwyr iau) - rheolau, trefn a therfynau, gan sicrhau bod dysgwyr yn teimlo'n ddiogel a chyfforddus. Dylid gwneud hyn yn rheolaidd. Bydd llawer yn ymwybodol o bwysigrwydd golchi dwylo ond efallai bydd angen ail-addysgu'r drefn sawl gwaith er mwyn sicrhau diogelwch pawb.
- Cyfathrebwch reolau'n gadarnhaol a chlir gan wirio bod pawb wedi deall.
- Ystyriwch sut i ddefnyddio cymorthyddion dysgu orau.

## Ymgysylltu â dysgwyr

Bydd angen i leoliadau ac ysgolion fyfyrio ar eu dulliau o ymgysylltu a dysgwyr yn ystod y cyfnod pan fydd ysgolion yn agor yn raddol a gwerthuso ei effaith a nodi camau ar gyfer mynd i'r afael â'r hyn sy'n rhwystro ymgysylltu effeithiol o fewn eu dull a'u strategaeth dysgu cyfunol.

Dylai'r ffocws parhaus fod ar:

- Adnabod dysgwyr – pa ddysgwyr / grwpiau o ddysgwr sydd heb ymgysylltu â dysgu o bell? Beth yw'r prif rwystrau?
- Atebolrwydd ac arweinyddiaeth – A oes dull ysgol gyfan ar gyfer cadw cysylltiad â dysgwyr? A oes cyswllt rheolaidd â rhieni / teuluoedd? O oes arweiniad clir i staff?
- A oes adnoddau digonol ar gyfer targedu ymgysylltiad dysgwyr?
- A oes systemau effeithiol o fonitro a gwerthuso effaith lefel ymgysylltiad?
- Beth sy'n gweithio'n dda gyda'r dysgwyr sy'n ymgysylltu a sut gellir addasu hyn ar gyfer y dysgwyr nad ydynt yn ymgysylltu?
- Ydy'r ysgol yn gweithio gyda staff yr ALl ar gynnig dull aml haen o gysylltu â dysgwyr nad ydynt yn ymgysylltu?

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod cyfleoedd ar gyfer cyswllt rheolaidd â dysgwyr a'u teuluoedd, trafodaethau rheolaidd rhwng staff addysgu ynghylch ymgysylltiad dysgwyr ac arweiniad clir ar ddisgwyliadau gan athrawon gan arweinwyr yr ysgol wedi cael effaith gadarnhaol ar ymgysylltiad y dysgwyr a'u teuluoedd.

## Cefnogi rhieni a gofalwyr

Wrth i ni symud tuag at ddull dysgu cyfunol mae angen deialog newydd gyda rhieni/gofalwyr i roi sicrwydd ac i reoli disgwyliadau. Bydd angen i ysgolion sicrhau bod gan rieni/gofalwyr ddealltwriaeth o'r rhesymeg y tu ôl i'r dulliau a beth yw rôl rhieni gofalwyr wrth gefnogi dull cyfunol o ddysgu.

Bydd angen i leoliadau ac ysgolion ystyried y canlynol:

- Mae cyfathrebu â rhieni/gofalwyr yn hanfodol er mwyn rhoi sicrwydd, e.e., dangos newidiadau i'r dosbarthiadau drwy luniau neu fideo, canllaw ar y disgwyliadau ar ddisgyblion pan fyddant yn yr ysgol.

- Pan fydd dysgwyr yn cwblhau gwaith gartref, mae'n hanfodol bod ysgolion yn parhau i atgyfnerthu'r neges nad oes disgwyl i rieni/gofalwyr fod yn athrawon ar eu plant.
- Rhoi arweiniad i rieni/gofalwyr ar gefnogi dysgu eu plant e.e., awgrymu strwythur posib ar gyfer y diwrnod a'r wythnos sy'n cynnig hyblygrwydd i deuluoedd.
- Sicrhau bod rhieni/gofalwyr yn ymwybodol o'u pwynt cyswllt yn yr ysgol ar gyfer lles, materion pwnc-benodol, ADY, materion digidol ac ati.
- Ymarferwyr i fodelu'r dysgu a rhannu arweiniad clir gam wrth gam â rhieni/gofalwyr, er mwyn sicrhau datblygiad sgiliau a chynnydd yn y dysgu, e.e., trwy ddefnyddio recordiadau fideo, esboniadau wedi'u trosleisio, ffrydio byw, cyfeirio rhieni/gofalwyr at y gefnogaeth sydd ar gael ar Hwb.
- Pan fydd ysgolion yn cynnig cyswllt a chyfleoedd dysgu trwy ffrydio byw, bydd angen i ysgolion rannu disgwyliadau a phrotocolau â rhieni/gofalwyr. Mae'n arfer da sicrhau bod cytundeb cartref-ysgol wedi'i arwyddo gan ddysgwyr, rhieni/gofalwyr a'r ysgol.

## Cefnogi tegwch i ddysgwyr cyfrwng Cymraeg

Dylai ysgolion a lleoliadau sicrhau tegwch i bob dysgwr cyfrwng Cymraeg o ran y ddarpariaeth a gynigir trwy fodelau dysgu cyfunol, ac yn arbennig felly i'r rhai hynny o gefndiroedd di-Gymraeg.

Er yn ymwybodol o'r ffaith bod gan ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion dwyieithog brosesau effeithiol ac wedi'u hen sefydlu ar gyfer darparu cefnogaeth i rieni a gofalwyr di-Gymraeg dan amgylchiadau 'normal', efallai bydd angen cymorth ac arweiniad ychwanegol ar y teuluoedd hyn fel y gallant fod yn fwy cynhyrchiol wrth gefnogi eu plant o fewn model 'dysgu cyfunol'.

Dylai ysgolion a lleoliadau hefyd ystyried sut orau i uchafu cyswllt wyneb yn wyneb er mwyn atgyfnerthu a datblygu sgiliau iaith Gymraeg y dysgwyr hynny lle mai eu profiadau yn yr ysgol yw eu prif gyswllt â'r iaith. Dylent hefyd ystyried sut orau i gynllunio cyfleoedd ymarferol i ddysgwyr barhau i ddatblygu a defnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg o fewn elfen 'gartref' y model dysgu cyfunol.

Ar gyfer ysgolion â rhaglenni trochi iaith penodol, bydd angen i arweinwyr ysgolion ystyried ymhellach sut orau i gefnogi'r dysgwyr hyn.

Mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg lle nad yw'r rhieni/gofalwyr yn siarad Cymraeg, dylai ysgolion wneud y canlynol:

- Blaenoriaethu datblygiad sgiliau gwrando a siarad y disgyblion
- Canolbwyntio ar ddatblygu geirfa bwysig a darparu termau allweddol yn ysgrifenedig er mwyn cefnogi dysgu anghydamserol
- Trochi disgyblion yn y Gymraeg ar bob cyfle
- Darparu arweiniad a chefnogaeth eglur i rieni/gofalwyr
- Cyfeirio at adnoddau defnyddiol ar gyfer datblygu Cymraeg gartref ar lefel sy'n briodol i'r dysgwr.
- Cyflwyno gweithgareddau Cymraeg yn y dosbarth sy'n canolbwyntio ar y sgiliau y gall teuluoedd eu hatgyfnerthu a'u trafod gartref.

- Creu cyd-destunau ar gyfer dysgu lle gall y dysgwyr gymhwyso ac ehangu eu defnydd/dealltwriaeth o sgiliau a gwybodaeth sy'n bodoli eisoes mewn cyd-destunau/gweithgareddau ystyrlon gartref trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Gallai ysgolion roi pwyslais ar gyflwyno ac atgyfnerthu deialog a geirfa. Gallai fod cysylltiad clir rhwng dysgu yn y dosbarth a dysgu gartref. Er enghraifft, gall athrawon atgyfnerthu brawddeg benodol trwy sesiwn ddysgu benodol, ar wahân. Yna gallai disgyblion weithio mewn parau i actio'r patrymau brawddeg hynny (gan barchu gofynion ymbellhau cymdeithasol). Yna, gallai'r disgyblion ymarfer y ddeialog gartref gyda'r teulu.
- Er mwyn hwyluso cymryd rhan yn y gweithgareddau siarad a gwrando gartref, gallai staff ystyried anfon taflenni atgoffa a chyfieithiadau, neu ddarparu mynediad at glipiau fideo sy'n modelu'r ynganiad cywir.
- Defnyddio e-lyfrau ac e-gylchgronau, trwy ddarparu cyflwyniadau digidol sy'n seiliedig ar lyfr dosbarth er enghraifft.
- Darparu dulliau diogel ar gyfer cyswllt go iawn rhwng disgyblion ac eraill, er enghraifft, trwy fideo digidol neu trwy ysgrifennu llythyrau.

## Cefnogi dysgu trwy gydweithio

Yn ystod y cyfnod hwn, ni ellir tanbrisio pwysigrwydd cydweithredu a chydweithio. Mae cydweithio wedi digwydd mewn sawl gwahanol ffordd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Ffurfio 'ysgolion Hwb' yn ystod y cyfnod cychwynnol y cloi
- Cyfarfodydd clwstwr ar gyfer arweinwyr ysgolion
- Cydweithio cymheiriaid
- Cyfleoedd Dysgu Proffesiynol

Gall cyfleoedd i gydweithio rhwng ysgolion a chymheiriaid arwain at nifer o agweddau cadarnhaol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Lles staff
- Cefnogaeth a rhannu arfer da
- Cysondeb dulliau
- Rhannu gwybodaeth a dealltwriaeth gyffredin
- Dysgu Proffesiynol

Mae cyfleoedd newydd i gydweithio trwy ffyrdd digidol wedi datblygu yn ystod cyfnod y pandemig, gydag ysgolion yn defnyddio dulliau rhithwir megis Skype, Microsoft Teams neu Zoom. Dyma fydd y dull cyfathrebu a chydweithio ar gyfer y dyfodol rhagweladwy. Mae'r cyfle i rannu sgrin, cymryd tro, recordio a nodi ymatebion ysgrifenedig yn cynnig dull effeithiol o gydweithio. Nodir technoleg, amser, meddwl gyda'n gilydd ac ymddiriedaeth fel pedair thema drawslinol 'Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu'; yn ystod cyfnod Covid-19, mae defnydd ysgolion o dechnoleg newydd wedi galluogi elfennau amser, meddwl gyda'n gilydd ac ymddiriedaeth i ddatblygu ymhellach.

Wrth symud ymlaen, mae'n hynod bwysig bod y cyfleoedd hyn i ddod at ein gilydd, o fewn ac ar draws ysgolion, yn parhau.

**Cyfarfodydd clwstwr**: Wrth i ni baratoi ar gyfer 'normal newydd', bydd cyfleoedd rheolaidd i drafod â'n cyfoedion yn agwedd bwysig wrth gynllunio sut olwg fydd ar hyn. Bydd gan bob ysgol a lleoliad gyd-destun ei hun, fodd bynnag bydd gan sawl agwedd themâu a dulliau cyffredin. Gallai'r rhain fod yn faterion trefniadol neu ddulliau addysgu a dysgu. Yn ei dro, y dysgwyr sy'n elwa o hyn a gall arwain at effaith gadarnhaol ar ddeilliannau a phrofiadau. Bydd cyfarfodydd clwstwr rheolaidd i drafod y materion hyn yn cryfhau'r gwaith sy'n digwydd yn yr ysgolion a'r lleoliadau unigol. Gall unigolion o'r consortia rhanbarthol a'r awdurdodau lleol fynychu'r cyfarfodydd hyn er mwyn rhannu gwybodaeth, cefnogi a gwrando.

**Cydweithio cymheiriaid**: Dylid rhoi pob cyfle i gymheiriaid gydweithio, o fewn ac ar draws ysgolion. Mae cyfleoedd i gynllunio, sefydlu dulliau addysgu a dysgu a darparu cyfleoedd am adborth i ddysgwyr oll yn agweddau y gellir eu cryfhau trwy drafodaethau rheolaidd rhwng staff addysgu. Mae trafodaethau rhwng cymheiriaid unigol ynghylch sefydlu cyfleoedd dysgu o bell a dysgu cyfunol effeithiol yn hanfodol ar gyfer cynnig cefnogaeth i'n gilydd, datblygu a rhannu arfer a sicrhau dull cyson o fewn ac ar draws ysgolion.

**Cyfleoedd Dysgu Proffesiynol:** Mae'r proffesiwn wedi cael dysgu proffesiynol cyflym iawn yn ystod y cyfnod cloi. Mae hyn wedi cynnwys rheoli argyfwng, Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu a methodoleg dysgu o bell. Bydd cyflymder dysgu proffesiynol yn parhau i gynyddu wrth i ni symud tuag at y ffordd normal newydd o weithio yn cynnwys anghenion ffrydio byw, dulliau dysgu cyfunol a strategaethau lles (gweler yr adran isod ar '*Ddysgu Proffesiynol*'). Bydd cyfleoedd rheolaidd i gydweithio'n rhoi cyfle ar gyfer dysgu proffesiynol ar bob lefel o fewn ac ar draws ysgolion. Gellir trefnu'r rhain trwy drafodaethau byw, rhannu arfer trwy ddeunydd wedi'i recordio neu drwy webinarau. Maent oll yn ddulliau effeithiol o gydweithio a dysgu gan ein gilydd.

## Dysgu proffesiynol

Yn ystod yr amser heriol hwn, mae'n bwysig bod yr holl staff yn cael eu cefnogi trwy ddysgu proffesiynol. Dylid darparu Dysgu Proffesiynol er mwyn cefnogi ysgolion i ddatblygu sgiliau wrth gynllunio a chyflwyno dysgu cyfunol ac arfer addysgol effeithiol, yn ogystal ag integreiddio elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru newydd.

Gallai'r dull dysgu cyfunol olygu y bydd ffocws dysgu proffesiynol yn newid. Megis blaenoriaethu datblygu sgiliau digidol wrth baratoi ar gyfer dysgu o bell. Isod mae arweiniad a allai gefnogi arweinwyr a staff i uchafu effaith dysgu proffesiynol.

| Dylai dysgu proffesiynol (fod) | Ni ddylai dysgu proffesiynol (fod) |
|---|---|
| Wedi ei deilwra ar gyfer anghenion yr ysgol gyfan ac anghenion yr unigolyn: er enghraifft, trwy gynnal archwiliad o sgiliau digidol staff a sgiliau addysgegol ar-lein er mwyn nodi meysydd i'w datblygu | Yn rhestr o gyrsiau gorfodol y mae'r staff yn ymgysylltu â nhw |
| Datblygu gwybodaeth addysgegol athrawon er mwyn cefnogi'r dull cyfunol a'u hannog, fel yr arbenigwyr, i wneud penderfyniadau ynglŷn â sut i gynllunio a chydbwyso addysgu uniongyrchol gyda gweithgareddau ar-lein er mwyn datblygu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth disgyblion yn effeithiol. | Atal staff rhag cael digon o amser i ganolbwyntio ar ddatblygu dysgu cyfunol o ansawdd uchel |
| Datblygu gwybodaeth athrawon o fetawybyddiaeth er mwyn eu cefnogi i gynllunio cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu sgiliau dysgu annibynnol; yn cynnwys hunan gymhelliant, hunan gwestiynu a'u gallu i ddatblygu a mynegi eu meddyliau. | |
| Sefydlu sut olwg sydd ar ddysgu cyfunol effeithiol a chefnogi staff i wybod sut mae addysgu a dysgu wyneb yn wyneb ac o bell yn gweithio gyda'i gilydd i gefnogi cynnydd a chyrhaeddiad disgyblion | |
| Annog amser cydweithio a chynllunio i staff weithio gyda'i gilydd i ddatblygu a gwerthuso dysgu cyfunol effeithiol ar gyfer disgyblion | |
| Datblygu a rhannu egwyddorion, er enghraifft ymgysylltiad diogel a chydamserol ar-lein gyda disgyblion | |
| Wedi ei seilio ar ymchwil, lle bo'n briodol | |

## Atodiad 1 – Ystyriaethau dysgu cyfunol

Nid yw'r tabl sy'n dilyn yn rhestr gynhwysfawr ond dylai ddechrau sgaffaldio meddwl a thrafodaethau lefel ysgol ynghylch pa fodd dysgu sydd fwyaf addas ar gyfer bob dull neu strategaeth yn unol ag oedran y dysgwr, y pwnc a chyd-destun unigryw pob ysgol.

| Ystafell ddosbarth | Ystafell ddosbarth wedi ymbellhau'n gymdeithasol | Dysgu digidol neu ddysgu o bell ar-lein | Dysgu o bell oddi ar-lein |
|---|---|---|---|
| Rhannu gwybodaeth ee. Bwrdd gwyn/ bwrdd gwyn digidol /teledu | Rhannu gwybodaeth ar y bwrdd gwyn gan sicrhau bod gofod addas rhwng y dysgwyr. *Mae angen ystyried yr angen i aildrodd gwersi gan mai grŵp bach o ddysgwyr sydd yn y dosbarth* | Rhannu gwybodaeth drwy wefan neu flog. Recordiad o athro'n rhannu gwybodaeth ar y bwrdd neu drwy gyflwyniad wedi ei drosleisio | Rhannu adnoddau wedi'u hargraffu â dysgwyr. *Mae angen ystyried a oes gan bob dysgwr fynediad at yr holl ddeunyddiau* |
| Trafodaethau drwy sgyrsiau ar y pryd – grŵp llawn neu grŵp bach | Trafodaethau drwy sgyrsiau ar y pryd gan sicrhau fod dysgwyr yn cadw at ymbellhau cymdeithasol | Trafodaeth ysgrifenedig gydamserol neu anghydamserol mewn gofod dosbarth neu grŵp. Rhannu fideo o gyfraniadau i'r drafodaeth (e.e., *flipgrid*) | Trafod gydag aelodau o'r teulu. *Mae angen ystyried os yw hyn yn opsiwn hyfyw i bob dysgwr a sicrhau ei fod yn gynhwysol i bob dysgwr.* |
| Cydweithio drwy waith grŵp bach wrth y byrddau | Cydweithio drwy waith grŵp *Mae angen ystyried sut i beidio â rhannu deunyddiau a sut y gall dysgwyr gadw at ymbellhau cymdeithasol.* | Cydweithio yn *google apps* neu *office 365* *Angen ystyried sut i grwpio dysgwyr ar gyfer gweithgareddau cydweithio a gosod disgwyliadau eglur ar gyfer lefelau cyfranogi.* | Cydweithio gydag aelodau'r teulu. *Mae angen ystyried os yw hyn yn opsiwn hyfyw i bob dysgwr a sicrhau ei fod yn gynhwysol i bob dysgwr.* |
| Creu gan ddefnyddio deunyddiau sydd ar gael yn y dosbarth (beiros/papur/glud ac ati) | Creu gan ddefnyddio deunyddiau sydd ar gael yn y dosbarth *Mae angen ystyried sut i beidio â rhannu deunyddiau a sut y gall dysgwyr gadw at ymbellhau cymdeithasol.* | Cymwysiadau ar-lein ac offer gwe i greu:<br>• cyflwyniadau<br>• fideos<br>• gwaith celf<br>• llyfrau stori<br>• ffeithluniau<br>• gwefannau | Creu gan ddefnyddio deunyddiau sydd ar gael yn y cartref a/neu o'r ysgol *Mae angen ystyried pa ddeunyddiau fydd ar gael i ddysgwyr a pha mor effeithiol y gallant ymgysylltu â hwy'n annibynnol.* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Addysgu uniongyrchol gan yr athro er mwyn egluro cysyniadau | Addysgu uniongyrchol gan yr athro er mwyn egluro cysyniadau | Esboniadau gan athrawon drwy fideo a sain neu o ffynonellau allanol. *Gallant eu cyrchu a gweithio drwyddynt ar gyflymder sy'n addas iddynt. Gall hefyd ganiatáu i athrawon rannu arbenigedd ar draws dosbarthiadau ac o bosib ar draws ysgolion.* | Cyfarwyddiadau ysgrifenedig. Y rhiant neu'r gofalwr yn egluro'r cysyniad. *Mae angen ystyried a yw'r dysgwr yn gallu cyrchu'r cyfarwyddiadau ysgrifenedig. Mae angen ystyried a yw rhieni ar gael ac yn barod i wneud hyn ynghyd â'r amser a'r arbenigedd angenrheidiol.* |
| Defnydd o destunau a rennir neu werslyfrau yn y dosbarth | Defnydd o destunau neu werslyfrau yn y dosbarth *Mae angen ystyried sut caiff y deunyddiau eu defnyddio'n ddiogel gan ddysgwyr yn unol â chanllawiau gweithredu* | Llyfr ar-lein neu adnodd amlgyfrwng wedi ei wneud gan yr athro neu o ystod o safleoedd | Defnydd o destunau neu werslyfrau gartref *Mae angen ystyried tegwch mynediad at lyfrau gwaith ar gyfer pob dysgwr* |
| Defnyddio llyfrau gwaith yn y dosbarth | Defnyddio llyfrau gwaith yn y dosbarth *Mae angen ystyried sut caiff y deunyddiau eu defnyddio'n ddiogel gan ddysgwyr yn unol â chanllawiau gweithredu* | Gofod ar-lein neu wefan ar gyfer adeiladu sgiliau | Defnyddio llyfrau gwaith gartref *Mae angen ystyried tegwch mynediad at lyfrau gwaith ar gyfer pob dysgwr* |
| Cyfarfod, rhannu a thrafod dysgu – adborth llafar | Cyfarfod, rhannu a thrafod dysgu – adborth llafar. Gall fod yn adborth ar waith a gwblhawyd yn y dosbarth neu gartref. *Mae angen cadw at ymbellhau cymdeithasol ond mae'n cynnig cyfle go iawn am ddeialog o ansawdd gyda grwpiau bach o ddysgwyr neu unigolion* | Adborth llafar drwy recordiadau llais/ fideo ar y gwaith a gyflwynwyd | Adborth llafar gan rieni/gofalwyr *Mae angen ystyried a yw rhieni ar gael ac yn barod i wneud hyn ynghyd â'r amser a'r arbenigedd angenrheidiol.* |
| Yr athro'n marcio fel adborth ysgrifenedig ar waith | Yr athro'n marcio fel adborth ysgrifenedig ar waith *Mae angen cadw at ymbellhau cymdeithasol* | Arolygon ar-lein i wirio dealltwriaeth. Profion ar-lein neu gwis rhyngweithiol i wirio dealltwriaeth. | Cyfle i fyfyrio ar unrhyw sylwadau a dderbyniwyd gan athro ac i ymateb iddynt. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Hunan asesu gwaith | Hunan asesu gwaith<br>*Mae angen ystyried a yw hyn yn gwneud y defnydd gorau o amser dosbarth cyfyngedig y dysgwyr.* | Hunan asesu ar-lein mewn gofod dysgu gan ddefnyddio sylwadau neu ddull sgorio. | Hunan asesu oddi ar-lein gan ddefnyddio meini prawf a osodwyd<br>*Angen ystyried sut caiff ei rannu â'r athro er mwyn cwblhau'r cylch adborth* |
| Asesu cymheiriaid | Asesu cymheiriaid *Mae'n fwy heriol cynnal canllawiau gweithredu ar rannu adnoddau ac ymbellhau cymdeithasol ond gellir ei gwblhau ar lafar* | Defnyddio gofod ar-lein ar gyfer asesu cymheiriaid ac adborth<br>*Angen ystyried sut caiff dysgwyr eu cefnogi i wneud sylwadau perthnasol ac mae angen ei fonitro hefyd.* | Mae'n fwy heriol dod o hyd i ddatrysiadau oddi ar-lein o ran sut y gellir gwneud hyn yn ystyrlon |
| Adeiladu perthnasoedd a synnwyr o gymuned | Adeiladu perthnasoedd a synnwyr o gymuned wrth gadw at fesurau ymbellhau cymdeithasol.<br>*Mae angen rhoi ystyriaeth i les dysgwyr gan fod cadw at ymbellhau cymdeithasol wedi bod yn her sylweddol i lawer o ddysgwyr ac mae hyn yn cynnig cyfle.* | Blogio a thrafodaethau ar-lein<br>Presenoldeb athro/ysgol gweladwy ar-lein<br>Cyfrifon cyfryngau dosbarth<br>Cystadleuthau tîm<br>Gwasanaethau ar fideo | Cyfleoedd i weithio'n annibynnol ar rywbeth sy'n cefnogi nod grŵp neu lle gallai'r profiad fod yn fuddiol<br>*Mae angen cyfathrebu clir â rhieni a gofalwyr ynglŷn â sut mae'r ysgol yn gweithio i gefnogi hyn.* |
| Ymgysylltu â dysgwyr a'u hysgogi | Cyfleoedd cyswllt rheolaidd mewn amgylchedd diogel a chefnogol gan ddarparu adborth a deialog am ddysgu | Cyfleoedd cyswllt rheolaidd mewn amgylchedd diogel a chefnogol gan ddarparu adborth a deialog am ddysgu | Ymgysylltiad dysgwyr â rhieni/gofalwyr<br>*Mae angen ystyried a yw rhieni ar gael ac yn barod i wneud hyn ynghyd â'r amser a'r arbenigedd angenrheidiol.* |

## Atodiad 2 – Manteision ac anfanteision dulliau dysgu o bell

Mae dulliau dysgu o bell yn dod â manteision ac anfanteision, yn cynnwys y canlynol:

| | | **Profiad dysgu o bell** | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Addysgu wyneb yn wyneb** | **Dysgu cydamserol** | **Dysgu anghydamserol** | **Gwaith/tasgau dysgu o bell** |
| **Manteision** | Rhyngweithio wyneb yn wyneb ag athrawon<br>Rhyngweithio wyneb yn wyneb â chymheiriaid<br>Mynediad at yr athro fel yr ‘arbenigwr’<br>Cyswllt cymdeithasol<br>Mae’n haws i athrawon arwain camau cyntaf y dysgu a chynnig cyfarwyddiadau mwy uniongyrchol<br>Mae’n haws i athrawon wirio dealltwriaeth<br>Mae’n haws i athrawon fesur cynnydd ac ymgysylltiad dysgwyr unigol<br>Mynediad at amrywiaeth o adnoddau e.e. gwerslyfrau a llyfrau darllen, offerynnau cerdd, labordai, offer arbenigol megis cymhorthion cyfathrebu<br>Athrawon yn gallu ymateb ‘yn y foment’ i ddysgu’r disgyblion a chynnig cefnogaeth | Gall gynnig cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio â chymheiriaid<br>Mynediad at yr athro fel yr ‘arbenigwr’<br>Athrawon yn gallu ymateb i gwestiynau disgyblion a rhoi cefnogaeth<br>Gallai mwy o ddisgyblion fod yn bresennol na gydag addysgu wyneb yn wyneb<br>Gallai mwy o staff fod ar gael i gynllunio a darparu hyn | Gellir ei gynnal ar gyflymder y disgybl<br>Gall disgyblion ailymweld â gwaith nad ydynt yn ei ddeall<br>Gall disgyblion ddatblygu sgiliau dysgu annibynnol<br>Gallai mwy o staff fod ar gael i gynllunio a darparu hyn | Gall disgyblion fod yn fwy hyblyg o ran sut a pryd maen nhw’n dysgu<br>Gall atgyfnerthu dysgu yn yr ysgol mewn modd gwerthfawr<br>Gall cefnogaeth gan rieni/gofalwyr fod yn ddefnyddiol a gwerthfawr<br>Cyfle i ddisgyblion ddatblygu sgiliau dysgu annibynnol pwysig a addysgwyd iddynt yn yr ysgol<br>Cyfle i ddisgyblion a staff ddatblygu sgiliau mewn ffordd newydd o weithio a dysgu, gan ddefnyddio llwyfannau digidol<br>Cyfle i ddatblygu model o gwricwlwm sy’n fwy creadigol a llai rhagnodol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Anfanteision | Dim ond lleiafrif o ddisgyblion fydd yn bresennol ar unrhyw adeg<br>Ni fydd amser disgyblion yn yr ysgol yr un fath â'r hyn maent wedi arfer ag ef<br>Dim ond amser cyfyngedig fydd gan y disgyblion yn yr ysgol<br>Efallai na fydd yr holl staff yn gallu mynychu'r ysgol.<br>Mewn ysgolion uwchradd gall cynllunio'r sylw a roddir i bynciau fod yn broblem<br>Yr her o lanhau adnoddau ac offer pan gânt eu defnyddio gan ddefnyddwyr lluosog<br>Fe fydd cyfyngiadau ar y graddau y gall disgyblion ryngweithio a chydweithio oherwydd y trefniadau ymbellhau angenrheidiol. | Bydd gormod o ddisgyblion yn cyfyngu ar y rhyngweithio<br>Gall disgyblion ei chael hi'n anoddach i gymryd rhan mewn trafodaethau<br>Gallai rheoli sesiynau ac ymddygiad fod yn fwy anodd | Nid yw athrawon yn gallu asesu'r dysgu a chynnig adborth ar unwaith<br>Caiff agweddau o addysgu wyneb yn wyneb o ansawdd da, megis cwestiynu, eu colli | Mae'n anodd i athrawon fesur cynnydd yr holl ddysgwyr a chynnig cefnogaeth amserol<br>Mae'n anodd mynd i'r afael â phroblemau o ran diffyg ymgysylltu â'r gwaith ac amharodrwydd i weithio<br>Problemau â mynediad at offer a chysylltedd digidol<br>Amrywiaeth eang yn natur ac ansawdd y gefnogaeth gan rieni/gofalwyr gyda gwaith ysgol<br>Llawer o athrawon â diffyg profiad o ran addysgu o bell<br>Mae gallu athrawon i ddefnyddio llwyfannau digidol a darparu dysgu ar-lein yn amrywio'n fawr<br>Llai o ryngweithio cymdeithasol, all fod yn bwysig i gefnogi dysgu<br>Diogelwch ar-lein<br>Disgyblion yn treulio gormod o amser o flaen sgrin |
| Ystyriaethau wrth ddylunio dysgu cyfunol | • Cynnal archwiliad o fynediad staff a disgyblion at galedwedd a meddalwedd a'u gallu i'w defnyddio.<br>• Cynnal archwiliad o sgiliau staff wrth ddatblygu a darparu dysgu cyfunol<br>• Cynnal archwiliad o sgiliau dysgu annibynnol disgyblion er mwyn eu cefnogi i gymryd rhan yn effeithiol mewn dysgu o bell<br>• Darparu cefnogaeth i staff wrth ddatblygu sgiliau dysgu annibynnol disgyblion<br>• Sicrhau bod staff yn cael eu cefnogi i wella eu gwybodaeth am dechnegau dysgu o bell a dysgu cyfunol ac wrth ddefnyddio llwyfannau dysgu digidol.<br>• Sicrhau bod gan yr holl ddisgyblion a staff fynediad at yr offer a'r adnoddau sydd eu hangen<br>• Gwneud defnydd o systemau ar-lein, megis Hwb, i rannu gwaith a chefnogi dulliau cyfunol<br>• Rhoi arweiniad a chefnogaeth glir i rieni/gofalwyr ar ystyr dull dysgu cyfunol a sut y gallant helpu gartref<br>• Sicrhau bod yr agweddau ymarferol, er enghraifft pynciau megis DT, cerdd a gwyddoniaeth, yn cael eu cynllunio yn y ddarpariaeth ysgol<br>• Ystyried sut y gall staff cefnogol a gweithwyr ieuenctid gefnogi ymgysylltiad disgyblion<br>• Casglu adborth gan ddisgyblion a rhieni a'i ddefnyddio i lywio cynllunio, addasu neu newid y ddarpariaeth<br>• Rhoi sylw dyledus i ganllawiau'r llywodraeth ar ffrydio byw | | | |

## Atodiad 3 – Darllen pellach a myfyrio

- Adroddiad dysgu o bell LIC: https://hwb.gov.wales/distance-learning/

- EEF Dysgu o Bell Asesiad Tystiolaeth Cyflym: https://educationendowmentfoundation.org.uk/evidence-summaries/evidence-reviews/distance-learning-rapid-evidence-assessment/

- Blog ar ddysgu o bell: https://blogbjmock.wordpress.com/2020/06/11/see-it-from-their-perspective/

- Erthygl ar ddysgu o bell: https://corwin-connect.com/2020/04/visible-learning-effect-sizes-when-schools-are-closed-what-matters-and-what-does-not/

- EEF Y bwlch cyrhaeddiad: https://educationendowmentfoundation.org.uk/public/files/EEF_(2020)_-_Impact_of_School_Closures_on_the_Attainment_Gap.pdf

- Dysgu o bell: https://educationendowmentfoundation.org.uk/public/files/Publications/Covid-19_Resources/Remote_learning_evidence_review/Remote_Learning_Rapid_Evidence_Assessment.pdf

- OECD: https://read.oecd-ilibrary.org/view/?ref=133_133390-1rtuknc0hi&title=Schooling-disrupted-schooling-rethought-How-the-Covid-19-pandemic-is-changing-education

- UNESCO: https://unesdoc.unesco.org/in/rest/annotationSVC/DownloadWatermarkedAttachment/attach_import_03f2b76b-8263-4c20-8e5f-89a3f14027da?_=373322eng.pdf&to=17&from=1#pdfjs.action=download

- UNICEF: https://www.unicef.org/documents/framework-reopening-schools

- Gwefan dysgu cyfunol: https://www.blendedlearning.org/

- Mathau o ddysgu cyfunol: https://elearningindustry.com/6-blended-learning-models-blended-learning-successful-students

- Gwahanol fodelau o ddysgu cyfunol: https://www.teachthought.com/learning/12-types-of-blended-learning/

- Dysgu cyfunol yn gyffredinol*:*
  https://www.bbc.co.uk/news/uk-scotland-52412171

- Erthygl gan y BBC ar ddysgu cyfunol yn yr Alban:
  https://www.forbes.com/sites/enriquedans/2020/04/13/the-coronavirus-pandemic-has-unleashed-a-revolution-in-education-from-now-on-blended-learning-will-be-the-benchmark/#56594e62536f

- Y rhesymeg y tu ôl i ddysgu cyfunol:
  https://www.education.vic.gov.au/documents/about/research/blendedlearning.pdf

- Diffiniadau eglur o Ddysgu Cyfunol ac astudiaethau achos diddorol o Seland Newydd yn cynnwys cydweithio a rhannu:
  https://link.springer.com/article/10.1007/s11528-019-00375-5

- Dysgu gwrthdro (gallai fod yn ddull defnyddiol ar gyfer dysgu cyfunol):
  https://www.tes.com/news/pedagogy-focus-flipped-learning
  http://rtalbert.org/re-thinking-blooms-taxonomy-for-flipped-learning-design/
  https://www.onlineuniversities.com/blog/2012/06/flipping-expanding-blooms-taxonomy/
  https://www.theguardian.com/teacher-network/teacher-blog/2014/mar/30/flipped-learning-benefits-challenges-best-practice-live-chat
  https://www.tandfonline.com/doi/abs/10.1080/00313831.2016.1258662

- Cwrs Y Brifysgol Agored: *Take your teaching online*:
  https://www.open.edu/openlearn/education-development/education/take-your-teaching-online/content-section-overview?active-tab=content-tab

- *The Learning Partnership 'Back to School'*:
  https://bb-live-bucket.s3.eu-west-2.amazonaws.com/resourceFiles/9121592210926.pdf

- *ResearchEd Home*, fideos:
  https://www.youtube.com/channel/UC3uPEgDH3pAhQe06533Zebw/videos

- Trosolwg datblygiad plant:
  https://www.firstdiscoverers.co.uk/the-science-of-childcare-5-senses-to-stimulate/
- *Great Teaching toolkit*:
  https://www.greatteaching.com

- *Teachers vs tech*:
  https://www.amazon.co.uk/Teachers-Tech-case-tech-revolution/dp/1382004125

- Llyfr: Blended Learning in Action: A Practical Guide Toward Sustainable Change, Caitlin Rice Tucker
- Llyfr: Rosenshein's Principles in Action, Tom Sherrington
- Llyfr: Understanding how we learn, Yana Weinstein

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**15 GORFFENNAF 2020**

**Report by:** **Arwyn Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr GwE a Claire Homard, Cadeirydd Bwrdd Rheoli GwE**

**Subject:** **Model Ail-gychwyn Dysgu ar gyfer Gogledd Cymru**

**1.0 Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Cyflwyno papur trafod i aelodau'r Cydbwyllgor mewn perthynas â Model Ail-gychwyn Dysgu ar gyfer Gogledd Cymru.

**2.0 Cefndir**

2.1 Ar y 3ydd o Fehefin, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (LlC) y bydd ysgolion yn cael eu hagor yn raddol o 29 Mehefin 2020 i roi cyfle i bob disgybl "ailgydio, dal i fyny a pharatoi."

2.2 Mae'r canllawiau a ddarparwyd gan LlC yn rhoi hyblygrwydd sylweddol i ysgolion weithredu eu barn broffesiynol o ran sut y byddant yn cynllunio eu cynnig ar gyfer eu disgyblion. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau a disgwyliadau manylach ar gyfer dysgu yn nhymor yr hydref maes o law.

**3.0 Materion i'w hystyried**

3.1 Ynghlwm, mae papur trafod mewn perthynas â Model Ail-gychwyn Dysgu ar gyfer Gogledd Cymru. Mae'r ddogfen wedi ei chyd-awduro gan Brifysgolion Warwick a Bangor, a Rhanbarth Gogledd Cymru.

3.2 Bydd pob dysgwr yn 'ailgychwyn' ar eu dysgu yn ystod tymor academaidd yr hydref 2020 yn dilyn y cynnig i ailgydio a dal i fyny yn ystod tair / pedair wythnos olaf blwyddyn academaidd 2019-2020. Mae angen i ysgolion asesu ffitrwydd dysgu eu disgyblion cyn cyflwyno unrhyw waith newydd i'w ddysgu.

3.3 Fel mae'r papur yn amlinellu, byddai parodrwydd neu ddull yr ysgol i sicrhau dysgu i'r holl ddisgyblion yn canolbwyntio i ddechrau ar dair cydran rhyng-gysylltiedig a fydd yn asesu ffitrwydd disgyblion i ddysgu:

- Llesiant emosiynol a meddyliol;
- Iechyd a ffitrwydd corfforol; a
- Sgiliau rhifedd a llythrennedd craidd, dysgu sut i ddysgu, sgiliau annibyniaeth.

3.4 Mae angen i ysgolion sicrhau eu bod yn gallu cynnig darpariaeth i'w dysgwyr ym mhob maes er mwyn sicrhau tegwch a chydraddoldeb. Byddai'r cyfrifoldeb dros gefnogi ysgolion i gyflawni pob elfen yn cael ei gytuno rhwng yr Awdurdodau Lleol, GwE ac asiantaethau eraill i gyd-gynllunio darpariaeth briodol i allu ymateb i anghenion dysgwyr wrth iddynt gael eu hadnabod, gan ddeall fod hyn yn ddull gweithredu dros y tymor byr a'r tymor hwy.

**4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor gefnogi'r dull a'r model rhanbarthol, gyda GwE, Awdurdodau Lleol ac ysgolion yn gweithio mewn partneriaeth i sicrhau bod anghenion unigol dysgwyr yn cael eu diwallu mewn cyd-destun lleol unigol.

**5.0 Goblygiadau ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

**6.0 Effaith o ran cydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran personél yn codi o'r adroddiad hwn.

**8.0 Ymgynghori â wnaed**

8.1 Ymgynghorwyd â Bwrdd Rheoli GwE.

**9.0 Atodiadau**

9.1 Model Ail-gychwyn Dysgu ar gyfer Gogledd Cymru

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**
Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**
Dim i'w ychwanegu at yr adroddiad o safbwynt priodoldeb ariannol.

# Model Ail-gychwyn Dysgu ar gyfer Gogledd Cymru

## Cyflwyniad

Ar y 3ydd o Fehefin, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (LlC) y bydd ysgolion yn cael eu hagor yn raddol o 29 Mehefin 2020 i roi cyfle i bob disgybl "ailgydio, dal i fyny a pharatoi." Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Canllawiau ar Ddysgu [ https://llyw.cymru/diogelu-addysg-canllawiau-ar-ddysgu-dros-dymor-yr-haf ] er mwyn rhoi cyngor i ysgolion a lleoliadau am weddill tymor yr haf hwn ac i gefnogi ymarferwyr wrth iddynt baratoi ar gyfer tymor yr hydref.

Mae'r canllawiau a ddarparwyd gan LlC yn rhoi hyblygrwydd sylweddol i ysgolion weithredu eu barn broffesiynol o ran sut y byddant yn cynllunio eu cynnig ar gyfer eu disgyblion. Nawr mae gan ysgolion fframwaith amlinellol ar gyfer cynllunio addysgu a dysgu am weddill tymor yr haf a thymor yr hydref 2020. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau a disgwyliadau manylach ar gyfer dysgu yn nhymor yr hydref maes o law.

Mae'r canllawiau yn cefnogi ysgolion wrth iddynt ail-werthuso dysgu ar gyfer y dyfodol rhagweladwy mewn ymateb i ystod o heriau:

- Cefnogi dysgwyr i ddychwelyd at 'ffitrwydd dysgu'.
- Datblygu dysgu sy'n caniatáu i ddysgwyr barhau i wneud cynnydd.
- Sicrhau bod dysgu yn yr ysgol a dysgu o bell wedi eu cydlynu ar gyfer dysgwyr.
- Datblygu dysgu priodol tra bod gofynion cwricwlwm presennol wedi eu datgymhwyso*.
- Defnyddio ethos, egwyddorion ac arweiniad y Cwricwlwm i Gymru newydd fel modd o gefnogi'r heriau presennol, yn hytrach na'i fod yn faich ychwanegol.
- Annog ymarferwyr i ddefnyddio a datblygu eu barn broffesiynol i roi'r budd gorau i ddysgwyr.

## Cyd-destun

- Bydd pob dysgwr felly'n 'ailgychwyn' ar eu dysgu yn ystod tymor academaidd yr hydref 2020 yn dilyn y cynnig i ailgydio a dal i fyny yn ystod tair / pedair wythnos olaf blwyddyn academaidd 2019-2020;
- Nid yw pob dysgwr wedi dewis mynychu'r ysgol yn ystod y tair neu bedair wythnos ailgydio;
- Roedd 54% o blant 12-18 oed yn poeni am golli tir yn eu dysgu;
- Mae Llywodraeth Cymru wedi rhannu pŵer bwynt ar gyfer trafodaethau cynnar gydag CCAC; ac
- Ar Fehefin 29ain, cyhoeddodd Estyn a'r 4 Consortia Rhanbarthol ganllaw ar y cyd ar 'Ddatblygu dulliau integredig i gefnogi dysgu cyfunol'.


## Materion i fynd i'r afael â nhw

Mae angen i ysgolion asesu ffitrwydd dysgu eu disgyblion cyn cyflwyno unrhyw waith newydd i'w ddysgu.

Byddai parodrwydd neu ddull yr ysgol i sicrhau dysgu i'r holl ddisgyblion yn canolbwyntio i ddechrau ar dair cydran rhyng-gysylltiedig a fydd yn asesu ffitrwydd disgyblion i ddysgu:

- Llesiant emosiynol a meddyliol;
- Iechyd a ffitrwydd corfforol; a
- Sgiliau rhifedd a llythrennedd craidd, dysgu sut i ddysgu, sgiliau annibyniaeth.

Gellid rhannu'r tair cydran yn dri chategori angen yn y triongl isod :




Byddai'r model yn cynnwys y meysydd dysgu canlynol. Mae angen i ysgolion sicrhau eu bod yn gallu cynnig darpariaeth i'w dysgwyr ym mhob maes er mwyn sicrhau tegwch a chydraddoldeb. Byddai'r cyfrifoldeb dros gefnogi ysgolion i gyflawni pob elfen yn cael ei gytuno rhwng yr Awdurdodau Lleol, GwE ac asiantaethau eraill fel Iechyd. Mae'r triongl anghenion yn codi cwestiynau clir i arweinwyr ysgolion: Beth yw ein darpariaeth gyffredinol ar gyfer lles emosiynol, corfforol, llythrennedd , *ac ati* , ; yna ar gyfer y plant / staff hynny sydd angen mwy, beth yw ein darpariaeth wedi'i thargedu? (Atodiad 1) .

**Tabl 1: Meysydd dysgu a chategorïau angen**

| | **Ffitrwydd corfforol** | **Ffitrwydd lles** | **Ffitrwydd sgiliau craidd** |
|---|---|---|---|
| **Cyffredinol** | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Wedi'i dargedu** | | | |
| **Acíwt / arbenigol** | | | |

Gellir adnabod anghenion pob dysgwr yn ogystal â'r cymorth personol sydd ei angen gan ddefnyddio'r tabl uchod . Dyma fyddai'r sylfaen i ysgolion gynllunio'r ddarpariaeth i gefnogi 'ffitrwydd dysgu ' yn y tymor byr (Medi), canolig (yr hydref i Orffennaf) ac yn yr hir dymor i rai dysgwyr. Fodd bynnag, un o beryglon y system gategoreiddio hon yw bod plant wedyn yn dechrau cael eu labelu'n 'blentyn wedi'i dargedu' 'mae angen arbenigwr', 'mae'n blentyn yn y categori acíwt' ac ati. Mae felly angen bod yn glir nad system labelu yw'r triongl ac y bydd proffil unigol plentyn yn unigryw iddyn nhw ac yn seiliedig ar eu hanghenion cymorth yn y maes hwnnw – e.e efallai y bydd angen cefnogaeth arbenigol ar gyfer rhifedd, ond y bydd angen cefnogaeth gyffredinol ar gyfer ffitrwydd. Mae'r tabl yn delio gyda chategoreiddio'r anghenion cymorth nid y plentyn. Mae hefyd yn rhwystro ysgolion rhag gallu dweud "mae gan y plentyn hwn anghenion sy'n rhy gymhleth i ni" gan fod y syniad yn ymwneud yn fwy â sut mae ysgolion yn sicrhau y gallant ddarparu amgylchedd dysgu addas i BOB disgybl. Yng Ngogledd Cymru gallai gwasanaeth cydweithredol o Awdurdodau Lleol, Consortia ac asiantaethau ehangach, gyda'i gilydd, gynllunio darpariaeth briodol i ddiwallu anghenion pob dysgwr. Bydd angen i ysgolion ddatblygu gweithdrefnau clir a defnyddio rhywfaint o hyblygrwydd gydag adnoddau i allu ymateb i anghenion dysgwyr wrth iddynt gael eu hadnabod, gan ddeall fod hyn yn ddull gweithredu dros y tymor byr a'r tymor hwy.

## Rheoli disgwyliadau

Bydd angen rheoli disgwyliadau am yr hyn y gellir ei gyflawni yn y tymor byr a dylai ysgolion a lleoliadau ystyried y canlynol :


- Mae'r amser a gollwyd wedi ei golli ac ni ellir gwneud iawn am hyn heb golli egni ac amser mewn meysydd dysgu eraill. Mae'n debygol na fydd gan ysgolion yr adnoddau i gyflwyno amryw o raglenni dal i fyny pan fyddant yn ailagor. Mae'n rhesymol tybio fod maint effaith -0.1 ar gyfer gwyliau haf nodweddiadol yn debygol o fod yn fwy o lawer wedi'r cyfnod hwn ac y bydd y golled yr un faint a 3 gwyliau haf sef -0.3, sy'n agosáu at werth blwyddyn o addysgu nodweddiadol;
- Dengys ymchwil fod rhaglenni penodol wedi profi'n fwy llwyddiannus nag eraill i wella sgiliau craidd; a
- Gellir defnyddio data presenoldeb cyfredol fel man cychwyn i ddadansoddi maint y broblem.

#### Materion pellach i'w hystyried

- Mae angen i bob dysgwr ailgychwyn;
- Dylid cymryd amser i werthuso faint o ymgysylltiad â dysgu a wnaeth pob disgybl yn nhymor yr Haf 2020 a hefyd ystyried eu lles emosiynol cyffredinol a'u hagwedd tuag at fod yn ôl yn yr ysgol;
- Sut ydyn ni'n blaenoriaethu adnoddau a chefnogaeth;

- Mae nodi grwpiau blaenoriaeth hefyd yn creu grwpiau nad ydynt yn flaenoriaeth;
- Ymestyn y diwrnod ysgol ar gyfer cefnogaeth acíwt wedi'i thargedu ond ni fydd y gefnogaeth hon o reidrwydd yn cael ei harwain gan staff yr ysgol;
- Mae angen i'r Arweinwyr ddangos cydymdeimlad, gwrando a bod yn glir am lle y bydd cymorth yn fwyaf effeithiol wrth ddatblygu modelau dysgu cymysg;
- Diffinio rôl rhieni mewn dysgu cyfunol a'r gefnogaeth y bydd ei hangen arnynt; Sut y cyflawnir hyn?
- Buddsoddi mewn datblygu cysylltiadau cymunedol i helpu ysgolion i ddiwallu anghenion dysgwyr yn hytrach na chyflogi staff ychwanegol; (gwirfoddol, prifysgol, hamdden, gofal plant gyda ffocws)
- Gweithio gyda'r brifysgol i sicrhau fod gwaelodlin glir yn cael ei sefydlu a bod cynnydd yn cael ei gofnodi'n gywir i lywio cynllunio yn y dyfodol.
- A yw presenoldeb bellach yn orfodol neu a yw'n ddewisol o hyd?

**Adnabod anghenion datblygiad proffesiynol staff neu gapasiti ysgol i ddiwallu anghenion dysgwr**




Gallai ysgol ddefnyddio'r triongl uchod fel proses ddysgu ar gyfer eu hadfyfyrio / dysgu proffesiynol eu hunain ac fel arweiniad i ddangos sut y byddant yn symud ymlaen. Pan fydd ganddynt weledigaeth glir o'r hyn y dylai dysgu cyfunol fod, gallant benderfynu beth yw anghenion dysgu proffesiynol eu staff yn eu cyfanrwydd:

- pa gefnogaeth sydd ei hangen ar yr holl staff
- staff a allai fod angen cefnogaeth wedi'i thargedu i ddatblygu, a

- nifer fechan a fydd angen cymorth arbenigol er mwyn gallu cyflwyno dysgu effeithiol.

Gallai hyn gynnwys:

- datblygu dull cydweithredol o fewn eu clystyrau i rannu arbenigedd;
- cyflogi athrawon / staff ychwanegol dros dro e.e. mae Llywodraeth Seland Newydd yn buddsoddi mewn arweinwyr cwricwlwm Iechyd a Lles yn eu hysgolion ar gyfer y cyfnod nesaf;
- cysylltu gyda gwaith tymor hwy y Cwricwlwm i Gymru a'r gwaith ar Iechyd a Lles yn y Meysydd Dysgu a Phrofiad o fewn y Cwricwlwm hwnnw, wrth i ysgolion ystyried datblygu ymagwedd ysgol gyfan a chaniatáu i athrawon a dysgwyr adfer perthnasoedd cadarnhaol .

**Atodiad 1**

| | Paratoi i ddysgu | | |
|---|---|---|---|
| | **Ffitrwydd corfforol** | **Ffitrwydd emosiynol / lles** | **Sgiliau craidd llythrennedd a rhifedd** |
| **CYFFREDINOL** | • Canllawiau cyffredinol 'Byddwch yn Egnïol / Be Active' ar gyfer egwyddorion lefel uchel a chysylltiadau ag adnoddau ymarferol i athrawon | • Modelau Dysgu Cyfunol ac enghreifftiau ar gyfer lles pob Cyfnod Allweddol fel rhan o ddull integredig.<br>Y ddogfennaeth ar y dangosfwrdd yn cynnwys:<br>• Agweddau i'w hystyried - Cefnogaeth a Lles Disgyblion<br>• Ystyriaethau ymarferol ar gyfer Lles<br>• Holiadur lles i ddysgwyr - dychwelyd i'r ysgol<br>• Gweithgareddau adfyfyriol i gefnogi eich ymarfer ystafell ddosbarth - Croesawu myfyrwyr Blwyddyn 7<br>• Adnodd Stori Gymdeithasol 'Yn Ôl i'r Ysgol' | • Canllawiau Addysgu a Dysgu Cynradd ac Uwchradd<br>• Modelau Dysgu Cyfunol ac enghreifftiau ar gyfer pob Cyfnod Allweddol gyda ffocws ar Sgiliau Allweddol fel rhan o ddull integredig.<br>• Modelau ac enghreifftiau Dysgu Carlam sy'n canolbwyntio ar hybu sgiliau llythrennedd a rhifedd. |
| **WEDI EI DARGEDU** | • | Dogfennaeth ar y dangosfwrdd:<br>• Lleihau'r Rhagamodau Trawma<br>• Canolfan Iechyd Meddwl Anna Freud - Cynorthwyo plant i reoli pryder<br>• | • Deunyddiau rhugldér darllen a rhifedd<br>• Cyfarwyddyd o Bell y prosiect Iaith a Llythrennedd<br>• Adnoddau SIY ar gyfer dysgu gartref<br>• Rhaglen ymyrraeth llythrennedd CA3<br>• Deunyddiau rhugldér rhifedd CA3 |
| **MWY ACIWT** | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Rôl y rhiant / gofalwr i gefnogi ymhellach** | • Trosolwg byrrach o weithgareddau syml y gellir eu cynnal gartref<br>• Y posibilrwydd o ddatblygu cyfres o ganllawiau gan ddefnyddio cardiau hyfforddi / sgiliau (Sports Wales) - i'w rhannu trwy'r cyfryngau cymdeithasol? Trwy gyfres o weminarau? Taflenni? Fideos byr? | • Awgrymiadau ar gyfer Rhieni - Paratoi'ch plentyn ar gyfer yr ysgol<br>• Adnoddau CAMHS i Gefnogi Rhieni<br>• Adnoddau CAMHS Rhanbarthol - Sut mae esbonio Coronavirus i'm plentyn<br>• Gweithio gydag asiantaethau i lunio awgrymiadau - wedi'u hysgrifennu gan rieni ar gyfer rhieni?<br>• Cyfres o glipiau fideo byr yn dangos sut i gefnogi i'w rhannu ar gyfryngau cymdeithasol ?<br>• Mynediad i fwletinau / cylchlythyrau gyda dolenni i adnoddau?<br>• Defnyddio cymuned ehangach i gefnogi lle bo hynny'n bosibl a lle mae'n anoddach cyrraedd y gynulleidfa | • Deunyddiau darllen a rhifedd a deunyddiau rhuglder i rieni<br>• Gweithio gyda rhieni i gefnogi dysgu disgyblion sy'n defnyddio dogfen SIY<br>• Llythyr trosfwaol gan y 6 ALl / GwE at rieni yn egluro beth yw dysgu cyfunol?<br>• Cyfres o sesiynau hyfforddi byr gydag awgrymiadau ymarferol ynghylch sut i gefnogi?<br>• Creu blychau cymorth y gellir eu benthyg ar gyfer y cartref (gemau / dis i helpu) |